



This is a digital copy of a book that was preserved for generations on library shelves before it was carefully scanned by Google as part of a project to make the world's books discoverable online.

It has survived long enough for the copyright to expire and the book to enter the public domain. A public domain book is one that was never subject to copyright or whose legal copyright term has expired. Whether a book is in the public domain may vary country to country. Public domain books are our gateways to the past, representing a wealth of history, culture and knowledge that's often difficult to discover.

Marks, notations and other marginalia present in the original volume will appear in this file - a reminder of this book's long journey from the publisher to a library and finally to you.

Usage guidelines

Google is proud to partner with libraries to digitize public domain materials and make them widely accessible. Public domain books belong to the public and we are merely their custodians. Nevertheless, this work is expensive, so in order to keep providing this resource, we have taken steps to prevent abuse by commercial parties, including placing technical restrictions on automated querying.

We also ask that you:

- + *Make non-commercial use of the files* We designed Google Book Search for use by individuals, and we request that you use these files for personal, non-commercial purposes.
- + *Refrain from automated querying* Do not send automated queries of any sort to Google's system: If you are conducting research on machine translation, optical character recognition or other areas where access to a large amount of text is helpful, please contact us. We encourage the use of public domain materials for these purposes and may be able to help.
- + *Maintain attribution* The Google "watermark" you see on each file is essential for informing people about this project and helping them find additional materials through Google Book Search. Please do not remove it.
- + *Keep it legal* Whatever your use, remember that you are responsible for ensuring that what you are doing is legal. Do not assume that just because we believe a book is in the public domain for users in the United States, that the work is also in the public domain for users in other countries. Whether a book is still in copyright varies from country to country, and we can't offer guidance on whether any specific use of any specific book is allowed. Please do not assume that a book's appearance in Google Book Search means it can be used in any manner anywhere in the world. Copyright infringement liability can be quite severe.

About Google Book Search

Google's mission is to organize the world's information and to make it universally accessible and useful. Google Book Search helps readers discover the world's books while helping authors and publishers reach new audiences. You can search through the full text of this book on the web at <http://books.google.com/>


GAIR Y CYMMOD
PREGETHAU


—
B. DAVIES.

Bt. from J. E. Young

5

10095 e. 44







GAIR Y CYMMOD:

SEF,

CYFROL O BREGETHAU

GAN Y

PARCH. B. DAVIES,

TREORKY.

"A'r hyn yr wyt yn ei weled, ysgrifena mewn llyfr."---Dat. i. 11.

YSTRAD-RHONDDA:

THOMAS J. DAVIES, ARGRAFFYDD, LLYFR-RWYMYDD, &C.

1882.



AT Y DARLLENYDD.



DARPERAIS y Gyfrol fechan hon i'r wasg gyda llawer o bryder. Gobeithiaf nad oes ynddi ddim i niweidio neb, fel y gellir ei derbyn i dŷ heb ofni.

Amcanais iddi fod yn adeiladaeth a dyddanwch i bobl Dduw, ac yn foddion adferiad i'r rhai a'i darllo, ag ydynt heb dderbyn Crist.

Cyflwynir hi yn ostyngedig i sylw a hynawsedd y cyhoedd. Diamheu y gwelir ynddi wallau, ond hyderaf nad oes ynddi ddim sydd yn groes i'r Gwirionedd, nac i roddi y Gwirionedd a fwriadwyd ei egluro, o dan un anfantais.

Yr eiddoch,

Yn rhwymau yr Efengyl,

B. DAVIES.

Treorky, Tachwedd, 1882.

CYNNWYSIAD.

PREGETH.	TUDAL.
I. CRIST YN DDOETHINEB A GALLU DUW (1 Cor. i. 22-24)...	5.
II. BYWYD CRIST A BYWYD Y DISGYBLION (Ioan xiv. 19)....	20.
III. CRISTIONOGAETH AR EI PHRAWF CYNTAF (Act. vii. 59-60)	33.
IV. CARIAD DUW YN NHREFN GRAS (1 Ioan iv. 9-10).....	45.
V. DIRMYGU DUW (Salm x. 13).....	55.
VI. GWEITHREDIADAU GORSEDD DUW (Salm lxxxix. 14.)....	69.
VII. FFORDD NEWYDD A BYWIOL (Heb. x. 19-20).....	79.
VIII. YR EGLWYS MEWN CAETHIWED (Salm cxxxvii. 1-6)....	98.
IX. TYSTIOLAETH DUW AM DANO EI HUN (Esaiah xxvii. 4)..	105.
X. GWEINIDOGAETH Y CYMMOD (2 Cor. v. 18-19).....	116.
XI. AMSER I DEWI, AC AMSER I DDYWEDYD (Preg. iii. 7)....	127.
XII. NI PHALLA EFE (ESAIAH xlii. 4).....	138.
XIII. HIRAETH Y CRISTION (Phil. i. 23).....	151.
XIV. Y SARFF BRES A DYRCHAFU MAB Y DYN (Ioan iii. 14-13)	159.
XV. ATEBIAD CRIST I'R GOFYNIAD MAWR (Ioan xiv. 9)..	173.
XVI. Y CYDGYFARFYDDIAD (Salm lxxxv. 10-11)	188.
XVII. Y TEITL AB Y GROES (Ioan xix. 19-20).....	203.
XVIII. ENILL A CHOLLI—APELIAD CRIST (Mat. xvi. 26).....	217.
XIX. Y GWIR DDUW (Jeremiah x. 10).....	233.
XX. MADDEUANT YN SAIL GWIB DDEDWYDDWCH (Rhuf. iv. 8)	245.
XXI. CYFLAWNDER YR AMSER (Gal. iv. 3, 4, 5).....	261.
XXII. RHYFFEDDU Y PETHAU MWYAF (Ioan v. 28-29)	268.
XXIII. Y WEDDI GYFRYNGOL (Ioan xvii. 20-21.).....	275.
XXIV. BARN A THRUGAREDD (Heb. xi. 7).....	292.
XXV. DYLANWAD MABWOLAETH CRIST (Ioan xii. 32).....	299.

GAIR Y CYMMOD.

PREGETH I.

CRIST YN DDOETHINEB A GALLU DUW.

“OBLEGYD y mae yr Iuddewon yn gofyn arwydd, a'r Groegwyr yn ceisio doethineb; eithr nyni ydym yn pregethu Crist wedi ei groeshoelio, i'r Iuddewon yn dramgwydd, ac i'r Groegwyr yn ffolineb; ond iddynt hwy y rhai a alwyd, Iuddewon a Groegwyr, yn Grist gallu Duw, a doethineb Duw.”—1 Cor. i. 22-24.

NODWEDD wahaniaethol llythyrau Paul ar eiddo yr Apostolion eraill yw y wedd gyffredinol a rydd i'r efengyl i gyfarfod â llygredigaeth y byd. Tra y cyfarchai eraill y llwythau oedd ar wasgar, y genedl etholedig, cyfaddasai Paul wirioneddau i gyfarfod â'r *pechadur*, heb gymeryd i ystyriaeth ei amgylchiadau na'i genedl; ac yr oedd efe mewn gwirionedd yn Apostol i'r cenhedloedd. Dichon bod ei ddygiad ef i fyny yn cyfrif am hyn i raddau. Methai ei gyd-apostolion ag ymryddhau oddiwrth ddylanwad syniadau Iuddewig, y rhai oeddent yn genhedlaethol o ran nodwedd, yn hunanol a chyfyng o ran eu natur, ac felly yn wahanol hollol i'r Efengyl a bregethent. Iddynt hwy, yr unig wir genedl o dan haul oedd Israel, yr unig wlad deilwng oedd Canaan, yr unig ddinas oedd Jerusalem, a ffurf o grefydd oedd i aros yn y byd oedd Iuddewaeth. Yn gyferbyniol i'r cyfryw yr oedd pawb dynion yn gŵn, pob gwlad i fod yn fangre tywyllwch, pob dinas yn baganaidd, a phob ffurf ar grefydd a allai gynyg ei hun yn ofergoeliaeth. Nodweddir meddyliau yr Apostolion gan y syniadau hyn. Dygwyd Paul i fyny o dan ddylanwad gwahanol iddynt hwy. Yr oedd o *sect* fanylaf y

Phariseaid, meddai ar wybodaeth äang, ar feddwl galluog, ac ar deithi meddyliol nodedig, y rhai a santeiddiwyd gan räs Duw, nes y gwnaeth ef y mwyaf o'r Apostolion. Pan y mae ef yn cynyg iachawdwriaeth, mae ei gydymdeimlad yn rhedeg allan at *bawb*—caeth a rhydd, barbariad a Scythiad, Iuddew a Groegwr,—pob dyn, yn mhob man. Onid oes swm äangder syniadau, dyfnder cydymdeimlad, ac awyddfryd duwiol yn ei eiriau? Mae curiadau calon dyner Crist yn ei galon ef, graslonrwydd ei wefusau yn ei eiriau ef. Dyn oedd nôd ei genadwri; ac un o'r syniadau sydd yn rhedeg drwy ei lythyrâu yw cyfaddasrwydd trefn gras i'r natur ddynol. Yr oedd cymaint o swyn i'w feddwl ef yn Athen ag oedd yn Jerusalem. Mae syniadau Paul am yr Efengyl mor äang fel y mae yn teimlo ei galon yn tori allan dros derfynau iaith i ddiolch am iachawdwriaeth gymaint, nas mesurir gan reswm, nas plymir gan drueni, ac nas dilhysbyddir gan angen.

Naturiol oedd i Paul dafu golwg dros nodwedd y rhai y deuai yr Efengyl hon i gyffyrddiad â hwy, ac yn neillduol y derbynriad a roddid i'r Efengyl. Un o'r anhawsdereau mwyaf ar ffordd yr Efengyl i gyrhaedd ei hamcan yw y syniadau sydd yn y meddwl yn barod, a rhaid clirio y rhai hyny allan—ysgubo y tŷ. Nid yw y garddwr yn hau ei hadau yn nghanol y chwyn, na'r adeiladydd yn rhoddi sylfaen ei adeilad ar wyneb y ddaear: glanheir yr ardd, chwilir am sylfaen. Felly y gwna yr Efengyl; rhaid clirio y meddwl er gosod i lawr egwyddorion pur y Gwirionedd. Yr hyn sydd yn gosod derbyn yr Efengyl yn galed yw nad yw yn caniatâu i ddim croes iddi fyw o fewn cylch ei dylanwad. Mae dynion yn neshau at y Gwirionedd o dan ddylanwad amodau neillduol—yn gofyn gan y Gwirionedd yr hyn sydd islaw amcan rhoddiad y Gwirionedd, ac felly yr hyn nas gall y Gwirionedd ei roddi. Noda yr Apostol yma ddau ddosbarth a gynrychiolent y byd y pryd hwnw, a chynrychiolant y byd yn bresenol—Iuddewon a Groegwyr. Safai y gair "Iuddewon" am y rhai oedd wedi cael datgudd-

iadau lawer, a "Groegwyr" am y rhai oedd y tuallan i gylch y datguddiadau blaenorol. Ond yn awr yr oedd yr un datguddiad yn wynebu ar y ddau ddosbarth, a gwelai yr Apostol y ddau yn dyfod at yr Efengyl i ymofyn *nid* y peth oedd arnynt ei wir angen, ond rhywbeth i gyfateb i'w syniadau blaenorol hwy. Mae llef angen yn mhob un o geisiadau y ddau ddosbarth; ond nid gofyn am ddiodyd i'r sychedig, nid gofyn am fara i'r newynog, nid gofyn am faddeuant i'r edifeiriol. Onid oes yma ddarlun o'r hyn sydd yn ysgogi miloedd o wrandawyr i ddyfod i foddion gras? Beth ydych chiwi am ei gael, wrandawyr? Mae cywreinrwydd yn gofyn am y rhyfedd i'w synu, mae teimlad anianol yn gofyn am y melus i'w foddloni, mae rheswm yn gofyn am y mawreddog i'w doethlu, mae yr athronydd yn gofyn am *system* i'w hastudio, mae anghrediniaeth yn gofyn am arwyddion i'w gweled. Gellir eu cael oll, a chael rhy fach; gellir bod heb rhai o honynt, a chael digon. "Gofyn arwydd," "ceisio doethineb." Beth yw sefyllfa ein meddyliau wrth wynebu ar yr Efengyl—beth ydym am ei gael? Dyma gwestiwn sydd yn ein cyfarfod ar drothwy y deml.

I. DAU DDOSPARTH O DDYNION YN YR UN ANGEN YN GOFYN DAU BETH GWAHANOL.—"*Yr Iuddewon yn gofyn arwydd, a'r Groegwyr yn ceisio doethineb.*" Dywedir mai "arwyddion" a ddylasai y gair fod, a hynny yw yn yr iaith Seisnig. Bernir hefyd mai nid at wyrthiau yn unig y cyfeirir yma, eithr tystiolaeth hefyd o'r nef, fel sicrwydd o ddwyfoldeb Crist, a dwyfoldeb ei genadwri. Gwahaniaetha Cristionogaeth yn ei phroffion. Cyfaddasir y profion i sefyllfa dad-blygiad y meddwl, a'i sefyllfa mewn ysbrydolrwydd. Yr oedd nodwedd y meddwl Iuddewig yn cyfrif am y gofyn yma: yr oedd wedi ymgynefino âg *eithriadau* yn llywodraeth Duw. Pan oedd pob cenedl arall wedi byw o dan weithrediadau cyson gosodiadau a threfniadau angenrheidiol, yr oedd yr Iuddew wedi ymarfer âg *eithriadau*. Yn hanes y genedl hon, y mae gwyrthiau neillduol gwlad yr Aipht—

diangfa ryfeddol drwy ddyfnder y môr, cynhaliad gwyrtiol mewn anialwch am ddeugain mlynedd, rhaniad yr afon gan arch Duw, a nawdd neillduol Duw drostynt am ganrifoedd yn ngwlad yr addewid. Pan y syrthiai y naill genedl ar ol y llall oddiar y chwareu-fwrdd, safai hon; pan y cydymosodid arni gan elynion cryfion a lluosog, safai hon. Cafodd ei ffurf-lywodraeth o'r nefoedd, ac nid gwaeth ai barnwr ai brenin, yr oedd yn anorchfygol. Cafodd ei chyfreithiau o'r orsedd ddwyfol; ac er eu bod yn llymion, cadwyd hwy. Cafodd ei chrefydd drwy law Moses gan Dduw, a dyma rhwymyn eu cyfamod a'i bodolaeth. Safai ar ei phen ei hun. Safodd haul a lleuad er mwyn hon; amgylchynwyd hi âg arwyddion lawer; yn mhlith hon y gweinidogaethodd Crist—y cyflawnodd wyrthiau. Dyma rhêd-wely crefydd am oesau; ac yn y diwedd, edrychent am arwyddion i gadarnhau pob peth. Pan yr anfonodd Crist ei ddisgybillion allan, rhoddodd iddynt awdurdod i iachau cleifion, glanhau gwahangleifion, codi meirwon; a'r arwyddion a ganlynent oedd tyst-lythyrau apostolion cyntaf Crist. Yn rhinwedd y rhai hyn yr agorwyd iddynt ddrysau a phyrth, y caniateid iddynt sefyll i fyny i egluro i ba beth y danfonwyd hwy. Ni dderbynid eu honiadau heb gael profion uniongyrchol o ddwyfol anfoniad y cyfryw gan Dduw ei hun. Ond y mae un gwirionedd pwysig y dylid cadw golwg arno, a phrofir ef yn amlwg yn hanes y genedl yma. Y mae unrhyw beth yr ymarferir âg ef yn colli rhywbeth yn yr ymarferiad. Y mae yr ofnadwy yn colli ei ddychryn wrth fyw yn ei ganol—fel y tynir o'r meddwl y braw oedd ynddo; mae y prydferth yn colli ei ddylanwad, ond i'r graddau y delir ef yn gyfərbyniol i beth gwahanol. Y mae gan newydd-deb ddylanwad mawr ar y meddwl. Pan symudodd dyn i ganol y mynyddoedd uchel, yr oedd y golygfeydd rhamantus o'i gwmpas yn deffroi ei enaid; ond wedi byw yno fisoedd, colodd yr olygfa y min. Adeiladodd dyn ei dŷ ar lan yr afon; clywai hi yn ei threigliad tua'r môr; ond yn mhen ychydig, byddai yn

Maid i'r gorlifad ddyfod cyn y clywai ddim. Mae y droed yn ymgaledu wrth gerdded llawer, y llaw wrth gydio mewn offerynau, a'r meddwl wrth fyw yn nghanol elfenau dyeithr yn colli y dyeithrwech sydd ynddynt. Ceisiai yr Iuddew arwydd. Cafodd ganoedd o honynt; ond yn hytrach na chael ei ddiwallu, yr oedd awydd a chywreiggarwch y meddwl yn gofyn *mwy*, ac yn gweled *llai*—yn *clywed* mwy, ac yn *teimlo* llai. Mae meddwl arwynebol yn gweled Duw yn y dyeithr, pan yn ei ddiystyru yn y cyffredin. A oes mwy o Dduw yn y storom nag sydd yn yr awel dyner? yn y fellten danlyd nag sydd yn y pelydrau a lifant o'r haul bob dydd? Crynai Israel ar lechweddau Sinai danlyd pan oedd Duw yn rhoddi ei gyfraith, ond safai Israel ar lechwedd Calfaría i wawdio a chroeshoelio yr hwn a roddodd y ddeddf ar Sinai. Yr oedd yr effeithiau ar galonau plant Israel yn fwy nag ar elfenau anian ar Sinai, ond yr oedd anian yn teimlo mwy na phechadur yn Nghalfaría—crynai y mynyddoedd, ond gwawdiai dyn. Mae yr arwydd yn llai na'r hyn a arwyddir; ac wedi cael yr hyn a arwyddir, i ba beth y gofynir am yr arwydd? Cafodd yr Iuddewon yr hyn a arwyddydd, ac éto gofynent am arwydd. Wedi cael y swm arian, pa eisiau y *note of hand* sydd? Wedi i'r haul godi, pwy sydd yn meddwl am y lloer? Mae mwy na digon yn tueddu ambell un i wastraffu; llai na digon yn gwneyd i'r ofnus wanobeithio; ond digon—dyna lestr llawn, ffrwyth addfed. Mae ysbryd yr Iuddewon eto yn cael byw—“Gofyn arwydd.” Beth yw ymrysoniadau y meddwl? beth yw chwant plygu? beth yw dagrau? Arwyddion ydynt fod Duw am gadw. Beth mwy?

“*A'r Groegwr yn ceisio doethineb.*”—Defnyddir y gair “doethineb” mewn gwahanol ystyron yn yr Ysgrythyrau; ond pan gysylltir ef â'r Groegwr, rhoddir iddo yr ystyr Roegaidd. Golyga wirionedd, neu *system* o foes-wersi. A phan glywodd y Groegwr am Gristionogaeth, daeth yn mlaen i geisio doethineb. Yr oedd ardderchawgrwydd neillduol yn perthyn i'r meddwl Roegaidd. Dyma y

meddwl oedd yn gartrefle dysg a gwybodaeth—tafod ymholiad y byd ymchwilar. Hwn a ddarllenai gyfrolau mawrion a rhyfeddol doethineb Duw; chwiliai i fewn i ddirgelion creadigaeth a Rhagluniaeth am ystyr i bob gair, amcan i bob gweithred, achos i bob effaith, hywyd i bob ymaddangosiad. “Hwn oedd yn gofalu nad oedd dim yn pasio i farchnad meddwl y byd ond oedd gywir. Yn ei law ef yr oedd llinyn mesur a chlorian cyfiawnder; a phan glywodd am Gristionogaeth, daeth yn mlaen i ofyn am ddoethineb—nid y “ddoethineb guddiedig cyn yr oesoedd i'n gogoniant ni,” nid y ddoethineb sydd a'i dechreuad yn ofn yr Arglwydd, a'i heffaith mewn cilio oddiwrth ddrygioni, ond doethineb ddaliai fwy o berthynas â deall nag â chalon y byd—yn gofyn am *system* yn fwy nag am *fywyd*—“*A'r Groegwyr yn ceisio doethineb.*” Ag eithrio y meddwl Iuddewig, y meddwl mwyaf *noble* ar y ddaear oedd y meddwl Groegaidd. Dyma y meddwl oedd yn fwyaf byw i gysylltiadau moesol, i ddiwylliad, a dyrchafiad; yma yr oedd y syniadau cywiraf am gyfeiriad dynoliaeth i'r dyfodol, a dyma y genedl oedd yn meddu ar y ffynonell buraf o fwynhad. Yn Athen yr oedd meddwl y byd wedi cyrhaedd graddau uchaf ei ddadblygiad, teimlad crefyddol y meddwl wedi codi i'r ysbrydolrwydd mwyaf; cynrychiolid holl deimladau calon dyn gan ryw eulun, ac yn yr ymwybyddiaeth annileadwy o berthynas nas gallent ei phortreadu, o fawredd nas gallent ddyfod ag ef i gylch o fodolaeth, nas gallent roddi iddi ffurf; codent allor i'r Duw nid adwaenid, chwiliant nes y damcanent, ceisient nes yr anturient, a rhoddasant lam i'r ysbrydol anweledig, trwy godi allor i'r Duw nid adwaenir. Meddwl *noble*. Bu ar y ddaear genhedloedd gwahanol yn eu tueddiadau, ac y mae iddynt hanes tra gwahanol. Ymddifyrent mewn campau a ffolineb, ymfrashânt ar foethau. Syniad uchaf llywodraethol un oedd gallu, un arall oedd cyfoeth, un arall oedd mawredd ymddangosiadol; ond y Groegwr a ymgodai drwy ddoethineb. Mewn chwilio yr oedd ei ddedwyddwch ef, ac nid

mewn gweled; mewn ceisio, ac nid mewn cael; a daeth at Gristionogaeth i ofyn am *ddoethineb*. Mae *idea* lywodraethol meddwl yn gweithio ei hun allan drwy bob cyfleusdra. Ceisio yr aur y mae yr ymfudwr yn nghanol ei unigedd ar lan y gornant yn yr anialdir diffaeth; chwilio am yr anwybyddus y mae y darganfyddwr yn nghanol peryglon rhy aml i'w rhifo, rhy ofnadwy i'w disgrifio; chwilio allan ordeiniadau y nefoedd y mae y seryddwr yn nyfnder nos yn ei unigedd; ond gofyn am ddoethineb mae y Groegwr—chwilio a'r *lamp* yn ei law, agor drysau ystafelloedd i geisio y trysorau cuddiedig; chwilio *ruins* hen ddinasoedd am adefilion gorseddau ac olion mawredd, ac nid yw y cyfan ond agweddau gwahanol ar ddoethineb gan y Groegwr. Cymdeithasai â'r duwiau i wybod dirgelion natur, anfarwolai enwau athronwyr ddarganfyddodd osodiadau llywodraeth a threfn, dyrchafai i blith y duwiau y rhai a sefydlai gyfundrefnau o foeswersi; a phan y clywai am unrhyw *system* newydd, cynhyrfid ef drwyddo, a chwiliai allan am y ddoethineb. "*Ceisio doethineb*;" ond anghofiai nad oedd eisiau y *lamp* i chwilio am yr haul, lliwiau i baentio y lili, rhoddi cyweirnod i'r eos i gannu. Wrth y bwrdd y bu yr Iesu yn *carfio* y mae y deuddeg basgedaid briwfwyd i'w gael, yn nhŷ y weddw roddodd lety i broffwyd Duw y mae yr olew yn llanw y llestri; er fod Abana a Pharpar yn prydferthu Damascus, yn yr Iorddonen y mae Duw wedi cuddio iechyd i Naaman. Gellir ceisio rhy fach lle y mae llawer; felly y gwnaeth y Groegwyr pan ddaethant at y dwyfol. Gellir ceisio gormod lle byddo ond ychydig; felly y gwnaethant pan aethant at y dynol. Ond er fod y camsynied yn fawr yn y swm, yn y natur yr oedd y camsynied mwyaf. Beth wna gwrandawyr yr Efengyl? Ai ni ddysgwyliant am bregeth o gyfansoddiad cyfan, wedi ei phrydfferthu â syudiadau byw yn gwreiohioni allan, nes y synant, y rhyfeddant, ac yn y diwedd deuant allan o oes o fanteision crefyddol heb fwy ganddynt nag sydd gan y dyn dreuliodd ei oes yn swm y rhaiadr.)

II. Y WEDD A GYMERAI Y DDAU DDOSPARTH AR YR HYN OEDD ARNYNT EI ANGEN PAN GYNYGIWYD EF IDDYNT.—“CRIST WEDI EI GROESHOELIO, I'R IUDDEW YN DRAMGWYDD AC I'R GROEGWR YN FFOLINEB.”—“*Pr Iuddeu yn dramgwydd.*”—Sylwedd gweinidogaeth yr Efengyl yw Crist wedi ei groeshoelio. Nid croeshoeliad Crist, ond y Crist croeshoeliedig; nid marwolaeth Crist, ond Crist wedi marw. Canolbwytia yr Efengyl mewn Person byw; nid yr hyn a wnaeth Crist, ond y Crist oedd yn gwneyd. Nid y gweithredoedd, ond y gweithredydd. *Pregethu Crist*—nid pregethu dychymygion gweigion, ond Crist croeshoeliedig. Nid athroniaeth ddynol, eithr athroniaeth trefn iachawdwriaeth. *Pregethu Crist.* Y mae y weinidogaeth i ddal Crist yn eglur, ac y mae yn bwysig i'r pregethwr beidio sefyll rhwng y pechadur a Christ—rhwng yr hwn a rwygwyd a'r sarff brës. Y mae pob peth i fod yn ddarostyngedig i bregethu Crist—nid adrodd *chwedlau gwrachiaidd a dychymygod*—pregethu *Crist.* Nid adrodd *hanesion amheus o ran eu geirwiredd*—pregethu *Crist.* Nid rhygymu barddoniaeth i foddloni archwaeth anianol, a chynhyrfu teimladau arwynebol, ond pregethu *Crist.* Pregethu i'r byd rhywun sydd yn fwy na'r byd, rhywun sydd yn well na'r byd—pregethu *Crist.* *Pregethu Crist,* dadleu ei hawliau ar gydwybod y byd, sefyll i amddiffyn ei wirionedd yn ngwyneb pob ymosodiad a wneir arno, anturio i ganol y gelynyion i gynyg gwirionedd. *Pregethu Crist*—nid ei adrodd, ond ei *egluro,* ei hysbysu, ei gyhoeddi. O Dduw, “*pwy sydd ddigonol i'r pethau hyn?*” Pregethu *Crist* wedi ei *groeshoelio*; nid sefyll ar lechweddau Tabor a Hermon i ddarlunio dylanwad anarferol ei bregethau, nes y cyfaddefai ei elynion awdurdod ei eiriau. Nid sefyll ar lanau beddau gweigion waghawyd drwy ei allu—*ond wedi ei groeshoelio.* Nid dilyn y *procession* mawreddog, a ddarlunio ei ogoniant yno, *ond wedi ei groeshoelio.* Mae y weinidogaeth efengylaidd i godi ei phwlpud yn y fan lle y codwyd gorsedd grâs; o'r man y cyflwynwyd iawn y mae

maddeuant i'w gyhoeddi; o ymyl yr Aberth a fu farw y mae bywyd i'w bregethu. *Crist croeshoeliedig*. Ond sut y derbynir ef?

1. "*I'r Iuddew yn dramgwydd*."—Y mae i'r Iuddew ei hanes—y rhyfeddaf yn mhlith hanesion y ddaear; ond y llinell amlycaf yn yr hanes yw perthynas ac ymddygiadau y genedl at Gyfryngwr y Testament Newydd. Yn dramgwydd (*stumbling-block*). Galleid dysgwyl y cawsai dderbyniad llawer gwell. Yr oedd pregethu Crist wedi ei groeshoelio yn dramgwydd i'r Iuddewon. Yn *nghyntaf*, o herwydd yr oedd *yn ddadwneyd ar ei holl syniadau*. Cenedl rhodresgar oeddent, wedi ymgodi mewn rhwysg, ac ni fynent â dim oedd yn ymylu ar symlwydd, llawer llai â'r hyn oedd yn dramgwydd. Edrych am orsedd yr oeddent hwy, ac nid am groesbren; am frenin, ac nid am groeshoeliedig. Rhoddent ystyr lythyrenol i eiriau cyffelybiaethol Ysgrhythrau y Proffwydi. Nis gallent ddychymygu am deyrn-wialen ond fel eiddo eu brenhinoedd, nac am lywodraeth ond teyrnas wladol; ac y mae cynyg *Crist wedi ei groeshoelio* yn frenin iddynt yn dramgwydd—yn tynu i lawr eu gobeithion, yn cloddio o dan sylfaeni eu teml hwy. Rhaid cael gwroldeb mawr i arddel gwaradwydd pan gysylltir ef â chymeriad pur, ac y tefir ef gan elynion llygredig. Ni fynai y genedl falch arddel y gostyngeddiaf o ysbryd. Crist ar fynydd y gweddnewidiad oeddent yn ei ofyn, ac nid Crist ar groesbren. Yn *ail*, yr oedd yn dramgwydd *o herwydd yr oedd ei bregethu yn ddadwneyd ar brif weithred eu hanes*. Buasai derbyn Crist yn addafiaid o gyfeiliornad mawr eu tadau, o annghyfiawnder mawr eu blaenoriaid, a chreulondeb ofnadwy eu pobl. Yr oedd goddef Crist yn pregethu yn beth nas gallent wneyd heb ddangos digofaint ato; ond yr oedd goddef pregethu Crist wedi ei groeshoelio yn llawer mwy annyoddefol. Yr oedd ymadroddion Crist am dano ei hun yn peri iddynt ei gablu; ond yr oedd yr ymadroddion am dano yn peri iddynt ynfydu. Yr oedd pregethu Crist wedi ei groeshoelio yn

taflu hen feddau yn agored i gelaneddau pechodau claddedig i ddyfod i'r wyneb—yn ysgrifenu llinell annileadwy yn hanes y genedl falchaf, o greulondeb at y tyneraf a welodd y byd erioed. Ymfrostiai y genedl yn ngweithrediadau awr y croeshoelio; ond y mae yna drydydd dydd yn y weinidogaeth—mae yna Olewydd, yn gystal â Chalfaria, yn yr hanes. Mae blodau yn tyfu ar y beddau, mae rhosynau i'w cael ar y drain, mae perlau i'w cael yn y llwch, mae'r tönau yn golchi i'r traethau berlau aeth i lawr yn y llong-ddrylliad. Fe ysgrifennodd Pilat, condemniwr yr Iesu, deitl ei frenhiniaeth ar y croesbren, yn rhyw broffwydoliaeth y buasai gorsedd yn dileu y croesbren—gogoniant y gwaradwydd. Crist croeshoeliedig yn dramgwydd i'r rhai a'i croeshoelient.

2. *I'r Groegwr yn ffolineb.*—Yr oedd ysbrydolrwydd y Gwirionedd yn sefyll ar ffordd y Groegwr i'w dderbyn. Safon uchaf ei weithrediadau ef oedd rheswm; ond y gallu i gydio yn y ffaith o Grist wedi ei groeshoelio yw ffydd. Y mae pob *system* ddynol yn gorphwys ar elfenau gweledig, ac ni chodai doethineb y Groegwr yn uwch na dadblygiad meddyliol ei oes; dilyn dadblygiad y byddai yn wastad; ond y mae gwirioneddau Cristionogaeth yn uwch—ysbrydol yn eu natur, anghlyfnewidiol yn eu hanfod, a thragywyddol yn eu parhad. Maent fel yr angelion a welodd Jacob ar yr ysgol. Yn esgyn y gwelodd Jacob hwy; ond disgynasant mor ddistaw nes y daethant i'w ymyl heb glywed cliwareuad eu hedyn. Yn mywyd y Didoledig oddiwrth bechaduriaid y gwelwyd hwy gyntaf—y gwirioneddau a'r egwyddorion ysbrydol; ac wrth esgyn, cariant galon dynoliaeth yn mherson yr Arglwydd Iesu. Mae pob gwirionedd ond am Grist croeshoeliedig yn byw mwy i'r gorphenol nag i'r dyfodol; ond y mae Cristionogaeth yn byw mwy i'r dyfodol nag i'r gorphenol. Gwirioneddau yn arwain y meddwl at ffeithiau oedd yn mhob cyfundrefn arall, ond un ffaith fawr yn arwain y meddwl at egwyddorion tragywyddol a digyfnewid sydd mewn Cristionogaeth, ac nis gall dim gydio

*E. Hughes
on
Jes.*

yn y tragywyddol a'r digyfnwid ond ffydd. Ffurfiâu allanol gwirionedd wêl rheswm, ond y mae ffydd yn pwysu ar ei hanfod—Alpha ac Omega cyfundrefnau dynol yw rheswm. Temlau rheswm a gysegrir, allorau rheswm a godir, defodau rheswm a arferir; a phan y daeth y Groegwr i gysylltiad â phregethu Crist wedi ei groeshoelio, teimlodd ei reswm yn cael y fath ysgydwad, nes y cyfrifai y cyfan yn ffolineb. Gall llawer un weled *idea* ar y *canvas* y methai a gweled yr un *idea* mewn llyfr; dyna y rheswm y gellir dysgu y plentyn yn well drwy ddarluniau na thrwy ddim arall. Syniad uchaf ambell un am y byd yw ardal ei enedigaeth; yr uchder mwyaf yw y mynydd a welodd gyntaf. Cylch cyfyng yw gweithrediad rheswm. Mae yn gweled mynydd-oedd yn rhy uchel i'w dringo, afonydd yn rhy ddwfn i'w croesi; ond gadewer i ffydd gydio ynddynt, llama fel angel Duw, partha fôroedd dyfnion, tyr iddo ei hun lwybrau trwy ganol anialdir amheuaeth, plana fiodau o'i hol, a sycha geryg gwaelod yr Iorddonen—gwna ddoethineb dynion yn ffolineb; ond y Groegwr a gyfrifai Grist croeshoeliedig yn ffolineb.

I'r Groegwr yn ffolineb ar gyfrif ei newydd-deb. Croeshoeliwyd lluwys, ond un Crist; a'r newydd-deb mwyaf a gafwyd erioed oedd ei bregethu yn fywyd. Mae math o newydd-deb sydd yn gydrywiol â meddwl dyn. Mae dosbarth neillduol i'w cael mor chwanog i bethau newydd, fel na ofynant "A yw y pethau hyn felly?" Ond y mae math arall yn rhedeg i eithafion cyferbyniol wrth gael pethau newydd—bod yn ddrwg-dybus o honynt. Mae ambell beth newydd sydd yn cyfarfod â dymuniad y meddwl; ond dyma beth mor newydd i'r Groegiaid, fel na chredent ef. Bywyd a folid gan y Groegwr; ond yma, marwolaeth a ddelir i fyny. Parchent hwy eu hathronwyr; ond yma, erlidiedig a gwrthodedig y byd. Yr oedd y syniad am fywyd mor bur yn dybenu yn y fath waradwydd, am gymeriad mor ogoneddus yn derbyn triniaeth mor waradwyddus, ac am galon mor dyner yn derbyn cymaint o greulondeb, yn

bethau anhawdd eu credu. Ond diflana yr anhawsder yna yn ymyl y llall—marwolaeth un yn troi yn fywyd i eraill; dyoddefaint un yn troi yn ffynonell o fwynhad i eraill. Yr ymadrodd am y groes oedd yn ymfydrwydd yn eu golwg. Y mae cyfryngwriaeth Crist yn greadigaeth newydd mewn syniadau, yn gystal ag mewn ffeithiau. Y doethion a allent weled *brenin* wedi ei eni mewn *ystabl*, y doctoriaid a welent fawredd y *mab bychan*. Yr oedd *gwaradwydd* y groes yn hysbys i'r Groegiaid, ond yr oedd ei *gogoniant* yn newydd iddynt. Yr oedd melldith pob un oedd ar bren yn ddiareb eu gwlad; ond yr oedd bendith yn ddyeithr. Yr oedd yr awelon a chwythent dros gopa Golgotha yn cael eu gwenwyno gan gabledau; ond dyna weddi yn puro yr awyr, "O Dad, maddeu iddynt." Gwyddent am y newydd mewn darganfyddiadau, ond nid mewn angau. Yr oeddent wedi ymgynefino âg angau; ond dyma un a goncrodd y gorchfygwr, a gododd orsedd *bywyd* ar ei *fedd*—nid yn unig lladd y llew, ond rhoddi mêl yn ei ysgerbwd i deulu y ffydd. Pa fodd y deuir mor wyn â'r goleuni drwy waed?—Ffolineb. Pa fodd y maddeuir pechodau drwy farwolaeth un?—Ffolineb. Pa fodd yr etifeddir bywyd ac anllygredigaeth drwy fyned i'r bedd?—Ffolineb. Pa fodd y cymodir cydwybod euog drwy gondemnio y cyfiawn?—Ffolineb, ffolineb! Pwy yw y dyrfa ddifai acw? Beth yw cân y lluoedd acw? Atebed teulu y ffydd. Doethineb Duw yn gryfach na dynion. Ond "Iddynt hwy y rhai a alwyd yn Grist gallu Duw a doethineb Duw."

III. Y DDAU DDOSBARTH WEDI CAEL AGORIAÐ LLYGAID YN GWELLED YN YR HWN A GYNYGIWYD IDDYNT Y DDAU BETH OEDD ARNYNT EU GWIR HEISIAU—GALLU A DOETHINEB.—*Ond*. Y mae ambell air bychan yn yr Ysgrythyr sydd fel gwialen Moses, yn hollti moroedd i feddwl ddianc allan o ganol cyfyngderau—fel pelydryn o oleuni yn tori ar dywyllwch.

Gallu a doethineb Duw.—Y gwirionedd am Grist wedi ei groeshoelio yn allu a doethineb dwyfol.

1. *Gallu a doethineb yn codi allan o gyfuniad egwyddor a gweithred.*—Ysbrydion anfarwol yw egwyddorion, a gweithredoedd yw y cyrff a wisgant, i'w cysylltu wrth y gwelédig. Egwyddor yw bywyd gweithred, a gweithred yw ffurf bywyd. Egwyddor yw y cyfoeth anchwiliadwy, ond gweithred yw y llaw sydd yn rhanu i'r tlodion. Chwilio am gyfleu i ddyfod i'r golwg y mae egwyddor; ac y mae ei dagrau hi mor bur fel y gylch wyneb yr wylofus, ac mor loew nes y gwelir drwyddynt dynerwch bywyd. Egwyddor, fe ofala hon am eneinio y corff *cyn* iddo farw, rhag ofn na chaiff hi ddim cyfleu *ar ol iddo farw*. Hi fesura ddyfnder daeardý Jeremiah cyn anturio gollwng y rhaffau i'r gwaelod, ac hi dry hen fratiau budron yn glustogau esmwyth o dan ei geseiliau rhag ei friwio wrth ei godi allan. Sonir yn fynych am egwyddorion tragywyddol. Yn mha le y gwelir hwy? Ai yn neddfau ac ordeiniadau y nefoedd? Gallodd Abraham gorffoli digon o ffydd nes anfarwoli enw Moriah, Job gorffoli digon o amynedd nes ei wneyd yn batriarch duwiol. Ond yn mha le y caiff maddeuant y natur ddwyfol *outlet*? Yn mha le y caiff y tynerwch dwyfol ddagrau digon pur? Crist gallu Duw—gallu yn cynhyrfu nes gweithredu, gallu yn tosturio nes ymgeleddu, gallu yn teimlo nes wylo, gallu yn cymeryd wrth adael. \ Gallu Duw—gallu yn plymio bywyd i ddirmyg angau, a gwaradwydd angau i ogoniant bywyd. Gallu yn gwneyd i galon an-nheilwng pechadur deimlo cymaint o wres cariad nes toddi, o nerth gwirionedd nes plygu, o ddylanwad maddeuant nes caru, ac o awydd gwneyd daioni, fel Crist, nes gallu gweddio wrth y stanc, canu yn y fflamiau tân, a nofio i fywyd tragywyddol yn nghanol gwaradwydd yr ochr yma, ond gorfoledd yr ochr draw.

2. *Gallu a doethineb yn codi allan o berthynas angau a bywyd.*—Perthynas a chysylltiadau angau sydd yn y gallu hwn. Y mae perthynas marwolaeth yn syniad dyeithr y tuallan i Air Duw. Terfyn perthynas yw angau i'r olwg ddynol, ond sylfaen perthynas yw yn yr Efengyl. Byw a

marw, medd dynion; marw a byw, medd yr Efengyl. Nid terfyn yw marwolaeth, ond gallu yn perthyn i'r dyfodol. Gall gael ei amgylchu â gwaradwydd, ond cyfyd o hono ogoniant. Dydd a nos, medd dynion; yr hwyr a fu, a'r boreu a fu, medd Duw. Colli y sêr yn yr haul. I olwg ddynol, y mae y gauaf yn dâl cysylltiad agosach â'r hâf a aeth heibio nag â'r hwn a ddaw, ond fel arall y mae; codi allan o farwolaeth y gauaf y mae bywyd a gogoniant yr hâf. Marw sydd yn cyfrif am liwiau y blodau, am ffrwythau y maesydd—ffrwythau marwolaeth ydynt. Hâf a gauaf, medd dyn; gauaf a hâf, medd Duw.

1. *Gallu Duw.*—Rhaid i'r dyngarwr farw iddo ei hun cyn y gall fyw i eraill. Bu rhaid i Moſes farw iddo ei hun cyn y gallodd fyw i Israel, bu rhaid i Saul farw iddo ei hun cyn gallu byw i Dduw; a pha fwyaf y farwolaeth, mwyaf oll y bywyd. Gallu Duw.—Mae elfenau marwol yn y gallu hwn i ladd pob peth croes i wir fywyd, ac elfenau bywyd i godi i fyny i ysbrydolrwydd bob peth croes i farwolaeth. Byw i farw yw arwydd-air yr anianol, ond marw i fyw yw arwydd-air yr ysbrydol; angau a'r bedd medd meddwl yr anianol, ond y bedd a'r adgyfodiant medd yr ysbrydol. Y gwragedd yn dyfod at y bedd i wylu yn foreu. I wylu yw yr anianol, ond yr angel wedi treiglo y maen cyn iddynt godi yw yr ysbrydol. Gallu yn cylymu maddeuant wrth edifeirwch yw y gallu hwn. Gwna pechod i ddyn wylu wrth weled carchar, ond gwna y gallu hwn i ddyn wylu wrth weled maddeuant. Wylu am fywyd yw y cyntaf, ond wylu oddiar fywyd yw y diweddaſ—y bywyd fydd yn costrely y dagrau, fel y byddant yn destyn llawenydd yn y nef. |

8. *Gallu a doethineb yn rhoddi ystyr i bob datguddiad o bob gallu arall o eiddo Duw.*—Yn Nghanaan yr esboniwyd gwyrthiau gwlad yr Aiphth; yn y nef yr esbonir gwyrthiau grâs. Pa allu sydd yn sefyll i fyny i wynebu ar yr hyn y mae yr athrawiaeth yma yn wynebu arno? Pwy a all gyfrif nifer yr anhawderau sydd ar ffordd cyrhaedd amcanion cyfryngwriaeth? Anhawdwr sydd yn mesur

gallu, gelyniaeth sydd yn profi cariad, angen sydd yn mesur cyfoeth. Pwy a all ddirnad y cyfnewidiadau y mae y gallu hwn wedi ei ddwyn oddiamgylch, y gweithredoedd y mae wedi galluogi rhai i'w cyflawni, y gobeithion anfarwol y mae wedi blanu yn meddyliau meibion dynion, a'r ffynonau o gysur y mae wedi agor iddynt? Beth sydd yn cyfrif am fod iawnder yn cael ei ddadleu yn mhob llys, purdeb yn cael amcanu ato yn y deddfau? Dyma y gallu sydd wedi cadw Eglwys Dduw yn fyw yn mhob oes, wedi tori cadwynau oedd yn rhwymo y gwirionedd, wedi newid cymeriadau gwaethaf cymdeithas, cloddio o dan sylfaeni sefydliadau annuwiol, galluogi dynion i ddyoddef hyd angau, a throi y cyfan i fod yn ddaioni tragwyddol i achos y Gwirionedd; dyma y gallu a all fesur nerth cynddaredd y gelynion, dynu y min oddiar gleddyfau caseuon, fesur gwres tân erlidigaethau llymion, blymio dyfnder afonydd sydd i'w croesi. Os am weled gallu ac arwyddion, dyma hwy—gwrthiau gras.—Rhoddi gonestrwydd yn nghalon Zacheus, gair y cynmod yn nghalon Saul yr erlidiwr. Dyma sydd yn galluogi cenadon Duw o oes i oes i sefyll i gynyg bywyd i wrthodwyr trugaredd, i ddâl yr Iawn fel cymellydd i ofyn am faddeuant. Gallu sydd yn cadw gobaith o flaen pechadur nes y teimla ei hun yn myned i ganol anobaith tragwyddol—gallu Duw, yr Anfeidrol; gallu *Duw*, y fraich hollalluog wedi diosg o blaid pechadur yn yr Iawn.

PREGETH II.

BYWYD CRIST A BYWYD Y DISGYBLION.

“CANTS byw wyf fi, a byw fyddwch chwithau hefyd.”—IOAN xiv. 19.

CYFEIRIA y Gwaredwr yn yr adnodau blaenorol at ei farwolaeth ar y groes. Fel yr oedd Crist yn agoshau at ei farwolaeth, dywedai yn aml wrth ei ganlynwyr am ei ddyoddefaint, er mwyn cydnabyddu eu meddyliau â'r amgylechiad. Dywedai yn fynych y delid Mab y dyn, y traddodid Mab y dyn, y condemnid Mab y dyn, y croeshoelid Mab y dyn; ond gofalai ddywedyd hefyd “*a'r trydydd dydd efe a adgyfyd.*” Cyfeiriai feddyliau ei ddisgyblion heibio y groes i'r ardd; ceisiai roddi digon o graffder yn eu ffydd i weled gwawr y trydydd dydd heibio i dywyllwch ei farwolaeth. Nis gall meddwl dyn edrych yn hir ar ddim annymunol heb amrywio yr olygfa. Dau allu cryf eu dylanwad ar feddwl dyn yw ofn a gobaith. Nid yn yr un pethau y gafaellant. Gobeithia meddwl dyn am y dymunol—ofna yr annymunol. Tyna yn mlaen i gydio gafael yn yr hyn a chwenycha—cilia yn ol mewn braw oddiwrth yr hyn a ofna. Gobeithio am yr hyn y carai ei feddianu, ond ofni yr hyn y byddai yn well ganddo fod hebdo. Yn y gwleddoedd y mae gobaith yn byw; myned i'r *bank* i ymfyn ei gyfoeth y mae ef bob dydd; yn yr wyl briodas y ceir gafael arno ef. Ond cyfaill yn dilyn angladdau i'r fynwent yw ofn. Ni wél ond deigrin, ac ni chlyw ond ochenaid. Yr un ochr â'r Aiphtiad i'r cwmwl y mae ef yn byw—yr ochr dywyll; ond erys gobaith yr un ochr â'r Israeliaid—yr ochr olen. Medr gobaith dyn dynu mwynhad o amgylchiadau y gobeithia am danynt yn mhell yn y dyfodol, a hyn sydd yn cyfrif bod amgylchiadau a hir ddysgwyliwyd yn cynwys llai nag a feddylid, ac felly yn ein siomi. Ond y

mae yr hyn a ofnwn yn wahanol—y mae y brofedigaeth yn llymach, y storom yn gryfach, y dyoddefaint yn fwy nag yr ofnid. Safai yr amgylchiad y cyfeiriai Crist ato ar ochr yr olaf i amgylchiadau ein bodolaeth ; dylanwada ar ofn dyn. Pa beth oedd y nerth, tybed, oedd yn angenrheidiol ar Grist i sylweddoli y syniad o farw ? Nis gall dyn feddwl yn hir am farw, hyd yn nôd o dan yr amgylchiadau mwyaf ffafriol—marw ar wely o fân blu, yn nghanol cyfeillion i wlychu y wefus yn mhoethder y frwydr, yn ngoleuni gwyneb Duw ; ond sylweddolai Crist y syniad o farw nid ar wely o fân blu, ond ar groesbren, yn nghanol gelynion, yn nghuddiad gwyneb ei Dad, ac eto cymdeithasai â'r syniad hwn. Ond tynai un cysur o'i *angau*—“*y byd ni'm gwêl mwy.*” “Yn awr yw eich awr chwi, a gallu y tywyllwch.” Pan fyddaf fi farw, meddai, mi grogaf y *curtain* rhyngof a'r byd ; byddaf am y llen—“ni'm gwêl mwy,” “ond chwi a'm gwelwch.” Chwi gewch fyw yr un ochr i'r llen a minau—cyfranogwch o fy mywyd. “Canys byw wyf fi, a byw fyddwch chwithau hefyd.”

TYSTIOLAETH CRIST AM DANO EI HUN.—Cynwysa y dystiolaeth hon hōniad hyf mewn cyfeiriad newydd. Y mae ynddi swm gallu anfeidrol ac awdurdod annherfynol. Gallu yn wynebu ar orchfygwr pob gallu arall, ac awdurdod yn wynebu ar lywodraeth cyflêd â'r ddaear. Llefarrowyd y frawddeg hon gan yr annhebygaf o bawb i'w dweyd hi, a'i farnu oddiwrth ei amgylchiadau allanol—“*Gwr gofidus, a chynhefn â dolur*” ydoedd. Dyna ddau allu dinystriol ar fywyd—dolor corff, a gofid meddwl. Nis gwyddom yn mha le y mae llinell y cymundeb sydd rhwng corff a meddwl. Pa fodd y mae mater yn effeithio ar feddwl, a meddwl yn dylanwadu ar fater ? Erys y ffaith fod y meddwl yn teimlo oddiwrth ddolor corff, a'r corff yn teimlo oddiwrth ofid neu hiraeth meddwl. Mae dolor corff wedi gyru llawer meddwl i annrhefn, a gofid meddwl wedi gwynu gwallt y gofidus mewn noson. Cyd-ymosodai dau elyn bywyd ar Grist, ac eto dywedodd “*Byw wyf fi.*” Dywedodd

y geiriau hyn pan y gwyddai bod gelyniaeth pechaduriaid yn cynllwyn am ei fywyd, bod cynhwrf yn mhlith cythreuliaid am ei einioes, a phan y gwyddai y byddai *farw* ar *fyr*. Gwelodd bren y groes yn *tyfu* cyn i neb arall ei weled, a gallasai wywo braich yr hwn a'i planodd, yn gystal a'i nerthu. Gwyddai ddedfryd Pilat cyn iddo ei hysgrifenu yn ei lyfr, a chyn iddi ddisgyn ar glust yr Iudew cenfigenllyd. Ysgrifennodd hi yn ei lyfr ei hun, rhoddodd hi i fewn yn nghynllun ei fywyd cyn i law halogedig ei farnwr *signio y death warrant*, ac eto dywedodd "*Byw wyf fi.*" "*Byw wyf fi.*"—Dyma y frawddeg bontiodd yr adwy o'r "*Gorphenydd*" ar y groes hyd foreu y trydydd dydd—gysylltodd eithafion tywyllwch y groes â gwawr y trydydd foreu. Yr oedd y geiriau hyn yn medd Joseph o Arimathea yn cyfarch y cyntaf a ddaeth yno—"Nid yw Efe yma; Efe a *gyfododd.*"

Yr oedd gan Crist hawl ar ei fywyd.—Ychydig iawn a hawliodd Crist erioed. Efe oedd y meddianydd mwyaf, ond efe oedd yr hawlydd lleiaf. Benthg yw meddiant uchaf dyn, ac nid oes un arwydd amlycach o anonestrwydd nag hawlio perchenogaeth mewn peth felly. Yr oedd Crist yn feddianydd ar y cyfan, o herwydd ei fod yn feddianydd ar yr hyn oedd yn rhoddi gwerth ar y cyfan—*bywyd*. Daeth Crist, drwy ei ymuniad â'r natur ddynol, i amgylchiadau cyffredin dyn; ond pan yr haerid nad oedd yn fwy na dyn, dangosai y seren frenhinol ar ei fynwes. Newynai fel eraill o'r miloedd ar gopa y mynydd, ond efe yn unig a allai roddi digon i bob un o'r dorf heb yn wybod i fân werthwyr y pentrefi. Gallai wneyd trysorydd o bysgodyn. Er ei fod yn dlotach nag adar y nefoedd a llwynogod y maes, efe a ddarparodd iddynt eu nythod a'u ffauau. Yn y fan yr oedd ef agosaf i'r byd, yr oedd ef bellaf oddiwrtho. Yr hyn a amgylchynid â mwyaf o waradwydd oedd yn fffynonell mwyaf o ogoniant. Pan y tybiai y byd bod y Gwarddwr yn ddigon gwan i farw, dyna pan yr oedd yn rhy gryf i fyw. Gwendid yw marwolaeth dynion, ond nerth

tragywyddol gariad oedd marwolaeth Crist. Gorfodaeth dynion oedd ewyllys Crist—“*Byw wyf fi.*” Terfyn bywyd yw marwolaeth dyn, ond nerth bywyd annherfynol oedd marwolaeth y Cyfryngwr. Ni welodd Crist ef yn werth ymfrostio y gallai efe lywodraethu elfenau cynhyrfus anian, er iddo wneyd hyny; ni hònai y gallai efe godi meirwon, er iddo wneyd hyny; ond edrychai ar ei farwolaeth yn ffaith mor ogoneddus, ac mor agored i gael ei chamesbonio gan galon gelyn, fel y dywedodd am ei einioes—“Nid oes neb yn ei dwyn hi oddiarnaf fi, ond myfi sydd yn ei dodi hi i lawr o honof fy hun.” Yr oedd ei fywyd yn llymach na'r hoelion, ei gariad yn gryfach na gwaradwydd croesbren. Yr oedd eisiau hoelion i ddâl y lladron ar eu croesau, ond gallesid newid y drefn gyda Christ—hoelio y groes arno ef. Eu croesau a ddalient y lladron, ond daliai Crist ei groes ei hun. Bywyd yn cyflwyno ei hun oedd yma; yn *active* wrth farw—peth newydd i'r byd.

Bywyd yn gwneyd pobpeth yn eiddo iddo ei hun ydoedd.—Mae bywyd am feddianu pobpeth; y mae y *bychan byw* yn fwy na'r *mawr marw*. Dyma ddolen uchaf cadwyn bodolaeth—y nesaf at y Duwdod yw bywyd; y peth a rydd ystyr a gwerth yn mhob peth arall—meddianydd cyffredinol. A allan fel boneddwr dros ei *estate*, a dywed mai efe yw perchenog y cyfan sydd mewn bod, a'r cyfan yn bod er ei fwyn ef. Cynhesu ystafelloedd hwn y mae haul y gwanywyn, gofalu am wely hwn y mae y gauaf wrth ei orchuddio âg eira fel cwrlid gwyn difrychau, eneinio hwn y mae caŵodydd breision yr hâf, a gwllith tyner y nos. Y mae hwn yn tynu mêl o ysgerbwd y storm, ac yn symud ymaith ei elynion â gën asyn y rhew llym. Yn y gauaf y mae yn tynu i fewn er mwyn rhoddi allan yn yr hâf dyfodol; casgla nerth yn y gauaf du, tywyll, ac oer, er mwyn cario beichian o drugareddau yn yr hâf.

Y mae bywyd yn anweledig.—Mae pethau mwyaf Duw yn anweledig. “Efe a roddes ei ddeddf i'r môr.”—Pwy a'i gwelodd? A “ffordd i fellt y taranau.” Pwy a'i gwelodd?

—Ffordd nad oes neb yn talu treth arni. Pwy a fedr amgyffred maint a gogoniant gwirionedd ond pwy a'i gwelodd. Enfyn bywyd ei gyfoeth allan, ond nis gwelwyd ef ei hun. Wrth basio heibio i *establishment* eang y *draper*, tynir ein sylw, swynir ein calon, ac edmygwn chwaeth y masnachwr yn ei ddull o harddu ei ffenestr âg *artificial flowers*; ond nid yw efe ei hun yno—saif ef y tu ôl i'r *counter* i roddi i'r prynwyr. Mae gan fywyd fasnachdy eang; ei nwyddau godidog a welwn ni. Enfyn allan liwiau i ddail y blodeuyn, wyrddlesni i'r ddalen, a chryfder i'r dderwen; ond nis gwelir ef ei hun. Brenin yw bywyd. Gwisga ei goronau, gan eu newid ddeuddeg o weithiau bob blwyddyn. Yr ydym yn gweled goleuni ei balas, ac ychydig o allanolion ei berchenogaeth, ond y mae ef ei hun yn anweledig. Os yw bywyd mor ogoteddus, beth am ffynonell bywyd ei hun? Dywedodd rhywun unwaith wrth Rabbi Iuddewig nad oedd ef yn credu bod Duw, am na allai ei weled ef. Cyfeiriodd y Rabbi ei sylw ef at yr haul. Dywedai yntau ei fod yn methu a'i weled, gan ei fod yn rhy danbaid i edrych arno. "Os wyt," meddai y Rabbi, "yn methu ag edrych ar y gwas, gan mor ogoneddus yw ei wisg, pa fodd y daliet olwg ar ogoniant ei feistr?" Iesu Grist oedd gogoniant bywyd, a bywyd pob gogoniant. Eglurwyd y bywyd yma yn nghydymdeimlad Crist â dynoliaeth yn mhob sefyllfa. Medr dynion gydymdeimlo â'u gilydd i'r graddau y medrant drwy fywyd sugno ansawdd amgylchiadau i fewn, ac yn fynych y mae dynion yn proffesu mwy o deimlad nag a feddianir; ond meddai Crist fwy o deimlad nag a ddangosai. Ceisio cymmodi meddwl dyn â'r golled y mae cydymdeimlad dynion, ond rhoddi y golled yn ol wnai cydymdeimlad Crist. Dichon bod llawer gweddwy yn angladd mab y weddw o Nain, ac yn wylo o gydymdeimlad â hi yn ei phrofedigaeth, ond myned tua'r fynwent wnai yr angladd; eithr pan gyfarfyddodd Crist â hi, ac y cynhyrwyd ei galon dyner, rhoddi y mab yn ol a wnaeth ef. Wylai llawer, fe ddichon, gyda y ddwy chwaer yn Bethania,

ond cydymdeimlad Crist waghâodd y bedd, ac a lanwodd yr aelwyd. Y mae ein gallu ni i fyned i mewn i amgylchiadau ein gilydd yn dibynu ar ein hagosrwydd ni i'n gilydd. Dichon bod syniad cywir gan angelion am drueni dyn, ond y maent yn rhy bell oddiwrthym i gydymdeimlo yn ddwfn â ni; ond daeth Crist yn ddigon agos. Meddai ar fywyd a sylweddolai ein trueni, bywyd a allai wneyd achos tyrfan nas gallai neb ei rhifo yn feddiant iddo ei hun; yfodd eu cwpanau llawnion o wae a dial, bywyd oedd yn ddigon *byw* i farw, ac i roddi anfarwoldeb yn angau ei hun.—“*Byw wyf fi.*”

Bywyd yn gryfach ac yn codi uwchlaw amgylchiadau ydoedd.—Nid o dan y cyfamod gweithredoedd y ganwyd Crist, ond o dan y cyfamod gras; addewid yn perthyn i'r diweddaf roddwyd am danq. Er iddo farw o dan y felldith, nid melldith oedd ei farw, ond bendith. Melldith yw marwolaeth dynion, ond gras oedd ei farw ef. Bywyd yn codi i'w ffurf uchaf oedd angau Crist. Y weithred y mae fwyaf o wir fywyd ynddi yw y weithred fwyaf urddasol gerbron Duw. Ychydig o rinwedd felly a all fod yn ein marwolaeth, fel rheol, oblegyd goddefol ydym; ond wrth farw y cyflawnodd Crist ei brif weithred—*rhoddi ei hun yn aberth dros bechod*—sylfaen ei holl weithredoedd. Mae cysylltiad agos rhwng amgylchiadau a bywyd. Manteision bywyd ydynt wedi eu bwriadu, ond y maent yn anfanteision yn fynych. Collir golwg ar werth peth yn ei amgylchiadau allanol, a meddant ar ddylanwad ar fywyd yn aml. Gellir rhoddi coron frenhinol ar ben dyn annoeth, a meddwl galluog gael ei gladdu mewn dinodedd. Cododd aml un i fyny yn feistr ar amgylchiadau, ond bu farw yn gaethwas iddynt; cododd rhai eraill drwy amgylchiadau, ac yn marw yn orchfygwyr, oni bai eu bod yn marw o'u *hanfodd*. Ond bywyd y Gwaredwr oedd y rhyfeddaf—bywyd yn troi pob peth er ei fantais ei hun ac eraill. Gorchfyga bob rwystr. Yr oedd fel pe buasai rhyw ymrysonfa rhwng bwriadau dwyfol a threfniadau cymdeithas. Bethlehem

oedd y man i'r Gwardwr i gael ei eni; ond erbyn mŷned yno, yr oedd y lletŷ wedi ei lanw; a dyna hanes Crist—y *llety wedi ei lanw*. Gorfod clirio y ffordd iddo ei lun, drwy blygu amgylchiadau anffafriol at ei wasanaeth. Yr oedd bywyd Crist yn anfarwoli llawer o bethau na fuasai un sylw o honynt oni bai ei fywyd ef. Fe newidiodd ef gymeriad pethau yn syniadau cymdeithas. Mae amgylchiadau yn trechu ambell i fywyd, pan na allai amgylchiadau cyffelyb o ran nerth wneyd hyny â bywyd arall. Fe roddodd yr amgylchiadau liain main cyfrodedd i'r goludog, a chymwynasau ar dafodau cŵn i Lazarus; ond medrai y blaenaf gablu yn nghanol llawnder, a'r olaf addoli yn nghanol prinder. Fe gafodd dau leidr groesau i farw arnynt, ond medrodd un gablu, a'r llall weddio yn yr un amgylchiadau.

/ Pwy fedr gyfrif nifer y rhai a gladdwyd yn *mynwent yr amgylchiadau*? Ac y mae eu beddau gyda ni hyd y dydd hwn. Yma mae careg bedd Demas, ac arni—"Demas a'm gadawodd, gan garu y byd presenol." Ond fe gododd Iesu golofn buddugoliaeth ar ei chyfer. Fe demtiwyd Judas â deg-ar-hugain o arian am fradychu ei Arglwydd, ac y mae careg ei fedd yntau ar faes ariangarwch—a dichon fod Satan yn gorfoleddu wrth gyfeirio ati fel *monument* ar fedd un o'r deuddeg Apostol. † Cafodd Crist gynyg mwy gan ddiabol nag a gynygiodd i neb arall, ond ei fod yn cynyg eiddo un arall, ond fe goncrodd bywyd Crist. Yr oedd banerau buddugoliaeth Crist yn cwhwfaiu yn nghanol beddau lladdedigion diafol. Yr oedd pob croes a godwyd ar Gal-faria yn gwaeddi dial: fe ysgrifennodd Crist weddi ar ei groes ef. Ar y mur lle y mae cyfres galanas yr amgylchiadau yn crogi, y mae Crist yn hongian cyfres ei fuddugoliaethau—*nerth bywyd oedd*. Yr oedd yr amgylchiadau yn anffafriol i Zachaeus weled Crist—yr oedd yn fyr o gorpholaeth; ond ar ben y pren fe drodd ei fyrdra corphorol yn daldra ysbrydol iddo byth—gwobr bywyd. "Byw wyf fi"—bywyd allasai *fluntio* hoelion dur pe dewisai, ond ni wnaeth, gan y bwriadai *fluntio* peth llymach—gelyniaeth ei gaseuon.

Bywyd a allasai symud Calfaria oddiar ei wadnau, ond ni wnaeth, gan y bwriadai drwy ddyoddef arno symud peth trymach o galon dyn—euogrwydd. Bywyd a ddyoddefodd nes sychu ffynon dyoddefaint i dyrfa nas gall neb ei rhifo.

Bywyd yn cyrhaedd ei amcan uchaf yn lles eraill.—Bywyd yw y *capital* mwyaf, ac efe a ddaw â'r *interest* fwyaf i fewn ond gofalu wrth ei roddi allan. Ond y mae syniadau llawer mor gyfyng, fel nad yw eu bywyd o fantais i neb. Bywyd gwerthfawr oedd eiddo Moses, ond ynddo ef ei hun yr oedd yn cael ei ystyr eangaf. Y mae dylanwad bywyd yr Apostolion yn aros hyd heddyw; ond yr oedd eu marwolaeth yn golled i eraill, tra yn enill iddynt eu hunain. Taflai bywyd Crist rinwedd i'w angau, a throai ei angau yn fywyd i dyrfa. Beth yw cân ddistaw, deimladwy, y carcharor yn ei gell? *Interest* bywyd John Howard. Ond medrodd ef fyned i garcharau i sychu dagrau yr wylofus, ac arllwys olew i glwyfau aë archollion trueiniaid heb fyned yn garcharor ei hun. Sylwer ar y teulu tlawd yn y brifddinas yn gwledda wrth y bwrdd, wedi eu dilladu â gwisgoedd cyuhes, ac yn canu yn nghanol ystafell lom, heb ddodrefn. Beth yw hynyna? *Interest* haelionus George Peabody. Ond gallodd ef roddi o'i gyfoeth dirfawr i leddfud tloidi y diymgeledd heb fyned yn dlawd ei hun. Edrycher ar y tyrfaoedd ar y blanigfa yn cynal cyfarfod gweddi ar haner dydd, yn darllen Luc xix., ac yn bloeddio—“*Blwyddyn y Juwbili a ddaeth.*” Beth sydd yna? *Interest* bywyd ac ymdrech Wilberforce. Gallodd ef ddadleu rhyddid i'r caethion heb fyned i ddyoddef trueni y caeth ei hun. Ond am fywyd Crist, bywyd gollwyd er mwyn carcharorion ydoedd. “*O garchar ac o farn y cymerwyd ef.*” Bywyd yn *cyfoethogi* eraill drwy *dylodi* ei hun, “Canys chwi a adwaenoch rās ein Harglwydd Iesu Grist, iddo ef, ac yntau yn gyfoethog, fyned er eich mwyn chwi yn dlawd, fel y cyfoethogid chwi drwy ei dlodi ef.” *Myned yn dlawd*—nid *dyfod*. Onid oes ynddo sŵn myned yn mbhellach nag un tloidi a welodd neb erioed? Yr oedd y

bywyd yma yn sylweddoli perthynas âg eraill. Mae llawer dolen yn hanes bywyd Joseph, ond nid oes un heb ei heisiau. Yr oedd pellder mawr rhwng pydew Dothan a gorsedd yr Aipht, ond meddai ar fywyd a allasai ei lanw. Yr oedd mwy o bellder rhwng gelyniaeth calonau y brodyr a charedigrwydd calon Joseph, ond mesurodd hwnw hefyd. Pan welodd ei frodyr mewn eisiau, cynhyrfodd yr hen berthynas, yr hon ni laddwyd er myned i bydew Dothan ac i farchnad yr Ismaeliaid; ac yn rhinwedd y berthynas hono yr oedd cyfoeth gwlad yr Aipht rhwng ei frodyr â marw o newyn—*brodyr* Joseph oeddent. Mae bywyd yr Argiwydd Iesu yn gallu sylweddoli y berthynas sydd rhyngddo â dynoliaeth. Arosai y berthynas hon; ni laddwyd hi yn marchnad Judas a'r Archoffeiriaid, ymgynhyrfai yn drugaredd a grâs wrth ymdaith o Edom a Bosrah, codai yn uwch wrth ddyfod o'r bedd, ac ni wada y berthynas ar ei orsedd byth. Pe gwelai y rhai a'i taflodd i bydewau, ac a'i gwerthodd yn marchnadoedd yr annuwiolion, yn colli *un* deigrin o edifeirwch am bechod, ymgynhyrfai y berthynas, nes y gwaeddai faddeuant yn y fan. I eraill yr oedd yn byw, dros eraill y bu farw, ac er eu mwyn y mae yn byw bob amser.

TYSTIOLAETH CRIST AM FYWYD Y DISGYBLION.—“*Byw fyddwch chwithau hefyd.*”—Cyfundrefn o fywyd yw yr Efengyl. Duw *byw* yw ei Duw hi, adgyfodiad a *bywyd* yw ei Christ hi, ac Ysbryd y *bywyd* yw ei pherffeithydd hi. Mewn bywyd o râs yr ysgogodd hi, mewn bywyd yn aberth y sylfaenwyd hi, ac mewn bywyd o ogoniant y mwynheir hi byth yn y nef.

Yr enw a roddir ar ddyn yn ei gyflwr pechadurus yw yn farw, a'r enw a roddir ar drefn ei adferiad o'r cyflwr hwnw yw bywyd. Defnyddir ymadroddion cryfion i osod allan ddrygedd calon dyn. Ymhyfryda dynion mewn pechu, anghofir yr Argiwydd, esgeulusir dyledswyddau, suddir mewn pechodau, a gosodir trueni yn blygion ar eu gilydd. Ofnir bod llawer o ddynion ieuainc wrth gellwair â phechod,

ar y llithrigfa i drueni. Mae ffurfiau amrywiol pechod yn afrifed; ond y mae gan Dduw drefn yn wynebu ar y byd; gelwir hi *bywyd*, ac y mae y meirw yn cyfodi. Cynrychiolir eithafion yn y ddau air *bywyd* a *marwolaeth*. Deil marwolaeth ynddo ei hun holl elfenau trueni y rhai a gosbir, a deil bywyd ynddo ei hun elfenau gogoniant y dyrfa a gedwir. Fe ddeil marwolaeth *Eden* yn ngolwg *Calfaría*, ond deil bywyd y *sendith* yn uwch na'r *felldith*. Fe dafia marwolaeth *ofn* i ganol y gobeithion disgleiriaf, ond rhydd bywyd *obaith* yn nghanol yr ofnau duaf. Fe drôdd awel y dydd yn Eden yn storom yn Sinai, ond fe drôdd y cyfan yn fywyd yn Nghalfaria—bywyd, nes yr oedd meirwon yn mhob ystyr yn llefaru—llyffetheiriau dwy farwolaeth yn cael eu tori ar yr un awr—angau a Satan yn colli eu heiddo yr un fynud.

Ymhyfryda Duw mewn bywyd.—Bywyd sydd yn talu oreu o bob peth. Gall yr amaethwr drafferthu gyda'i faes—bydd bywyd yn sicr o dalu yn ol; gall y wraig drafferthu gyda'i blodeuyn—lleinw yr ystafell âg arogl hyfryd. Gwêl Duw rywbeth yn mywyd yr asen wyllt yn yr anialwch yn talu am ei chynal. Paentia bywyd bluf y paen, fel dail y blodeuyn yn ngardd y boneddwr. Cara Duw glywed cân yr ehedydd, fel cân yr eos. Ond dyma y bywyd uchaf—bywyd yn newid cymeriad y pechadur, bywyd yn troi y *fynwent* ddu yn *ardd* brydfertth, bywyd all roddi cân yn ngenau yr hwn a achubwyd o'r gyneuedig dân; bywyd a all sugno holl lymder bygythion Duw i ladd pechod, a melusder holl addewidion Duw i loni ffydd; bywyd yn dibynu ar gynrych gwlad arall—coed nad ydynt byth yn gwywo, ffrwythau nad ydynt byth yn pallu; bywyd gostrela ddagrau y Cristion, ac a dyn y ffrwythau crogedig oddiar *bren* y bywyd; bywyd sydd yn cyflym ddringo mynydd gweddnewidiad ei berchen, ac yn sicr o gyrhaedd copa Olewydd ei esgyniad yn y man. “*Byw fyddwch chwithau hefyd.*”


BYWYD YN TARDDU O FARWOLAETH CRIST YDYW, A SICRWYDD EI BARHAD YN MYWYD CRIST.—Sylfaen holl weinyddiadau Duw at ddynion yw aberth Crist, ond y mae bywyd Crist yn y nefoedd yr un mor angenrheidiol a'i farwolaeth ar y groes. Yr oedd ei ddyrchafiad i ddeheulaw Duw mor sicr a'i farwolaethi waradwyddus. Gwir i rai o fwriadau Duw ddyfod i ben, a chael eu cyflawni yn adeg ei farwolaeth—ar y groes y condemnwyd pechod i'w gyflawn haeddiant, yr yfwyd cwpan lldiawgrwydd melldith deddf doredig, y diweiniwyd cleddyf cyfiawnder i daro y gwr oedd gyfaill, ac y rhoddwyd aberth difai i Dduw; ond yr oedd gorsedd i fod yn ymyl y groes, y cawg aur i fod yn ymyl tywalltiad y gwaed, y cysegr sancteiddiolaf i fod yn ymyl y gwerysll, y drugareddfa i fod yn ymyl yr allor, clychau aur i fod wrth odreu gwisg ein Harchoffeiriad i gyhoeddi rhyddid a madd-euant ar ol y gosbedigaeth, codi i fod ar ol y claddu, a *byw bob amser* i eiriol, nes coronï y cyfan â llwyddiant perffaith. Os mai marw Crist yw sylfaen yr adeilad, bywyd Crist sydd yn gofalu am adeiladu. Os mai drwy farw y dybenodd gamwedd, y seliodd bechodau, ac y dygodd gyfiawnder tragywyddol i fewn, ei fywyd yw y sicrwydd yr ymddengys tyrfa fawr yn y cyfiawnder hwnw. Y mae y bywyd ar y ddeheulaw yn *gofalu am werth* y marw ar y groes. Fe gedwir yr orsedd a Chalfaria yn ngolwg eu gilydd hyd nes y byddo amcanion cyfryngwriaeth wedi eu cyrhaedd. Ymresyma yr Apostol Paul y bydd y saint byw oddiwrth y ffaith bod Crist wedi gwneyd mwy drostynt yn ei ddarostyngiad nag sydd ganddo i'w wneyd yn ei ddyrchafiad. "Canys os pan oeddem yn elynion y'n heddychwyd â Duw trwy *farwolaeth* ei Fab ef, mwy o lawer wedi ein heddychu y'n hachubir drwy ei *fywyd* ef." Fe dy heddychwyd pan oeddet yn elyn.—Ai tybed na chedwir di wedi dyfod yn gyfaill iddo? Fe gadwyd y pechadur heb ei ddamnio pan oedd yn *cablu*.—Ai nid yw yn debyg y cedwir y Cristion pan yn *gweddio*? Ond nid dyna yr oll o'r ymresymiad. Fe roddodd Crist Iawn dros bechod pan ar y *croesbren* yn

nghanol gelynyon.—Ai, tybed, nad all Efe ofalu am bethau pan ar ei *orsedd*? Cynygiodd drwch ei aden rhwng Jerusalem a'r farn pan yr oedd yn marchogaeth yr asyn *bcnthyg*.—Ai tybed nad all Efe dy ddyogelu di blentyn Duw heddyw? Crynodd cythreuliaid yn ei wydd pan oedd yn agwedd gwas.—Beth na wnant pan yn ei ddillad brenhinol? Mae bywyd y credadyn yn gafaelyd yn mywyd Crist, a bywyd Crist wedi ymrwymo i ddyogelu gwerth ei waed. Yr oedd gan Grist ddigon o fywyd pan yr oedd yn nghanol elfenau marwolaeth, nes y llifai dros yr ymylon, ac yr aflonyddai y fynwent drwyddi.—Beth, tybed, am dano yn nghanol elfenau bywyd? Dywedai “Byw wyf fi” pan oedd a'i wyneb ar y swper yr oedd ei fradychwr ynnddi, pan y syllai ar ddyoddefaint yr ardd, ac ar y groes ei hun; a dywedai “byw fyddwch chwithau hefyd” pan y gwelai gyllell y llofrudd a gwaed llu y merthyron—bywyd yn llifo allan o ffynonell bywyd.

Bywyd yn codi uwchlaw amgylchiadau ydyw.—O'r braidd y cydnabydda Cristionogaeth farwolaeth ei hun. “Yr hwn sydd yn credu ynof fi ni bydd marw yn dragywydd.” Mae bywyd ysbrydol yr Efengyl yn dileu holl ddrygau angau naturiol—cyll ei arswyd wrth golli ei niwed. Mae angau fel pe yn methu a'i ddâl. Mae y ffwrn saith poethach nag arferol yn methu a'i losgi, y wiber wenwynig yn methu a'i rwygo, y llewod yn methu a'i larpio, a'r môr yn methu a'i foddi. Y mae ganddo ei arch ar gyfer diluw, Soar yn mhob difrod, Bethania yn mhob trallod, a rhyw Joseph yn mhob llys llygredig, yr hwn ni chytunasai a'u cynghor hwynt. “*Byw fyddwch chwithau hefyd.*” Y mae awdurdodau wedi erlid, y cyfreithiau llymaf wedi eu ffurfio, y cynlluniau mwyaf satanaidd wedi eu tynu, a gorseddau y ddaear wedi nofio yn ngwaed saint Duw; ond gorfoleddai y saint mewn gorthrymderau—casglent nerth yn mhob ymosodiad, nes y dymchwelent orseddau anwiredd, y dinystrient ffurf-lywodraethau gormesol, ac y collai brenhinoedd annuwiol eu teyrn-wiail. Un cryf yw y bywyd

hwn, a methai y gelynion wybod yn mha le yr oedd cuddiad ei gryfder. Bywyd yw dyogelwch pob peth. Coder y bluen i'r awyr, pwy a wŷr yn mha le y disgyna; ond gadawer hi yn aden yr aderyn bach byw, ymladda â chorwyntoedd. Mae ystormydd yn gwastadhau dinasoedd caerog, yn suddo llongau cedyrn, yn dychrynu calonau y dewrion, ond y mae yr ehedydd bychan yn codi ei *blatfom* yn y cwmwl brochus, ac yn canu yr ochr uchaf i'r storom. Gall Rhagluniaeth grynhoi cymylau duon, nes y byddo amgylchiadau bywyd yn newid, y gwinllanoedd yn pallu, a'r maesydd yn peidio, ond medr y bywyd hwn ganu yn y storom "eto mi a lawenychaf yn yr Arglwydd, byddaf hyfryd yn Nuw fy iachawdwriaeth." Dyma y bywyd ddiffoddodd angerdd tân, gauodd safnau llewod, yrodd fyddinoedd yr estroniaid i gilio, ac a gysegrodd ogofau yn demlau i Arglwydd y lluoedd. Fe fethodd y bywyd cyntaf a chadw Paradwys o dan ei blodau, ond dyma fywyd sydd yn gwneyd i'r anialwch flodeuo fel rhosyn, a phery i'r diffaethwch fod fel gardd yr Arglwydd. Gall fendithio ei felldithwyr, a gweddio dros ei elynion pan o dan gawod geryg.

Carchar yw y bedd; ond y mae Crist wedi ysgrifenu y geiriau hyn ar ddrws y carchar hwnw—"Byw fyddwch *chwithau hefyd*."



PREGETH III.

CRISTIONOGAETH AR EI PHRAWF CYNTAF.

“A HWY a labyddiasant Stephan, ac efe yn galw *ar Dduw*, ac yn dywedyd, Arglwydd Iesu, derbyn fy yspryd. Ac efe a ostyngodd ar ei liniau, ac a lefodd â llef uchel, Arglwydd, na ddod y pechod hwn yn eu herbyn. Ac wedi iddo ddywedyd hyn, efe a hunodd.”—ACTAU vii. 59-60.

SAIF Stephan yn mlaenaf yn rhestr y dyrfa ogoneddus a groesasant, wedi marwolaeth Crist, y bwlech rhwng dau fyd megys ar donau eu gwaed eu hunain. Y mae iddo enw da yn mhlith y rhai a santeiddiwyd, a dylanwad santaidd yn cydreddeg â'i enw fel yr hwn a wynebodd gyntaf angau ferthyrol o dan y Testament Newydd. Diacon ydoedd; un o'r saith cyntaf a ddewisiwyd; ac y mae yr Eglwys yn ddwfn yn ei dyled iddo am deyrnged o barch am ei ffyddlondeb diymod i wirionedd, â'i amddiffyniad dewr *hyd at waed* i grefydd ein Harglwydd Iesu Grist. Achlysurwyd sefydliad y swydd ddiaconaidd yn yr Eglwys gan rwnachrwydd, ond bendithiodd Duw hyny i fod yn agoriad i gylch o wasanaethgarwech sydd wedi dwyn i'r golwg sêl, medr, ffyddlondeb, a duwioldeb dosbarth lluosog ag y mae iddynt yn hanes Eglwys Dduw le mawr ac amlwg am y gwaith a wnaethant, a'r cyfyngderau a ddyoddefasant dros eu Harglwydd. Yn ganlynol i sefydliad y saith diacon cyntaf yn eu swydd, adferwyd i'r Eglwys yn Jerusalem heddwch a threfn. Gwahanol iawn i lawer Eglwys lle y byddo uchelgais annuwiol am swydd yn fwy nag am ei gwaith. Yno rhwyg a therfysg sydd wedi canlyn yn aml, ond yn Jerusalem heddwch mawr. Mewn canlyniad i'r heddwch mewnol yma, bu llwyddiant mawr ar Air yr Arglwydd. *Y mae heddwch yn yr Eglwys yn amod amlwg am lwyddiant.* Amlhaodd rhifedi y disgyblion yn ddirfawr, a thyrfa fawr o'r offeiriaid a ufuddasant i'r ffydd. Diamheu fod y gos-

odiad yma o swyddogion yn yr Eglwys yn ol meddwl Duw—etholwyd hwy o dan gynhyrriad Ysbyrd Duw; edrychid ar gymhwysder i'r swydd yn medr, gwybodaeth, a duwioldeb y rhai a osodid, a sêliodd Duw y gosodiad yn llwyddiant y gwirionedd. Bu llwyddiant y gwirionedd yn achlysur erlidigaeth ar y disgyblion—y disgyblion mwyaf amlwg fel offerynau yn llaw Duw a ddyoddefasant fwyaf oddiwrth y gelynon. Mēgys y chwilia dyn am lestr a all ddâl ychydig o erwindeb wrth ei drin, i gario trysor gwerthfawr, felly y gwnaeth Duw yn y rhagolwg ar yr hyn oedd i'w ddyoddef ganddynt, a dewisodd drwy yr Eglwys i'w wasanaethu ynddi ddynion nid yn unig a gariant y gwirionedd fel trysor i eraill, ond a allent ddâl triniaeth arw y byd am hyny. Yr oedd arbenigrwydd i'r llwyddiant yma ar yr Efengyl; cymerodd le ar gychwyniad cyntaf Cristionogaeth fel ernes o'r dyfodol—rhoddodd nerth yn ffydd y swyddogion a ddewiswyd, a boddlo'n rwydd i'r Eglwys eu bod wedi gwneyd yn ol meddwl Duw. Cymerodd hyn le yn Jerusalem, lle y condemnwyd y Ceidwad, yn ngŵydd ei erlidwyr penaf, a dygwyd rhai o honynt hwy eu hunain yn arddelwyr o Grist—golchwyd hwy yn haeddianau y gwaed cyn ei fod wedi sychu, megys oddiar belmynt y ddinas. Ond yr arogl fu yn fywyd i lawer, fe dynodd eraill eu hangau o hono—codasant yn erbyn y disgyblion; pobl y synagogau oeddent. Yr oedd yn Jerusalem ganoedd o synagogau heblaw y deml, meddai ysgrifenydd Iuddewig—synagogau perthynol i Iuddewon gwahanol wledydd. Cododd y rhai hyn erlidigaeth, ffurfiasant gamgyhuddiadau, a rhoddasant y cyfryw yn ngeneuau eraill. Yr oedd Stephan yn drech ymresymwr na hwy oll; methasant ei ateb. Yr oeddent hwy yn gystal haerwyr ag yntau, ac yn ddigon rhydd i lunio anwireddau. Dygwyd Stephan o flaen y Cynghor, y senedd, a dylai Eglwys Dduw ddiolch am hyny. Hyny roddodd achlysur i lefariad y benod hon. Yn nghanol y siarad, deallodd Stephan fod y gwirionedd yn cynhyrfu y gydwybod; a rhag ofn na chawsai gyfle i orphen y bregeth

yn y cyfeiriad a ddechreuodd, torodd hi, er mwyn cynhwyso y gwirionedd at eu cydwybodau hwy. Tynodd ddarlun o honynt, a daliodd ef o'u blaen. Cynhyrfasant, dygwyd ef allan o'r ddinas, a llabyddiasant ef. Ni garem wybod sut y dyoddefodd, sut y bu farw. Dyna yw y geiriau a ddyrchafwyd.

I. CRISTIONOGAETH YN MEDDU AR WIRIONEDD DIGON MAWR I'R BYD.

1. *Medr Cristionogaeth roddi gwirionedd yn argyhoeddiad yn meddwl dyn.*—Nodweddir Stephan fel un yn llawn o ffydd ac o'r Ysbryd Glan. Dengys ei araeth o flaen y Cynghor ei fod yn gyfarwydd iawn yn hanes ei genedl, ac yn meddu ar amgyffrediad cywir am ystyr ac amcan gweinyddiadau Duw at y genedl. Siaradai fel dyn yn teimlo bod craig gwirionedd o dan ei draed, gogoniant gwirionedd ar ei brawf, ysbrydolrwydd gwirionedd yn eael ei wadu, Duw y gwirionedd yn cael ei gablu, ac yntau o dan ddylanwad gwirionedd, a'i wyneb yn disgleirio, ei enaid yn tanio, a holl gysylltiadau y gyfundrefn fel pe yn gwylio y prawf cyntaf oedd i gael ei roddi arni. Un o'r pethau mwyaf atgas y gellir meddwl am dano yw dyn yn rhoddi cydsyniad ffurfiol i bwnc bywyd, heb ei gredu—yn gwneyd arddeliad cyhoeddus mewn proffes o beth heb ei dderbyn i'r galon. Ymddangosiad twyllodrus ydyw. Tebyg ydyw i'r afon drystiog ar ddyddiau y gwlawogydd, yn cario pobpeth o'i blaen, ond yn dibynu ar yr hyn a dderbynia yn achlysurol o'r cymylau yn fwy nag ar yr hyn a dderbynia yn feunyddiol o'r ffynonau. Tebyg ydyw i swm yr awel yn nghanol coedwig deneu—y colfenau a'r dail yn ychwanegu *swm*, heb roddi *nerth*. Un o'r pethau prydferthaf yw dyn yn byw o dan argyhoeddiad o wirionedd—ei eiriau yn eiriau *gwirionedd* a sobrwydd, a'i weithredoedd yn gorffoliad byw o egwyddorion dyfnaf ei enaid; peidia neu gwna bob peth oddiar resymau yn y peth ei hun; prydferthwch bywyd agos i Dduw sydd yn ei gymeriad, nerth argyhoeddiad o'r hyn sydd dda sydd yn ei holl weithredoedd, a llŵ gwir-

ionedd digyfnwid sydd ar ac am ei fywyd. Rhestra Duw y cyfryw yma yn mhlith meibion y cedyrn—eu harfau ni rydant, eu henwau ni phrydrant, a'u nerth ni phalla. Eu bwaâu a arosant yn gryfion drwy ddwyllaw grymus Dduw Jacob.

Saif Stephan yn amlwg yn hanes Eglwys Dduw ar gyfrif y rhinwedd yma; rhoddodd anrhydedd bythol ar y swydd ddiaconaidd. Gall, ac y mae, arlunwyr y byd yn ymfalchïo yn eu Michael Angelo, beirdd y byd yn eu Milton, gwyddonwyr y byd yn eu Faraday; ond nid yn y *picture gallery* yna y mae Stephan i'w weled; am y *llen* iddynt hwy. Llygaid ysbrydol a wêl ei ddarlun ef, meddwl ysbrydol a'i edmyga ef; yn y byd ysbrydol y mae ei goffadwriaeth ef yn fendigedig—yn y fan lle y mae gwirionedd wedi codi ei orsedd, yn ysgwyd ei deyrn-wialen, a'i ddylanwad yn eneinio y santaidd; yno y mae coffadwriaeth Stephan yn fendigedig. Os na ellir dwyn dyn i gydymdeimlad santaidd â'r hyn a ymgymera, nis gall barhau i wneyd ond am dymor byr. Mae argyhoeddiad dwfn o wirionedd yn fwy na deall gwirionedd, yn fwy na theimlo gwirionedd; golygu fod y gwirionedd wedi myned i'r enaid, yn lefinio ei holl alluoedd i'w naws ei hun, ac yn santeiddio pob peth i fod yn aberth byw i wirionedd. Creda nes llefaru, llefara nes y credo miloedd; creda nes yr amddiffyna, ac amddiffyna nes diarfogi ei elynion o bob arf tég; creda nes dyoddef, dyoddefa nes cyffroi eiddigedd satanaidd dynion. Deil wrth ei broffes nes marw, a theifl wrth farw bicell gwirionedd i gydwybod gwr ieuanc o'r enw Saul, ac felly gwnaeth fwy wrth farw nag wrth fyw.

2. *Mae gwirionedd fel argyhoeddiad yn dyrçhafu dynion i fywyd pur.*—Mae ffyddlondeb i wirionedd bob amser yn cyfateb i'n cariad ni at y gwirionedd. Mae meddyliau byrbwyll cyflym yn cynwys elfenau peryglus. Arwydd ddi-gamsyniol o feddwl eang yw cydnabod y gwirionedd. Yn y dyn sydd yn caru y gwirionedd gwelir holl hawliau ei fywyd yn plygu iddo. Mae Cristionogaeth ar ei mynediad

allan yn hòni y gall hi ddwyn meddwl i naws y gwirionedd ei hun. Gwirionedd yn *standard* ei gymeradwyaeth gyda Duw, a gwirionedd yw cyfrwng dyrchafiad y meddwl i'r *standard* hwnw. "Santeiddia hwynt yn dy wirionedd, dy air sydd wirionedd." Un o ddylanwadau uniongyrchol gwirionedd Cristionogaeth ar y meddwl dynol yw dyrchafu syniadau dyn am y natur ddynol, a'i chysylltiadau moesol. Megys y plygodd Crist ei hun yn amgylchiadau cyffredin ei fywyd i gyfarfod â chymdeithas, er mwyn ei santeiddio, felly y mae yr egwyddor hono yn rhedeg yn mhawb sydd yn derbyn bywyd Crist fel esiampl. Mae Cristionogaeth yn hòni y gall hi ddwyn meddwl i'r fath sefyllfa o dan ddylanwad ei gwirioneddau fel y teimla dyn mai drwy fyw i eraill y rhoddir yr ystyr eangaf a chywiraf i fywyd. Mae lles eraill mor agos i'r meddwl, fel nad oes dim a saif rhyngddynt ag amcanu cyrhaedd y lles hwnw. Y cwestiwn, bellach, yw benderfynu yw—A yw y dylanwad sydd yn rhedeg allan o'r Efengyl yn cadarnhau neu wanhau yr hòniad? A yw y cymeriadau sydd fwyaf o dan y dylanwad hwnw yn codi i fyny mewn gwasanaeth i gadarnhau yr hòniad? A yw y gwledydd lle y pregethir ac y credir yr Efengyl yn fwy rhydd a chyfiawn eu deddfau, yn fwy pur a haelfrydig eu hysbryd, yn ddyfnach mewn cydymdeimlad â dynoliaeth archolledig? Os yw, saif yr hòniadau. Dyma Gristionogaeth ar brawf. A oes rhyw feddwl yn Jerusalem mewn cydymdeimlad mor ddwfn â'r gwirionedd fel na all ei guddio er peryglu ei fywyd? a oes yno rhyw feddwl yn meddu ar gymaint cariad at ddynoliaeth fel y teimla rheidrwydd mewnol—rheidrwydd cariad i ddweyd gwirionedd er mwyn dyn? Sylwer ar Stephan, cymeriad annghyhoedd yn flaenorol, ond wedi codi mor uchel o dan ddylanwad yr Efengyl nes y saif yn y llys mwyaf ei rhagfarn ar ddaear Duw. Cyfodai ei lais o blaid y grefydd fwyaf ddirmygedig gan gymdeithas, seiniai mewn aceniaeth glir enw y croeshoeliedig yn nghlyw y gelynyon, edrychai yn llygaid dynion oeddent yn dduach na chythreuliaid, yn

etifeddion uffern ; cyhoeddai wirioneddau oeddent fel cleddyfau dau-finiog, a gwnai hyny oddiar gariad at y Gwirionedd, nes marw drosto, ac o gariad at ddyinion, nes marw yn eu dwylaw.

Y mae argyhoeddiad meddwl yn allu angerddol yn enaid dyn ; dyma yr anweledig sydd yn cyfrif am ffurf cymeriad moesol, santaidd ; ac fel y ffynon fyw sydd o dan y dywarchen lās, yn cadw gwyrddlesni ynddi, pan yr agena y ddaear o'i chwmpas, ac y gwywa y planigion tyner. Mae teimlad yn annibynol ar argyhoeddiad yn creu anhawsderau nas gall eu gorchfygu ; mae crediniaeth heb argyhoeddiad yn rhy wan i gyfarfod â dyledswyddau bywyd. Gall yr olaf wybod ewyllys ei Arglwydd heb ei gwneyd, a'r cyntaf deimlo nerthoedd y byd a ddaw heb wybod eu hystyr ; ond y mae argyhoeddiad yn deall ystyr nerthoedd y byd ysbrydol, yn meddu ar gydymdeimlad â gofynion gwirionedd, ac yn derbyn mwy o fyd tragwyddol nag a all ddangos yn y byd presenol. Y mae yr hyn a ddengys yn cael ei fesur yn yr hyn a ofynir gan y gelyinion, ond y mae yr hyn a dderbynia yn cael ei fesur yn y cymundeb sydd rhyngddo a'r. nefoedd. Beth yw nerth argyhoeddiad o wirionedd Cristionogaeth ar feddwl Stephan ? Ymdroa yn nghanol *sceptics* Jerusalem, y rhai yn eu balchder yn ffroenuchel a ddiystyrant y syniad bod cysylltiad rhwng hen hanes cenedl y gogoniant a'r hanes oedd ar gael ei chau yn Jerusalem. Sefydlwyd ef yn ddiakon ar Eglwys nad oedd ganddi well teml na goruwch ystafell, gwell proffwydi na physgotwyr, gwell pwlpud na *dock* y llysoedd barnol yn y rhai y safent fel carcharorion. Ond gallodd Cristionogaeth godi Stephan i fyny i amddiffyn y Gwirionedd ; pan oedd llefau y gelyinion heb ddistewi, cyfyd ef ei lais i fyny o blaid y gwir. Pan oedd dirmyg y groes yn orchudd am berlau grās, credai Dduw ar ei air—mentrodd i'r llong pan yn nghanol y storom, neidiodd at y faner yn nghanol cleddyfau y gelyinion ; ac fel y saif Noa ar ei ben ei hun gyda'r arch, felly mae Stephan yn enghraifft o allu Crist-

ionogaeth yn codi o Jerusalem gymeriad i brofi nerth Cristionogaeth.

II. CRISTIONOGAETH YN GALLU CYNRYCHU CYMERIAD DIGON NERTHOL I DDYODDEF YR ANHAWSDERAU OEDD YN CYDFYNED A DERBYNIAD O'R GWIRIONEDD.—Y mae y cyhoeddiad cyntaf o wirionedd yn cyfarfod âg anhawsderau, a gellir ffurfio barn am y gwirionedd ei hun wrth y gallu a fyddo ynddo i ddâl yn wyneb yr anhawsderau hyny. Mae rhoddi ffurf *newydd* i *hen* beth yn codi rhagfarn; mae dweyd hen *wirionedd* mewn *geiriau newyddion* yn codi anhawsderau iddo; ac er na ddaeth Cristionogaeth ag un gwirionedd newydd sylfaenol i fewn, eto yr oedd yr eglurhad newydd ac ysbrydol a roddid ar y gwirionedd yn cynhyrfu rhai meddyliau yn ei erbyn. Cafodd Cristionogaeth ar ei chychwyniad allan yr anhawsder yma; a'r cwestiwn naturiol oedd—A allasai hi gyfarfod â'r anhawsderau?

Y mae dyoddefaint yn benod bwysig yn hanes crefydd Mab Duw, ac y mae yn anhawddach dyoddef dros beth anweledig na thros beth gweledig. Dywedir bod gau-grefyddau y byd yn gallu cynrychu cymeriadau i ddyoddef o'u herwydd. Gwir. Ond cofier bod holl elfenau eu crefydd yn weledig, a phethau mawrion crefydd Crist yn anweledig. Dylanwadai gau-grefyddau y byd ar synwyrâu naturiol dynion; ond hon—ffydd, gobaith, a chariad sydd yma. Fe ddyoddefa dynion fwy dros bethau *presenol* nag a ddyoddefant dros bethau *dyfodol*. Rhaid bod gan Gristionogaeth ddau beth i'w rhoddi er galluogi ei harddelwyr i ddyoddef.

1. *Ffydd yn llwyddiant y gwirionedd i ddarostwng drygioni y byd*.—Nid yw pob dyoddefaint o herwydd y gwirionedd yn gymeradwy—yr ysbryd fyddo o dano fydd yn ei gymeradwyo. Nid oedd yn ddigon i Abraham roddi ei fab ar yr allor; yr oedd yn rhaid iddo ei offrymu mewn ysbryd *addoli*. Yr elfen addoliadol fyddo mewn dyoddefaint fydd yn ei gymeradwyo, a'r dyoddefaint a gymeradwyir a fendithir i hyrwyddiant Cristionogaeth. Y mae yr

elfenau sydd yn tynu ymddiriedaeth dynion yn cael eu gwahardd gan yr Efengyl. Ffydd yn cydio yn yr anweledig sydd yma; natur a chysylltiad gwirionedd ysbrydol sydd yma. Gall gelynyion gwirionedd loewi eu *harfau* i'r frwydr, "canys arfau ein milwriaeth ni nid ydynt gnawdol, ond nerthol drwy Dduw i fwrw cestyll i'r llawr." Mae rhifedi byddinoedd, dysgyblaeth filwrol, medrusrwydd cadfridogion, a darganfyddiadau newyddion, yn elfenau amlwg mewn rhyfeloedd ar y ddaear; ond y mae yna rhyfel fwy yn llywodraeth Duw. Beth pe codai Duw gwr y llen i ni gael edrych i fewn i'r byd ysbrydol—yno y mae golygfeydd—nwydau ac egwyddorion, cyfeiliornad a gwirionedd, pechod a rhinwedd. Pwy a wŷr yr ymdrechfa sydd yn meddwl un Cristion ar y ddaear? pwy a all fesur poethder ysbrydol yr ymdrech a wneir am feddianu dynoliaeth yn nghylch ysbrydol y ddaear hon? Amgylchynir ein natur ni gan ddylanwadau o uffern a nefoedd, o bechod a chyfryngwriaeth. Mae y meddwl yna sydd yn gwrando yma y boreu yn nghanol brwydr galluoedd y byd arall am ei feddianu. Pwy dy gaiff di?—Cythraul neu Grist, uffern neu nefoedd. Satan goncra yn yr oedfa hon ar ddegau, fe ddichon. O Dduw, distawa y gelynyion. Ond gan nad pwy a'th gaiff *di*, mae miloedd tra yr wyt ti yn peidio ildio i'r gwirionedd, yn gwaeddu concwest ar wddf y gelyn. Ni bu gwirionedd erioed o dan fwy o anfantais nag yr oedd yn Jerusalem. Ni chariodd Satan fwy o eiddigedd dros ei deyrnas nag yno. Ond *yno* mae digon o ffydd gan Stephan i weled gwirionedd yn concro, tyrfa fawr o'r offeiriaid yn dychwelyd i'r ffydd. Pwy a all sylweddoli darlun o'r rhyfel yn Jerusalem? Beth a alluogodd Stephan i ddyoddef? Ai urddas ei swydd, anrhydedd ei genedl, gobaith am ddyrchafiad bydol? Onid ffydd yn llwyddiant y gwirionedd? Rhodiai hwn mewn sandalau arian drwy boeredd ei elynion, marchogai yn ei gerbyd, a'i byst o aur, a'i olwynion o ifori, drwy fudreddi Jerusalem, ac yn swm olwynion ei gerbyd y distawyd cynddaredd dynion.

2. *Galluoga y meddwl i ddal cymundeb a byd ysbrydol.*
 —Gwirionedd amlwg yn hanes dyoddefaint yr Eglwys yw bod cymundeb rhyngddi a byd ysbrydol, ac yn rhinwedd y cymundeb hwnw derbynia nerth. Mae pob peth pwysig i ni yn dibynu ar rhywbeth anweledig fel ffynonell; a thra yr erys cymundeb rhwng y gweledig a'r anweledig, parhá y gwasanaeth. Awyrrir ein gweithfaoedd gan *fans*—cylchreda yr awyr drwy filoedd o ffyrdd am filldiroedd, chwilia y cilfachau, edrycha am drigle marwolaeth, a ffy yntau yn sŵn ei anadl fel marwolaeth o flaen bywyd, a rhydd nerth i *lungs* y glowr i anadlu yn nghanol cymylau llwch. Ond o ba le y mae yn dyfod? Beth pe ataliai y *fan* droi am ychydig oriau? Dibynu ar rhywbeth anweledig wneir. Sylwer ar y *diver* yn disgyn i waelodion y môr; chwilia am drysorau cuddiedig yn nheyrnas y Leviathan. Sut y mae yn gallu byw yn y dyfnder? Pibell fechan sydd ganddo yn cario awyr—dibyna ar y cymundeb sydd rhyngddo a rhywbeth sydd i fyny. Beth mor brydferth a'r dref fawr yn y nos pan yn cael ei goleuo gan filoedd o *burners*? —rhenir hwy fel ffynonau i arllwys goleuni i'r ddinas. Pwy a wŷr y lladdiadau, y tŷ-doriadau, fyddai yn y ddinas hono yn y nos, oni bai y goleuni; ond beth fyddid yn well o'r miloedd *burners*, oni bai fod y ffordd yn glir rhyngddynt a'r *gasometer*? Mae dyoddefaint yn hanes Eglwys Dduw. Sut y gallodd Stephan ddyoddef?—Llinell cymundeb oedd rhyngddo a byd ysbrydol. Disgynodd i ganol y gelynyon, i fro marwolaeth, ond y mae yn tynu ei anadl o'r nefoedd. Cyfyd ei olwg tua'r nef; mae hono yn agor, a gwelodd ogoniant Duw; chwilia am y trysorau yn ngwaelod y môr; saif yn ffyddlawn i'w genadaeth yn nghanol y gelynyon. Cyfyd faen o Ebenezer, tuallan i byrth Jerusalem; ac mor wir ag iddo gael bendithion gogoniant y nef ar drosolion ffydd i'r anialwch, fe blanodd gangen o bren y bywyd yn yr anialwch erchyll, ac fe lawenhâodd miloedd o dan ei gysgod. Dywedir iddo "*weled Iesu ar ddeheulaw Duw.*" Y mae yn rhyfedd i Stephan orfod tewi cyn iddo sôn am bod yr

Iesu a laddwyd eto yn fyw. Yn sŵn yr hoelion y mae Stephan yn gorfod tewi—yn yr olwg ar y groes y mae y gelynyon am iddo gau ei lygaid; ond efe a welodd Iesu. Agorwyd y nef; ond efe yn unig a welodd. Agorwyd y Môr Coch; ond Israel yn unig a ddiangodd i'r ochr draw. Yn *nghyntaf, gwelodd*, i'w gadarnhau bod yr Iesu eto yn fyw. Blaenir profedigaethau mwyaf bywyd gan rai llai, er cymhwyso at rai mwy. Mae rhyw Gethsemane o flaen pob croes, ond y mae Duw yn gosod croesau rhwng dwy ardd, fel rheol—gardd y gelyn a gardd y boneddwr, gardd y gwaed a gardd y bywyd, gardd i Judas a gardd i Joseph, ac y mae Duw yn cryfhau golwg ambell un fel y gwél yr ardd olaf o'r cyntaf, heibio i'r groes. Nid oes eisiau i enfys Duw fod yn y golwg bob dydd yn mhob cwmwl. Mae ef mor ogoneddus ynddo ei hun, ac yn ein hadgofio am beth mor ogoneddus, fel y mae ei weled ef yn achlysurol yn ddigon. Nid oes eisiau i'r nefoedd agor bob dydd; o herwydd pan y gwelir Iesu *unwaith*, y mae yr olwg arno mor ogoneddus, fel y cofi di ef am dy fywyd; ond os bydd y gelynyon am dy ddistewi rhag *dweyd* dim am *dano*, bydd y nef yn sicr o agor i gael *golwg arno*. Yn *ail*, gwelodd Iesu i ddangos bod gwirionedd yn anfarwol. Fe allodd erlidwyr gloi Pedr am bregethu Crist; ond yr oedd gan Iesu ar ei ddeheulaw allwedd oedd yn ateb i'r clo, fel y mae Pedr ar yr heol yn y boreu cyn i'r haul ddyfod o'i ystafell. Fe amcanodd Saul rwymo y gwirionedd; ond yn lle hyny, fe gafodd ei rwymo gan y gwirionedd, ac yn rhwymau y gwirionedd teimlai ei fod yn rhydd pan yn nghanol cadwynau carcharau. O dan geryg y mae Stephan; ond y mae y gwirionedd yn gwneyd Stephan yn fwy rhydd nag erioed.

III. CRISTIONOGAETH YN GALLŪ CODI DYN I FYW YR OCHR UCHAF I DDERBYN DYLANWAD ODDIWRTH YSBRYD EI ELYNYON A'U GWEITHREDOEDD PECHADURUS A CHREULAWN.—Gorchest gyntaf teyrnas y fagddu, wedi croeshoeliad Arglwydd y gogoniant, oedd merthyru Stephan; a'r weddi ryfeddaf nesaf at weddi

y croeshoeliad oedd gweddi Stephan dros ei elynion—"Na ddod y pechod hwn yn eu herbryn." Nis gwaeth yn mha le y rhoddir ysbryd gweddio—fe anadla o dan gawod geryg yn gystal ag oddiar wely o fân blu, oddiar groesbren yn gystal ag oddiar orsedd gyfryngol y nefoedd. Ymosodiad creulawn oedd hwnw a wnaed ar Stephan—deuent yn ei erbyn fel byddin ddigofus; safai yntau yn ddigryn yn ysbryd ei Arglwydd.—"Nid yw y dyn hwn yn peidio a dywedyd cabl-eiriau yn erbyn y lle sanctaidd hwn, a'r gyfraith. Canys nyni a'i clywsom ef yn dywedyd, y distriwiai yr Iesu hwn o Nazareth y lle yma, ac y newidiai efe y defodau a draddododd Moses i ni." Dyna y camgyhuddiad yn dyfod gyda nerth. Beth a wna Stephan? "Ac fel yr oedd yr holl rai a eisteddant yn y Cynghor yn dâl sylw arno, hwy a welent ei wyneb ef fel wyneb angel." Cafodd fynydd ei weddnewidiad cyn cyfarfod â dyffryn ei ddarostyngiad, gwisgwyd ef yn nillad gogoniant cyn y buasai ei elynion yn ei ddiosg o'r tŷ o glai. Dangosodd Duw beth a fuasai yn y nefoedd cyn teimlo beth oedd i fod ar y ddaear; llwytho y llong cyn cychwyn i'r fordaith; dangos fod yr enaid yn *insured* cyn myned i'r frwydr. Y gelynydd wedi methu *yn yr ymosodiad*. "A phan glywsant hwy y pethau hyn, hwy a ffromasant yn eu calonau, ac a ysgyrnygasant ddanedd arno." Meddianwyd hwy mor llwyr gan ysbryd erlidigaeth, nes yr oedd y teimladau cynhyrfus a dialgar oedd yn eu calonau yn chwareu ar eu hwynebau fel nodwyddau ar ddeial *clock*.

Beth a wna Stephan? Ai nid yw y fath arddangosiad o ysbryd bygythiol yn ei ddychrynu? ai nid yw y dirmyg yn ei ddigaloni?—"Ac efe yn gyflawn o'r Ysbryd Glân, a edrychodd yn ddyfal tua'r nef; ac a welodd ogoniant Duw, a'r Iesu yn sefyll ar ddeheulaw Duw." "*Cyflawn o'r Ysbryd Glân*"—brwydr rhwng dau ysbryd drwy gyrff. Gwelodd ogoniant Duw—yn nghanol gwarth dynion, gwelodd ogoniant Duw. Hoff enw Stephan ar Dduw oedd "Duw y gogoniant;" a phan aeth hi yn gyfyng ar Stephan

yn y wisg yr arferai ef ei adnabod, yr ymddangosodd Duw iddo, “a'r Iesu yn sefyll ar ddeheulaw Duw.” Yn barod i gychwyn. Mae Stephan yn dâl yr ymosodiad. Ond daw y trydydd ymosodiad—“Yna y gwaeddasant â llef uchel, ac a gauasant eu clustiau, ac a ruthrasant yn unfryd arno A hwy a labyddiasant Stephan, ac efe yn galw ar Dduw, ac yn dywedyd, Arglwydd Iesu, derbyn fy ysbryd.” Fe ddaliodd Stephan. Mae yr hanes yn cau gyda dweyd am y gelynyon yn llabyddio, a Stephan yn gweddio. Onid yw Cristionogaeth wedi dyfod o'r prawf yn ogoneddus?

“*Efe a hunodd.*”—Dywedir am un o ddyddiau hynotaf ein rhyfeloedd, i'r haul godi yn y boreu ac agwedd bur fygythiol arno, a bu miloedd farw cyn tri o'r gloch; ond pan oedd yr haul yn machlud, yr oedd perffaith dawelwch—yr arfau wedi peidio a'u dinystr, yr awyr wedi clirio oddiwrth fŵg, y bryniau pell yn ymddangos, ac fel pe buasai pob peth am guddio gwaith y dydd o'r golwg, a llawer angyles trugaredd yn gwrandao ochenaïd ambell i druan clwyfedig. Rhywbeth felly oedd hi yma—yr ymdrech drosodd, yr arfau wedi distewi, a dim yw glywed oddieithr bod y gwr ieuanc a ddaliai ddillad y rhai a labyddiasant Stephan yn rhoddi ambell i ochenaïd o dan effeithiau y swmbwl a gafodd wrth glywed Stephan yn gweddio drosto o dan y gawod geryg; ond y mae yr haul yn myned i lawr yn ogoneddus—“*Efe a hunodd.*” Sugnyd ei enaid i'r nefoedd.

PREGETH IV.

CARIAD DUW YN NHREFN GRAS.

"Yn hyn yr eglurwyd cariad Duw tu ag attom ni, oblegid danfon o Dduw ei unig-anedig Fab i'r byd, fel y byddem fyw trwyddo ef. Yn hyn y mae cariad; nid am i ni garu Duw, ond am iddo ef ein caru ni, ac anfon ei Fab i fod yn iawn dros ein pechodau."—1 IOAN IV. 9-10.

GELWIR yr hwn a ysgrifennodd y geiriau yma yn ddisgybl anwyl—anwyldeb sydd yn rhedeg drwy ei holl eiriau. Gynt pwysai ei ben ar fynwes yr Iesu yn y swper, ac mewn swper y ceir ef bob amser. Pwysai ei ben ar fynwes gwirionedd—ffynonell bywyd, santeiddrwydd, a dedwyddwch y byd. Yn blaenori yr adnodau hyn, ceir tystiolaeth o eiddo yr Apostol am Dduw—"Duw cariad yw." Y mae yr efrwydd ysgrhythrol wedi sylwi ar y gwahaniaeth sydd rhwng y ddau Destament yn eu tystiolaeth am Dduw. Y mae y naill fel y llall yn ddatguddiad, ond bod y graddau a'r cyfryngau yn wahanol. Mae cyfatebiaeth rhwng swm y datguddiad, y cyfrwng a ddefnyddir, a'r gwrthdrys sydd i dderbyn. Saif tystiolaethau yr Hen Destament am Dduw ar ochr nacâol gwirionedd—yno dywedir beth *nad yw* Duw; ond saif tystiolaethau y Testament Newydd ar ochr gadarnhaol gwirionedd—yno dywedir beth *yw* Duw. Ysbryd yw Duw, goleuni yw Duw, Duw cariad yw. Ni allai cyfryngau datguddiad meddwl Duw yn yr hen oruchwyliaeth wneyd mwy na dangos atgasrwydd y natur ddwyfol at bechod; ond yn y Testament Newydd dangosir hoffder Duw at rinwedd, a'i gariad at ddyn, er ei fod yn bechadur, drwy ddweyd beth yw Duw. Gosodwyd yr ebyrth i wneyd y cyntaf, ond yr oedd yn rhaid cael y Mab i wneyd y diweddfaf. Codwyd dynion neillduol gan Dduw yn ngwahanol oesau y ddaear i fyw gwirioneddau neillduol o flaen cymdeithas. Beth yw fydd? Gwneyd arch yn nghanol annghrediniaeth

y cynddilifaidd, credu tystiolaeth. Duw am bethau nis gwelsid eto, heb un esiampl flaenorol o'r farn fygythiedig wedi ei chyflawni, nac un tebygolrwydd y cyflawnid hi. Os na ddeallid ymddiriedaeth Noa yn Nuw fel yr ymddangosai yn ei fywyd cyson, deallid y cyfryw yn y weithred o godi arch. Beth yw ffydd? Yr oedd bywyd tad y ffyddloniaid yn annealladwy i'w gydoeswyr, ond galluogwyd ef i gyflawni gweithred roddodd syniad cywir am ffydd—cychwynodd allan yn foreu o Beersheba, cyrhaeddodd Moriah ar y trydydd dydd, dringodd ei lechwedd, adeiladodd arno allor, rhoddodd Isaac arni, a chyflwynodd yn nghyfrif Duw ei fab yn aberth—dyna beth oedd ffydd. Ni allesid rhoddi darnodiad mor effeithiol o ffydd mewn geiriau ag a gafwyd yn y weithred hono. Beth yw ffydd? Etifedd gorsedd yn dewis anialwch o flaen paradwys, ffon y teithiwr blin o flaen teyrn-wialen y brenin, a theithiau blinion ar y tywod crasboeth o dan dywyniad syth a digysgod pelydrau tanbaid yr haul, o flaen rhodfeydd y palas yn nghysgod llwyni coed cauadfrig—dyna beth yw ffydd,—“dewis yn hytrach oddef adfyd gyda phobl Dduw.” Gallodd y byd gael syniad am wirioneddau felly drwy gymeriadau a gweithredoedd neill-duol; ond am gariad Duw, ni allesid cyflwyno syniad am Dduw yn ei gariad ond drwy anfon y Mab i'r byd. Mae bywyd yr Arglwydd Iesu yn crynhoi holl rinweddau gwasgaredig y natur ddynol i un pwynt—mae cariad yn gyflawnder gras, yn gystal ag yn gyflawnder cyfraith; ac yn mywyd a marwolaeth Crist y cafodd gyfrwng i egluro ei hun. Dangos eraill wnaeth efe yn mhob man arall, ond dangos ei hun a wnaeth efe yn y Mab; ac o'r dangosiad hwnw y bydd ei ddylanwad bythol yn tarddu. Dylanwad cariad a deimlai Ioan gryfaf ar ei feddwl. Y mae cryn wahaniaeth rhwng tystiolaeth Crist am Dduw a thystiolaeth Ioan am dano. “Ysbryd yw Duw,” meddai Crist; “Duw, cariad yw,” meddai Ioan. Yr hyn a achlysuroidd dystiolaeth Crist am Dduw, oedd syniadau eithafol a chyfeiliornus pobl y deml, a'r addolwyr a gyrchent i fynydd Garizim;

Alwy 3.
m. 21-22

ond yr hyn a dynodd allan dystiolaeth Ioan, oedd y dylanwad angerddol a deimlai yn ei galon; ond er y gwahaniaeth, nid oes gwrthwynebiad. Cadw y *rhyfygus* yn ol oddiwrth Dduw oedd amcan Crist, ond tynu yr *ofnus* yn nes i Dduw oedd amcan Ioan. Lladd y cnawdolrwydd yn yr addolwr arwynebol wnai y cyntaf, ond lladd amheuaeth yn yr addolwr gwirioneddol oedd amcan y diweddaf. Dangos pa mor bell y mae Duw oddiwrth y balch y mae Crist, ond dangos pa mor agos y mae i'r edifeiriol y mae Ioan. Duw yn ei natur yn ofnadwy i bechod, ac yn holl-bresenol fel gwrthddrych addoliad, sydd yn nhystiolaeth Crist; ond Duw yn ei Fab, yn cynyg trugaredd ar ei lŵ i droseddwr, sydd yn nhystiolaeth Ioan. Rhaid i'r addolwr feddu y ddau; heb y cyntaf, â yn rhyfygus; heb y diweddaf, â yn anobeithiol; a thystiolaeth yn codi allan o feddwl o dan ddylanwad y ddau yw y geiriau prydfferth hyn—

I. CARIAD DUW A CHEARIAD DYN.—Gesyd yr Apostol allan ddwy o ffeithiau gogoneddus—Duw yn caru dyn, a dyn yn caru Duw; ond dengys bod gwahaniaeth anfeidrol rhyngddynt, er bod yma gysylltiad anwahanol. Priodoledd yw cariad yn Nuw, ond egwyddor yw cariad mewn dyn. Nis gallwn feddwl am briodoledd ar wahan i'r gwrthddrych, ond gallwn wahanu egwyddorion a gwrthddrychau. Priodoleddau ydynt yn *natur* Duw, ond egwyddorion ydynt yn *meddwl* dyn. Mae Duw yn annghyfnewidiol—Efe yw yr uchaf, a phob peth yn ddarostyngedig iddo; mae dyn yn gyfnewidiol, o herwydd y mae yn derfynol mewn gwybodaeth a gallu. Dylanwada egwyddorion ar y gwrthddrych ei hun yn gyntaf, ond priodoleddau y tuallan iddynt eu hunain. Dangosir Duw yn y Beibl y tuallan i bob cylch o ddylanwad, ac felly gweithreda o *hono ei hun*; ond dangosir dyn fel yn gweithredu oddiar gymhellion allanol; ac y mae cariad y Cristion uchaf ar y ddaear, ac yn yr ystad uchaf o ddadblygiad ac ysbrydolrwydd, yn gweithredu drwy ddylanwadau dwyfol “am iddo ef yn gyntaf ein caru ni.”

Caru y prydfferth y mae dyn.—Nid yw pawb yn caru yr

un gwrthddrychau, ond y mae pob gwrthddrych a gerir yn hawddgar i'r hwn sydd yn ei garu. Ceir gafael mewn rhai pethau y mae pawb yn rhwym o'u caru. Pwy a all beidio caru y lili wen, dyner, wylaidd? Bu yn gystadleuaeth rhwng goreu celfyddyd y dwyrain a'r lili unwaith. Safodd Solomon y brenin, wedi ei wisgo yn ngoreu celfyddyd, yn ymyl y lili; a dyna a ddywedodd y Beirniad—"Ni wisgwyd Solomon yn ei holl ogoniant fel un o'r rhai hyn." Pwy nad yw yn hoffi cerdded drwy rodfeydd yr ardd, i edrych ar y blodau, ac i fwynhau eu perarogl? Felly hefyd mewn ystyr foesol—y prydfarth yr ydym ni yn ei garu. Ond y mae cariad Duw yn dra gwahanol—*ein caru ni*, yr hagr, yr aflan, y pechadur. Nid y blodau peraroglus, ond y fieren; nid y pren afalau, yn plygu o dan ei ffrwythau addfed, ond y ffigysbren ddiffwyth, ddiwerth; nid y grawnwin, ond y grawn gwylltion; nid y llyfn, hardd a dianaf, ond y creithiog gan anwiredd a phechod—*ein caru ni*.

Caru y rhinweddol a'r gwerthfawr mae dyn.—Clodforir y boneddwr sydd yn gwasgar ei dda i dlodion y pentref sydd yn ei ymyl, drws ei balas yn agored i'r angenus, a'i galon yn dosturiol wrthynt. Ond pwy a fedr garu boneddwr arall, yr hwn ni wrendy gwyn y weddw na chri yr amddifad, ni thosturia wrth yr hwn a wylai am elusen? Sylwer ar ddyn yn anturio i'r dyfnder yn mhen ychydig wedi y danchwa, i chwilio am ei gyd-ddynion a allai fod wedi eu gadael yn weddill gan angau; clodforir ef gan bob tafod am ei wroldeb—gwroldeb sydd yn tafu gwroldeb y milwr i'r cysgod. Pwy all beidio a'i garu? Ond pwy a fedr garu y dyn agorodd ei *lamp* nes hyrddio ugeiniau i fyd arall? Caru y rhinweddol a fedrwn ni, ond ein caru ni wnaeth Duw—y ni sydd yn edrych ar drueni y byd yn amlhau heb ei wrthweithio, na gwneyd un *protest* yn ei erbyn—y ni sydd yn cofleidio teimladau llygredig—dybenion gau a bywyd ofer—*ein caru ni*.

Ymddyrchafu yw tuedd cariad dyn—dyfod i lawr yw mawredd cariad Duw.—Effaith pechod yw darostwng;

canlyniad grâs yw codi. Y mae meddwl o dan ddylanwad pechod yn ymsuddo, ond y mae meddwl o dan ddylanwad santeiddrwydd yn ymddyrchafu. Caru rhywbeth yn yr uchder y mae dyn—gesyd ei nôd ar yr hyn sydd uchel; ceisia gyfoeth—*anchwiliadwy* olud; dymuna am y santaidd, *delw* y Duw anweledig; gobeithia am gymdeithas uchel, Abraham, Isaac, a Jacob, ac am gartref ogoneddus—*nefoedd* dragywyddol. Wrth garu pechod, fe ddisgyna dyn at ddrws uffern, heb fyned i fewn; ond wrth garu santeiddrwydd, fe esgyna dyn at borth y nef. Teimlai Paul anhawsder i aros ar y ddaear, gan mor nerthol oedd ei gariad—yr oedd ei enaid wedi ymlenwi âg ef. Cedwir yr awyren pan yn cael ei llanw â nwy, wrth y ddaear gan raffau, y rhai a dorir pan y bydd yn barod i esgyn.—Yr oedd Paul mor llawn o gariad, fel y teimlai awydd cryf i gael datod y rhaffau a'i dâlïai wrth y ddaear. Mae pob peth yn tyfu, ond marwol-aeth a'i theyrnas—myned i lawr y mae hon; ond codi i orsedd y mae bywyd—gorsedd cariad.

“*Ein caru ni.*”—Dyfod i lawr mae cariad Duw—edrych i'r dyfnder, dyfnder nas gallai neb ei blymio ond cariad. Proffwydo uwchben marwolion y fynwent ddynol y mae cariad Duw. Gorfoleddu ar fynydd Sion ar ddydd y cymmod y mae cariad dyn; ond gofalu am gadw y dystiolaeth yn dawel yn yr arch o dan y drugareddfa a'r gwaed, y mae cariad Duw. Dringo i fyny lechweddau mynydd y gweddnewidiad i gyfarfod â phreswylwyr y nefoedd y mae cariad dyn; ond dringo llechweddau Calfaria y mae cariad Duw, i symud oddiar y ffordd rwystrau cadw pechadur; chwilio mae hwn am ddyn yn y carcharau, yn y pydewau, i'w godi a'i osod gyda phendefigion y nef.

“*Yn hyn y mae cariad.*”—Awgryma mai o'r braidd y mae cariad y Cristion uchaf yn deilwng o'r enw. “Yn hyn y mae cariad.” Yr Anfeidrol yn sefydlu ei feddwl ar ei greadur gwrthnysig, mewn bwriad i'w gadw heb ei gosbi. Y Tragywyddol yn myned i wneyd rhywbeth mewn amser, fyddai yn ganolbwynt ryfeddodau tragywyddoldeb ei hun.

Yr orsedd *ddwyfol* yn boddloni i'r thrônau, yr arglwyddiaethau, yr awdurdodau, a'r tywysogaethau, i droi eu golwg at orsedd sylfaenwyd ar farwolaeth rhwng lladron ar fynydd dinôd ar y ddaear. Y trigfanau gogoneddusaf yn y nef i gael eu gwneyd yn balasau i blant y tomenau, a thlodion y cwmp i gael eu gwneyd yn gyfoethogion grâs.

"*Yn hyn y mae cariad.*"—Ddaear, paid a sôn am dy gariad—canmol gariad yr Hwn a anwyd yn Mhethlehem, chwysodd waed, ddyoddefodd hoelion, anturiodd i'r tywyllwch barnol ar Galfari. Dyn yn caru Duw—pa ryfedd? Efe sydd yn cael ei gyfiawnhau; ond yn nghyfiawnder pwy? Efe sydd yn derbyn y maddeuant; ond pwy a'i prynodd â'i waed? Bywyd i ddyn; ond pwy a fu farw? "*Yn hyn y mae cariad*" ymgynhyrfodd erioed yn y fynwes dragywyddol, lifodd allan yn dosturi ac ymgeledd i fyd euog, ag sydd yn dâl baner heddwach o flaen y byd yn mhob oes.

CARIAD FEL YR EGLURWYD EF YN ANFONIAID CRIST.—"*Ddanfon o Dduw ei unig-anedig Fab i'r byd, fel y byddem fyw drwyddo Ef.*"—Y mae gosodiad yr Apostol yn ddeublyg, sef fod cariad Duw wedi anfon y Mab i fod yn Iawn dros ein pechodau, a'i fod yntau yn ei ddyfodiad a'i offrymiad ei Hun fel Iawn yn egluro y cariad hwnw. Mae tystiolaeth y Gwirionedd am amcan cnawdoliad yr Arglwydd Iesu yn bendant, eglur, ac ansyfladwy. Danfon i fod yn Iawn. Y mae y syniad o Iawn y tuallan i ni, yn uwch na ni. Y mae yr Iachawdwriaeth yn ei holl ddarpariadau yn symudiad y tuallan i ddyn. Y teimlad cyntaf a gynygia ei hun i'r pechadur yw euogrwydd—ymwybyddiaeth o haeddiant cosbedigaeth; ac o'r ymwybyddiaeth hyn y cyfyd ofn. Nis gellir ymryddhau o'r ofn nes colli yr euogrwydd, ac ni chollir yr euogrwydd nes y gwahenir dyn oddiwrth bechod, a chodi o'r gydwybod bob olion o'i fodolaeth. Pa fodd y gwneir hyn?—Drwy Iawn. "Yr Hwn a osododd Duw yn Iawn." Y mae dwyfol ysbrydoliaeth am argraffu ar feddwl dyn yn annileadwy berthynas dragywyddol yr *idea* o Iawn

a Grâs Duw. Dyma y gosodiad rhyfeddaf, cyntaf, cyn gosod y cymylau uwchben, cyn gosod tylathau ei ystafelloedd yn y dyfroedd, cyn gosod cylch ar wyneb y dyfnder, cyn gosod i ddyn ei derfynau fel nad êl drostynt. Dywedai Paul iddo ef gael ei osod yn bregethwr, ac i "air y cymmod" gael ei osod ynddo. Fe osodwyd cymorth trueiniaid ar un cadarn, ond fe osodwyd yr un cadarn hwnw i ddwyn eu cymorth cyn eu bod yn drueiniaid. O'r fan yna y cydia ystyr y geiriau—"Ei ddanfon i fod yn Iawn." Ni allasai Iesu Grist fod yn Iawn yn y nefoedd, heb ddyfod i Galfaria; ni fuasai yn dyfod i Galfaria oni bai ei fod yn Iawn; ac fe'i *danfonwyd* ef. Ni allesid ei ddanfon, oni bai ei fod wedi ei osod. Yr oedd y gosodiad tragywyddol yn hanfodol i'r ymgnawdoliad, a'r ymgnawdoliad yn hanfodol i Grist fel Iawn. *Danfon.* Mae swm awdurdod yn y gair, ond defnyddir gair arall—"dyfod," yn dangos ufudd-dod; ac yr oedd yr ufudd-dod yn gymaint a'r awdurdod. Nid dyfod i'r byd i gynyg, Iawn a wnaeth, ac nid dyfod i'r byd i wneuthur Iawn, ond i roddi Iawn—*i fod yn Iawn*—yr Iawn osodwyd er tragywyddoldeb; ac yn ol y gosodiad, cyflwynodd ei hun yn aberth i gyflawnder.

Mae neillduolrwydd yn y danfoniad hwn.—Nodweddir bywyd dyn gan un elfen neillduol. Saif Ioan Fedyddiwr yn y golwg ar gyfrif mai efe oedd y mwyaf o'r holl broffwydi; Dafydd ar gyfrif mai efe oedd y penaf o'r holl frenhinoedd; ond nid proffwydo na theyrnasu a nodwedda fywyd Crist—dyfod yma i fod yn Iawn. Yr oedd rhywbeth mewn bod yn Iawn oedd mewn cysylltiad anwahanol â'r ddaear, nas gallesid ei roddi ond yma. Gallasai Crist ysgwyd ei deyrn-wialen nes y dychrynai ei *elynyon*, heb symud oddiar ei orsedd; ond yr oedd yn rhaid dyfod i'r *ddaear* i fod yn Iawn, fel y gallai wneyd cyfeillion. Llefardodd Crist eiriau yn ei sefyllfa ddarostyngol, na allasai eu llefaru gyda y fath *ddylanwad* oddiar ei orsedd; rhoddai ei sefyllfa nerth ac ystyr ynddynt. Fe lanwodd iaith â'r syniadau tyneraf—gwin newydd mewn llestri gweigion;

planodd flodau gwirioneddau ysbrydol yn nghanol damcaniaethau gwylltion meddwl dyn, gosododd i lawr sylfaen cyfundrefn o wirioneddau sydd i ddyfnhau yn eu heffeithiau, ac i ledu yn eu dylanwad, am oesau y ddaear. Ond nid i hyn y danfonwyd ef.

Fe'i danfonwyd ef i ddyoddef.—Yr oedd hyn yn syniad dyeithr i'r byd. Dyfod yma i fwynhau mae dyn. Tynodd dyn gynllun o'i fywyd, ond ni feddyliodd am osod *dyoddef* ynddo. Trefnodd i gyfarfod â gofynion pawb ond y meddyg. Y mae y meddwl dynol ar ei eithaf yn ceisio *codi bywyd allan o ganol elfenau dyoddefaint*—dyfod yma i fyw mae dynion, ond dyfod yma i farw mewn dyoddefaint wnaeth Crist. Yr oedd gormod o elfenau bywyd yn yr Arglwydd Iesu i allu marw nes dyfod i ganol elfenau marwolaeth ar y ddaear. Gorsedd bywyd yw gorsedd Duw, ac yr oedd yn rhaid i'r Iesu symud oddiarni mewn trefn i allu marw. Bywyd sydd yn y nefoedd. Bydd yr anallu sydd yn y Cristion ar y ddaear i fyw, wedi troi yn y sant yn y nef yn anallu i farw—“*Nis gallant farw mwy.*” Er i Grist ddyfod i'r ddaear i farw, ni allasai farw yn mhob man ar y ddaear. Rhodiodd drwy ganol cleddyfau ei elynion yn anfarwol, a dywedai “Ni ddaeth fy awr i eto.” Yr oedd man ei farwolaeth, fel man ei enedigaeth, yn nghynllun ei ddarostyngiad. Ond fe'i anfonwyd ef i wneyd peth mwy na *marw*—rhoddi Iawn. Nid oedd dim yn mhigau y goron ddrain, oni bai ei bod ar ben “Yr Hwn a osododd Duw yn Iawn.” Yr oedd mwy na chondemniad Pilat yn nghynwys y cwpan a yfwyd, ac yr oedd mwy na cholli ar fywyd yn y farwolaeth—yr oedd yno *gyflwyno* bywyd.

Yn hyn yr eglurwyd Cariad Duw.—Nid cynyrehwyd, ond eglurwyd.—Cynyrech cariad, gweithred cariad, rhodd cariad. Nid Iawn yn cynyrchu cariad, ond Iawn yn egluro cariad—am fod Duw wedi caru y bu yr Iesu farw; a þhrwy farwolaeth Crist y gwelir cariad Duw. Marwolaeth Crist yn unig a allasai fod yn gyfrwng digon mawr i egluro cariad Duw; ac yn y fan yr eglurwyd ei gariad, yr eglurwyd ei

gyfiawnder hefyd. Yn nghosbedigaeth dyn yr oedd yr euog yn marw gyda bod y fflam yn cyneuu; ond pan aeth Mab Duw o dan gosbedigaeth ein hanwiredd, fe gafodd cyfiawnder Duw fan i roddi golwg gyflawn ar ei hawliau, a'u gofyn i eithaf pob pwynt; fe barhaodd yr aberth hwn i losgi nes diffoddodd y fflam. Fe gafodd Duw fwy o gyfle i egluro ei gyfiawnder yn aberth ei Fab nag a gafodd erioed, ac nag a gaiff byth; ond cariad oedd fwyaf yn y golwg yno. Egluro ei gariad oedd yr amcan. Cafodd Duw le i ddangos *helaethrwydd* ei gariad yn Nghrist. Nis gall amgylchiadau ddangos dyn yn gyflawn bob amser. Mae y boneddwr yn byw yn ei balas gorwych; rhodio yn ei barciau eang, iachus, a thawel; gyra yn ei gerbyd ysblenydd, yn cael ei dynu gan feirch porthianus; plyga pawb iddo a'i gwêl. Ond y mae gan y boneddwr rywbeth na all amgylchiadau ei fywyd ef ei egluro. Eistedda yn ffenestr ei balas un diwrnod; sylwa ar gardotyn yn neshâu at y tŷ gan grynu. Pan y gwêl ef, cynhyrfa ei galon; a chyn fod y cardotyn wedi dweyd haner ei *story*, y mae y boneddwr wedi rhoi. Meddai y truan ar allu mwy dylanwadol na'i eiriau—rywbeth a wyddai y ffordd i galon y boneddwr; ac yn nhlodi y cardotyn y cafodd ei galon gyfrwng i ddangos beth oedd ynddi. Y mae mawredd yn perthyn i Dduw; ymddangosodd yn ei ogoniant ar ben Sinai. Yr oedd yn gwisgo goleuni fel dilledyn, taenai y nefoedd fel llen, llewyrchai ei fellt o'i amgylchi—Jehofa yn ei balas oedd yno; rhodiai ar adenydd y gwynt, clywid swm ei gerddediad ef yn y storom. Myned allan yn ei gerbyd—cerbydau Duw ydynt filoedd o angelion. Ymgyrmai y thrônau a'r tywysogaethau iddo; ond yr oedd yno rywbeth na ellid ei ddangos yn ngoleuni melt, na ellid ei ddatgan mewn sain udgorn, ac nad ellid ei ysgrifenu ar lechau. Ond pan gwelodd bechadur ar ei liniau, cafodd y peth hwnw gyfle i ddyfod i'r golwg, "a thi a faddeuaist anwiredd fy mhechod." Maddeuant mewn lawn yw yr esboniad cyflawnaf ar ogoniant y galon ddwyfol. Weithiau pan fydd y Frenhines yn myned i agor y Senedd

Relig. 3.
21-17

ei hun, bydd gorymdaith yn myned y diwrnod hwnw drwy heolydd y ddinas. Bydd holl rwysg y llys, holl anrhydedd yr orsedd, a holl fawredd y deyrnas, yn dyfod i'r golwg y dydd hwnw. Bydd miloedd o edrychwyr yn ochrau yr heolydd, amgylchynir hi gan *guards*; ond yn nghanol y cyfan, dacw fradwr yn cynyg at fywyd y Frenhines. Daliwyd ef, rhwymwyd ef, carcharwyd ef. Ond ar ddydd condemniad yr adyn i gosbedigaeth, cyhoeddodd drugaredd iddo; *dyna ei chalon hi*. Gwelwyd Iesu Grist yn nghanol gorymdaith, gwaeddai y dorf—"Hosanah i Fab Dafydd;" ond yr oedd rhywbeth yn nghanol y Gwarddwr, na allasai peth felly ei dynu allan. Ond y mae yna rywrai yn cynllwyn am ei fywyd—mae ei fradwr wedi ei-enwi, ei gamgyhuddwyr wedi eu cyflogi, ond fe gafodd gyfle yn y fan hono i ddangos ei galon—"O Dad maddeu iddynt."

Pwy a all fesur y cariad hwn fel yr eglurwyd ef? Mae mesur y cariad yn rhoi mesur ar werth yr hyn a gerir. Mesurir gwerth yr aur wrth yr ymdrech a wneir i gael gafael arno; gwerth rhyddid wrth yr ymdrech a wneir i'w brynu. Mae cariad mewn Iawn wedi *prynu* un peth, a *dim ond un—enaid*; ac y mae y gwerth dalwyd yn gwrthdystio yn erbyn colli enaid, ond iddo gredu yn Nuw.

PREGETH V.

DIRMYGU DUW.

“PAHAM y dirmyga yr annuwiol Dduw? Dywedodd yn ei galon, Nid ymofyni.”—SALM x. 13.

UN o ofyniadau anatebadwy y Beibl yw y geiriau hyn, wedi codi allan o feddwl yn cael ei siglo gan ddirgelwech llywodraeth Duw yn ei pherthynas â'r annuwiol. Mae llawer o ofyniadau yn y Beibl, wedi eu rhoddi oddiar gywraingarwch, i chwilio i fewn i'r rheswm am weithredoedd Duw. Rhoddwyd gofyniadau eraill oddiar ddybenion twyllodrus, i geisio rhwydo rhai yn eu hymadroddion; ac y mae gofyniadau wedi eu rhoddi i ddihuno meddwl yn mherthynas i gwestiynau mawrion ein bodolaeth.—“Pa fodd y diangwn ni os esgeuluswn iachawdwriaeth.” “Canys os o'r braidd y mae y cyfiawn yn gadwedig, pa le yr ymddengys yr annuwiol a'r pechadur?” Ond gofynwyd y cwestiwn hwn yn nghanol prudd-der ysbryd; a dengys mwy o syndod y meddwl at y ffaith, nag o awydd gwybod y paham am dani. Er mwyn gweled nerth y cwestiwn hwn, cymmerwn olwg ar y dirmygwr, y dirmyg, a'r Dirmygiedig. Yr annuwiol, yn dirmygu, a dirmygu Duw.

Yr annuwiol.—Cyfarfyddwn â'r enw hwn yn aml yn y datguddiad dwyfol, a golyga wahanol wrthdrysau, y rhai a ellir benderfynu oddiwrth y cysylltiadau neilldrol y saif y gair ynddynt. Nid yw yn cynwys, o angenrheidrwydd, fod y cyfryw yn wadwyr cyhoeddus o fodolaeth Duw; neu, os yn cyfaddef y ffaith o fodolaeth Duw, yn wadwyr o'i hawliau, ac o'u rhwymedigaeth foesol iddo; eithr gall olygu y cyfryw ydynt, er yn cyfaddef y ddwy ffaith uchod, yn wrthwynëbwyr Duw mewn meddwl a gweithred. Mae anffyddiaeth ymarferol yn eangach nag anffyddiaeth eg-

wyddorol. Mae y rhai a anufuddhant i hawliau y gwirionedd, y rhydd eu barn gydsyniad iddo, yn amlach na'r rhai a wadant y gwirionedd a'i hawliau; ac wrth y gair "annuwiol" y golygir fynychaf y cyntaf. Mae gwahaniaeth eto rhwng crediniaeth ddwfn yn y gwirionedd a rhoddi cydsyniad oeraidd ffurfiol iddo. Hyn sydd yn cyfrif am lawer o bethau a ymddangosant i ni yn anghyson; ac ofnwn fod miloedd o wrandawyr yr efengyl, tra yn rhoddi cydsyniad oeraidd i'r gwirionedd, eto yn amddifad o *grediniaeth* yn y gwirionedd. Gall dyn fwynhau tystiolaeth allanol gwirionedd, ac eto beidio derbyn y gwirionedd fel hanfod ei fywyd, fel ffurf ei gymeriad moesol, a rheol ddiwyrni ei weithredgedd at bawb. Gofyned y dyn yna iddo ei hun beth sydd yn cyfrif am ei anghrediniaeth—ei fod yn annuwiol. Amgylchynir ef gan brofion sydd wedi argyhoeddi meddyliau galluocach. Mae "y cythreuliaid yn credu ac yn crynu." Mae ef yn annuwiol pan y mae profion yn codi allan o uffern—mae y fflam yn glasu, y tân yn poethu, a'r dyoddefaint yn dyfnhau. Gwrthwyneba y dylanwadau cryfaf, a santeiddiaf; yn annuwiol pan y mae yn cael ei guddio yn nghanol cwmwl o dystiolaethau anfarwol; elfenau dyoddefaint tragywyddol yn ei gymeriad pwr ac annuwiol, ac y mae gofyniad ein testyn yn codi allan mewn unol lef gan uffernolion, daearolion, a nefolion,—"Paham y dirmyga yr annuwiol Dduw?"

Dirmyg.—Nid yw y natur ddynol yn fwy byw i ddim nag i ddirmyg; a pha uchaf y cyfyd y natur i fyny mewn santeiddrwydd, uchaf oll y cyfyd hi hefyd mewn ysbrydolerwydd, ac i'r graddau hynny y bydd pob peth croes i barch ac anrhydedd yn ffaidd ganddi. Mae dirmyg yn codi allan o nodwedd y dirmygwr neu y dirmygiedig, neu o gyfuniad o elfenau tebyg yn y ddau. Nid perthyn i sefyllfa bywyd y mae. Mae miloedd yn dlawd, ond ni feiddiai neb eu dirmygu; mae miloedd yn gyfoethog, ond ni feddyliai neb eu parchu. Mae rhywbeth yn y gair "dirmyg" sydd yn anhawdd agoshau ato i gael syniad cyflawn am dano.

Gwrthwyneb i barch yw dirmyg; ac fel y mae parch yn dylanwadu ar feddwl i'w loni, felly y mae dirmyg yn dylanwadu ar feddwl i'w bruddhau. Rhaid mesur y ddau eto wrth y personau y daw y pethau hyn i gyffyrddiad â hwy. Mae ein parch i ddyn yn codi yn gyfatebol i'r rhinweddau fyddo yn y dyn ei hunan. Mae dirmyg yn disgyn i'r graddau o lygredigaeth fyddo yn ewyllys y 'dirmygwr, neu yn nghymeriad y dirmygiedig. Dyma yr ymosodiad cryfaf ar ein teimladau. Mae y balch yn herio pawb i bob peth—mae iaith ei enau ac ansawdd ei ysbryd am anwybyddu pawb eraill, a theimlwch yn ei ymyl eich bod chiwi yn llawer llai nag y dylech fod, neu ei fod ef yn ymddangos yn fwy nag yw mewn gwirionedd. Mae yr hunanol yn byw ar gibau gwlad y moch, yn yfed gwynt y nefoedd fel yr asen wyllt, yn paentio pren pwdr yn y lliwiau mwyaf prydferth, ac nid yw yn gweled copa yr anrhydeddus yn rhy dda o balmant o dan ei *droed* ef. Nid yw yn teimlo dros anrhydedd neb os gall ef enill gradd o glôd; a'i ddiwedd fydd cael ei droi i ryw fath o fynyddoedd i bori gwellt, nes y delo i adnabod ei hun. Y mae yr athrodwr yn treulio ei fywyd y tu cefn i gymdeithas, yn cuddio ei arfog-aeth o dan wisg o sidan, yn cynyg mêl, ond yn rhoddi gwenwyn; dywed y gwaethaf am bawb, ac o bawb efe yw y gwaethaf ei hun; ac ymhyfryda yn ngwaedu calon—ffynonell bywyd. Mae y gwêniaethiwr yn tori beddau, ond yn eu cuddio â blodau; yn sychu gwyneb dyn â chadach sidan, ond yn gofalu rhoddi *chloroform* ynddi i wneyd iddo gysgu, ac yna ysbeilia ef o'i drysorau. Mae mwy o chwerthin ar ei wyneb nag yn ei galon, ac yn trywanu wrth gusanu; ond y mae dirmyg yn gyfuniad o'r cyfan. Mewn dirmyg y mae ffolineb creulawn y balch, diystyrwch yr hunanol, brâd yr athrodwr, a thwyll y gwêniaethus—yn unedig, i geisio cuddio yr anrhydeddus mewn bratiau, a'r daionus mewn gwaradwydd. Dirmyg—clywir ef heb iddo lefaru, teimlir ef fwyaf mewn distawrwydd, gwelir ef yn y nos, rhyfela heb swnio yr udgorn, melltena allan o lygaid.

ei berchen i galon ei elyn fel brathiad cleddyf, a chwery ar y wyneb fel nodwyddau ar ddeial *clock*, i ddangos y teimladau satanaidd a lifant allan yn ffrydiau o *lava* gwenwynig drwy bob rhêdle gânt. Gwawdia y prydferth, hyd yn nôd yn y lili, peroriaeth hyd yn nôd yn yr eos, haelioni hyd yn nôd yn yr haul, cyflawnder hyd yn nôd yn y môr, newydddeb hyd yn nôd yn y gwanwyn, gogoniant hyd yn nôd yn y nefoedd, cydwybod hyd yn nôd yn y merthyr, tynerwel hyd yn nôd yn y fam, a chariad hyd yn nôd yn Nuw ei hunan; ond bydd yn anmhosibl i'w saethau fyned yn is na'i fwa, ei gawodydd ddisgyn yn is na'i gwmwl; ac fel y *gas*, nis gall fyned yn is na'r *gasometer*. Cynyg am yr uchder y mae, ac yma y mae wedi myned at yr uchder mwyaf. Am y mwyaf y cynygia. Saetha at yr eryr, er nas gall gario y ddryw; saetha y llew, yr hwn y byddai ysgydwad ei fwng yn farwolaeth iddo; a theifl ei dryferau at y lêfiathan. Dirmyg!—onid oes sawyr ei wlad ar ei wisg, ac ôl ei gartref ar ei dafod-leferydd? Ond dyma *glimax* ei waith—*dirmygu Duw*. Mae y cwestiwn yn dyfod gyda nerth—“Paham y dirmyga yr annuwiol Dduw?”

Dirmygu Duw.—Dylid mesur holl weithredoedd dyn, nid wrth yr amgylchiadau yn y rhai y cyflawnir y cyfryw, ond wrth y gwirionedd y byddo dyn yn ei dori neu yn ei gadw—wrth y daioni y byddo dyn yn ei ddiystyru, neu yn ei gydnabod; wrth yr awdurdod y byddo dyn yn ufuddhau iddo, neu yn pechu yn ei erbyn; ac wrth yr egwyddor fyddo yn ysgogi y cyfryw i weithredu, a'r amcanion fyddo yn y golwg. Gall y rheol hon i farnu fod yn fantais, neu yn anfantais; ond ymddengys fod y fantais yn fwy. Mae rhywbeth mwy mewn gweithred na'r hyn a welir â llygad, rhywbeth mwy mewn iaith na'r hyn a glywir â'r glust. Mae ein gweithredoedd ni fel y golofn hono oedd rhwng Israel a'r Aiphitiaid. *Ffurf* y weithred sydd yn arweddu at y dynol, ond *egwyddor* y weithred sydd yn arweddu at y dwyfol, a'r egwyddor sydd yn rhoddi y ffurf, fel y mae bywyd y pren yn rhoddi ffurf iddo. Ebedmelech a gododd

y proffwyd Jeremiah o'r daeardŷ. Gwelai pawb y bratiau a daflodd i'r proffwyd i roddi o dan ei geseiliau, a'r rhaffau a gododd y proffwyd i fyny; ond yr oedd yno egwyddor wedi bod yn mesur y dyfnder cyn cael gafael ar y rhaffau. Dwy hatling daflodd y weddw dlawd i'r drysorfa—dyna ffurf allanol yr egwyddor, ac yn y ffurf yna y gwelodd y byd hi gyntaf; ond yr oedd yr egwyddor wedi cyfrif a neillduo yr hatlingau ar *gounter y relieving officer*; gwelodd Duw hi y pryd hwnw. Yn nghyflawnder yr amser y gwelodd y byd athrawiaeth yr ymgnewdoliad; ond yr oedd yr Hwn a ymgnewdolodd yn llawenyachu yn nghyfanedde ei ddaear ef er tragywyddoldeb; ac yn yr ystyr hyn, yn Oen wedi ei ladd er cyn seiliad y byd—wedi ei ragordeinio cyn yr oesoedd i'n gwybodaeth ni. Ymddengys bod trefniant Duw i osod ein cyfrifoldeb i orphwys ar ein hegwyddorion a'n hamcanion, yn hytrach nag ar weithredoedd, yn dynerwch o eiddo Duw. Pechadurusrwydd y galon ddynol—llygredigaeth cymeriad troseddwr—sydd yn cyfrif am bod hyn yn anfantais i ddyn yn ei gyfrifoldeb.

Dirmygu Duw.—Beth all fod yn gynwysedig yn y ddau air tragywyddol bwysig—*dirmygu Duw?* Mesurer y geiriau wrth *allu* Duw. Dirmygu y gallu mwyaf. Mae y byd yn addoli gallu yn mhob ystyr. Mae temlau godidog wedi eu hadeiladu yn gofgolofnau o ryw fath o allu; mae y pren ni phydra wedi ei oreuro, a'r marwor caled wedi ei naddu, i gofio gallu. Ond dyma y gallu mwyaf—Hwn grëodd y cyfan â gair ei enau.—A fedri di ddirmygu hwn? Dyma y daioni mwyaf—ffynonell y cyfan.—A fedri di ddirmygu hwn? Dyma yr awdurdod uchaf—deddf-roddwr gwreiddiol yr holl fydysawd.—A fedri di ddirmygu hwn? Cydmarer y dirmygwr a'r dirmygiedig—yr annuwiol a Duw. Yr annuwiol sydd yn orchuddiedig â gwaradwydd ei bechod, yn frycheuyn du yn llywodraeth Duw, yn wrth-ddrych cydymdeimlad y cyfanfyd ar gyfrif ei drueni a'i ffolineb—yn dirmygu Duw, y Duw sydd yn rhwymo godreu cymylau ei ddigofaint, sydd yn clymu y ddaear rhag agor

i lyncu yr annuwiol—dirmygu Duw! Yr annuwiol sydd yn nesu at fwrdd huliwyd gan drugaredd bob boreu, yn llechu o dan edyn addewidion tynerwch Duw, yn dirmygu Duw—y Duw sydd yn Anfeidrol mewn urddas, annherffynol mewn doethineb, ac yn llawn grás a thrugaredd. Ger bron Duw mae y cherubiaid a'u chwech aden yn cuddio eu hwynebau pan yn agoshau i'w wyddfod; mae yr angelion yn dân fflamlyd oddi ger bron wyneb Duw, fel pe cyffyrddai blaen eu hedyn â'r mynydd, y mygai yn y fan. Dirmygu Duw.—*Paham?* Cwestiwn gorsedd ydyw. Mae y nefoedd yn addoli, uffern yn crynu, a dyn yn dirmygu. Gofynir, paham? “Pan ddisgynais,” meddai Duw, “i roddi gorchymyn i ti beidio cymeryd fy enw yn ofer, mi roddais y paham i ti. Yr wyf finau yn disgwyl y paham genyt tithau.” Ar dy dafod mae llŵ.—*Paham?* Dylai fod arno weddi. Yn dy galon mae melldith.—*Paham?* Dylai fod ynnddi rás. Yn dy fywyd mae anufudd-dod.—*Paham?* Mae y gair yma yn dâl ei afael yn y gwrthddrychau—Dirmygu Duw. Ymddengys bod Dafydd yn amcanu gosod y cwestiwn wrth orsedd Duw, ac yn gofyn paham y goddefai efe i'r annuwiol ei ddirmygu; ac yn y Salm hon, y mae yn enwi amryw ddulliau drwy y rhai y dirmygai yr annuwiol Dduw.

I. AMCANAI YR ANNUWIOL DDANGOS NAD OEDD DUW YN GWAHANIAETHU RHWNG DRWG A DA.—Y mae amryw wirioneddau nad amcanwyd yr Ysgrythyrau i'w profi, am y rheswm y cynwysant y prawf ynddynt eu hunain; ac yn eu plith, y mae y gwahaniaeth sydd yn hanfodol rhwng drwg a da. Cyfyd y gwahaniaeth o'u natur, a bydd y gwahaniaeth hwn yn aros yn dragywydd, o herwydd nis gellir newid natur pethau. Y mae rhinwedd a phechod yn ffeithiau nas gellir eu gwadu. Mae pob ymchwiliad gwerth sylw yn cychwyn yn y fan hon. Hefyd, y mae syniad yn meddwl dyn yn annibynol ar ddatguddiad dwyfol am y ddwy ffaith—cymeradwyir y naill, a chondemnir y llall. Cydnabyddir bod rhinwedd yn hanfod cymdeithas, ac yn

ffynonell dedwyddwch, tra y cydnabyddir i'r gwrthwyneb am bechod. Nid yw y dybiaeth mai diffyg yw pechod yn cyfarfod y cwestiwn yn deg. Absenoldeb goleuni yw tywyllwch, absenoldeb nerth yw gwendid, absenoldeb clyw yw byddardod, diffyg y gallu i weled yw dallineb; ond cofier mai amodau pethau yw y rhai hyn a berthyn yn gyffredinol mewn natur, yn annibynol ar bersonoliaeth a chyfrifoldeb—nacâd o fendithion gwerthfawr ydynt. Ni bydd y dall yn gyfrifol am beidio a mwynhau prydfferthwch lliwiau. Ond, tybed mai peth felly yw pechod? Ai nacâd ydyw yn unig? onid oes yma egwyddorion llygredig yn cael eu corffoli, teimladau isel yn cael eu gweithio allan, amcanion drwg yn cael eu cyrhaedd, a'r cyfan yn droseddau ar wirionedd Duw—yn wadiad pendant ar hawliau Duw, a chymeriad moesol yn cael ei ddinystrio? Ai diffyg yn unig o ddiniweidrwydd yw llofruddiaeth? ai diffyg yn unig o onestrwydd yw lladrad? Mae gan bechod ei ffurf, ei amcanion, a charia ei gondemniad gydag ef. Onid yw rhinwedd yn hanfod bywyd cymdeithas, ac yn fywyd pob hanfod? Pa beth fyddai y byd hwn pe na byddai ynddo rhinwedd? Byddai yr un mor rhesymol gofyn beth fyddai y gyfundrefn hon heb haul. Beth fyddai y corff dynol heb galon. Rhinwedd yw y santeiddrwydd sydd yn nghalon pechadur crediniol, yn tyfu o râs Duw; yr ufudd-dod sydd yn mywyd y credadyn yn gogoneddu Duw, yr haelioni sydd yn llenwi cwpbwrdd y weddw âg ymborth, yn dilladu yr amddifad. Hwn sydd yn lleddfu trueni y ddaear, yn cloi i fyny ffynonau gofidiau dynoliaeth yn brawf ar *loyalty* dynion ac angelion i'r orsedd wen. Gallodd hwn rhoi y goreu i Dduw, a chadw y gwaethaf iddo ei hun, yn mherson *Abel*; cadw *sulphur* anwiredd tŷ Jeroboam i fwrdd o galon Abiah; rhodio drwy ganol colynau gwiberod profedigaethau yr Aipht heb gael ei rhwygo, yn mherson Joseph; yn ddigon cryf, yn mhersonau pedwar gwron Babilon, i wrthod bwyd y brenin, gan ddewis byw ar ffa a dwfr, a gofalodd am fod eu golwg yn decach yn y diwedd. Tybed

nad yw dau beth mor wahanol o dan sylw Duw? Ai yr un ffynud iddo ef yw pechod a rhinwedd? Byddai yn ddirmyg ar lywodraeth wladol i ystyried bod y cyfryw yn edrych ar wrthryfelwr fel ar ddeiliad ufudd. Byddai yn ddirmyg ar ddyn ei hunan felly. Mae pechod dynoliaeth yn myned yn uniongyrchol yn erbyn natur Duw.—Mae barnau yr Anfeidrol yn dystiolaeth i'r sylw hwn. Dadwneyd gwaith pechod mae grâs; symud olion effeithiau drygioni mae rhinwedd. Mae y lleiaf yn sylw Duw. Dywedir y gall y cerddor wahaniaethu pan y clyw *discord* yn lleisiau miloedd; tybed nad all Duw *detectio* pechod yr annuwiol? Pe cuddit ef fel Achan yn nghanol y babell, cloddid ef oddiyno. Y mae yn ddirmyg ar Dduw i ddweyd nad yw Ef yn talu sylw iddo. Paham, ynte, O Dduw, y caiff yr annuwiol dy ddirmygu? Os wyt ti am gael esboniad, mae ef yn ei galon Ef. Mae trugaredd yr Anfeidrol yn *bluntio* picellau y dirmyg, yn arafu olwynion y barnau, yn cadw y cleddyf yn y wain—Paham y dirmygu di Dduw?

II. DIRMYGA YR ANNUWIOL DDUW DRWY WADU NEU GAMESBONIO EI LYWODRAETH.—Wrth sylwi ar y greadigaeth o'n cwmpas, y mae yn anhawdd i'r meddwl sefyll yn ddiysgog yn nghanol y fath gynhyrifiadau heb gael ei gyffroi i ofyn cwestiynau. Mae yma lawer o bethau sydd yn ymddangos yn ddirgelwch i ni, ac hyd yn nôd yn annghyson; a lle na byddo cydymdeimlad â'r mawreddog, a gostyngeddwrwydd i gydnabod llywodraeth Duw, cyfyd y meddwl i fyny i wadu neu gamesbonio llywodraeth y Duw mawr. Ymddengys yn eglur nad yw y ddaear hon y peth y bwriadwyd hi, bod llywodraeth Duw yn dangos elfenau na fuasai yn gweddu i berffeithrwydd daear, a bod yma amcanion dwyfol heb eu cyrhaedd eto. Mae dyn annuwiol yn cynnyg at wadu llywodraeth Duw. Nid yw pob ymddangosiad yn wir fodolaeth, nid yw pob bodolaeth yn cymeryd yr un ffurf, ac nid yw pob ffurf yn ymddangos i bob meddwl fel eu gilydd, ac felly nid yw pob meddwl yn rhoddi esboniad tebyg arnynt. Mae bodolaeth yn gynyrch gallu anfeidrol.

Mae bywyd yn fodolaeth mewn sefyllfa uwch. Mae y ffurf yn codi allan o natur a sefyllfa bywyd ; ond os yw meddwl yn gweled dolen ffurf a bywyd—yn gweled y gwahaniaeth rhwng bywyd a bodolaeth, tybed nad oes dolen rhwng bodolaeth greuedig a dibynol a Duw anfeidrol ? Mae bodolaeth yn eangach na bywyd ; mae bywyd o flaen, ac yn fwy na'r ffurf ; ond yn mha le mae y graig y mae yr adeilad hwn wedi ei adeiladu arni ? yn mha le mae y llaw sydd yn dâl y cyfan ar ei chleddr ? yn mha le mae y gallu sydd yn dyogelu undeb a chydweithrediad ? A raid iddo wneyd taranau â'i lais cyn y clywir ef ? hollti creigiau, a duo yr haul, cyn y gwelir ef ? “Paham y dirmyga yr annuwiol Dduw ?”

A all dyn ddysgwyl gallu esbonio pob peth yn llywodraeth Duw ? Mae yr amcanion sydd weithredoedd dwyfol, yn deilwng o ddoethineb anfeidrol. Mae doethineb Duw yn defnyddio y moddion cyfaddasaf i gyrhaedd yr amcanion ; ond y mae elfenau y cyfaddasrwydd sydd yn y moddion allan o olwg dyn yn fynych. Rhodia y dyn allan yn yr hydref ; damsanga ar y dail syrthiedig oddiar y coed, heb feddwl fod iddynt un amcan ; ond y mae Penllywodraethwr y cyfan yn cyrhaedd amcan.—O dan y dail didrefn syrthiedig y mae hadau bywyd ; ac erbyn y gwanwyn dyfodol, bydd bywyd yn tarddu o'r ddaear, yn y fan oedd yn orchuddiedig â dail o'r blaen ; cuddio yr hadau oedd amcan y dail. Meiddylodd Jacob fod hydref bywyd wedi ei ddâl. Damsangai ar y dail didrefn ; ond cuddio bywyd oedd amcan y goruchwyliaethau. Dywedir nad yw y ddaear hon y peth a fu unwaith. Mae yma olion mawredd heb ei gadael hi ; ond os nad yw hi yn cyrhaedd ei hamcan dechreuol, y mae yn cyrhaedd amcan anfeidrol uwch. Adeiladwyd palas unwaith, a gosodwyd arno gyfoeth dirfawr ; planwyd ef gan yr *architect* goreu ; ond o herwydd amgylchiadau annymunol, dinystrwyd ef fel palas. Prynodd y llywodraeth ef, a throisant ef yn *hospital* i gleifion. Yno yr anfonent lwy, a byddai ei holl ogoniant yn wasan-

aethgar iddynt i'w gwella. Palas oedd ein daear ni, yn dwyn olion doethineb anfeidrol; ond o herwydd rhyw amgylchiad annymunol iawn, dinystriwyd ef; ond mae llywodraeth cyfryngwriaeth wedi troi y palas adfeiliedig yn *hospital* i wella cleifion. Gweithred llywodraeth ydyw Llywodraeth rhaid ei chael. Hon drefnodd i'r leviathan *chwareu* yn y dyfnder, y llew i deyrnasu yn y goedwig; hon sydd yn cadw cyfartaledd yn mhrydferthwch lliwiau, *harmony* yn nghaniadaeth cysegr anian, a bywyd ar *exchange* natur bob boreu. Gofalodd hon fod blawd yn nhŷ y weddw, pan oedd eraill mewn eisiau.

“Paham y dirmyga yr annuwiol Dduw?”—y Duw sydd mor fanwl yn ei ofal am danat, nes y rhifodd wallt dy ben. Mae holl gyfoeth ei orsedd Ef yn gynygiedig i ddyn. “Paham y dirmyga yr annuwiol Dduw?”

III. DIRMYGA YR ANNUWIOL DDUW YN Y CAMDDEFNYDD A WNA O AMYNEDD DUW.—Mae y pellder sydd rhwng pechod a'i gosb yn fynych yn achlysur i'r annuwiol i gablu, a barnu nad yw Duw yn talu sylw i ddrygioni. Un o ryfeddodau tragwyddol yw amynedd Duw—y gallu sydd ynddo i oddef dynion annuwiol. Yn gysylltiedig â'r mawredd mwyaf y mae yr amynedd mwyaf. Mae yr awel wanaf yn siglo y planigyn, pan nad yw y dderwen gadarn lydanfrig yn dyoddef dim oddiwrthi. Mae y llyn bychan yn cael ei gymysgu drwyddo wrth dderbyn aberoedd bychain i fewn o lethrau y bryniau; ond mae y môr yn derbyn afonydd sydd yn golchi cyfandiroedd, heb gynhyrfu dim. Mae pethau bychain yn cynhyrfu pethau bychain; ond y mae mawredd yn gallu cydymdeimlo, ac yn gallu goddef. Ond cydsynia pawb ei fod yn greulondeb i gymeryd mantais ar amynedd a goddefgarwch i bechu mwy. Dyna yw dirmygu. Pa dynerwch fel tynerwch *mam*? Dyma gariad sydd yn cuddio lluwaws o bechodau, amynedd nad yw yn rhifo yr oriau, ffyddlondeb sydd yn ymylu ar fod yn annerfynol, gofal sydd yn parotoi at y storom, maddeuant heb gofio rhif y troseddau, dagrau i olchi budreddi y

bachgen drwg, clust i glywed ochenaid fel pe byddai yn daranau, cydymdeimlad i arllwys olew i glwyfau y ferch anufudd, a'r cyfan wedi eu huno a'u gilydd yn dynerwch mam. Ond beth a ddywedid am y bachgen gymerai fantais ar y tynerwch angylaidd yna i ddirmygu ei fam, sathru ei chynghorion, cellwair â'i theimladau? Tybed y goddefid ef gan gymdeithas? Dyna waith yr annuwiol—dirmygu Duw. Troa y tynerwch mwyaf yn faeth i'w annuwioldeb, sanga ar orchymynion Duw gydag ymfrost beiddgar, a gellir gofyn "Paham y dirmyga yr annuwiol Dduw?"

Beth yw y tynerwch mwyaf yn ymyl amynedd anfeidrol Duw? Nid difaterwch yw amynedd. Gall rhieni oddef i'w plentyn gyflawni drwg oddiar ddifaterwch. Amynedd Duw rhifodd y blynyddoedd yn chwech ugain; ond sylwer ar y cynddiluwiaid yn cablu a dirmygu. Mae cosbedigaeth yn sicr o ddilyn pechod, er y gall amynedd oddef yn hir. Nid yw y farn yn disgyn yn y fan y cyflawnwyd y drygioni. Yn yr Aipht y gorthrymodd Pharaoh, ond yn y Môr Coch y bu efe farw; yn Israel ar ei orsedd yr erlidiai Ahab, ond yn Ramoth Gilead y bu efe farw. Mae miloedd o lŵon wedi myned i fyny yn erbyn Duw mewn un awr, ond y mae amynedd yn dal y cwmwl heb hollti. Gofynnodd Senecherib "Pwy sydd Dduw?" Beth sydd yn cyfrif am fod yr annuwiol yn fyw heddyw? Ai nid oes profion yn dy hanes yn bersonol fod Duw wedi arfer amynedd tuag atat? Onid oeddet yn tori dy lŵon yn awyr Duw, yn bytheirio dy gabledau yn erbyn enw Duw, yn troi gorchymynion Duw yn belmynt o dan dy draed? Beth dy oddefodd? Buaist yn ymyl y cleddyf—beth a'i cadwodd rhag dy daro? yn ymyl y fflam—beth a'i cadwodd rhag dy losgi? Ni fuasai gwerth yn un briodoledd yn Nuw heb hon. Dyma sydd yn rhoddi cyfle iddynt oll ymgeleddu yr adyn annuwiol—*Hir*-amynedd Duw. Nid amynedd Duw, ond *hir*-amynedd—o dragywyddoldeb hyd dragywyddoldeb.

IV. DIRMYGU DUW YN Y GWETHODIAD A WNA O DREFN YR EFENGYL I'W GADW.—Trefniant o eiddo Duw yw yr Efenfyl

ar gyfer pechadur, a ddarparwyd drwy râs yn unig, ac a gynygir i'r penaf o bechaduriaid. Dangosir ei mawredd gan y ffaith mai Duw a'i darparodd—yn codi oddiar yr awdurdod fwyaf ac uchaf; darparwyd hi ar gyfer byd gwrthryfelgar a gwrthnysig, ond gwrthodir hi gan y cyfryw, a hyny gyda dirmyg. Mae y meddyg craff yn gweled gafael clefyd yn nghyfansoddiad y dyn; taer ymbilia ág ef am iddo gymeryd gofal, a chynygia iddo rhywbeth i godi ymaith wreiddiau ei ddolur; ond cyfoda y claf, a dirmyga y meddyg caredig.—Beth yw dy farn di am dano, bechadur? Anfonodd boneddwr fwyd i dŷ lle yr oedd newyn tost. Yr oedd y plant yn gwaeddi am fara, ond nis gellid ei gael; yfai y baban sugno fywyd ei fam bob yn ddiferyn; yr oedd y llefau ar adegau yn annyoddefol; ond pan ddaeth y caredigrwydd, lliniarwyd y newyn, a rhoddwyd cân yn eu gênebau. Ond dacw y boneddwr yn pasio, a'r tad yn ei ddirmygu—yn ei wawdio. Beth yw dy farn di am dano? Traddodwyd y llofrudd i'r carchar wedi i'r ddedfryd gael ei phasio, i aros boreu dydd ei ddienyddiad. Gwesgid ef i ymyl byd tragwyddol pan yr ystyriai ei sefyllfa. Penderfynodd y llywodraeth anfon *reprieve* iddo. Ond pan y clywodd, ac y daeth yn rhydd, y peth cyntaf a wnaeth oedd cablu yr orsedd, dirmygu y Frenhines. Beth yw dy farn di am dano? A yw gweithredoedd felly yn rhai sydd yn enill cymeradwyaeth dy gydwybod, ac y caret fod yn gyfranog o honynt?

Dirmygu Duw!—Efe yw yr Hwn a ddarparodd feddyginiaeth fawr yr Efengyl, i godi allan o dy feddwl wreiddiau afiechyd enaid—ac sydd yn dy lwyr iachau; ond yn hytrach na derbyn, yn gwrthod y ddarpariaeth yn ei holl gyflawnder. Paham y dirmygu Dduw?—Efe yw yr Hwn sydd wedi darparu digon ar gyfer angen enaid, digon o wirionedd i bwysu yn y glorian, digon o gyflawnder i ymddangos yn berffaith ger bron Duw, digon o reswm i'w ddadleu ger bron gorsedd grâs am drugaredd, digon o faeth ysbrydol i enaid anfarwol. Paham y dirmygu Dduw drwy wrthod

y cyfan. Efe sydd yn cynyg bywyd tragywyddol i'r truan condemniedig, yn cynyg tynu y gorden oddiam dy wddf, a symud y farn oddiar dy berson; ond paham y dirmygu Dduw drwy wrthod? Paham? a wyt ti yn gweled dyodd-efaint y groes yn rhy fach, cyn dy fod ti eto am bwyo hoelion, nid i ddwylaw a thraed dy Arglwydd, ond i'w galon? A wyt ti yn gweled bai yn y cyfiawnder a gynygir? Bu Hwn o dan sylw deddf yr orsedd dragywyddol cyn ei gynyg i ti—mae *stamp* y llywodraeth arno—*ei gyfiawnder ef*. Mae y wisg hon wedi ei phrofi cyn y cei di ei gwisgo. Paham y dirmygu Dduw?—A oes dim eisiau iachawdwr-iaeth grâs ar dy enaid di? Paham y dirmygu Dduw?—Fe ddaw y dirmyg yn ol. Y mae yn drueni, enaid, i ti foddi yn ymyl arch grâs Duw, newynu yn ymyl bara y bywyd, bod yn dlawd byth yn ymyl anchwiliadwy olud yr Efengyl, a myned i ruddfan am byth, pan y mae amynedd a grâs yn cynyg yn dy enau gân newydd “am farwol glwy”, a haeddiant dwyfol loes.”

V. DIRMYGU DUW DRWY FEITHRIN CYFEILLIORNAD.—“*Nid ymofyni.*”—*Dyna iaith ei galon*. Am ba beth, tybed, nad ymofyna Duw? *Ymofyni.*—Nid oes un aderyn bach wedi myned oddiar ei nyth boreu heddyw nad yw Duw wedi ymofyn am dano, fod digon o fwyd iddo yn ei grwydriadau, a mynu ei weled yn ol yn ei nyth bob nos y dewisodd. Nid oes ymlusgiad yn yr anialwch, nad yw Duw wedi ymofyn am dano. Meddyliodd Cain wrth ladd ei frawd “*Nid ymofyni;*” ond a glywch chwi y llef—“Mae Abel dy frawd? llef gwaed dy frawd sydd yn dyfod ataf fi o'r ddaear.” *Ymofyni*. Cyflawnodd dyn oes o bechodau, a meddyliodd nad ymofynai Duw; ond beth yw y brath-iadau sydd yn dy gydwybod? Meddyliodd Herod na buasai dim sôn am dori pen Ioan—“*Nid ymofyni.*” Mae Duw yn ymofyn am bob peth sydd yn ei lywodraeth. Mae *register* ei lywodraeth yn llawn, heb golli dim erioed—ond *pechadur*, ac ymofyn am y pechadur y mae Efe yn yr Efengyl. Aeth ei bobl i waered i'r Aipht, ond Efe a ym-

ofynai; aethant'i waered i Babilon, ond Efe a ymofynai; pe âent i Basan, ac i ddyfnderoedd y môr, Efe a ymofynai am danynt. Nis gall y boneddwr fforddio i'w lestri aur ac arian fyned ar goll—efe a ymofyna. Mae gofal Duw yn anfeidrol “fel na chollwyf ddim o hono, eithr bod i ni ei adgyfodi ef y dydd diweddaf.” Efe a ymofyna. Mae arolygiaeth llywodraeth Duw mor fanwl, fel y bydd cyfrif manwl gan Dduw o bob peth.

Tybed na bydd ymddygiadau dynion i ymofyn am danynt? “Eich geiriau chwi a ddyrchafodd hyd y nef-oedd.” Beth oedd dyoddefaint y groes, ond Duw yn ymofyn. Cymerodd ein Cyfryngwr arno ei hun anwiredd tyrfa nas gall neb ei rhifo, aeth o dan ymrwymiad i ddyoddef melldith y ddeddf, i ddwyn cosbedigaeth ein heddwch ni, ac am hyny yr ymofynai Duw yn y storom ofnadwy fu ar gopa y bryn. Ond y mae yna frawddeg arall, am ei bobl—“A phan chwilia Efe am bechodau Israel, ni cheir hwynt.” Byddant wedi eu claddu yn nyfnder moroedd o haeddiant anfeidrol—disgynant yn eu pwysau, fel na nofiant i'r wyneb byth. “Ni wêl Efe anwiredd yn Jacob, na thrawsedd yn Israel.” Bydd yr anwiredd wedi ei faddeu, a'r trawsedd wedi ei godi allan; ac os na wêl Efe, pwy a wêl? Os bydd yr orsedd yn clirio, pwy a fydd yn condemnio? os bydd Hollwybodaeth yn methu a gweled brychau ar gymeriad pobl yr Arglwydd, pwy arall a'u gwêl. Bydd trugaredd yr Arglwydd yn sefyll rhwng Israel a'r gwaethaf byth.

PREGETH VI.

GWEITHREDIADAU GORSEDD DUW.

"CYFLAWNDER a barn *yw* trigfa dy orsedd-faingc: trugaredd a gwirionedd a ragflaenant dy wyneb."—SALM lxxxix. 14.

CYFADDEFIR yn gyffredinol ein bod yu byw yn nghanol dirgeledigaethau; a pha fwyaf fyddo y wybodaeth a feddienir, a'r goleuni a dywyna i feddwl dyn, dyfnaf oll yw y teimlad sydd yn gorwedd o dan y dystiolaeth hon. Ar y maes yma y mae brwydrau poethaf y byd wedi eu hymladd, ac mewn cysylltiad â hyn y mae y meddwl dynol wedi ei drethu fwyaf o bob peth. Ni foddlonga y meddwl ar weled galluoedd yn gweithredu, heb gael syniad am danynt; ni foddlonga ar weled effeithiau yn dilyn eu gilydd, heb gael syniad am yr achosion sydd yn eu cynyrcchu. Gofynir beth sydd yn cyfrif am fodolaeth, ac am y drefn sydd ar y fodolaeth hono. Wrth ateb y cwestiynau hyn yr ymrana y byd i wahanol ddsbarthiadau, a adwaenir genym ni wrth wahanol enwau. Beiddia dosbarth neillduol ddywedyd nad oes cysylltiad rhwng y greadigaeth a gallu Anfeidrol. Mae gwadu cysylltiad y greadigaeth a Duw, fel achos cyntaf, yn gyfystyr â gwadu *achos* o gwbl, ac y mae gwadu achos yn taflu y cyfan i bwysu ar ddamwain. Pa bryd y bu hono, ni ddywedir wrthym; na pha beth a gynyrchodd hono, ni ddywedir wrthym; ac y mae credu fod y cyfan yn bod fel y mae o ddamwain, yn gofyn mwy o ffydd nag y mae gwirioneddau penaf yr Efyngyl yn ei ofyn. Ni wna y dosbarth yma o anghredinwyr ond symud yr anhawsder a'r dirgelwch o'r Duw anfeidrol a thragywyddol i beth nas gallant hwy eu hunain gael un syniad am dano. Nid yw symud dirgelwch yn dileu yr anhawsder bob amser; a rhaid cymmodi â'r anhawsder i gredu y ffaith, er yn ddir-

gelwch, a'i chysylltu â'r hyn sydd yn feidrol, ac felly yn ddibynol, fel y gwna rhai; neu ei chysylltu â'r Anfeidrol, fel y gwna y Datguddiad Dwyfol. Byddai y cyntaf yn wadiad i reswm, felly yn anmhosibl; ond gorwedda y diweddaf mewn cydgordiad â phob tystiolaeth y gellir pwyso arni. Cyferfydd eraill â'r dirgelwch drwy ddweyd mai dwyfol yw y cyfan. Amcan y syniad hwn yw cadw y dwyfol yn y golwg; ond nis gallant ei gadw ond yn eu golwg eu hunain, gan ei fod yn gwneyd y cyfan yn ddwyfol. Mae y syniad yma yn dileu terfynau—yn gwneyd ymaith â gwahaniaeth. Beth yw creadigaeth?—Ymheangiad o Dduw, dadblygiad o'r dwyfol; ac ni fydd y cyfnewidiadau mawrion sydd yn y dyfodol ond Duw yn galw yn ol ei ddadblygiadau. Y mae y syniad hwn mor bell o fod yn cyfarfod â'r anhawsder yn foddhaol, fel y mae yn diffodd pob gronyn o obaith sydd yn meddwl dyn am gael eglurhad ar anhawsderau a dirgeledigaethau y mae yn byw o danynt ac ynddynt yn bresenol. Tystiolaeth yr Ysgrythyr yn unig sydd yn cyfarfod â nodwedd meddwl dyn—yn distewi ymfyniadau dynaf ein natur, gan ddangos cysylltiad angenrheidiol pob peth â Duw, achos dechreuol a pharhaol y cyfan. Byddai yn hawddach genym syniad am gyfundrefn heb ganolbwynt, a chorff heb galon, na syniad am fodolaeth heb Dduw. Dywedir am Dduw ei fod "yn trigo yn y goleuni," a bod "cymylau a thywyllwch o'i amgylch ef." O'i *amgylch*, cofier. Rhwng yr haul a'r ddaear y mae y cwmwl, a rhwng y cwmwl a'r ddaear y mae y tywyllwch—yr ochr isaf i'r cwmwl y mae. Rhwng dyn a'r orsedd y mae y tywyllwch. Y mae yr orsedd yn y goleuni, yn taflu allan bob awgrym i'r greadigaeth. Mae y fath wahaniaeth rhwng meddwl dyn a meddwl Duw, fel y mae ei "ffyrdd ef yn y môr, a'i lwybrau yn y dyfroedd cryfion."

I. Y MAE HOLL AMGYLCHIADAU BYWYD DYN O DAN REOLAETH UNIONGYRCHOL GORSEDD DUW.—Y mae gorsedd yn hanfodol i lywodraeth, llywodraeth yn hanfodol i drefn, trefn yn

hanfodol i ddyogelwch, a theimlad o ddyogelwch yn hanfodol i ddedwyddwch. Rhaid i'r orsedd fod yn fwy na'r llywodraeth, y llywodraeth fod yn gryfach na'r drefn, y drefn yn achos o'r dyogelwch, a'r dyogelwch yn gyfartal i werth y peth a ddyogelir. Y gwerth mwyaf yw dyn, y dyogelwch mwyaf yw grâs, y drefn uchaf yw yr Efengyl, a'r llywodraeth eangaf yw eiddo trugaredd a gwirionedd, y rhai a ragflaenant wyneb Duw. Mae y llywodraeth yn fwy na'r Efengyl, o herwydd cyrhaedda i uffern at angelion a dynion colledig; mae yr Efengyl yn fwy na'r grâs a gyfrenir, o herwydd y mae yn hon ddigon i bawb, ond ni roddir grâs ond i'r rhai a'i derbyniant; mae grâs yn fwy na'r dyrfa a gedwir, o herwydd y mae yn dyfod drwy haeddiant Iawn Crist; ac y mae y dyrfa a gedwir yn fwy na'r dyrfa a gollir, o herwydd gwerth gwaed y Meichniydd ydynt, yr Hwn a ddyoddefodd eu haeddiant, ac a gyflwynodd ei hun drostynt yn aberth drwy farwolaeth. Yn y farwolaeth hono y mae holl ddoethineb a gallu Duw yn gweithredu wrth gadw y cyfan a welir, ac ni welir, o dan reolaeth fanwl i gyrhaedd dybenion eu bodolaeth gan Dduw. Y mae Person Dwyfol yn hanfodol i ddybenion anfeidrol—mae argraff o ddybenion felly ar bob peth a ganiateir neu a gyflawnir gan Dduw, ac y mae canlyniadau y gweithredoedd i gael eu mesur wrth eu natur. Felly mae y weithred yn fwy na'r canlyniad, y dyben yn fwy na'r weithred, a'r Person sydd yn gweithredu yn fwy na'r oll a wna. Mae gogoniant gweithredoedd dwyfol i gael ei fesur nid wrth amgylchiadau, ond wrth ddybenion Duw—y Duw sydd mor ddoeth fel nas gall gyfeiliorni, mor gyfiawn fel nas gall wneyd cam, ac mor drugarog fel nas gall fod yn greulawn. Y mae y fath gysylltiad agos rhwng y cyfan a wnaeth Duw âg Ef ei hun, fel nas gall dim hanfodi ond yn rhinwedd y cysylltiad hwnw. Mae gallu anfeidrol yn hanfodol i gynnal mewn bodolaeth, fel ag i ddwyn i fodolaeth. Y mae *parhad* y cyfan yn dibynu ar Dduw fel *dechreuad* y cyfan. Rhaid gwadu y ddau, neu gredu y ddau. Rhêd

y ddwy dystiolaeth am Dduw fel achos dechreuad a pharhâd yn gyf-ochrog. Cyfaddefa rhai lywodraeth *gyffredinol* Duw, ond gwadant fod ganddo lywodraeth *neillduol*—ei fod yn llywodraethu y cyfan, ond nad yw yn llywodraethu y rhanau fel y cyfryw. Pa fodd, tybed, y gellir syniad am lywodraeth *gyffredinol* Duw ond drwy ei lywodraeth *neillduol*? Ai nid yw gwybodaeth o bethau lleiaf y peiriant mor hanfodol i'r peirianydd ag o'i bethau mwyaf? Ai nid drwy adnabod *llythyrenau* y galluogir plentyn i ddarllen geiriau? Ai nid yw dyogelwch pob rhan yn hanfodol i gydweithrediad yr holl ranau? Pe gellid diddymu rhyw *derm*, y *cyffredinol* fyddai hwnw. Nid oes un ystyr i'r gair lluosog ond yn ei berthynas â'r unigol, nac i'r *cyffredinol* ond yn ei berthynas â'r *neillduol*. Nodweddir holl lywodraeth Duw gan *fanylwch*, ac y mae manylwch yn y trefniadau yn angenrheidiol i ddyogelwch yn y gweithrediadau. Rhoddir i swyddogion y rheilffyrdd *time table* o holl drefniadau ac amser holl *drains* y llinell, a chymer i fewn amser cychwyniad a chyrhaeddiad y cyfryw. Gwneir hyn am ei fod yn hanfodol i ddyogelwch bywydau. Y mae gan y meddyg syniad a gwybodaeth mor gywir o natur y dolur, a nerth y cyffeiriau, fel y gorchymyna i'r claf gymeryd cyfran benodol wrth amser *neillduol*. Pan y rhoddir llythyr yn y llythyrdŷ, ymddiriedir ef i drefniadau y llywodraeth; ac y mae y trefniadau hyny mor fanwl fel, er fod y cyfryw lythyr wedi ei gyfeirio i berson dinôd yn y ddinas fwyaf ddinôd ar y cyfandir pell, bydd yn dra thebyg o'i gyrhaedd. Mae manylwch yn angenrheidiol i ddyogelwch; ond y mae y trefniadau goreu o eiddo cymdeithas yn anmherffaith, fel nad oes sierwydd am ddim. Collodd llawer eu bywydau ar y rheilffôrdd, er manylwch y trefniadau; cyfeiliornodd llawer meddyg yn ei farn am ddolur, a chollwyd llawer llythyr pwysig, er y trefniadau goreu. Er hyny, yr oedd y manylwch yn enill ymddiriedaeth. Ond pa fanylwch fel yr eiddo Duw yn ei lywodraeth? Manylwch yn y *neillduol* sydd yn cyfrif am y cydweithrediad yn y *cyffredinol*.

Rhanau sydd yn gwneyd i fyny y cyfan—nerth dolen yw nerth cadwyn, sefydlogrwydd y golofn yw dyogelwch yr adeilad, a manylwch yn y pethau anweledig yn fynych sydd yn cyfrif am gydweithrediad y gweledig. Er mai yn yr hâf y mae y blodau yn ymagor ac yn përarogli, y planigyn yn deilio, a'r ddaear yn gwisgo ei gwyrddlesni, eto, y mae oerfel a stormydd y gauaf mor hanfodol i hyn a gwres yr hâf. Rhodia yr henafgwr a'r claf allan ar ddiwrnod tyner, ac yfant iechyd o'r elfenau o'u cwmpas; ond nis gallai ein daear ni fforddio i bob dydd fod fel yna—rhaid i ni gael y storm, y fellten, a'r daran. Torodd Ef allan ar y dechreu “ffordd i fellt y taranau;” cododd *warehouse* i'r eira, meddai Job, ac y mae hono yn ogoneddus o lân, gan fod yr hyn sydd yn disgyn o honi mor wyn, nes gwrido wynebau cânwyr, fel y cywilyddiant ddangos eu cynyrchion. Y mae Efe yn bwrw iâ yn dameidiau, a gallasai cawod o honynt ysgubo wyneb y ddaear; ond gofalodd roddi pob tamaid mewn *mould* neillduol cyn ei ollwng i'r ddaear, fel y gellir rhodio o dan gawod o honynt heb ofni. Os yw llywodraeth Duw mor fanwl fel y gofala am bethau felly, tybed nad yw ei sylw ar amgylchiadau neillduol bywyd dyn?

Mae daioni cyffredinol yn gofyn am sylw ar holl amgylchiadau bywyd gan Un sydd uwchlaw yr amgylchiadau ei hunan.—Mae hunanoldeb y byd yn ymyl bod yn anherfynol. Boddlonai rhai dynion i'r cyfan fyned i ddi-nystr ond iddynt hwy beidio a chael colled. Ychydig o werth sydd yn mhresenoldeb dyn mewn angladd, os medr chwerrthin yn nghanol dagrau y galarwyr. Y mae gwrthod elusen i wir gardotyn yn annheilwng o wir foneddwr, os gall roddi; ond byddai gwawdio y cyfryw yn weithred annheilwng o ddynoliaeth. Beth pe rhoddid rheolaeth ardal yn llaw dyn na all gydymdeimlo â sefyllfa neb ond yr eiddo ef ei hun? Beth pe tybiem am y posibilrwydd i ddyn gael rheolaeth y byd i'w law am ychydig?—Byddai yn uffern ar unwaith. Ond y mae y llywodraeth yn llaw

Un ag y mae y *byd cyfan* yn agos at ei galon—Un ag y mae daioni y *cyfan* yn foddhad iddo; Un nad yw manteision pawb yn golled iddo, na cholled neb yn enill iddo; Un yn ymfwynhau wrth ddwyn y cyfan i gydweithio er daioni cyffredinol; Un sydd yn dwyn y pethau mwyaf ac uchaf i weithredu er daioni y lleiaf a'r isaf.

Nid yw llywodraeth Duw ar bob peth yn gwneyd i ffwrdd â chyfryngau—*ond cyfryngau yn unig ydynt*. *Caria* y bibell ddwfr o'r llyn i'r dref; tyr y pin y llythyrenau, ond llywodraethir ef gan law ac ewyllys. Yn y wisg y cydiodd y wraig, ond yr oedd y wisg am y Duw-ddyn. Mae amgylchiadau bywyd dyn o dan reolaeth gorsedd Duw, er y dichon mai drwy gyfryngau y teimla dyn ymyriad Duw â'i amgylchiadau. Sylwa Duw ar bob peth yn annibynol ar ei ymddangosiad allanol. Un o'r pethau parotaf i ni syrthio iddo yw colli golwg ar Dduw yn amgylchiadau cyffredin bywyd, ond un o neillduolion llywodraeth Duw yw y sylw a delir ganddo Ef i'r cyfryw; a mesura Ef y pellder sydd rhwng eithafion amgylchiadau. Y mae yn rhoddi llwyau aur yn y palasau, a chregin ar domenau, ac y mae yr amgylchiad yn gwneyd y cyffredin yn werthfawr. Rhydd foethau i'r cyfoethog, ond gofala hefyd am fêl yn ysgerbwd llew i'w blentyn mewn cyfyngder. Mae hollwybodaeth Duw yn dilyn holl fywyd dyn; ac y mae mor agos i'r orsedd pan yn erlidiedig a phan yn frenin. Y mae anhawsder i ni weled drwy amgylchiadau i'r cymeriadau sydd ynddynt. Yr ydym ni yn gweled beggeriaid mewn bythynod, a breninoedd ar orseddau; ond gwêl Duw freninoedd mewn bythynod, a beggeriaid ar orseddau. Ymddengys pob peth i Dduw yr hyn ydyw mewn gwirionedd, ac y mae swm gorseddfaine Duw yn a thrwy y cyfan.

II. FOD GWEINYDDIADAU GORSEDD DUW YN SYLFAENEDIG AR GYFIAWNDER A BARN.—Mae tystiolaeth yr adnod hon mor llawn o ddwyfoldeb, fel nas gallwn gael syniad *cyflawn* am dani. Dywedir mwy na bod gweithrediadau yr orsedd yn gyfiawn—dywedir mai cyfiawnder a barn yw sylfaen yr

orsedd ei hun. Gwaradwyddir a gwatwerir llywodraeth Duw drwy yr oesau gan ddynton amddifad o gydymdeimlad â'r dwyfol; ond dylai y cyfryw gofio nad yw rheswm dyn yn feirniad cymwys ar weithrediadau Duw, ac nad yw yr hyn a ymddengys i ddynt yn cyfateb bob amser i'r ymddangosiad. Nid yn yr hyn a ymddengys, na'r ymddangosiad, y mae y diffyg, eithr yn syniadau hanerog dyn am weithredoedd gallu sydd yn fwy nag ef. Ymddengys amryw bethau i ni, fe ddichon, yn ddiangenrhaid; ond ein syniadau annghyflawn ni am angenrheidiau sydd yn cyfrif am hyny. Cyfeiliornwn wrth ffurfio barn am yr hyn sydd yn dyfod o fewn cylch ein gwybodaeth, ac felly nis gall ein damcaniaethau lai na pheidio bod yn beryglus o gyfeiliornus. Tystiolaeth y Beibl yw bod y cyfan—y drwg fel y da, y melldithion fel y bendithion, y dyoddefaint fel y mwynhad, o dan reolaeth uniongyrchol Duw, ac yn cael eu cyflawni neu eu caniatau ganddo, i ddybenion, fe ddichon, sydd allan o'n golwg ni—dybenion sydd uwchlaw nid yn unig ein hamgyffredion ni, eithr yn fwy nas gallai ein ffydd ni gario. Nid ydym yn ddigon ysbrydol yn bresenol i dderbyn rhesymau Duw am lawer o'i weithredoedd sydd yn dâl perthynas uniongyrchol â ni. "Y peth yr wyf fi yn ei wneuthur, ni wyddost ti yr awr hon, eithr ti a gei wybod ar ol hyn." Amgylchynir ein sefyllfa bresenol gan lawer o ddyoddefaint, ac nid oes dim yn diuno meddwl yn fwy nag ef; ond tuedd y meddwl yw grwgnach ar ei sefyllfa, yn fwy na chwilio am yr achos o honi. Cyfyd holl drueni dyn allan o natur ei gymeriad moesol. Pe byddai dynoliaeth yn santaidd, byddai y ddaear yn annghyfaddas fel trigfa iddi.

Cyfaddaswyd hon ar gyfer dynoliaeth syrthiedig.—Nodwedd hi gan ymyriadau o eiddo gorsedd Duw, yn nghyfyodiad rhwystrau ar ffordd dyn. Mae ewyllys dyn yn rhy lygreddig i gael byd dirwyrstr i fyw ynddo. Y pethau a ymddengys yn gollodion a melldithion, ydynt yn foddion yn llaw Duw i ddifa achosion mwy o drueni a cholled.

Mae ein syniadau ni mor hanerog, fel nad ydym yn gweled ond i un cyfeiriad. Golwg unochrog y mae y byd yn ei gymeryd ar amgylchiadau. Os gwelir y gogoniant, anghofir y trueni; neu os teimlir y trueni, diystyrir pob daioni. Rhaid cymeryd golwg gyffredinol os am gael syniad am gyfiawnder neu amnghyfiawnder y gweithredoedd. Nid oes neb a ddywed fod Abraham Lincoln yn ddyn creulawn, er i'w syniadau *achlysur* rhyfel waedlyd America. Talodd y rhyfel hono yn dda yn rhyddhad pedair miliwn caethion y wlad. Nid oes neb a ddywed fod Brenhines Prydain yn ddynes greulawn o herwydd fod canoedd o ddynion yn ngharcharau y wlad, ac amryw yn dringo grisiau y crogbrenau bob blwyddyn. Nid yn nghymeriad Lincoln oedd achos trueni y rhyfel, ond yn y sefydliad caethwasol; nid yn nghymeriad y Frenhines y mae achos trueni carcharorion a llofruddion, ond yn eu cymeriadau hwy eu hunain.

Gofynir yn fynych pa fodd y gellir cysoni amgylchiadau dinystriol, yn nghyd a damweiniau difaol, â chymeriad daionus Duw fel llywodraethwr? Mae y gofyniad yn cadarnhau fod dynion yn chwilio am achos pethau felly mewn lle na ddylent. Yn nghymeriad dyn fel deiliad y mae y rheswm i'w gael am yr holl drueni. Cyfaddasai Duw ei lywodraeth i sefyllfa y byd, ond gweinydda hi yn gyson â chyfiawnder. Nid yw *operation* ar glaf yn un dystiolaeth am gymeriad moesol meddyg. Casglai yr edrychydd fod y meddyg yn greulawn—cyfawnai ei waith heb wylo, pan yr wylai pawb eraill. Ond gwneyd y cyfan i ddyogelu y bywyd oedd ef—symud i fwrdd y lleiaf er mwyn dyogelu y mwyaf. Y mae tynerwch Duw yn myned o'r golwg weithiau yn ei weithredoedd; ond atolwg, pahan y gweithreda Duw felly? Rhwymodd angelion colledig â rhaffau barn—ond pahan? Y mae Duw wedi cyhoeddi yn ei lywodraeth deddfau sefydlog, ac y mae gwyro oddiwrth y rhai hyny yn dwyn ei ganlyniadau. Disgwylia dynion i Dduw blygu deddfau cedyrn ei lywodraeth i gyfarfod âg

amgylchiadau gwahanol bywyd dyn. Eithriadau yw gwrthiau; ond y mae ei ddeddfau yn ordeiniadau sefydlog, yn cymeryd i fewn amgylchiadau cyffredinol bywyd. Ychydig gafodd y byd erioed drwy wyrthian, yn gyferbyniol i'r llyn a gafodd drwy drefniadau cyson ei lywodraeth; ac y mae dylanwad mwy parhaol yn codi o ddeddfau Duw nag o wyrthiau. Gallasai Iesu Grist gynnal torfeydd bob dydd drwy wyrthiau tebyg i hono a gyflawnodd ar ben y mynydd, ond wrth wneyd hyny buasai yn magu cenhedlaeth o ddynton rhy ddiog i weithio, a buasai un segur-ddyn yn daliad rhy ddrud am wyrth. Ni allasai Duw seilio ei orsedd ar wyrthiau. Medrodd Pharaoh chwerrthm am ben gwrthiau, ond fe gyrhaeddodd cyfiawnder yr orsedd galon yr adyn hwnw. Mae gorseddau y ddaear wedi eu sylfaenu ar amgylchiadau, ond gorsedd Duw ar gyfiawnder a barn—gorphwysa ar berffeithrwydd y natur ddwyfol ei hun, fel y rhaid dwyn cyfnewidiad yn hono cyn y diddymir hi. Saif hon pan y bydd cynhyrifiadau y dydd olaf yn ysgwyd daear ac uffern.

III. FOD GWEITHREDIADAU GORSEDD DUW YN CYFUNO TRUGAREDD A GWIRIONEDD.—“*Trugaredd a gwirionedd a ragflaenant dy wyneb.*”—Cynddrychiola y ddau air yma holl weinyddiadau llywodraeth Duw—ei weithrediadau barnol, yn gystal a thrugarog. Cyfuniad o ddau allu sydd yn ffurfio achos, cydweithrediad dau fywyd sydd yn cyfrif am liwiau y blodeuyn, a chadernid y dderwen. Dyma ordeiniad Duw yn ei lywodraeth naturiol, ac nid yw yno ond cysgod y Gwirionedd yn ei lywodraeth foesol. Ceir rhai meddyliau a safant ar un gwirionedd, neu ar arwedd allanol gwirionedd. Wrth golli golwg ar dynerwech mewn diffyg o hunan-adnabyddiaeth, aeth rhai yn Phariseaid balch hunanol, gan ddirmygu y dirmygent dosturi edifeirwech a maddeuant. Wrth golli golwg ar fanylrwydd hawliau a llymder gwirionedd, aeth eraill yn Antinomiaid llygredig ac aflan. Cyfeiliornai y ddau o herwydd y cylch cyfyng yr ymdroai eu meddyliau ynddynt; ond y mae

gweithrediadau gorsedd Duw yn uno y ddau, a rhaid codi dyn i gydymdeimlad â'r ddau cyn yr ymostynga i drefniadau gorsedd Duw. Portreadwyd gwirionedd y gosodiad gan Dduw yn y trefniant Moesenaidd. Byddai trugaredd a gwirionedd wedi cyfarfod yn yr un arch. Gogoniant y ddaear oedd Canaan, gogoniant Canaan oedd Jerusalem, gogoniant Jerusalem oedd y deml, gogoniant y deml oedd y cysegr, gogoniant y cysegr oedd yr arch, a gogoniant yr arch oedd y *drugareddfa*—y drugareddfa oedd yn rhoddi gwerth ar yr holl drefniadau. Beth oedd maent y drugareddfa?—Yr oedd yn fwy na'r dystiolaeth. Gofalodd Duw *guddio* y dystiolaeth o dan y drugareddfa, fel y byddai i'r pechadur gael golwg ar y gwirionedd a dorodd drwy y drugaredd oedd yn myned i wneyd y golled i fyny. Arferir edrych ar drugaredd yn ymgeleddu, a gwirionedd yn cosbi; *ond cosbedigaethau trugaredd yw y barnau mwyaf*. Priodolir barnau i drugaredd. “Ac a ysgytiodd Pharaoh a'i lu yn y Môr Coch, *o herwydd ei drugaredd sydd yn dragwydd*; ac a laddodd freninoedd ardderchog, o herwydd ei drugaredd sydd yn dragwydd.” Gwrthwynebwyd a rhwystrwyd Israel yn eu teithiau, tynodd trugaredd ei chleddyf allan, a lladdodd hwynt oddiar y ffordd. Y mae y pechadur sydd yn digio trugaredd, yn colli ei gyfaill penaf. Dywedir fod Iesu Grist yn llawn grâs a gwirionedd. Nis gellir symud llestr *llawn* heb iddo golli drosto. Nis gallasai y Gwaredwr symud heb golli trugaredd a gwirionedd i bechauriaid—ni allasai roddi ei droed oddifewn i furiau mynwent, heb golli bywyd i feirwon. Disgleiria trugaredd a gwirionedd yn llywodraeth Duw byth.

PREGETH VII.

FFORDD NEWYDD A BYWIOL.

“Am hyny, frodyr, gan fod i ni ryddid i fyned i mewn i'r cysegr trwy waed Iesu, ar hyd ffordd newydd a bywiol, yr hon a gysegrodd efe i ni, trwy y llen, sef ei gnawd ef.”—HEBREAID x. 19-20.

YMDRINIA yr Apostol yma â nodwedd wahaniaethol y cyfamod newydd i'r hen gyfamod. Trefn Duw i faddeu pechod yw yr iachawdwriaeth. Y fendith gyntaf y teimla pechadur deffroedig am ei gyflwr ei heisiau, yw maddeuant. Dyma y gwirionedd melusaf i'r troseddwr, a buasai unrhyw drefn a fuasai yn ddiffygiol o hyn yn anghymwys i gyfarfod âg angen y byd. Hyn oedd yn rhoddi gwerth ar y trefniant seremonïol. Buasai aberthiad yr anifeiliaid, mynediad yr archoffeiriad i'r cysegr sancteiddiolaf, a thywalltiad y gwaed ar y drugareddfa yn ffolineb, oni bai fod y cyfan yn dybenu mewn cyhoeddi maddeuant i droseddwr y cyfamod. Gan nad beth oedd dolen uchaf y gadwyn, dyma yr isaf. Hyn oedd yn galluogi y genedl i anwylo trefniant adferiad y byd at Dduw. Mae maddeuant yr Efengyl yn sylfaenedig ar Iawn yr Arglwydd Iesu Grist, ac y mae maddeuant mewn Iawn yn faddeuant rhâd i ddyn—yn faddeuant yn rhyddhau oddiwrth *bechod* a chosp, ac yn faddeuant sydd yn profi ei hun yn ddwyfol. Addewid y cyfamod newydd yw—“Mi a osodaf fy nghyfreithiau yn eu oalonau, ac a'u hysgrifenas yn eu meddyliau. . . . A'u pechodau a'u hanwireddau ni chofiaf mwyach.” *Anghofio* pechod yw y gair a ddefnyddir am faddeuant, ac fe ddefnyddir y gair i amcan neillduol, sef i osod allan lwyni y maddeuant. Mae y gydmariaeth fel pe am godi dyn at yr anhosibl. Y sefyllfa y mae y meddwl rhyddaf oddiwrth bob peth yw pan yn ei anghofio. Ac er mwyn dangos y

paham a'r pa fodd o'r llwyni hwn, dywed—"A lle y mae maddeuant am y rhai hyn, nid oes mwyach offrwm dros bechod." Lle y mae maddeuant y mae Iawn—y mae bodolaeth y naill yn cyfrif am y llall, nid fel achos, ond fel ffordd. Mae achos maddeuant yn yr un man ag achos yr Iawn yn natur Duw, ond y mae maddeuant yn dyfod i ni drwy yr Hwn a osodwyd yn Iawn. Mae maddeuant yn dyfod drwy Iawn, ar gyfrif mai dyma sail maddeuant—mae Iawn yn profi maddeuant yn ddwyfol. Gosodiad dwyfol oedd Iawn; a thrwy y gosodiad dwyfol grasol hwn y mae y fendith rasol a dwyfol o faddeuant yn dyfod. Iawn ddatguddiwyd i'r byd gyntaf, ond maddeuant gafwyd gyntaf; ond er mai maddeuant gafwyd gyntaf, Iawn osodwyd gyntaf. Nis galleid maddeu yn weithredol hyd nes cael pechadur i'w dderbyn; ond gosodwyd Iawn fel sylfaen maddeuant cyn gosod sylfaeni y ddaear.

Mae Iawn eto yn rhagdybied maddeuant.—Y mae yn anhawdd cael syniad am Iawn heb feddwl am faddeuant, ond y mae yn anhosibl meddwl am faddeuant heb feddwl am yr Iawn; a dyma lle y mae diwedd Adnod 18 yn dyfod i fewn—"Nid oes mwyach offrwm dros bechod." Os yw Duw yn myned i anghofio pechod, y mae Ef wedi cael Iawn dros bechod; ac os cafodd Ef Iawn, nid oes lle i un offrwm arall. Ag *un* aberth y perffeithiodd Efe yn dragwydd y rhai a gredant ynddo.

Oddiyma y mae Adnod 19 yn ymofyn ei nerth—"Am hyny, frodyr, gan fod i ni ryddid i fyned i mewn i'r cysegr, trwy waed Iesu," &c. Defnyddir y gair "cysegr" y rhan amlaf yn y llythyr hwn am ddwy ystafell a berthynent i'r tabernacl. Gelwid hwy "y cysegr" a'r "cysegr sancteiddiolaf." Hefyd, defnyddir y gair am y nefoedd. Ystyr priodol y gair yw y cyntaf; ond nid un o'r ddau ystyr hyn sydd iddo yn yr adnod hon. Golyga yma berffeithiad y syniad a gyflwynwyd drwy ddefodau gwasanaeth y ddau gysegr. Yn y trefniant cyntaf, yr archoffeiriad yn unig oedd â rhyddid i fyned i mewn i'r cysegr sancteiddiolaf.

Yno yr oedd arwydd-lun o'r presenoldeb dwyfol—eisteddai ar y drugareddfa. Elai yntau i fewn drwy waed. Ym-guddiai Duw y tu ol i'r llen, yn awgrymu nad oedd yr offrymau wedi agor ffordd at Dduw. Y tabernacl oedd pabell Duw ar y ddaear—"Mi a gyfarfyddaf â thi yno." Cartref Duw yn Eden oedd pren y bywyd; ar Sinai, y cwmwl gogoneddus; yn yr anialwch, y tabernacl; ar fynydd Seion, y deml; ond y mae Ef wedi gwneyd y symudiad olaf—i'w Fab—Duw yn Nghrist. Y mae yma ryddid i bresenoldeb Duw. Dyma ffordd i ddyn—rhyddid yn yr Archoffeiriad mawr.—"I ni ryddid."

Mynedfa pechadur at Dduw.—Defnyddia yr Apostol bedwar o enwau ar yr hyn a elwir yn ffordd at Dduw—rhyddid i'r cysegr.

I. Ffordd Newydd.—Nid oes sicrwydd paham y geilw yr Apostol y ffordd yn newydd; dichon ei fod yn cyfeirio at y ffordd oedd i ddyn yn ei sefyllfa baradwysaidd, neu yn fwy tebyg at y ffordd drwy yr aberthau i'r cysegr. Mae newydd-deb yn un o'r pethau mwyaf anhawdd i'w gael, ac anhawdd i'w gadw. Mae pob peth yn heneiddio o dan law dyn. Sonir llawer am wreiddioldeb; a naturiol i ddos-barthiadau neillduol yw rhedeg i eithafion yn hyn. Ym-frostia llawer yn eu gwreiddioldeb. Mae creadigaethau eu dychymyg yh lluosog, cynyrch eu hathrylith yn drwm; hōnant y medrant ganfod yr *anweledig*, cydymdeimlo âg ysbrydolrwydd yr Anfarwol Fôd, a rhoddant esboniad hunanol ar eiriau Solomon—nad oes dim newydd o dan haul. Mae y dosbarth hwn yn byw i newydd-deb. Mae dosbarth arall yn rhedeg i eithafion, ac yn hōni nad oes dim yn newydd o dan haul. Gwelant yr ager-gerbyd â'i lwyth yn y berwedydd, y *telegraph* yn y fellten, y llong fawreddog yn ysgydwad dwy droed yr hwyaden ar y llyn, a gwaeddant nad oes dim newydd dan haul. Dywedant fod beirdd y canrifoedd hyn yn byw ar gynyrch beirdd yr oesau blaen-oral. Ni wnant ond newid geiriau, arddull brawddegau, a gwisgoedd y meddylddrychau, meddent hwy; ond ni

ddywedant ar ba beth yr oedd beirdd yr oesau hyny yn byw. Hen farddoniaeth mewn ffurf newydd, meddant. Nid yw duwinyddion yr oes bresenol yn darganfod un gwirionedd; astudiant weithiau y tadau, a throant y cyfan i iaith y dyddiau presenol—dim gwreiddioldeb. Mae y pregethau geir y dyddiau hyn wedi eu pregethu drosodd o'r blaen gan oesau blaenorol—agorwyd llyfr proffwydoliaeth iddynt hwy, ond rhoddwyd y seliau arno i bawb wedi hyny. Nid oes pethau newydd, yn gystal âg hen, yn dyfod allan yn awr. Hen wirioneddau mewn ffurfiau, geiriau a brawddegau newyddion. Mae y dosbarth hwn, o dan rith hunan-ymwadiad, yn rhoi esboniad annheg ar eiriau Solomon. Gwir na chrëodd yr athronydd ddeddf addyniad; ond chwareu-teg iddo am ei darganfod a'i esbonio. —Paham y syrthia yr afal i'r ddaear? Gwir nad yr athronydd gysylltodd y môr wrth y lleuad; ond chwareu-teg iddo am weled yr edau fain oedd yn y cwlwm. Gwir nad y peirianydd sydd wedi gallu gwneyd elfenau agerdd; ond chwareu-teg iddo am roddi ffrwyn yn mhen y march. Nid dyn roddodd y trydan yn y cwmwl, ond dyn wnaeth y *telegraph*. Creulondeb yw codi esgyrn hen feirdd o'u beddau i'w lluchio at gynghaneddwyr y ganrif hon; ac er nad yw yn weddus i neb sydd yn pregethu "gair yr iachawdwriaeth" ymfrostio mewn gwreiddioldeb, eto y bobl sydd yn byw fwyaf ar gynyrch meddyliau dynion eraill, ac yn y farchnad yn barhaus yn gwerthu eiddo pobl eraill, sydd yn gwaeddu nad oes dim gwreiddioldeb. Mae cymaint o newydd-deb yn mhethau Duw, fel y mae y rhai sydd yn chwilio ei "ddyfnion bethau" Ef yn darganfod pethau newydd yn barhaus, ac nid yw eu darganfyddiad yn eu gwneyd yn hen—arosant yn newydd.

Ffordd Newydd.—Amgylchynid llawer at Dduw yn y trefniant cyntaf, ond dyma ffordd newydd. Yr oedd yn rhaid myned allan i edrych am anifail yn aberth, ei ddwyn i'r gwerysll, ei gyflwyno i'r offeiriad, yr archeoffeiriad i gymeryd o'i waed, ei ddwyn i'r tudraw i'r wahanlen, ei

dywallt ar y drugareddfa, ac yno yr eisteddai Duw rhwng y cerubiaid adeiniog yn y Shecinah disglær; ond dyma ffordd newydd, fyrach, agosach—Duw mewn Cyfryngwr, Cyfryngwr yn natur dyn, ac achos dyn yn agosaf peth i'w galon. Diosged yr offeiriaid eu gwisgoedd, a pheidied eu dydd-gylchoedd, na haloger purdeb y dwfr â gwaed, na'r awyr â mwg, na chlywer brefiadau yr wyn, na buchiadau yr anneri cochion—mae y wahanlen wedi ei rhwygo, a'r gogoniant wedi ei symud oddiar y drugareddfa aur i'r Iawn. Gynt fe liwiwyd y drugareddfa â gwaed, ond yn awr mae y gwaed wedi ei guddio â thrugareddfa. Gwnaed ymdrech i gadw y ffordd hono yn newydd, ond yr oedd yn heneiddio—aeth yn oedranus, a diflanodd; ond try hon bob peth yn newydd, a'r rhai a rodiant y ffordd hon a "adnewyddant eu nerth: ehedant fel eryrod, rhedant ac ni flinant, rhodiant ac ni ddiffygiant." Mae newydd-deb yn rhedeg drwy holl bethau Duw—rhydd goron newydd o wahanol liwiau i bob mis o'r flwyddyn, ffrwythau newyddion o'r ardd i'r bwthynwr tlawd, adar newyddion i ganu bob gwanwyn, gwenith newydd ar y bwrdd bob hydref, a blodau newyddion i brydferthu wyneb y ddaear; ac y mae Duw mor gyflawn o newydd-deb, fel y mae yn gwystlo parhad y cyfan felly, hyd nes y byddo amcanion cyfryngwriaeth wedi eu cyrhaedd drwy y ffordd newydd hon. Dyma newydd pob newydd-deb arall. Peth newydd oedd genediggaeth Tywysog mewn ystabl, tetrarch galluog yn cenfigenu wrth faban, nes cynyg am ei fywyd, bachgen deuddeg oed yn holi doctoriaid dysgedig, cymeriad pur yn dyfod allan o'r pentref iselaf yn y wlad, yr angenus yn talu ei gymwynaswr âg erlidiadau, perchenog y bydoedd yn marchog ar asyn benthyc i Jerusalem, y dieuog yn cael ei gondemnio i farw gan yr un barnwr ag a gliriodd ei gymeriad, y Croeshoeliedig yn gweddio dros ei elynion, claddu un mewn bedd benthyc—a hwnw yn codi i fyny y trydydd foreu yn goncwerwr ar holl alluoedd uffern.—Dyma bethau a erys byth yn newydd.

i safle yr aberth, yr oedd mwy o farwolaeth yn y ffordd nag o fywyd, ond fel yr amlheid yr aberthau. Dywedir fod y gair "*bywiol*" yma yn golygu rhywbeth gwahanol i fywyd mewn ystyr eang gyffredinol—golyga *freshness*. Nis gellir ysgaru hwn oddiwrth fywyd; ond golyga fywyd yn ei fan uchaf—yn ei ogoniant mwyaf. Yr oedd y syniad hwn yn cael ei weithio allan drwy osodiadau a deddfau yn y trefniant Iuddewig. Yr oedd y trefniant hwnw yn gofyn bywyd yn ei fan goreu.—Nid ebyrth ar drengu o glefydau neu o henaint, ond ieuainc, iach, perffeith-gwbl. "Os offeiriad eneiog a becha yn ol pechod y bobl, offrymed dros ei bechod a wnaeth fustach *ieuanc* perffeith-gwbl yn aberth dros bechod i'r Arglwydd." Bywyd yn ei fan *goreu*. Yr oedd yr archoffeiriad i daenellu y gwaed yn *fuan* wedi lladd yr anifail, tra y buasai heb golli dylanwad bywyd o hono—yn *fresh*. Dyma y syniad sydd yma—bywyd yn ei fan *goreu*, iachawdwriaeth â *freshness* ynddi. Mae bywyd yn fwy gogoneddus ar rai adegau nag ydyw ar adegau eraill. Un o brydfertlion natur yw yr ardd flodau, lle y mae llaw y garddwr medrus wedi bod yn trin y ddaear, ac elfenau anian wedi cyd-gyfarfod â'u gilydd. Ond sylwer arni ar haf sych, pan y mae gwres yr haul yn llosgi y ddaear nes agenu, llyisiau yn crino—mae y cyfan wedi ei gloi i fyny, a bywyd fel pe wedi ei droi i fyw ar ei adnoddau ei hun. Mae lliwiau y blodeuyn yn cilio, arogl y llyisiau wedi darfod. Ond ymwelwch â'r ardd wedi i gawod o wlaw ddisgyn. O! yr arogl peraidd—tybiech eich bod yn rhodio yn nghanol paradwys Eden. Mae y gawod wlaw wedi adnewyddu wyneb y ddaear, mae lliwiau y blodau yn gloewi, a *freshness* yn mhob peth. Syniad felly sydd yma—"ffordd fywiol"—yma mae y bywyd yn fwyaf gogoneddus. Mae bywyd yr Arglwydd Iesu yn aros yn ddylanwad *fresh* yn yr Efyngyl. Gall fod disgrifiad y Beibl o farwolaeth Crist ar y groes, a'r dyoddefaint annirnadwy hwnw, yn gyfryw fel ag y mae yn sefyll rhyngom ni a gweled gogoniant bywyd Crist yn y nefoedd; ond er mai ar y groes y rhoddwyd

Iawn yn mywyd yr Eiriolwr, y mae yr Iawn yn cyrhaedd ei amcan uchaf. Yr hyn sydd yn cadw y newydd-deb yn ngwirioneddau a bendithion ysbrydol teyrnas nefoedd, yw fod Crist yn byw yn dragywydd i berffeithio ei amcanion. Dyma un o nodweddau gwahaniaethol pethau Duw. Mae y ffynon sydd yn tarddu ar fyrwes y mynydd â'i llygad mor loew, ei dyfroedd mor risialaidd, a'r diwrnod cyntaf; mae y wawr dorodd boreu heddyw mor *fresh* ag erioed; mae arogl blodau y gwanwyn lwn mor hyfryd a blodau pob gwanwyn arall. Ond dyma y mwyaf gogoneddus—ffordd *fywiol*. 'Does dim heneiddio ar bethau tragywyddol râs. Yr oedd gwaed yr wyn a laddwyd o dan y gyfraith yn oeri, ond dyma Oen megys *newydd* ei ladd. Yr oedd Aaron yr archoffeiriad yn gorfod ymddiosg o'i ddillad, i'w rhoddi am Eleazar—yn myned yn rhy hen; ond dyma Archoffeiriad erys yn *ieuanc*, fel na bydd un Eleazar i gael ei wisgoedd archoffeiriadol ar ei ol. Gwerthid pethau weithiau yn ail law, o herwydd eu bod wedi colli *freshness*, ond ni chynygiodd grâs bethau felly i neb erioed. Fe gaiiff y ddaear ymfrostio yn ei phethau hen, ond Duw yn ei bethau newydd. Mae dynion yn pêrarogli y cyrff âg enaint nard gwlyb gwerthfawr, ond nid oes eisiau pêrarogl felly ar Dduw—ffordd *fywiol*.

III. FFORDD WEDI EI CHYSEGRU I NI.—Yr hyn a ddeallir wrth y gair "cysegru" yw neillduo—rhoddi heibio at wasanaeth neillduol; a dywedir yma fod y ffordd hon wedi ei chysegru. Cysegrwyd y ffordd gyntaf yn Eden—fe gysygrwyd y ffordd drwy y cyfamod seremoniol—fe'i cysegrwyd hi trwy waed; ond dyma y cysegriad mwyaf. Mae yr Apostol yn rhoddi lle mawr i ddynoliaeth Crist yn nghysgriad y ffordd hon. Nid oes dim yn yr Efengyl yn rhoddi mwy o allu iddi ar galonau dynion, na'r lle mawr a roddir i ddynoliaeth Crist yn ei gyfryngdod. Mae cyfryngwriaeth a dynoliaeth Crist yn dâl perthynas anwahanol â'u gilydd. Mae ysbrydoliaeth fel am i'r pechadur deimlo y gwirionedd hwn. Mae cymaint o ddynoliaeth Crist yn y golwg, fel y

mai ambell un wedi methu a gweled dim ond dyn ynddo. Yr oedd Ef mor agos i gymdeithas, mor ddarostyngedig i amgylchiadau allanol, mor gyffredin ei olwg, fel y meddyliai rhai nad oedd ei ddaioni ond perffeithiad ar rinweddau y natur ddynol. Ond syniad cyfeiliornus am Grist yw hwn. Dyma y gair oedd yn y dechreuad gyda Duw, ond "a wnaethpwyd yn gnawd, ac a drigodd yn ein plith ni, ac ni a welsom ei ogoniant, gogoniant megys yr unig-anedig oddiwrth y Tad, yn llawr grâs a gwirionedd." Dyma y Duw sydd yn preswyllo yn y goleuni, ond "a ymddangosodd yn y cnawd, welwyd gan angelion, a bregethwyd i'r cenhedloedd, a gredwyd iddo yn y byd, a gymerwyd i fyny mewn gogoniant." Dyma yr Hwn oedd yn dlotach nag adar y nefoedd, ond Efe a grëodd ddefnydd eu nythod i gyd; dyma yr Hwn na ddarparodd ddim iddo ei hun, ond a ofalodd am ffauau i'r llwynogod; dyma yr Hwn a demtiwyd â drygau lawer gan ddiadol, amheuwyd ei ddwyfoliaeth; ond wedi methu, amheuwyd ei ddynoliaeth; ac er na lygrwyd ei ddynoliaeth yn y frwydr hono, enillodd brofiad, nes y mae ei ddynoliaeth heddyw yn cydymdeimlo â'r profedig yn eu dyoddefiadau mwyaf.

Yr enw a roddir ar ddynoliaeth Crist yma yw *llen*. Yr oedd dau gysegr i fywyd Crist—yr allanol a'r mewnol—y dynol a'r dwyfol—y cysegr a'r cysegr sancteiddiolaf. Amcan y llen yn y tabernacl oedd cuddio Duw o'r golwg, ond yr oedd yn dyfod mor agos i'r genedl ag y gallasai ddyfod *am y llen*. Yr oedd dwyfoliaeth Crist yn tywynu ar y byd drwy y llen—ei gnawd Ef. Syrthiodd y milwyr yn wysg eu cefnau pan y cododd gŵr y llen. Ond dynoliaeth i ddyoddef oedd dynoliaeth Crist. Mae Duw mor agos i ddyn ag y gall ddyfod yn ei Fab, a'r Mab hwnw y dyn Crist Iesu. Un Cyfryngwr, a hwnw yn ddyn; a thrwy ddynoliaeth hwn y mae y ffordd wedi ei chysegru. Aberth oedd Crist, a thrwy ei aberth y mae ffordd at Dduw; ond nis gallasai fod yn aberth heb ddyfod yn ddyn. Yr oedd yr Aberth yn ddynol, ond nid dynol oedd yr Aberth. Yr

oedd yr Aberth yn ddwyfol, ond nid dwyfol oedd yr Aberth. Yr oedd yr Iawn yn osodiad, ond nid y gosodiad oedd yr Iawn. Yr oedd yr Aberth yn fwy na'r dynol, ac yn rhywbeth gyda bod yn ddwyfol. Yr oedd y Cyfryngwr yn ddyn, ond nid dyn oedd y Cyfryngwr. Yr oedd y Cyfryngwr yn Aberth, yr Aberth yn Iawn, yr Iawn yn Dduw-ddyn, a'r Duw-ddyn, drwy ddrylliad ei gnawd, yn ffordd at Dduw. Er mai teneu oedd llen y deml, eto, yr oedd hi yn *cuddio* Duw oddiwrth yr euog, ac yn cuddio yr euog oddiwrth y ddeddf a dorodd. Fe rwygwyd llen y deml, nes y daeth y cysegr sancteiddiolaf a'r cysegr bydol yn un—nid er mwyn gollwng pawb i fewn i'r sancteiddiolaf, ond am fod y gogoniant wedi ei symud i'r dyn Crist Iesu. Rhwygwyd cnawd y dyn Crist Iesu er mwyn dangos gorsedd trugaredd ar y drugareddfa newydd, ac yma y mae pawb duwiol yn offeiriaid, a rhyddid i fyned i mewn, drwy waed Iesu—pob dydd yn ddydd gwyl y cymmod i bechadur edifeiriol. Canolbwynt Eden oedd Duw yn mhren y bywyd, canolbwynt Israel yn y cysegr sancteiddiolaf, ond canolbwynt yr holl ddaear yw yn ei Fab. Mae tair gwyl genedlaethol Israel wedi cael eu newid am un gymanfa mynydd Seion, a ffordd wedi ei hagar i Iuddew a Groegwr, caeth a rhydd, drwy y llen.

Yr hyn a ddywedir am y ffordd yw, ei bod wedi ei *chysegru*—wedi ei neillduo fel ffordd a mynedfa at Dduw. Defnyddir y gair "ffordd" er mwyn galluogi ein meddyliau i gael syniad am gyfryngdod y Gwarddwr. Agor cymundeb rhwng dyn a Duw oedd amcan mawr dyoddefiadau ac angau y Gwarddwr. Er cymaint a synir at alluoedd y meddwl dynol, nid yw eto wedi gallu synied am drefn o adferiad at Dduw. Y mae Iawn dros bechod yn *idea* ddwyfol; trugaredd bia hon. Oddiyma y mae holl ddaioni Duw yn llifo allan. Dywedir fod y meddwl dynol wedi ymddad blygu mwy yn yr haner canrif ddiweddaf nag a wnaeth mewn canoedd o flynyddoedd cyn hyny. Mae y darganfyddiadau yn lluosog, cerdda lwybrau nad adnabu aderyn,

chwilia ymherodraethau y Duw mawr gydag yni; ond ni ddarganfyddodd ffordd i adferyd yr euog; ni welwyd llwybr diangfa i'r euog—dychwel yn siomedig o'i grwydriadau, fel cardotyn heb gael trugaredd yn un man. Pwy all rifo y dyfeisiau o eiddo y meddwl?—Ond nid yw wedi dyfeisio ffordd iachawdwriaeth. Dywedir fod y Cadfridog Pearson, pan oedd ef yn amgylchynedig gan fyddinoedd lluosog y Zulus, yn Zululand, yn gallu cyflwyno gwybodaeth am fawredd byddin y gelyn i'r fyddin oedd filldiroedd yr ochr draw iddynt, a hyny drwy adlewyrchu pelydrau yr haul yn rhywfodd. Gwybodaeth a dyfais a ychwanega at y gallu i ladd yw hwn; ond dyma ffordd i gadw. - Torodd y Rlufeiniaid ffyrdd yn y wlad hon, ac adnabyddir hwy yn y dyddiau hyn; ond y maent wedi eu rhoddi heibio am ffyrdd gwell. Ond dyma ffordd na fydd dim gwelliant arni. Pan fydd dyfeisiau dynol wedi dar fod, fe fydd hon yn newydd.—Nid *public road* yw hi, ond ffordd i bechadur edifeiriol, wedi ei hagor er ei fwyn Ef.

Mae y ffordd hon wedi ei *chysegru*. Pwy ŵyr nifer yr anhawsderau?—gwawdiwyd na ddeuai hi byth i ben; ond y mae hi wedi ei chysegru. Un o nodweddau y ganrif hon yw y dyfeisiau i ychwanegu yr hawsder i deithio. Mae dyn fel pe yn hërio Duw—mae yr agerdd-longau yn aredig y dyfnfôr, a dyn fel pe am gystadlu â Duw am nerth; ond y mae ambell i long yn suddo, a Duw yn dweyd “fi bia llwybrau y môroedd.” Mae y boneddwr yn gosod gwyfr i fyny wrth ei dŷ, ac yn ymddiried iddi y ceidw hi y palas mewn dyogelwch, ac yn myned i'w wely i orphwys heb weddio Duw; ond meddai Duw “Fi sydd yn cyfeirio ffordd i fellt y taranau.” Dywedir mai un o ryfeddodau mwyaf yr oes hon yw y *Great Pacific Railway* yn America. Cychwyna allan o New York, yn ymyl Môr y Werydd, a chyrhaedda i San Francisco, yn ymyl Môr y Canoldir, wedi myned ar draws cyfandir mawr o filoedd o filldiroedd. Dywedir wrthym y gweithid arni gan ddau gwmpeini; ac yn mhen saith mlynedd, cyfarfyddasant ar gribyn mynydd

uchel a gladdai ei gopa yn y cwmwl. Yr oedd yno, meddir, gyfarfyddiad o ryfeddodau pan ddaethpwyd i bwynt y cyfarfod. Yr oedd y talaethau wedi anfon yno-rywbeth i fod yn dystiolaeth o'u llawenydd, ar y dydd yr agorwyd hi gan yr anrhydeddus Leland Stanford, am ddeuddeg o'r gloch ar y trydydd o Fai, 1869. Yr oedd holl *delegraph* y deyrnas yn gweithio i hysbysu y newydd, ac nid ychydig oedd y gorfoledd. Ond dyma ffordd *hwy*, o ran pellder, wedi ei gorphen gan Fab y dyn—ffordd o ymyl uffern i ganol gogoniant; ac y mae y gorfoledd o'i hachos i barhau byth.

Wedi ei chysegro i ni.—Wrth gasglu nodweddion y ffordd yma at eu gilydd, mae gogoniant trefn iachawdwr-iaeth yn dyfod i'r golwg. *Ffordd.* Mae gan Dduw drefn am fywyd pechadur. Nid damwain yw achubiaeth credadyn, ond gweithred o gynllun—y cynllun yn drefn, a'r drefn hono yn ffordd. *Ffordd newydd.* Mae Duw mor gyfoethog o newydd-deb, fel y mae yn dyfod a'r peth cymhwysaf. Mae seirff tanlyd yn rhwygo, ond dacw Moses yn codi sarff o brês i wella y rhwygiadau—ffordd *newydd.* Cychwynodd Israel o'r Aipht.—Sut y croesant y môr? Holltwyd ef â gwialen, a dacw Israel yn cerdded drwodd yn droed-sych—ffordd *newydd.* Rhoddodd Iesu ei olwg i ddyn dall, trwy iro clai a phoeryn—ffordd *newydd.* Mae Duw yn defnyddio y moddion fyddo yn ateb; ond dyma ffordd *newydd*—y dienog yn lle yr euog—*newydd*; y cymwyn-aswr yn cael ei erlid—*newydd*; estyn cwpan lliidiawgrwydd at y Mab, arbed y gelyn—ffordd *newydd.*

Ffordd newydd a bywiol.—Bywyd yw gogoniant y cyfan—newydd-deb yn tarddu o fywyd, bywyd yn tarddu o farw, a marw yn tarddu o gariad at bechadur. Fe gaiff y byd lonydd i ddadleu pa un ai Madog ai Columbus a ddarganfyddodd America, ac nid yw o bwys mawr; ond nid oes dadl pwy wnaeth y ffordd newydd a bywiol. *Bywyd.*—Nid y bywyd sydd yn paentio dail y blodeuyn â lliwiau prydfferth, nid y bywyd sydd yn gwisgo y *forest* â gwyrdd-

lesni, yn diferu brasder ar hyd ffyrdd anian, ac yn gwisgo y dyffrynoedd ág ŷd; nid y bywyd sydd yn llanw y goedwig â cherddoriaeth yr adar, ond y bywyd sydd yn newid cymeriad cablwyr, y bywyd sydd yn gloewi enaid aflan yr euog—y bywyd sydd yn codi y groes a'i chyfri'n goron, y bywyd sydd yn gorfoleddu mewn gorthrynderau, ac yn gwneyd i'w berchenog ganu yn y nos dywyllaf—ffordd i fywyd yn ei ddadblygiadau uchaf.

I ni.—Bywyd i ni—ffordd i ni. Gwelir ar *gates* myned-feydd ein palasau y gair "*private*." Mae *sentinel* yn gwilied wrth y fynedfa i balasau ein Brenhines—*private*. Ysgrifenwyd ar grefydd yr hen oruchwyliaeth—*private*; ond dyma ffordd i ni—bywyd i ni. Angelion, chwareuwch eich telynuau, fe welir rhai a fu yn gorwedd mewn marwolaeth yn cyd-ganu yr anthem waredigol. Bywyd.—Mae iachawdwriaeth yn gwaredu oddiwrth bechodau, ond gwna beth mwy—rhydd *fywyd*. Cyhoedda faddeuant rhâd i'r euog mwyaf; ond rhydd fwy—rhydd fywyd.

Wedi ei chysegro.—Ni bydd eisiau i'r Cristion gywil-yddio yn y nefoedd—fe aeth yno ar brif-ffordd y Brenin. Ni bydd eisiau iddo ostwng pen yn ymyl angelion—fe aeth yno yn haeddiant bywyd annherfynol yr Iesu. Fe agorwyd y ffordd yn bwrpasol er mwyn dynion, ac y mae angelion yn genhadon arni i gymwynasu i etifeddion iachawdwriaeth. Gorfoleddant mewn bywyd, am fywyd, a diolchant am dano byth, i'r Hwn a'i prynodd.

PREGETH VIII.

YR EGLWYS MEWN CAETHIWED.

"WRTH afonydd Babilon, yno yr eisteddasom, ac wylasom, pan feddyliasom am Seion. Ar yr helyg o'n mewn y crogasom ein telynu. Canys yno y gofynodd y rhai a'n caethiwasant i ni gân; a'r rhai a'n hanrheithiasai lawenydd, *gan ddywedyd*: Cenwch i ni *rai* o ganiadau Seion. Pa fodd y canwn gerdd yr ARGWYDD mewn gwlad ddyeithr? Os anghofiaf di, Jerusalem, anghofied fy hebeulaw *ganu*. Glyned fy nhafod wrth dafod fy ngenau, oni chofiaf di; oni chodaf Jerusalem goruwch fy llawenydd penaf."—SALM CXXXVII. 1-6.

SAIF yr Eglwys Iuddewig yn fynych yn y Beibl fel portread o'r Eglwys Gristionogol, yn y gwahanol sefyllfaeodd ac amgylchiadau yr â drwyddynt. Enwau sydd yn cael eu hystyr yn arferion a bywyd y genedl hono a ddefnyddir yn fynych i ddynodi pethau ysbrydol yr Eglwys yn bresenol. Cyfeiria y geiriau yma at gaethgludiad Israel i Babilon—un o'r amgylchiadau pwysicaf yn hanes y genedl; ac ar rai ystyron, yr amgylchiad a wnaeth y cyfnewidiad mwyaf yn eu plith. Gwaredwyd hwynt oddiyno â llaw gref, ac â braich estynedig, a chyfeirir at y waredigaeth hono mewn amryw fanau yn yr Ysgrythyr fel cyfryngiad o eiddo Duw. Mae y geiriau yma yn rhoddi golwg i ni arnynt pan yn Babilon; ac yr oedd eu sefyllfa hwy yno yn bortread cywir o'r amgylchiadau y mae Eglwys Dduw yn myned iddynt. Yr oeddent mewn caethiwed, ac nid yw yn ormod dweyd am yr Eglwys, ar lawer achlysur, ei bod mewn caethiwed.

Pa bryd?

1. *Pan yn colli gafael ar ysbrydolrwydd crefydd yn nghanol ffurfiau allanol.*—Gall crefydd fodoli heb fod iddi ffurf, a gall ffurf fodoli heb grefydd; ond yn sefyllfa bresenol y meddwl, rhaid cael ffurf. Ffurfiâu allanol crefydd sydd yn galluogi dynion i gynal i fyny grefydd yn ei gwedd gymdeithasol, ond hanfod, egwyddor, a bywyd

crefydd, sydd yn dwyn pob crefyddwr i gydymffurfiaid â rheolau, ac i gydymdeimlad â chrefydd yn ei natur, ei dyben, a'i gogoniant. Un o'r pethau mwyaf anhawdd i ni yw dwyn ein hunain dan ddyllanwad ysbrydol crefydd; a'r dyllanwad hwnw yn unig a all wneyd pob cyflawniad yn gymeradwy. Mae ffurf crefydd i fod nid fel y wisg am y corff—yn ei guddio, ond fel y lliwiau ar ddail y blodeuyn—yn codi allan o'i fywyd; fel ffurf y pren—yn dyfod allan o hono ef ei hun. Yna ni bydd ffurf yn niweidiol; ond pan yn rhoddi ffurfiau neillduol am gyflawniadau crefyddol, gallant fod fel rhwymau am draed apostolion. Mae ffurfiau crefyddol gweigion fel y llestri gweigion yn y briodas yn Cana Galilea—yn gwneyd i bawb ofidio wrth fetu a gweled dim yuddynt. Ysbryd crefydd sydd yn rhoddi gwerth ynddi. Mae pob gair a ddywedir yn cael cymeriad ger bron gorsedd Duw o'r ysbryd sydd y tu cefn iddo. Yn mla le y gellir cael y fath engraifft o gaethiwed ag mewn Eglwys heb fod yn gofalu am yr ysbrydol? Gostyngwyd nerth hon ar y ffordd. Nid oes mawl i Dduw yn ei chaniadau, na llef at Dduw yn ei gweddianau, na Christ croeshoeliedig yn ei gweinidogaeth. Ffurfiau allanol—maent fel y ffenestr liwiedig, yn brydfarth, ond yn atal y goleuni i fewn; yn dŷ godidog, ond wedi ei adeiladu ar y tywod. Yn yr Eglwys hon, y mae ysbrydolrwydd wedi ei golli, a hithau wedi ei dwyn i gaethiwed. "*O Arglwydd, dychwel ein caethiwed.*"

2. *Y mae yr Eglwys yn myned i gaethiwed pan yn disgyn yn isel mewn bywyd, crefyddol.*—Caethgludwyd Israel i Babilon fel y caffai y tir feddianu ei Sabbathau. Yr oedd y genedl wedi ymlygru, nes y torent orchymynion Duw. Cyhyd ag y parhaodd Israel yn eiddigus dros ogoniant Duw, a ehdydymffurfio â'i orchymynion ef, yr oeddent yn auorchfygadwy; ond wedi iddynt syrthio i feiau y cenhedloedd, ac ymgylmu ag arferion estroniaid i amodau yr addewid, gorchfygid hwy gan eu gwanach, gwaradwyddwyd hwy gan genhedloedd paganaidd—dygai y rhai

hyny fwy o sêl dros eulunod mudion nag a ddygent hwy dros y gwir Dduw; ac y mae y testyn hwn yn rhoddi i ni olwg arnynt yn ngwlad y gelyn. Eglwys Dduw yw y gallu mwyaf sydd ar y ddaear heddyw.—Hon sydd yn byw lwyraf i egwyddorion pur, heb ofyn am allwedd carclawr wrth ei gwregys. Ond y mae yn bosibl i'r gallu cryfaf gael ei wanhau—gellir *blastio* y blodeuyn prydferthaf, rhoddi hadau afiechyd marwol yn y cyfansoddiad iachaf, ac y mae yn bosibl i'r Eglwys gael ei chlwyfo yn nhy ei charedigion. Bywyd crefyddol pur yw y gallu sydd yn cario y dylanwad dyfnaf a mwyaf parhaol. Nid yn ei swm y mae ei nerth, fwy na'r fellten; er hyny, hyllt yr awyrgylech foesol o'i gylch. Nid yn ei hōniadau y mae ei allu, mwy na'r haul; er hyny, todda bechod fel eira, a chyfeiliornad a rhagfarn fel rhew y gwanwyn.

Y mae amheuaeth am onestrwydd unrhyw un yn siglo cylch eang ei adnabyddiaeth, o ran ei ymddiriedaeth—nid am yr hyn a allant ei *brofi*, ond am yr hyn y maent yn ei *ofni*. Mae y dyn a ofnir yn mhob cymdeithas yn cael ei gadw o dan ei sylw. Yr Eglwys iselaf mewn bywyd yw yr Eglwys fwyaf terfysglyd—ofnant eu gilydd, a byddant fyw mewn hualau caethiwed. Ystyrir ei fod yn bwysig pwy a etholir i'r Senedd-dŷ, am mai yno y ffurfir cyfreithiau i reoli miliynau y deyrnas; edrychir yn bryderus am ffurfiad gwahanol fyrddau lleol llywodraethol, rhag i ddynion fyned iddynt fyddo yn ddiffygiol o uniondeb; ond gallai Prydain Fawr fforddio bod heb ei Senedd, yn well na bod heb Eglwys i Dduw yn y wlad. Ni byddai *Parliament* llygredig yn haner mor niweidiol a chael Eglwysi Duw yn llygredig. Dyma wenwyno ffynon bywyd—ysigo y fraich sydd yn ysgwyd y deyrn-wialen yn myd egwyddorion a gwirionedd. Gall Seion fforddio bod heb lawer o bethau; ond nis gall fforddio bod heb burdeb diamheuol. Mae hon i sefyll i oleuo, gan nad *lamp* pwy a ddiffodda—yn allu i buro, gan nad pwy a ymlygra. Nid oes neb â hawl i wenwyno; ond y diweddaf i'w wneyd yw y meddyg.

Ni ddylai neb fradychu ei wlad ; ond yr olaf o bawb yw y milwr. Dylid aros yn y llong i geisio ei harbed rhag myned i'r dyfnder ; ond y *captain* yw yr olaf i'w gadael. Yr Eglwys sydd i fod bellaf oddiwrth lygredd. Os bywyd isel, rhaid myned i Babilon.

8. *Y mae yr Eglwys yn myned i gaethiwed pan y byddo wedi myned yn ddifater am lwyddiant yr achos.*—Ni bu yr Eglwys erioed nad oedd ynnddi ddynion difater a dibryder am yr achos, ac ni bu erioed nad oedd ynnddi rai oeddent “yn meddwl am ei enw Ef.” Un o'r pethau mwyaf annghyson a gwrthun yw crefyddwr difater. Mae cyfatebiaeth i fod rhwng y gofal a'r hyn a ymddiriedir. Yr ymddiriedaeth fwyaf yw yr hyn a roddir yn ngofal Cristion ; ond naill ai y mae ambell un wedi cael gan Dduw fwy o ofal, neu y mae llawer un yn anonest i'r ymddiriedaeth. Mae gwrthgiliaid yn yr ysbryd oddiwrth Dduw yn fynych yn cymeryd lle yn mhell cyn gwrthgiliaid oddiwrth achos Duw ; ond y mae gofal am yr achos yn myned yn llai, ac yma y dengys ei hun gyntaf. † Bu Nabal farw o dan amgylechiadau rhyfedd. Bu ei galon farw ddeg diwrnod o'i flaen ; ac un o'r pethau anhawddaf ei ddeall yw sut fodolaeth oedd eiddo Nabal wedi i'w galon farw ; ond y mae yn sicr i'w waith ddarfod y dydd y bu ei galon farw. Onid oes lle i ofni fod hyn yn ddarluniad o lawer aelod crefyddol ? Gwelwyd ynddo bryder am yr achos, cariad at ei frodyr, ffyddlondeb i foddion grás, y parch puraf i'r Efengyl, ond y mae wedi cilio i'r tir pell. Onid oes lle i ofni fod ei galon wedi marw, ac nad yw ei broffes grefyddol ond bodolaeth mewn ffurf weledig rhwng bywyd a llwyr farwolaeth ? Ond nid yw yr hyn sydd yn wfrionedd am un ond cysgod y gwirionedd am lawer. † Dywedir am y teulu lle nad oes neb yn gofalu am fod cyfartaledd rhwng yr hyn sydd yn dyfod i fewn a'r hyn sydd yn myned allan, y bydd yn sicr o fyned i anhawsderau rhywbryd—y cymerir meddiant o'r pethau gan eraill. Dywedir am y deyrnas lle nad oes gofal bod y treuliau mor fychan a'r derbyniadau,

y bydd yn rhaid i rywrai dalu mwy o drethoedd yn fuan, neu i'r deyrnas fyned yn *bankrupt*, ac i gael ei llywodraethu gan deyrnasoedd eraill. Mae gan Eglwys Dduw ei hamgylchiadau, a rhaid i rywrai edrych ar eu hól; ac os na all hon ddâl y glorian yn gywir, peth hawdd fydd myned yn ol yn yr amgylchiadau; ac Eglwys wedi myned yn *fankrupt* fyddai yn beth newydd. Paham? Am fod yno rai yn gofalu, a Duw yn bendithio. Nis gall pawb wneyd yr un peth, ond gall pob un wneyd rhywbeth. Y mae hyn wedi dwyn yr Eglwys i ofid—i dir y gelyn. Beth gwell a fyddech chwi gael y *firemen* goreu yn y pwll glo, os byddai yno rywrai yn ddigon ffol i danio *match*, neu agor eu *lamp*? Yr ydym wedi ofni yn fynych y bobl sydd yn cario *matches* yn yr Eglwysi. Beth sydd yn cyfrif am eiddilwch yr Eglwys?—yn Babilon. Beth sydd yn cyfrif am fychander y gwaith a wneir—yn Babilon. Beth sydd yn cyfrif am lwydni profiad crefyddol amryw—yn Babilon. Maent mewn caethiwed gan y gelyn. Onid yw y cadwynau yn drymion, y dagrau yn heilltion—ar lan afonydd Babilon?

4. *Pan y mae llafur crefyddol yn ymddangos fel pe yn myned yn ofer, ac amcanion yn cael eu colli.*—*Ymddangos* a ddywedwyd. Ar sail tystiolaeth gair Duw, nid oes un llafur crefyddol, gyflawnir oddiar ddybenion santiaidd, yn ysbryd yr Efengyl, ac yn ol trefn Duw, i fyned yn ofer. “A chwi yn gwybod nad yw eich llafur chwi yn ofer yn yr Arglwydd.” Mae ein gwaith yn dâl dau gysylltiad—cysylltiad â'r amcan fwriadwn ei gyrhaedd, ac â chymeradwyaeth y Duw bia y gwaith. Gall dynion wneyd peth a fyddo yn fanteisiol i eraill, ac a fyddo yn ymddangos yn fendith, ond eto i'r gweithredydd fod o dan felldith. Cafodd Israel ddwfr drwy i Moses daro y graig, ond am hyny y bu efe farw ar gopa Nebo. Gall llafur mawr *ymddangos* fel pe yn ofer, ond mae Duw yn cadw yr *account*, “ac fe ddaw'r addewid wir a'i geiriau pur i ben.” Aeth y *diver* amryw o weithiau i ddyfnderoedd y môr.—Chwilio yr oedd am drysorau aethant i lawr yn y llong-ddrylliad; ond os

methodd a chael dim, nid oes neb yn ei feio—cymeradwyir ef am ei waith. Aeth dynion allan i edrych am blentyn colledig; cerddasant fynyddoedd, croesasant ddyffrynoedd, chwiliasant yr afonydd, ond methwyd cael y bychan. Aflwyddianus; ond y mae y rhieni a'r wlad yn canmol y gwaith a wnaed ganddynt. Mae adegau ar Seion pan y mae ei llafur fel pe yn ymddangos yn ofer. Nid oes neb wedi gwneyd *attempt* erioed at y peth y mae Seion yn ceisio ei gyrhaedd; a dichon y byddai golwg ar fawredd y gwaith yn cymedroli ein syniadau pan yn aflwyddianus. Mae cymdeithas yn ceisio gwasgar goleuni i lanw y meddwl â gwybodaeth; mae rheolau yn cael eu gwneyd i ddyogelu iawnderau a dyrchafu dynoliaeth i fyny. Ond pwy sydd yn cynyg at ysgar rhwng pechod a'r pechadur?—Pwy sydd yn ceisio diwreiddio yr hunanoldeb yna sydd yn y meddwl? Dyma yr *attempt* fwyaf a wnaed erioed; a'r syndod yw fod cymaint wedi ei wneyd, hyd nes y byddom yn cysylltu Duw a'r gwaith. Ond fe wnelai yr Eglwys fwy o waith oni bai ei bod ar dir y gelyn—yn Babilon. Ymddengys yn y dyddiau hyn, fod dynion yn codi i fyny yn eithafol o galed. Clywir amryw blant yn cablu Duw, canoedd o ieuentyd ein gwlad yn meddwi bob wythnos, dynion yn twyllo eu gilydd mewn masnach, nes y mae ymddiriedaeth cymdeithas yn cael ei siglo i'r gwaelodion; eraill yn newid eu lliw fel y mynant—fel y *chameleon*; athrawiaethau crefydd yn cael eu gwatwar, gweinidogaeth y groes yn cael ei gwrthod, a'r Sabbath wedi ei droi i ddybenion bydol. Yn mha le y mae yr Eglwys?—A yw hi yn wlo mewn lleoedd dirgel?—A yw Israel wedi cau ei ddrws i fyned i'w ystafell?—A yw yr Eglwys yn foddlon mentro i ben Carmel i dderbyn *challenge* y byd annuwiol? Profiad yr Eglwys yw ei bod yn nhir y caethiwed; ond y mae gobaith y dychwel eto.

Y GOBAITH SYDD YN Y GEIRIAU AM GYFNEWIDIAD AR BETHAU.

1. *Y mae yma brawf nad yw yr Eglwys wedi marw.—Y mae hi wedi dechreu meddwl am Seion.—“Pan feddyl-iasom.”—Yr anhawsdra mawr yw cael dynion i feddwl,*

ac y mae llawer o amgylchiadau annymunol yn tarddu o beidio meddwl. Beth sydd yn cyfrif am fywyd annuwiol, am eiriau cableddus, a gweithredoedd creulawn dynion, ond eu bod yn *anystyriol*. Mae dechreu meddwl yn rhoi gobaith am adferiad o ddrygioni. Pan y mae yr Eglwys yn dechreu *meddwl*, y mae gobaith ei dychweliad o dir y gelyn—“*Pan feddylasom am Seion.*” Pwy all ddesgrifio nerth y disgwyliad sydd yn meddyliau y rhieni am ddychweliad eu bachgen o'r wlad bell? Nid yw blynyddau yn ei wanlau, nac anhawsderau yn ei ddigaloni. Y mae yn ofni llawer, ond yn gobeithio mwy; yn wylo llawer oddiar hiraeth, ond yn mwynhau llawer drwy obaith. Beth sydd yn ffurfio tebygolrwydd y daw? Os yw adgofion cartref yn aros yn fyw yn ei deimlad, hiraeth am ei rieni yn cynhyrfu yn ei feddwl, y mae gobaith y daw. Gall blwyddyn o garchar ddyfod ag ambell un ato ei hun. Mae myfyrio ar y rhyddid oedd ef yn ei fwynhau yn flaenorol—ar y manteision a gollodd pan dafwyd ef i garchar—mae y ffaith ei fod wedi dechreu meddwl, yn rhoi gobaith y gwelir ef wedi myned drwy gyfnewidiad. Beth sydd yn ffurfio tebygolrwydd y daw yr Eglwys adref o'r caethiwed presenol—y gwelir hualon caethiwed wedi eu tori, dagrau yr wylofus wedi eu sychu?—Y ffaith fod yr Eglwys wedi *dechreu meddwl*—“*Pan feddylasom.*” Y mae wedi meddwl nes *wylo*—wylo am y golled gafodd—dagrau *gofid* a dagrau *hiraeth*. Cymysga y ddau, a rhaid eu cael. Gofid am esgeuluso y gwaith ddylasid ei gyflawni—gofid am y difaterwch a ddangoswyd at achos yr Arglwydd; ond hiraeth am adnewyddu y cyfamod—hiraeth am ail gymundeb â Duw—hiraeth am y dylanwadau dwyfol. Bu Jeremiah yn wylo. Cafodd wrandawyr oedd a'u hwynebau fel callestr—cenedl wedi anghofio yr Arglwydd—“O na bai fy mhen yn ddyfroedd, a'm llygaid yn ffynon o ddagrau, fel yr wylwn ddydd a nos am laddedigion merch fy mhobl.”

A yw Seion yn foddllawn ar ei sefyllfa bresenol? A yw iuenetyd ein hysgolion Sabbathol i dyfu i fyny i gablu

Duw a Beiblau yn eu dwylaw? A foddlonwn ni weled annuwioldeb o bob math yn amlhau, heb *brotestio* yn ei erbyn? A gaiff sefydliadau annuwiol flaguro, a Seion wywo? O, na, y mae rhai yn wyllo mewn lleoedd dirgel.— Y mae hiraeth am glywed y pyrth yn agor, y mae Jerusalem yn anwyl, a'r hen ddylanwadau yn aros yn y cof.

“P’le mae’r hen awelon hytryd
Deimlais gynt wrth daro i maes?
P’le mae’r hen brofiadau melus
Gefais gynt wrth orsedd gras?”

2. *Rhaid iddi fagu ysbryd i wrthwynebu ei gelynyon.*—
“*Pa fodd y canwn gerdd yr Arglwydd.*”—Nis gall dyn fforddio gwneyd cartref yn mhob man; ac y mae yn bwysig iddo beidio boddloni ar sefyllfa bywyd, oddieithr ei bod hi yr oreu iddo ef. Mae gwahanol feddyliau i’r geiriau “*cenwch i ni rai o ganiadau Seion.*” Barna rhai mae gwatwar y bobl hyn fyddai y Babiloniaid wrth geisio ganddynt ganu iddynt hwy y tónau a ganent yn eu gwlad. Galwyd Samson i wledd y Philistiaid i beri iddynt chwertthin, ond costiodd yn ddrud iddynt. Gwatwarwyd yr hen broffwyd Eliseus gan fechgyn Bethel, ond costiodd yn ddrud iddynt. Dynwardwyd yr Eglwys yn cymuno gan nifer o fechgyn annuwiol, ond buasai yn well iddynt beidio. Mae ambell un yn meddu ar allu i *ddirmygu* pawb, chwertthin am ben dynion gan eu gwatwar. Arf miniog yw gwatwaredd. Mae y dyn hwnw sydd yn ddigon cryf i geryddu y bachgen am dyngu a rhegi yn meddu ar gariad at Dduw yn ei galon; mae y dyn hwnw sydd yn sefyll i fynny yn erbyn arferion annuwiol yr oes yn meddu ar gariad at burdeb yn ei galon. Y mae yn well genym y dyn fydd *farw* o dan y faner na’r dyn a fydd *byw* wedi *ffoi* o’r maes ar ddydd y frwydr. Yr ydym yn ofni fod dynion yn gwatwar yn bresenol; ond y mae eisiau i Seion sefyll. “*Pa fodd y canwn gerdd yr Arglwydd.*”

Barna rhai mai nid gwatwar y bobl oedd y Babiloniaid, eithr yn hytrach ceisio *cymmodi eu meddyliau a’r sefyllfa*

yr oeddent ynddi; ac yr oedd y perygl yma yn llawer mwy. —Yr oeddent am iddynt beidio a theimlo eu caethiwed. Dywedir fod ambell i *slaveholder* yn delio mor dirion at ei gaethion, fel y dadleuid na fynent ddyfod yn rhydd. Ai tybed fod y llonyddwch presenol yn arwyddo fod pobpeth yn *right*? Mae yn wir nad oes un awel beryglus yn curo ar y llong, ond y mae hi o ddiffyg awel yn aros yn yr un man. Y mae perygl o wneyd y carchar mor gysurus a chartref, onide fe amlheir troseddau. Y mae perygl i'r Eglwys gymmodi â'i sefyllfa bresenol—rhaid gwrthwynebu ceisiadau ofer y gelynyon—adnabod y dichellion sydd yn cynyg am fywyd ysbrydol yr Eglwysi. Mae gwêniaeth yn dinystrio miloedd. Nis gellir *bribio* Eglwys sydd yn dyfod i deimlo ei gwaith. Gall ystormydd blygu y cedrwydd heb eu diwreiddio, siglo y gangen heb ei thori ymaith, ond y maent yno i gyfarfod â'r storom nesaf. Nis gellir cymmodi yr Eglwys â'i chaethiwed—y mae yn dyheu am ryddid.

3. *Dygent sêl dros bethau cysegredig crefydd.*—Er fod Israel yn mhell o'u gwlad, dygent sêl dros y pethau dwyfol oedd yn Jerusalem. Y mae yn arwydd o dduwioldeb mawr fod ynom barch i bethau cysegredig. Maent wedi crogi eu telynau ar yr helyg. Ymadrodd cryf am bobl wedi myned allan o gylch dylanwad crefydd. Yr oedd telyn yn un o'r pethau mwyaf cysegredig gan Dafydd. Canodd rhai o'r Salmau mwyaf godidog ar y delyn, a datganodd y teimladau mwyaf cysegredig ar y delyn; â'r delyn y dychrynai efe yr ysbryd drwg yn Saul, nes y buasai adgofion am lawenydd y nef yn peri iddo ffoi o'i swm mewn digofaint ato ei hun am bechu yn erbyn Duw.

Crogi telyn ar yr helyg.—Buasai yn hyfrydwch gweled cleddyf yn crogi—buasai yn arwydd fod heddwch yn teyrnasu; ond gweled telyn yn crogi oedd yn arwydd fod y llawenydd wedi cilio. Ni foddlonent ei thynu i lawr i bob amcan. Y delyn!—hon fu yn llanw Jerusalem â mawl; y delyn!—hon fu yn amgylchynu palas y brenin Dafydd â gorfoledd. Trueni yw ei gweled ar yr helyg.

Ond byddai i'r helyg grino o dani cyn y tynent hi oddi yno i foddloni y Babiloniaid. Telynu Seion Duw oeddent.

“Pa fodd y canwn gerdd yr Arglwydd mewn gwlad ddyeithr?” Mae gan bob gwlad ei hadar; ni allent fyw ond yn eu *climates* eu hunain, ac yno gallant ganu nes deffro i'r gwaelodion deimladau y galon. Nis gellir canu yn mhob amgylchiad a lle. Ceisier gan y weddw ganu ar ddydd angladd ei phriod; ceisier gan y milwr gymerwyd yn garcharwr ganu; ceisier gan Jeremiah ganu.—An-mhosibl. Nis gellir wylo yn mhob man. Gwres sydd i doddi y rhew, tynerwch dŷn fywyd allan. Nis gall yr Eglwys ganu yn mhob man. Y mae canu yr Eglwys i godi allan o'i dagrau—“Y rhai sydd yn hau mewn dagrau a fedant mewn gorfoledd.” Rhwng y creigiau ar lan y Môr Coch, y mae yn ddigon hawdd wylo wedi myned yn gyfyngder; ond os ydynt yn wylo yr ochr yma i'r môr, cânt ganu yr ochr draw. Nis gallant ganu yn Babilon—y maent o'u gwlad; ond y maent yn penderfynu na chymysgir tŵnau Seion a thŵnau Babilon. Os dygwyd hwy i'r caethiwed, cedwir y tŵnau yn gysegredig; ni chaiff arogl paganiaeth fod ar eu dillad, aceniaeth Babilon fod ar eu geiriau, nac ysbryd y gelynyon fod yn eu pêroriaeth. Ai rhywbeth felly yw teimlad yr Eglwys yn bresenol? Y mae yn anhawdd codi i ysbryd mawl—mae telynu llawer ar yr helyg. Yn mha le y mae teimladau cynes y blynyddoedd gynt? Yn mha le mae y diwygiadau grymus? O! y mae miloedd o ddynion duwiol gerbron Duw yn wylo am y dylanwad dwyfol mewn hiraeth dwfn am ddychwelyd i afael yr hen ddylanwad; ond y maent wedi penderfynu na chymysgir dim ar bethau. Yn ei elfen ei hun y mae pob peth yn mwynhau. Ei Seion i Gristion. “Hoffais drigfan dy dŷ, a lle preswylfa dy ogoniant.”

4. *Y maent yn cyfamodi â hwy eu hunain na fyddant i anghofio Jerusalem.*—“Os anghofiaf di, Jerusalem, anghofied fy neheulaw ganu.” Os tynir y llaw yma dros dânau y delyni i foddloni y Babiloniaid, yr wyf yn foddllawn

i'r llaw yma gael ei hanalluogi, fel na allo ganu tŷon ar y delyn byth mwy. Os bydd i'r tafod yma ganu rhai o ganiadau Seion yma, i foddloni y paganiaid hyn, analluoger ef i ganu dim arall byth mwy—"glyned fy nhafod wrth dafnod fy ngenau." Mae yma swm cyfamod cryf. Nid peth bach oedd gallu anghofio Jerusalem. Yr oedd arferion Jerusalem yn eu bywyd, caneuon Jerusalem ar eu tafodau, gogoniant Jerusalem yn eu hanes fel cenedl, a Duw Jerusalem wedi ymgysfodi â hwy. Nid oedd eu calon yn iach hyd nes cael Jerusalem yn gartref eto. Yn ei wlad y mae calon yr ymfudwr; nid yw ond yn codi *tent* yn y wlad bell i fyw ynddo. Ni chaffai y cwmwl ddiferyn o ddwr o'r môr heb iddo ymgysfodi y caiff ddyfod yn ol eto. Ni roddir y gwllith i'r ddaear heb i'r ddaear gyfamodi y caiff ef ddyfod yn ol. Yn ei gartref y mae pob peth yn ddedwydd. Mae gan Eglwys Dduw ei chartref, ac nid yw wedi anghofio Jerusalem, er ei bod yn mhell. Dyma ddinas ein tadau, cartref y llwythau, ac ni bydd Seion yn esmwyth hyd nes y cyrhaedda i ganol yr hen ddylanwadau.

Nid yw yn rhyfedd o gwbl fod cariad gan bob aelod at yr Eglwys, a'r Eglwys at ei chartref. Pwy oedd yn beio y Parch. Josiah Henson am y fath ddangosiad cryf a wnaeth pan y cafodd ei droed ar ddaear rydd yr ochr draw i'r afon? Ymroliai ar y ddaear, cusanai y llwch—*caeth wedi dianc oedd ef*. Pa ryfedd fod dyn duwiol yn ymgolli mewn mawl o'i Jerusalem—"gosodais Jerusalem goruwch fy llawenydd penaf." Y mae eisiau i Dduw roddi bri ar Seion eto. Gofynir yn mha le y mae eu Duw hwynt? Pwy a all lanw ei le Ef? Gallodd Joshua lanw lle Moses, Solomon lanw lle Dafydd, ond pwy a all lanw ei le Ef? Yn y wledd, fe welodd Saul yn union fod lle Dafydd yn wâg. Y mae lle Duw yn wâg—peidied neb cynyg ei lanw. Ond pan y daw Duw iddo, fe brofa Efe mai efe yw Duw Seion. Ni fydd neb yn *doubtio*. Gwaith Duw sydd yn dwyn pobl i'w adnabod Ef. Gwna Duw arch cyfamod o galon aflan pechadur; a drych i ddangos ei ogoniant yn mywyd yr

adferedig. Newidia drefn syniadau dyn. Cleddyf yr Arglwydd a Gedeon; nid cleddyf Gedeon a'r Arglwydd. Mae cleddyfau Duw yn *ddau-finiog*—torant wrth fyned a dychwelyd yn mhob cyfeiriad. Dechreua gallu Duw weithredu yn y fan y gorphen a gallu dyn; ac y mae anhawsderau y dynol yn gyfleusderau i'r dwyfol. Gweddi Seion Duw yw—"Bywha dy waith."

PREGETH IX.

TYSTIOLAETH DUW AM DANO EI HUN.

“Nid oes lidiawgrwydd ynof.”—ESAIAS xxvii. 4.

TYSTIOLAETH Duw am dano ei hun yw y geiriau hyn. Syniadau dwyfol mewn iaith ddynol yw y Beibl. Hyn yw y rheswm fod cymaint o wahaniaeth barn am ei wirioneddau yn mhlith y rhai sydd yn eu credu, cymaint o ymdrech i wrthweithio ei ddylanwad yn mhlith ei elynion, a chymaint o ofn yn dâl y rhai a droseddant ei orchymynion. Fel gwirioneddau dwyfol, y maent yn dragywyddol; fel gwirioneddau tragywyddol, y maent yn anamgyffredadwy; ac yn y ffaith eu bod yn anamgyffredadwy y bydd ein nefoedd ni byth. Y mae unrhyw wirionedd a fyddo wedi tarddu yn meddwl dyn yn agored i feirniadaeth—chwilir i fewn iddo, a phrofrif ef wrth safon ddynol. Nid yw y gwahaniaeth sydd rhwng meddyliau dynion, ond mewn graddau, mwy a llai, gwanach a chryfach. Tardda y gwahaniaeth hyn o gyfuniad mawredd ac ymdrech. Hefyd, y mae a fyno amgylchiadau allanol â dadblygiad y meddwl. Nis gall meddwl dyn o dan unrhyw amgylchiadau gynyrchu dim ond sydd yn bosibl, yn debyg, ac yn sicr o gael ei brofi wrth safon briodol. Yn bosibl, ar gyfrif cyflead pob meddwl o dan yr un deddfau; yn debyg, ar gyfrif yr awydd anniwall sydd yn y meddwl i chwilio i ddirgelion tybiedig; ac yn sicr ar gyfrif dadblygiad a dyrchafiad y meddwl o dan ddylanwad egwyddorion a gwirioneddau anfarwol Cristionogaeth.

Dichon mai y wedd y mae ysbryd y cyfeiliorni wedi ei gymeryd yn ddiweddar, yw yr eofndra rhyfygus o ddwyn safonau wrth y rhai y bernir gwirioneddau a chymeriadau dynol wrthynt i farnu gwirioneddau a chymeriad Duw

wrthynt. Gwneir hyn *yn gyntaf*, o herwydd anwybodaeth o derfynau amgyffrediad y meddwl dynol. Ffurfiwyd llawer cyfraith wladol annglyfiawn o herwydd anwybodaeth o derfynau gwir ryddid a iawnder. Beiddiodd llawer un gyhoeddi syniadau am Dduw oeddent yn *rhyfygus*, yn gystal a chyfeiliornus, ond gwnaed hyn o herwydd anwybodaeth o derfynau priodol meddylddrychau. *Yn ail*, y mae awydd sydd yn ymylu ar fod yn drosedd mewn ambell i feddwl am ddarostwng pob peth i amgyffrediad y deall. Ceir dosbarth o feddylwyr yn hollol amddifad o gydymdeimlad âg un mawredd ond a allant lwy ei ddarostwng. Nid oes un cwmwl yn rhy dywyll i weled drwyddo, nac un mynydd yn rhy uchel i'w ddringo. Gwadant y dwyfol yn mhob man, ac felly yn dileu, pe gallent, yr unig wir fawredd sydd yn cyfarfod â dymuniad anfarwol dyn. Ond y mae tystiolaeth y testyn yn cynal gobraith yn fyw yn y meddwl gostyngedig ac yn y galon ddrylliog, yn hollti tywyllwch y dyfodol o flaen y meddwl ymofyngar, yn llonyddu cynhyrfaiau ofnadwy enaid fydd o dan y felldith, a diffodda uffern i gredadyn. Brawddeg fêr yw, ond y mae fel y gragen yn dâl sŵn y môr—teimladau y fynwes ddwyfol. Udgorn cyfryngwriaeth yw, yn cyhoeddi heddwch.

I. Y MAE Y DYSTIOLAETH HON AM DDUW UWCHLAW DIGWYLLIAD RHESWM DYN O DAN DDYLANWAD PECHOD.—Gellir profi tarddiad dwyfol yr iachawdwriaeth oddiwrth *nodwedd* y meddwl dynol, yn gystal ag oddiwrth y bendithion a gynygir ynddi. Gwir fod y ffaith o gyffredinolrwydd pechod, a'i fod wedi lefeinio ein holl natur ni â'i ddylanwad, yn ein gosod o dan anfantais i ffurfio barn am y meddwl ei hun, yr hyn a allasai wneyd pe buasai heb bechu. Ni buasai angen iachawdwriaeth oni bai pechod; eto, nid pechod yw ei hachos. Rhoddi achlysur i Dduw i egluro ei hun mewn cymeriad newydd a wnaeth. Rhydd mawredd a phwysau y llong brawf ar ddyfnder a nerth yr afon. Dangosodd y ddalen a godwyd i'r awel i ba gyfeiriad yr

oedd y gwynt yn myned. Bu dyfodiad pechod i fewn yn foddion i Dduw egluro llinell yn ei gymeriad na allasai perffeithrwydd, mawredd, a gogoniant y greadigaeth cyntaf ei wneyd. Fel mae tylodi y cardotyn yn deffro haelioni a charedigrwydd natur a chalon y boneddwr, felly y mae trueni yr euog yn cynhyrfu tynerwch y galon ddwyfol i roddi yr hyn na allasai meddwl ddisgwyl oni bai am dystiolaeth Duw am dano ei hun.

Nis gellir ysgar pechod a deddf.—Anngyfraith yw pechod—trosedd ar orchymyn—cyflawni yr hyn a waharddir, neu esgeuluso gwneyd yr hyn a ofynir. Fel mae cysylltiad rhwng pechod a deddf, felly mae cysylltiad rhwng pechod a chosbedigaeth. Mae yn wir fod yma wahaniaeth. Nid achos pechod yw y ddeddf a dorwyd. Yr oedd yr angelion syrthiedig a'r rhai a gadwasant eu dechreuad o dan yr un ddeddf; ac os mai hono oedd yr achos o'r pechod, buasent *oll* yn syrthio. *Achos cosbedigaeth yw pechod.* Gwirionedd yn codi o natur Duw yw deddf—anufudd-dod yn tarddu yn nghalon dyn yw pechod; ond canlyniad naturiol y pechod hwnw, fel anngydyffurfiad â'r ddeddf, yw cosbedigaeth. Gweinyddir y gosb gan Dduw. Paham, ac i ba beth?

Yn gyntaf, fel amddiffyniad i'w hawl a'i lywodraeth. Amheuaeth gyhoeddus ar hawl llywodraeth yw gwrthryfel, a gwrthryfel yn ei wedd erchyllaf yw pechod yn mhob ffurf. Nis gall llywodraeth fforddio bod yn ddisylw o wrthryfel; rhwygid hi yn ddarnau o ran ei threfn, gwaradwyddid ei deddfau o ran eu hawdurdod, a pheryglid eiddo, cymeriad, a bywyd y deiliad ufudd. Gorfu i Dduw yru allan o'r nefoedd wrthryfelwyr—yr oedd ynddynt elfenau peryglus i'r *nefoedd* ei hun. Ni allodd Duw oddef pechod pan nad oedd ond yn *gyfrifedig* ar ei Fab.—Tybed y goddefa Efe ef yn ei elynion? Dyma y moddion diweddaf a ddefnyddia Duw, ond y mae yn wir effeithiol.

Yn ail, mae cosbedigaeth yn foddion dysgyblaeth.—Gall meddwl ddisgyn i'r fath sefyllfa fel mai dyma y moddion

effeithiolaf i'w ddysgu. Nodweddir gweithredoedd Duw ar y ddaear gan un amcan cyffredinol—santeiddio meddwl. Gwella Pharaoh oedd amcan y plauau yn yr Aipht; cymhwyso Israel i Ganaan oedd amcan y deugain mlynedd yn yr anialwch. Y mae pob cosbedigaeth *y tu yma i uffern* yn cael ei hamcanu gan Dduw yn foddion dysgyblaeth.

Yn drydydd, yr oedd Duw wrth gosbi pechod yn rhoddi esboniad ar *natur* pechod, ac eglurhad ar ei *haeddiant*. Cosbodd Duw yr angelion i gyrhaedd hyny. Yn nhra-ddodiad ei Fab i'r groes y cyrhaeddwyd hyn lwyraf, o herwydd yno y gallwyd cosbi pechod i eithafion ei haeddiant. Nid yw maddeuant yr Efengyl yn gwneyd ymaith â'r ffaith o'r cysylltiad sydd rhwng pechod a chosb, o herwydd *ar sail cosbedigaeth y gweinyddir y maddeuant*. Yr uchder mwyaf y gallodd meddwl godi iddo erioed oedd cosbi pechod yn mherson y pechadur. Gan i Dduw gosbi pob angel am ei bechod, nis gallasai rheswm dynol weled posiblwydd i ddianc rhag y gosb; ond yn nghanol y tywyllwch hwn y tywynodd goleuni yr adnod hon, "*Nid oes lidiawgrwydd ynof*"—awgrym eglur yn y ffurf nacaol am Dduw fwriadai beidio a chosbi. Dyna y frawddeg a roddodd esboniad newydd ar farnau Duw. Dywed y Beibl am *ddigofaint* Duw. Nwyd yw digofaint mewn dyn, ac y mae nwyd ddi-gofus yn allu peryglus; ond pan ddywedir am *ddigofaint* Duw, golygir yr anghydgordiad sydd rhwng purdeb ei natur a drygioni dynion. Y mae y ffaith fod Duw yn aros heb fyned yn elyn i ddyn yn tystio i ddaioni a graslonrwydd ei natur. Y mae safle person yn rhoddi pwys yn ei foddlonrwydd neu ei anfoddlonrwydd. Pan y teyrnasai Ymherawdwr Ffrainc, crynai y cyfandir-oedd â'i air—crogai allweddau heddwch Ewrop wrth ei wregys; ond pan aeth yn garcharor i Germany, ni ddychrynai preswylwyr pentref wrth ei fygythion—yr oedd wedi newid yr *orsedd* am *garchar*. Pe byddai Duw yn cyhoeddi ei fod wedi digio wrth y blaned yr ydym yn byw arni, byddai yn gynhyrfiad drwy ei holl lywodraeth. Mae all-

weddau tangnefedd y bydysawd yn ei law, ac ni newidia byth ei sefyllfa. Defnyddia bob moddion i argyhoeddi dynion nad yw am eu cosbi. Y mae yr Hwn sydd yn hollalluog o nerth yn ymlonyddu yn ei gariad, a dyma ei lŵ —“*Ni ymhoffaf yn marwolaeth yr annuwiol.*”

II. Y DYSTIOLAETH FEL Y CYDWEDDA A DAIONI CYFFREDINOL DUW YN EI LYWODRAETH.—Wrth ddaioni cyffredinol llywodraeth Duw y golygir canlyniadau naturiol ei osodiadau. Profa yr Ysgrhythyr fod Rhagluniaeth neillduol yn bod; ond yn annibynol ar hyny, profir gwirionedd yr adnod hon gan y daioni cyson sydd yn codi allan o ddeddfau gosodedig ei lywodraeth. Y mae profion lluosog o syrthiad dynoliaeth. Mae annhrefn yn amlwg; ond y mae gan Dduw lywodraeth uniongyrchol ar amgylchiadau fel y goruwch-reola y cyfan i gyrhaedd ei amcanion ei hun, a dyg yr amcanion hyny dystiolaeth eglur i wirionedd y testyn. Y mae perffeithrwydd yn hanfodol i'n syniadau ni am Dduw; ac yn ychwanegol at y perffeithrwydd hwnw, y mae tynerwch grasol ar ei holl weithredoedd. Adnabyddir cymeriad brenin wrth ei ddeddfau a'i lywodraeth. Tra y mae cyfiawnder yn disgleirio yn ngweinyddiadau gorsedd Duw, y mae anufudd-dod wedi staenio y ddaear. Mor anaml yw *barnau* Duw o'u cyferbynu â'i *drugareddau*. Moddion eithriadol yw barnau, i gyrhaedd amcanion mewn amgylchiadau neillduol, pan fyddo dynion yn eu beiddgarwch annuwiol yn myned yn uniongyrchol yn erbyn cynlluniau datguddiedig Duw; ac ni weinyddodd gosb erioed heb *gwyno* wrth orfod diweinio y cleddyf. Mae sŵn cymwynasgarwch wedi ei siomi yn ei eiriau. Os yw rhinweddau yn dystiolaeth am deimlad ac ansawdd calon dyn, tybed nad yw daioni mawr Duw yn ei lywodraeth yn dystiolaeth nad oes lid-iawgrwydd ynddo? Yr oedd yr adeg ar yr hon y creodd Duw ddyn yn profi daioni ei natur. Gallasai ei wneyd ar un o'r dyddiau blaenorol, pan oedd elfenau natur yn gymysgedig â'u gilydd; ond pan wnaeth ddyn, yr hwn a allasai fwynhau neu ddyoddef oddiwrth ddylanwad amcan-

ion a threfn neu annhrefn, gwnaeth iddo le dedwydd yn gyntaf, cododd y palas, dodrefnodd ef, cyneuodd ei lampau, haul a lleuad, a gorchuddiodd ei lawr ef â gwyrddlesni; prydferthodd y lili a'r rhosyn, rhoddodd gân yn mhig yr aderyn, a'r cyfan i chwyddo i fyny ddedwyddwch dyn. A raid casglu yn nghyd luaws o resymau i brofi i'r annuwiol nad oes lidiawgrwydd yn Nuw? Beth yw tuedd naturiol anufudd-dod dyn? Beth y mae oes hirfaith yr annuwiol yn ei ddweyd wrtho am Dduw? Cynhyrfodd llywodraeth Ffrainc unwaith o herwydd i Ymherawdwr Germany beidio a siarad â'i llys-genhadwr. Ystyriai hyny yn anfri i'w hanrhydedd; arweiniodd hyny i ryfel, ac y mae daear y wlad heb yfed y gwaed oll eto. Y mae dynion yn ei weled yn ormod i siarad â Duw. Cymhella hwy i ymresymu y mater âg Ef. Gwrthodir gyda dirmyg. Ond y mae ei galon heb galedu, ei farnau heb ddisgyn, ac yntau ar ei lŵ yn dweyd "*Nid oes lidiawgrwydd ynof.*"

III. CYDWEDDA Y DYSTIOLAETH A HOLL GYFAMODAU DUW.
—Mae y gwahanol gyfamodau a wnaeth Duw yn yr hen oruchwyhiaeth yn egluro y frawddeg hon—"*Nid oes lidiawgrwydd ynof.*" Gelwir y cyntaf yn gyfamod gweithred-oedd. Nid enw Beiblaidd yw hwn; er hyny, ceir ei ystyr yn y Beibl. Gofynir yn aml pa beth oedd amcan y prawf fu ar ddyd? Nid prawf i Dduw oedd ar egwyddorion llywodraethol meddwl dyn. Un o amcanion y prawf oedd gwneyd dyn yn feddianydd ar ei ddedwyddwch. Yn annibynol ar brawf ni allasai dyn feddianu ei ddedwyddwch ond yn yr ystyr ag yr oedd pob peth arall yn eiddo iddo; ond yn y prawf, cafodd gyfleusdra i wneyd yr hyn a dderbyniodd yn ddiamodol gan Dduw yn eiddo iddo ei hun. Gwir i'r prawf droi yn ein herbyn, ond nid yn y prawf ei hun oedd y diffyg. Camddefnyddir rhyddid, ond nid ar yr egwyddor y mae y cyfrifoldeb. Camddefnyddir bendithion uchaf rhagluniaeth, ond nid yw hyny yn lleihau eu gwerth, eithr yn dystiolaeth i lygredd calon y pechadur. Yr oedd arwedd neillduol i gariad Duw yn y prawf.

Gwnaeth Duw gyfamod â Noa, pregethwr cyfiawnder, na fuasai yn boddi y byd eilwaith â dwfr diluw. Rhoddodd yr enfys yn arwydd o hono, ac erys yno hyd y dydd hwn, yn dystiolaeth o'i ffyddlondeb i'w gyfamod. Nis gwyddom pa faint o ddylanwad moesol a gariodd y farn hono. Ni sylfaenwyd y cyfamod hwnw ar rinweddau o eiddo dyn, ond ar rās Duw. Mae tynerwch ei natur ddwyfol yn disgleirio drwy yr enfys yn fwy tanbaid na'r lliwiau sydd ynddo. Gwnaeth Duw gyfamod âg Abraham, ac yn hwnw gwnaeth genedl Israel yn eiddo iddo ei hun, nid am ei rhinweddau, yn fwy na chenhedloedd eraill. Yn mhlith hon, drwy y cyfamod yma, y tabernaclodd y gogoniant dwyfol am ganrifoedd. Dyma y rhêdwely drwy yr hwn y llifodd crefydd bur yn iach a digymysg o ymyl y Shecinah yn y cysegr hyd atom ni, ar y rhai y daeth terfynau yr oesoedd. Mae sŵn cyfamod Duw â hi yn holl hanes y genedl. Dyma y geiriau a ddefnyddir, "*Fy mhobl,*" "*Fy eiddo i ydynt,*" "*a byddant eiddof fi.*" Gwnaeth Duw gyfamod â'r ddaear na phallai amser hau a medi. Y mae wedi sefyll yn ffyddlon i'w gyfamod. Er y camddefnydd cywilyddus a wneir o ddaioni Duw, a'r eablu ar ei lywodraeth, eto ffyddlawn yw Efe. Priodola rhai ddaioni Duw i ganlyniadau deddfau, ac nid i haelioni y deddfwr—i ailachosion gweledig, ac nid i'r achos cyntaf; ond "yr Arglwydd sydd yn teyrnasu," ac y mae ei deyrnasiad yn cael ei nodweddu gan ddaioni a thynerwch, fel y cyd-dystia y cyfan i wirionedd y testyn—"Nid oes lidiawgrwydd ynof."

IV. Y DYSTIOLAETH FEL YR EGLURWYD HI YN YMGNAWDOLIAD A MARWOLAETH CRIST.—Nid oes dim yn fwy peryglus na chymeryd golwg ysgafn gellweirus ar bechod. Byddai yn well i ddyn edrych ar wenwyn fel ymborth. Fel mai yr ymgrawdoliad yw yr esboniad cyflawnaf ar Dduw, felly darostyngiad Crist yw yr eglurhad cyflawnaf ar bechod a thrueni dyn. Mae y gwrthwynebiad mwyaf yn natur Duw i bechod—nis gall edrych arno ond gyda'r atgasrwydd sanctaidd mwyaf; ac y mae y syniad na chosba Duw ddyn

o herwydd mai ei creadur ydyw, yn cynyg am fywyd iawnder, ac yn cloddio o dan sylfaeni gorsedd Duw. Collir golwg yma ar wirionedd pwysig. Ai nid yw anufudd-dod plentyn yn fwy annyoddefol nag anufudd-dod estron? Ai nid yw plentyn anufudd yn sathru ar beth tynerach nag y gall neb arall? Oni chosbodd Duw bechod yn fwy *ar y berthynas agosaf* ato nag y gallasai ei gosbi *yn neb arall*? Mae yn bwysig deall y cysylltiad sydd rhwng ymgnawdoliad Mab Duw â'r ffaith o ddyfodiad pechod i'r byd. Cydia y ddwy ffaith yn eu gilydd, ond nid fel achos ac effaith. Mae dyoddefaint yr Arglwydd Iesu yn arwain y meddwl ar unwaith at *gyflwr y byd*, nid o herwydd yr hyn a roddid arno gan ddynion, ond o herwydd yr hyn a gymerai Efe arno ei hun. Yr oedd ymddygiadau y gelynion at Grist yn ddarostyngiad tragywyddol i'r natur ddynol, tra yr oedd ei ymddygiadau Ef tuag atynt hwy yn ddyrchafiad bythol i'w gymeriad; ac o'r fan hon y tardd un o ffynonellau dylanwad ei hanes ar galon y byd. Daeth Crist yn "*nghyffelybiaeth* enawd pechadurus," ac y mae nodwedd foesol dynoliaeth yn dyfod i'r golwg yn ei holl hanes. Dywedir gan rai nad oedd yr *idea* ddwyfol am ddyn wedi ei sylweddoli yn nghreadigaeth Adda—ac mai amcan dyfodiad yr ail Adda oedd perffeithio hono. Paham y dywedodd Duw am ddyn "*mai da iawn* ydoedd," os nad oedd dyn i fyny â'r *idea* o hono? Dywed eraill fod yn rhaid cael yr ymgnawdoliad o herwydd bod eisiau canol-bwynt i'r greadigaeth, a hwnw yn y *creuedig ei hun*. Tybed fod mwy o gyfaddasder yn y natur ddynol i'r canol-bwynt gael ei sefydlu yma nag oedd mewn un natur arall? Onid yw y syniad hwn yn wrthun yn wyneb y safte a dybir mae y natur ddynol yn ddâl yn llywodraeth foesol Duw, yn mhllith bodau deallol. Tystiolaeth eglur y Beibl yw i Grist mewn pryd ddyfod i farw dros yr annuwiol—iddo roddi ei hun yn "*aberth difai i Dduw*"—iddo "*wasanaethu a rhoddi ei einioes yn brydwerth dros lawer*." Fel mai amcan Crist yn yr ymgnawdoliad oedd dyfod i adferu

dynoliaeth syrthiedig, yr oedd ei holl *fywyd* Ef yn cyfeirio at hyny. Mae mawredd pechod i'w fesur, *nid* wrth hyny o gosbedigaeth a all *dyn* ddwyn. Dywedir mai nid wrth fesur y rhoddir yr ysbryd i Grist, o herwydd nid wrth fesur y rhoddwyd cosbedigaeth anwiredd ar Grist. Dyma Dduw yn gwneyd aberth i ddyfod yn ddigon agos i roddi argyhoeddiad yn meddwl dyn o gariad Duw at droseddwr. Mewn *aberth* mae cariad at *droseddwr* yn gallu dangos ei hun, ac y mae cariad yn ymddangos mor ogoneddus mewn aberth nes gwneyd bywyd Cristion yn "*aberth byw*." Geiriau cariad yw "*Nid oes lidiawgrwydd ynof*." Mae gwawr y boreu wrth ddyfod drwy byrth y dwyrain yn dywedyd na lwyddodd pechodau y dydd a aeth heibio i wneyd Duw yn elyn i ddyn. Yr oedd bywyd y Gwardwr yn llawn o'r caredigrwydd mwyaf i *bawb*, ac ni lwyddwyd i'w gynhyrfu i ddigofaint; ond fe lwyddwyd i wneyd iddo wylo, a phob deigr yn dweyd "*Nid oes lidiawgrwydd ynof*." Nid oedd eisiau i Joseph ddweyd dim am ei gariad at ei frodyr wedi iddo eu digoni âg ymborth, a llanw eu sachau â thrysorau; ond ychydig a gostiodd hyny iddo ef, o herwydd cyfoeth gorsedd yr Aifft ydoedd. Nid oedd eisiau i Dafydd lefaru dim am ei ddymuniad da i Saul—yr oedd cŵr y fantell oedd yn llaw Dafydd yn dweyd digon. Nid oedd eisiau tystiolaeth i dynerwch calon Alexander, Ymherawdwr diweddar Rwssia, o herwydd yr oedd rhyddhad miliynau *serfs* y wlad yn datgan ei glôd. Canmolir enwau dynion rhinweddol gan dafod yr areithiwr hyawdl a phin yr ysgrifenydd buan; ond atolwg, pa beth yw y cyfan a ellir gasglu o'r nodwedd hon, yn gyferbyniol i'r arddangosiad a wnaed yn mywyd a marwolaeth Crist o dynerwch calon Duw, yr hwn a ddywed "*Nid oes lidiawgrwydd ynof*." Dyma fywyd pur yn cyfeirio at ddyoddefaint annghydmorol, a dyoddefaint yn orchuddiedig â gwaradwydd. Troai pob bidog ei fin ato Ef, ac o ganol tywyllwch barnol y clywid tinciad cleddyf cyflawnder. O! y fath olygfa. Mae gobaith rhai wedi diffodd, ffydd

llawer wedi pallu, a natur yn gwisgo ei galar-wisg yn angladd annuwiolion yr oesau; ond o ganol y golygfeydd ofnadwy, a'r amgylchiadau annysgrifiadwy hyny, y mae geiriau y testyn yn myned allan—"Nid oes lidiawgrwydd ynof." Pe dywedai Duw eiriau y testyn uwchben uffern, fe dorai yn gymanfa o lawenydd yno—fe oerai uffern ei hun, toddai y cadwynau oddiam y carcharorion, a llifai ffrwd o lawenydd santaidd oddiwrth wyneb Duw.

V. CYDWEDDA Y DYSTIOLAETH A GALWADAU YR EFENGYL A'R CYNIGIAD RHAD O DRUGAREDD.—Trefn sylfaenedig ar Iawn Crist yw yr Efengyl, yn gweithredu o fewn cylch neillduol o drugaredd. Nid pan syrthiodd dynoliaeth i bechod y darparodd Duw foddion adferiad. Nid pan yr â y claf i'r *surgery* y gwneir y feddyginiaeth. Mae gwahanol fathau o hylifau yn y poteli yn barod, ac ni wneir ond cymysgu ychydig ar y naill a'r llall i wneyd i fyny gyffeiriau priodol. Mae yr iachawdwriaeth yn dragywyddol fel meddylddrych yn Nuw yn arfaeth, yn gyfamod a gras, ond o fewn cylch bychan oes dyn y meddiénir hi. Rhyfeddwn at amynedd Duw yn goddef pan oedd byd cyfan yn anghredu cenadwri awdurdodol ei orsedd, bywyd ei eneiniog yn cael ei gablu, ac uniondeb ei weithrediadau yn cael eu hamheu; ond yr esboniad ar y cyfan oedd "Nid oes lidiawgrwydd ynof." Un prydfferth yw y palas—tynir sylw teithiwr gan dlysnï ei allanolion; ond y mae hanes ddyddorol i'r hwn sydd yn byw ynddo. Rhyw un a anturiodd ei fywyd i'r anialwch, ymwadodd â chysuron cartref, aeth allan i chwilio am "*le yr aur*," ac a lwyddodd i gasglu digon i'w alluogi i fyw yn foneddwr am ei oes. Beth pe gwelem i fyd ysbrydol—caem olwg ar aml i un o dlodion y byd hwn yn gyfoethog mewn gogoniant; ac wrth ei weled yn edrych môr ogoneddus, gallai gynhyrfu cywreïnrydd angel i ofyn pwy yw? Un o blant y cystudd mawr, welwyd mewn bratiau budron, ar drengu mewn newyn, ond a glywodd am "aur wedi ei buro drwy dân," anturiodd yn nerth tystiolaeth y testyn ar ryw nos Sabbath, i geisio am ran. Fe'i gwisg-

wyd ef yn y cyfiawnder pur, fe'i cyfoethogwyd ef â'r an-chwiliadwy olud, ac fe'i cyflwynwyd ef yn addas i drigfan nefol.

Bechadur! mae y Duw a drefnodd iachawdwriaeth yn dywedyd *yn awr* "*Nid oes lidiawgrwydd ynof.*" A wyt ti yn ei gredu? Mae pob angel a sant yn y nef yn ei gredu. Mae y ddaear yn rhanedig ar y pwnc, ond fe ddaw dydd y penderfynu yn y man.

PREGETH X.

GWEINIDOGAETH Y CYMMOD.

“A PHOB peth *sydd* o Dduw, yr hwn a'n cymmododd ni âg ef ei hun trwy Iesu Grist, ac a roddodd i ni weinidogaeth y cymmod; sef, bod Duw yn Nghrist yn cymmodi y byd âg ef ei hun, heb gyfrif iddynt eu pechodau; ac wedi gosod ynom ni air y cymmod.”—2 CORINTHLAID v. 18-19.

BLAENORIR y geiriau yma gan ymadroddion cryfion o eiddo yr Apostol, yn dangos mawredd y cyfnewidiad a effeithia grâs Duw yn nghalonau y rhai a ddygir o dan ddyllanwad gwirioneddau a bendithion trefn iachawdwriaeth. Rhoddir yma amcan newydd i fywyd—“*byw i'r hwn a fu farw drostynt ac a gyfodwyd.*” Ni chododd bywyd yn uwch erioed o'r blaen nag at egwyddor, ond cyfyd yma at ffaith ac at Berson gogoneddus Crist. Y mae cylch a mawredd dyledswyddau Cristionogol yn codi allan o farwolaeth ddirprwyol a throsododol Crist Iesu. Mae nerth a dyledswyddau pob bywyd yn llywodraeth foesol Duw ond hwn yn tarddu mewn cysylltiad â bywyd uwch nag ef ei hun; ond disgyna bywyd ysbrydol y Cristion gwanaf i ganol y dirmyg mwyaf, y gwaradwydd mwyaf, ac hyd yn nŏd y farwolaeth fwyaf felldigedig, i ymofyn nerth elfenau ei feithriniad, a chymhellion uchaf ei weithrediadau. Nid bywyd yn cael ei gynhyrfu gan weithrediadau *gorsedd*, ond *croesbren*; ac fel bugelliaid Bethlehem, gwêl yn y nos yr hyn a'i arweinia i Fethlehem cyfryngwriaeth. Yn rhinwedd y bywyd hwn, dygir ni i deimlo ein bod mewn *perthynas* newydd. Nid perthynas a olrheinir drwy rêdleoedd gwaed ac achau—perthynas nad yw yn cydnabod Abraham yn dad i ni, nac Israel ein cenedl—“Ac o hyn allan, nid adwaenom neb yn ol y cnawd.” Perthynas yn

colli ei henw yn ei hystyr, perthynas *bywyd*, ac nid perthynas *natur*; nid perthyn i Grist yn unig, ond yn Nghrist, a thrwy Grist i'n gilydd. Nid yn unig y mae yma berthynas newydd, ond cyfyd hono allan o *greadigaeth* newydd, creadigaeth uwch, wahanol; creadigaeth nad yw y gyntaf hyd yn nôd yn gysgod o honi; creadigaeth sydd yn cymeryd lle drwy râs ein Duw; creadigaeth y bydd gogoniant Duw yn ei hwyneb yn disgleirio byth ar y thrônau a'r tywysogaethau; creadigaeth ag y mae y gyntaf yn cael ei hanrhydedd wrth ei gwasanaethu. "*Gwneyd pob peth yn newydd*," nid *adnewyddu*, ond yn *newydd*; nid *polisho*, ond yn *newydd*. Medr Duw adnewyddu pethau, nes y collant eu henaint o ran ymddangosiad. Adnewyddu wyneb y ddaear bob gwanwyn, ond daw ei phenllwydni i'r golwg cyn diwedd yr un flwyddyn. Mae y wisg o newydd-deb sydd am dani yn diflanu o dan effeithiau yr henaint sydd ynddi. Ond dyma creadigaeth newydd, gyfyd uwchlaw myned yn hen. Yn ymyl yr haeriad yma o'i eiddo, teimlai yr Apostol nas gallai ymatal. Yr oedd wedi dweyd gormod i beidio a dweyd rhagor. Teimlai nas gallasai yr hyn a ddywedodd ymgynal heb ei gysylltu â Duw—"a *phob peth sydd o Dduw*." Dengys yr Apostol fawredd grâs wrth ddangos mawredd y gwaith a wna grâs ar galon dyn. Mawredd afonydd gwlad sydd yn rhoddi syniad i deithiwr am fawredd y wlad ei hun, oblegyd nid o un ffynon y ceir yr afon ddofn. Mawredd y llwyth a ddadforiwyd sydd yn rhoddi syniad i'r dyeithr am fawredd y llong a'i cludodd. Mawredd gwaith Duw sydd yn rhoddi syniad am yr anfeidroldeb sydd y tu cefn iddo. Sylfaen y gwaith yw angau Crist, achos y gwaith yw cariad Duw, cyfryngau y gwaith yw cenhadau yr Efengyl, a'r gwaith ei hun yw cymmodi y byd â Duw, codi ymaith wreiddiau aflendid moesol, a sefydlu cymundeb o heddwch rhwng dyn a Duw; dwyn dylanwad cymeriad Duw i ladd pechod dyn.

I. YR YMDDIRIEDAETH A RODDODD DUW YN YR APOSTOL.

“AC A RODDODD I NI WEINIDOGAETH Y CYMMOD.”—Y mae hōniad yr Apostol ar ei ran ei hun yn fawr—“*a'n cymmododd,*” “*ac a roddodd i ni weinidogaeth y cymmod.*” Y mae y dystiolaeth yn ddeublyg.

1. Y cyfnewidiad mawr oedd grās Duw wedi ei wneyd yn yr Apostol ei hun. Y mae nerth mwyaf dyn i wneyd daioni yn codi allan o'r daioni sydd yn y dyn ei hunan. Hyn sydd yn cyfrif am sefydlogrwydd bywyd crefyddol. Y rheswm fod cornentydd bychain yn sychu yn yr hâf yw eu bod yn dibynu ar ffynonau bychain darddant yn agos i'r wyneb. Y mae afonydd bâs yn rhewi drwyddynt yn y gauaf, o ddiffyg dyfnder digonol o ddwfr. Felly y mae cymhellion arwynebol ysgafn i ddaioni yn cryfhau neu yn gwanhau yn gyferbyniol i'r amgylchiadau y byddom ynddynt. Hyn sydd yn cyfrif am yr anghysondeb a welir yn mywyd llawer, nes peri eu bod heddyw fel y cloff hwnw “yn rhodio a neidio a moli Duw,” ond yfory â'u telynau yn ngrôg ar yr helyg, yn “cerdded yn alarus drwy orthrymder y gelyn.” Nis gall bywyd felly fod yn derbyn cysuron mwyaf crefydd, ac nis gall fod yn fanteisiol i ddylanwad crefyddol dwfn. Ond yr oedd yr Apostol yn siarad am y cyfnewidiad mawr a wnaed ynddo ef fel rheswm dros ei ymdrech gwastadol a chyson dros achos gwirionedd. Dadleuir gan rai yn nghylch graddau y sicrwydd a ellir gyrhaedd yn bresenol o gadwedigaeth yr enaid. Nis gallwn gydymdeimlo â dynion a hōnant eu bod wedi eu hachub, cyn y caffont gyfleu i brofi yr hōniad hwnw mewn bywyd pur a gwasanaeth cywir i Fab Duw. Nid ydym yn rhyfeddu bod dadleuau poethion ar y cwestiwn hwn, o herwydd pwnc o gyflwr ydyw. “Nis gall dyn anianol amgyffred y pethau sydd o Ysbryd Duw.” Y mae profiad yn ein rhybuddio i beidio dibynu ar dystiolaeth teimlad. Ond, atolwg, pa beth all fod yn rhwystr i ni gyrhaedd uwch sicrwydd nag sydd genym, yn wyneb y sicrwydd mawr a gyrhaeddai ein tadau. Hōna Job fod ganddo Brynwr byw; Dafydd bod cyfamod rhyngddo â

Duw, wedi ei luniaethu yn hollol ac yn sicr; Ioan a ddywedai, "yr awrhon meibion i Dduw ydym," a Paul a ddywed, "a'n cymmododd ni ág Ef ei hun." Gwelir mai o ganol yr amgylchiadau mwyaf *anffafriol* y daeth y tystiolaethau uchaf am grefydd; ac o ganol yr erlidigaethau llymaf ar y saint y cafwyd y profiadau melusaf am werth duwioldeb bersonol, ac yno y cafwyd y sierwydd mwyaf ar gadwedigaeth. Dichon fod amgylchiadau ffafriol bywyd yn anfantais i ni gael prawf ar grefydd. Y nos sydd yn rhoddi prawf a oes olew yn y *lamp*; y storm sydd yn profi gwerth angor i'r morwr; y *gas* sydd yn profi gwerth ei lusern i'r *glowr*. Dylai fod yn ein bywyd cyson dystiolaeth ein bod mewn heddwch â Duw. Gwir y caiff ei haflonyddu; ond ni wna hyny ond profi ei nerth. *Beth yw gwerth mynud o brawf ynom ein bod wedi ein cymmodi â Duw?* Hyn sydd yn galluogi y meddwl i ymddiried yn Nuw yn nghanol y tywyllwch mwyaf. Os danoda y gelyn fod *afon* rhyngom a Chanaan, gallwn ddweyd fod *môr* rhyngom a'r Aipht. Os nad ydym yn y nefoedd, y mae elfenau nefoedd *ynom* ni. Nid yn unig y mae y rhyfel wedi peidio, ond y mae heddwch parhaol wedi ei sefydlu.

2. Teimlai yr Apostol fod dweyd "a'n cymmododd" yn hanfodol i ddweyd y peth nesaf, "*ac a roddodd i ni weinidogaeth y cymmod.*" Pan y cyfeiria yr Apostol ato ei hun fel Apostol Crist, cyfeiria bob amser at ei gyflwr. Wedi cael ei gymmodi â Duw y rhoddwyd iddo ef weinidogaeth y cymmod. Defnyddir dau air gan yr Apostol—*rhoddi* iddo, a *gosod* ynddo. Golyga y rhoddi yma ymddiriedaeth o eiddo Duw i ddyn, a'r ymddiriedaeth uchaf—mor uchel nes y dywedai yr Apostol am dano ei hun, "*yr wyf yn mawrhau fy swydd.*" Syniad difrifol yw bod yn aelod o Eglwys Dduw, ac eto bod yn annuwiol; ond y mae cymeryd arnom ein bod yn "genhadau i Grist," ac eto heb ddim cydymdeimlad â'r Efengyl, heb bryder am achubiaeth dynion, heb gymeriad moesol pur diamheul, ac heb amcanu at ogoneddu Duw, y peth mwyaf ofnadwy

a all dyn fod dano yn y byd hwn a'r hwn a ddaw. Ni fydd ei gyflwr fel colledig yn uffern yn ddim yn ymyl ei sefyllfa ofnadwy yn bresenol. *Dynion wedi eu hachub mae Duw wedi fwriadu i achub eraill drwyddynt.* Nid pibellau i gario dwfr i'r sychedig, nid cenhadau i gario llythron, yw gweision Crist i fod yn unig, ond dynion o dan ddylanwad grâs Duw eu hunain yn cario bendithion i eraill. Y mae awdurdod gan y weinidogaeth—"Ac a roddodd i ni weinidogaeth y cymmod," a hono wedi ei gosod ynom—"wedi ei chau o'n mewn," yn llosgi yn ein calonau. Nid yn allanolion bywyd y mae ei nerth, ond *oddifewn.* Gall amgylchiadau wneyd brenin, ond rhaid i râs wneyd cenad i'r Efengyl; a mÿn ei gael, pe byddai yn myned i'r llawr-dyrnu fel at Gedeon. Disgwylia Duw waith mawr oddiwrth rai a droant mewn swydd bwysig, a ffyddlondeb diymod iddi yn y rhai a'i gwisga. Cenad Duw at bechadur ydyw.

II. SYLWEDD GWEINIDOGAETH GRAS DUW.—*Cymmod.*—Gwahaniaetha yr Apostol ychydig yn ei dystiolaeth yn y ddwy adnod pan yn tystiolaethu am dano ei hun a phan yn tystiolaethu am nodwedd yr Efengyl. Duw yn cymodi drwy Grist, a Duw yn Nghrist yn cymmodi. Cyfeiria y blaenaf at yr hyn oedd yr Apostol wedi ei dderbyn ei hun, ond y diweddaf at gymeriad cyffredinol Duw yn ei lywodraeth gyfryngol. Pan y mae Duw yn rhoddi, rhoddi *drwy* Grist y mae; ond pan yn galw, galw *yn* Nghrist y mae. Gwaith Duw sydd yn y cyntaf, ond cymeriad Duw sydd yn yr olaf. Y mae gosodiad Mab Duw yn gyfryngwr yn rhoddi i Dduw ffordd i agoshau at fyd euog, yn gystal ag yn rhoddi sylfaen gobaith i'r euog crediniol. Nid yw symudiad Duw i'w Fab yn peri fod yr orsedd yn colli dim, ond yn enill—nid enill awdurdod, na gallu, ond enill dylanwad; dylanwad yn toddi caledwch wrth symud pechadur. Mae iawn y Groes yn newid gwedd yr orsedd ddwyfol, ac yn rhoddi iddi ddylanwad o natur uwch nag allasai feddu ond yn Nghrist. Dylanwad gorsedd Duw yw dylanwad

gwirionedd pur ; y gwirionedd hwnw yn arweddu oddiwrth Dduw at ddyn yn hawliau tragywyddol a digyfnewid. Dyna arwedd *gyffredinol* perthynas gorsedd Duw â'r *holl* greadigaeth. Y mae y gwirionedd hwnw yn arweddu at y ddaear mewn ffurfiau o orchymynion. Gall mai nid yr un ffurf sydd i'r gwirionedd at yr holl greadigaeth. Cynwysa y ddeddf orchymynion annghyfaddas i fodau ysbrydol. Nis gwyddom pa ffurf a gymer y gwirionedd yno ; ond os gwahaniaetha mewn ffurf, yr un yw y gwirionedd ei hun, o herwydd mai yr un yw perthynas yr orsedd. Ond y mae y symudiad yma o eiddo Duw yn dyfod ag arwedd arall i'r orsedd—*tynerwch*. Arwedd yn cyfateb i *gymeriad* y byd. Y mae yma wahaniaeth dirfawr—nid gwahaniaeth fel sydd rhwng yr haul yn nghanol gauaf ac yn nghanol haf, yn dibynu ar symudiadau y ddaear ; ac nid gwahaniaeth tebyg ag sydd yn y ddaear ei hun yn y gwanwyn ac yn yr hydref—gwahaniaeth yn codi allan o hono ei hun ; ond gwahaniaeth tebyg ag sydd mewn cariad, fel yr arwedda mewn *daioni* at y perffaith, ac fel yr arwedda mewn *trugaredd* at y truenus. Nid yw y gwahaniaeth yma yn colli dim, ond yn *enill*. Derbynir daioni newydd oddiar yr orsedd, a chanmolir yr orsedd gan dafodau newyddion. Gorsedd pan yn cyfoethogi ei deiliaid, yn cyfoethogi ei hun, a'r cyfoeth hwnw yn codi i uchder anfeidrol, am iddo ddisgyn i ddyfnder anfesurol.

Perthyna neillduolrwydd i'r geiriau "*Duw yn Nghrist*." Yr oedd Ef yn Dduw *i* Abraham, ond nid *yn* Abraham. Ond *yn* Nghrist. Pan ddywedir am neillduolrwydd perthynas Duw â'i bobl, dywedir ei fod yn Waredwr *iddynt*, ac yn Dduw *iddynt* ; ond syniad arall sydd yma. Nid perthynas neillduol y Tad â'r Mab. Nid dyna yr enwau a ddefnyddir yma, ond enwau eangach—Duw yn Nghrist, nid *i* Grist ond *yn* Nghrist, i ddangos, nid perthynas neillduol, ond *gyffredinol*. Y mae perthynas cyfamed rhwng Duw a'r credadyn ; ond cyfamed *a* dyn yw. Cyfamed *ag* Abraham, cyfamed *a* Dafydd. "Cyfamed tragywyddol a

wnaeth Efe á mi." Nid *ynof* fi. Nid oes neb wedi bod yn ddigon mawr i Dduw fyned i gyfamod *ynddo*, ond ei Fab. Mae cyfryngdod Mab Duw yn dangos symudiad pwysig, o'r arwyddlun *i'r* sylwedd, *oddiar* y drugareddfa *i'r* drugareddfa. Mae y gogoniant dwyfol wedi cael cartref. Mae yr arbenigrwydd hwn gymaint, fel mai gwas *i Grist* y galwai yr Apostol ei hun—cenad *dros Grist*, erfyn dros Grist, adnabod Crist, creadur newydd yn Nghrist, cymmod *drwy Grist*, a bod gyda Christ oedd ei syniad uchaf ef am nefoedd.

Yn Nghrist yn "cymmodi."—Mae yn anmhosibl cael syniad am éangder dinystr pechod. *Un* wedd ar waith grás yw cymmodi. Y mae yr annhrefn a wnaeth pechod ar y meddwl dynol yn cynwys elfenau o wrthweithiad yn y meddwl ei hun. Yr Efengyl yn unig a allasai gyfarfod á'r wedd yma i ddinystr pechod. Pwy a all ddarlunio sefyllfa fewnol meddwl yr anghredadyn, y rhyfel sydd rhwng llygredigaeth yr ewyllys, a thystiolaeth cydwybod? Pa sawl gwledd mae y dystiolaeth hon wedi suro? Pa sawl picell fain sydd wedi trywanu? Pa faint yw y loesion tranoeth y pechu? Yr Anfeidrol yn unig a wŷr yr *ymdrech* y mae gwrandawyr Efengyl yn ei wneyd i *wrthod trugaredd*. Mae yn well genym weled dau beiriant o gyffelyb nerth yn gwrthdaro, na gweled yr un peiriant a'i olwynion yn gwrthweithio. Y mae annghydwelediad rhwng dwy deyrnas yn ofnadwy, ond y mae gwrthryfel cartrefol yn fwy felly. Hyny y mae pechod wedi ei wneyd; a'r Efengyl a wrthodir yn feunyddiol, yn unig a all ddwyn yr holl ddyn i gydweithio. Ond *cymmodi á Duw* sydd yma. Y mae llawer o sôn am fŵngloddiau cyfoethog y ddaear. Beth pe galleu dreiddio i fewn i gael gafael yn y trysorau cuddiedig sydd yn y gair *cymmodi*—gwnelem ein *fortune* byth ynddo.

Cymmodi y byd ág Ef ei hun.—Symud yr elyniaeth, sefydlu heddwch, a gosod llinell o gymundeb rhyngom a Duw. Y mae yma ddau allu yn gwynebu ar eu gilydd—yr awdurdod a'r gelyn. Nid y troseddwr. Mae hwnw yma

hefyd ; ond y mae yma ddyfnach lliw ar y pechadur, pellder mwy o ran ansawdd calon. Nid maddeu sydd yma, er fod hyny yma. Y mae Duw yn myned o dan wreiddiau drygioni y galon. Gwél Duw rywbeth mwy yn y pechadur na throseddwr—rhywbeth mwy' na gwrthryfelwr. Nid tynu y cleddyf o'i law yn unig y mae Duw, ond yn ei wneyd ef yn rhy wan i gario cleddyf. Nid ysgwyd y pren fel y syrthio ei ffrwythau chwerwon, ond ei ddiwreiddio. *Cymmоди*. Cymmод yn codi y troseddwr, heb ddarostwng Duw ; cymmод yn newid dyn, heb newid dynoliaeth ; ond dynoliaeth yn newid ei chyfeiriad wedi newid y dyn. Cymmод yn dyrchafu. Mae deddf ei ad-dyniad ef bellach wedi newid ; i fyny y mae hi.

“*Ag Ef ei hun.*”—Hyn fydd sylfaen ein cymmод â phawb. Byddai yn drosedd mewn angel daflu golwg annymunol ar gredadyn. Tefid ef allan o'r nef ar y fynud. Fe fydd cymmод â Duw yn gwneyd dyn mewn cydymdeimlad â'r holl nefoedd. Fe ddisgleiria y cymmод byth ar wynebau y saint yn y nef, ond ni welir *olion y cymmоди*. Y mae maddeu yr elyniaeth yn fwy na maddeu ei gwaith. Mae dwyn dyn i gymmod â Duw yn fwy na phob peth. Ni allasai Duw ymddiried dim iddo cyn ei gymmodi ; ond *wedi* ei gymmodi, caiff enw newydd, benthithion newyddion, a chartref newydd. Nid yw Duw yn dweyd beth y mae Efe wedi ei wneyd â'r elyniaeth ; dywed beth a wnaeth â'r galon—ei thynu ymaith ; dywed beth a wnaeth â'r pechodau—eu tafu y tu ol i'w gefn. O, do, dywed beth a wnaeth â'r gelyniaeth—“wedi *lladd* y gelyniaeth drwyddi hi,” fe aeth yn agos i fywyd y gelyn—i fodolaeth y gelyn. Yr oedd yr elyniaeth yma wedi ymwau drwyddi, ond fe fedrodd Duw ei chyrhaedd ; fe dynodd y gafaelion yn rhyddion ; ac yr oedd yr oruchwyliaeth mor ofnadwy, nes y bu agos i'r gelyn hefyd farw—fe fu *farw*, “a minau a fu'm farw.” Ond fe fu farw yn llaw y cymmод. *Marw i fyw*, ac y mae Duw wedi penderfynu cael y gân dragywyddol yn rhydd oddiwrth adgof am yr hen

elyniaeth. *Wedi ei lladd.* Dim ond un gair felly sydd am dani gan Paul. Pe dygwyddai rhywun ddannod yn y nef i'r Cristion iddo bechu, wrth sŵn ei gân y gallai efe wybod hyny. Pe gallai y Cristion dewi, ni ddeuai i feddwl neb yno ei fod wedi pechu. Bydd mor *loyal* i'r orsedd a'r mwyaf felly; ond fe fydd yn foddlawu cyhuddo ei hun os caiff ganmol ei Geidwad. Ond rhag ofn iddo sôn am yr hen elyniaeth wrth ganmol, rhoddodd Duw y gân iddo, ac ni sonia air am yr hen elyniaeth.

“*Cymmоди y byd.*”—Nid yr un ystyr sydd i'r gair “byd” yn mhob man yn yr Ysgrythyrau. Yr oedd yr ystyr Iuddewig yn rhy fychan iddo gan Paul. Y mae ängder annherfynol braidd i'r gair *byd*. Rhaid mesur yr elyniaeth wrth y cymmod; ac wedi mesur, y mae yr anfesuradwy ar ol. Fe gysylltwyd enw Israel wrth archoffeiriadaeth Aaron. Fe gariai ddeuddeg o feini yn ei ddwyfroneg ar ddydd y cymmod i gynddrychioli llwythau Israel; ond y mae yma ängder mwy i'r cymmod heddyw. Mae dwyfroneg ein Harchoffeiriad ni nid yn cario meini, ond yr enw Mab y *dyn*. Yr oedd cyferbyniad rhwng allor yr Iuddew a'i aberth, a rhwng y ddau a therfynau gweithrediaidau trugaredd; ond y mae ein Hallor ni wedi ei chodi y tu allan i'r gwersyll, a Christ wedi dyoddef y tu allan i'r gwersyll. Fe ddiferodd fendith dros y canolfur i'r wraig a Ganaan; ac fe siglodd y canolfur byth wedi i'r fendith hono ddyfod drosto; ond y mae Ef yn colli ei waed y tu draw iddo, ar Galfari, a'r gwrthodedig gan Iuddewaeth gafodd ei gymhwyso gyntaf gan Gristionogaeth i'r nefoedd. Ar dyrfa gymysgedig y taenellwyd y gwaed gyntaf wedi yr esgyniad. Cenedl-ddyn a agorodd ei ddrws gyda'r cyntaf i'r gwr a fu farw. Nid oddiar fynydd Seion yn Jerusalem y mae yr udgorn yn cyhoeddi cymmod, ond oddiar yr orsedd—gorsedd na thelir am dani ond gan gadwedigaeth tyrfa nas gall neb ei rhifo.

III. Y DULL Y MAE DUW YN CYMMODI DRWYDDO.—“*Heb gyfrif iddynt eu pechodau.*”

Cymmmod yn gorphwys ar, ac yn cael ei roddi drwy, haeddiant ydyw.—Mae grâs yn teyrnasu yn yr iachawdwr-iaeth, ond yn teyrnasu drwy *gyfiawnder*. Mae mwy o haeddiant o dan weithrediadau grâs na dim. Dyma yr unig fan y mae haeddiant. Yn mhob man arall, cyfatebiaeth rhwng dau allu sydd; ond yma haeddiant, a'r haeddiant uchaf, fel y mae teyrnas grâs yn gorphwys ar sylfaen ddyogelach na llywodraeth naturiol Duw. Bernir fod cadwedigaeth angelion yn y nefoedd yn sicr bellach, fel *canlyniad anuniongyrchol* yr Iawn. Arwedd daioni cyffredinol Duw yw hyny at fôdau mewn sefyllfa neillduol, ond fe fydd cadwedigaeth y saint yn y nefoedd yn codi o *haeddiant*—nefoedd brynwyd iddynt hwy yw hi. Gorphwysa eu parhad hwy yn y nef byth ar anfeidrol haeddiant yr Iawn. Y mae gwedd wahanol i *achubiaeth* y saint a'u *cadwedigaeth*. Dibynai yr achubiaeth ar fod Person gogoneddus yr Arglwydd Iesu yn ei weithredoedd, ei ddyoddefaint, a'i angau, nes rhoddi haeddiant anfeidrol ynddynt yn wyneb hawliau cyfiawnder, ac haeddiant yn dâl Person Crist oedd yn ei ddarostyngiad Ef, nes y rhoddwyd i lawr sylfaen ddisigl teyrnas gyfryngol y Mab. *Dyma sail achubiaeth pechadur crediniol*. Ond wedi ei achub, y mae ei *gadwedigaeth* yn dibynu ar fod yr *haeddiant* yn codi yn y Person dwyfol. O'r fan yna y tardda y cymmodi "*heb gyfrif*." Nid yw haeddiant cyfryngol Crist fel sylfaen gweithrediadau grâs yn rhoddi hawl i'r pechadur i'w achubiaeth a'i gadwedigaeth. Y mae yr haeddiant yn gwneyd grâs yn fwy o râs, pe gellid. Mae peidio a chyfrif pechod yn golygu ei symud oddiar y ffordd i gymmodi. Nid ar Ebal mae y cymmmod yn cael ei gyhoeddi, ond ar Seion. Ni allasai trugaredd neshau yn agosach i ddyn na'r haeddiant cyfryngol—*yno* mae y storm yn distewi, a'r rhwystrau oedd ar ffordd achub wedi eu symud. Cymmmod yn tarddu o'r cyfrif mwyaf, cymmmod yn peidio a chyfrif y lleiaf; yr Aberth wedi derbyn y cyfan arno ei hun, a'r pechadur drwy y cymmmod yn cael myned yn hollol rhydd.

Cymmod yn weinyddedig ar sylfaen haeddiant ; yn weinyddedig gan awdurdod, a hono wedi enill ei hawl i weithredu o'i darpariaeth ei hun.

"*Heb gyfrif*" eto yn golygu na dderbynia y rhai a gymmodir un ansantais oddiwrth eu pechodau.—Y mae yn hawddach dymuno dedwyddwch y nefoedd na'i amgyffred. Pa fodd y gall perffaith fwynhad fod yn gydfynedol âg adgofion o fywyd anufudd? Gwir fe fydd mawredd y maddeuant yn rhoddi i ni olwg ar ogoniant cymeriad Duw, fel yr edmygwn ac yr addolwn ef byth ; ond pa fodd na bydd gogoniant y cymeriad hwnw yn y maddeuant yn rhoddi y fath olwg ar bechod fel y gofidia ni byth?—Ond "*heb gyfrif*." Yn amser y rhyfel cartrefol yn America, bu un o longau y wlad hon yn dinystrio llongau masnachol y wlad hono. Bu y mater yn hir heb ei benderfynu, a bygythid y gwledydd gan ryfel ; ond cymmodwyd y ddwy deyrnas ar daliad o dair miliwn o iawn i geisio cyfanu y golled. Cymerai pawb a allai fantais i anfon biliau i fewn. Cymmod yn cynwys haeddiant oedd hwnw. Ond haeddiant yn cynwys cymmod sydd yn yr Efengyl—cymmod ar sail taliad, taliad sydd yn gwneyd y golled i fyny. Cymmod yn codi allan o daliad mor llwyr, fel y mae yr holl ofynion wedi eu distewi. Gellir adferyd i heddwech heb adferyd i ymddiriedaeth ; gellir adferyd i ymddiriedaeth heb adferyd i feddiant ; ond mae y cymmod yn cuddio y cyfan, fel y drugareddfa yn cuddio yr arch. O'r braidd na siglodd pechod dyn golofnau gorsedd y Jehofah—nad aflonyddodd efe ar dawelwch y nef ; ond y mae y cymmod hwn mor fawr, yn codi dyn mor uchel, fel yr ymddirieda *Duw* ynddo byth. Y mae peidio a chyfrif pechod iddo yn ei ddwyn i agosrwydd at Dduw, fel nas gall lai na theimlo yn *loyal* byth mwy i'r orsedd. Buasai un pechod yn nghyrhaedd golwg y sant yn *spwylio* y nef byth iddo.—Buasai fel y darn llaw yn y wledd. Ond "*heb gyfrif*." Gwasged Duw bawb i deimlad byw o'r angenrheidrwydd personol am y cymmod yma.

PREGETH XI.

AMSER I DEWI, AC AMSER I DDYWEDYD.

“AMSER i dewi, ac amser i ddywedyd.”—PREGETHWR iii. 7.

MAE yn eglur fod gan Dduw ei amcan, ei gynllun, a'i amser i bob peth a gyflawna. Felly dywedir am “amser Duw,” “cyflawnder yr amser.” Nid yn unig fe fwriadodd Duw waredu cenedl Israel o'r Aipht, ond fe drefnodd ffordd eu gwaredigaeth; rhoddodd iddynt eu gwaredwr, a phenododd ar amser eu rhyddhad. Bwriadodd Duw waredu tyrfa luosog i iachawdwriaeth. Nododd eu Gwaredwr—“un etholedig o'r bobl,” a dywedir am hwnw, “Canys Crist, pan oeddem ni eto yn weiniaid, mewn *pryd* a fu farw dros yr annuwiol.” Mae *amser* ac amcan gweithrediadau Duw yn sefyll yn nesaf mewn pwysigrwydd i'r gweithrediadau eu hunain. Y manylwch yma sydd yn creu ymddiriedaeth o ddyogelwch yn llywodraeth Duw. Dyfais werthfawr yw yr agerdd-beiriant; ond byddai y ddyfais werthfawrocaf y dinystrydd mwyaf ar fywydau oni bai ei bod o dan reolaeth fanwl. Mae holl greadigaeth Duw yn gweithredu wrth amser *ordeiniedig*. Dywed y gwr doeth fod amser i bob peth dynion—“amser i wylo, ac amser i chwerthin.” Mae chwerthiniad *ynfyd*, a dagrau *ofer*. Gwelwyd y cyntaf mewn angladd yn nghanol dagrau yr wylofus, a gwelwyd y diweddaf mewn priodas yn nghanol llawenydd y gorfoleddus. Mae “amser i dewi, ac amser i ddywedyd.” Yr hyn sydd yn arweddu ar fywyd cyson a anghofir gyntaf, ac am hyn y dyoddefir fwyaf. Mae ein hanghof o'r cynghor hwn yn cyfrif am lawer o flinderau bywyd.

I. AMSER I DEWI.—

1. *Pan fyddo y perygl o ddweyd gwirionedd yn fwy na'r perygl o'i guddio.*—Nid yw peidio a dweyd gwirionedd yn gyfystyr â dweyd anwiredd. Mae dweyd anwiredd yn bechod, yn ymgais at dwyllo; ond gall peidio a dweyd y gwirionedd fod yn rhinwedd. Mae yn bosibl dweyd gormod, neu rhy fach. Mae cymdeithas wedi dyoddef mwy oddiwrth y cyntaf na'r diweddaf, ac i'r cyntaf y mae y rhan fwyaf o ddynion yn dueddol i syrthio. Gellir gwneyd yr hyn sydd yn wir dda ynddo ei hun, yn achlysur drwg drwy ei gamddeffnyddio. Yr hyn sydd yn profi craffder a doethineb dynion yw, nid yn unig yr *hyn* a ddywedant, ond hefyd yr *amser* a ddewisant i ddweyd hyny. Gall dyn bechu wrth beidio a dweyd gwirionedd. Daliai yr Arglwydd y gwyllydd yn gyfrifol am ddinystyr pob un a ddinystrid, os heb ei rybuddio. Ond tra y gellir bod yn euog o waed dynion wrth fod yn anffyddlaw'n i ymddiriedaeth, gellir hefyd bod yn euog o waed wrth weithio ymddiriedaeth dros ei therfynau priodol. Daw i'n rhan i ddywedyd wrth ein gilydd bethau sydd yn myned yn uniongyrchol yn erbyn teimladau. Y mae yn anhawdd eu dweyd, ond yn anhawddach eu gwrando; a chyfyd yr anhawsder i'w dweyd oddiwrth y ffaith nad ydym yn caru eu clywed. Pan yn dywedyd pethau felly—pethau y teimlwn fod ein perthynas a'n gilydd, a'n ffyddlondeb i wirionedd yn ein rhwymo i'w dweyd, dylem astudio tri pheth.

Yn gyntaf.—*Ceisio cael allan y ffordd unionaf i'r galon.* Rhaid gwella calon dyn cyn y gwellheir ei fywyd, ac nis gellir gwella calon heb adnabod ei gwendid a'i nerth. Gall gwirionedd fod yn cyfateb i'r meddwl, ond y mae yn anhawdd ei roddi yno. Rhaid myned drwy y drws i'r tŷ, drwy y porth i'r ddinas, a rhaid adnabod y ffordd i'r galon. Nid yr un yw teimladau pawb, ac felly nid yr un fath goruchwyliaethau sydd yn cyffwrdd â phawb. Gall cynghor miniog fod yn gerydd ysgafn i un meddwl, tra na byddai y

cerydd llymaf ond cynghor tyner i feddwl arall. Llefara distawrwydd yn fwy hyawdl ac effeithiol wrth y naill nag y gwna geiriau y doeth wrth y llall; ac oddieithr i ni adnabod y ffordd i roddi gwirionedd yn y galon, "*amser i dewi*" ydyw.

Yn ail.—*Lefeinio yr ymadroddion â'r ysbryd mwyaf efengylaidd a grasol.*—Rhydd gair Duw gymaint pwys ar nodwedd ysbryd-ag ar fywyd, o herwydd y cyntaf a rydd ei gymeriad i'r diweddaf. Gall ysbryd cás, pigog, garw, a didriniaeth niweidio yr amcan goreu, y cynghor goreu, a'r egwyddor oreu. Adeiladwyd llong brydferth o'r defnyddiau goreu, ac i'r amcan goreu—i wasanaethu yn masnach y byd; ond gollyngwyd hi allan o'r porthladd ar ddydd yr ystorm; deifiwyd ei gogoniant, a chollwyd ei gwasanaeth. Nid diffyg yn nghynllun, defnyddiau, gwneuthuriad, nac amcan y llong, oedd y rheswm iddi fyned i'r dyfnder, ond annoethineb ei pherchenog yn ei gollwng allan o'r porthladd ar ddydd yr ystorm. Mae ystorm o ysbryd drwg cynhyrfus wedi dinystrio cynghorion oeddent fel afalau aur, a niweidio amcanion gwerthfawr. Mae ysbryd garw, cynhyrfus, yn beryglus i fyned i gyffyrddiad â meddyliau tyner. Nid pob blodeuyn a all ddâl nerth y corwynt. Gallu mawr dynoliaeth yw *tynerwch*; enill hwn ddylai fod ein nôd. Caledu y galon wna pechod—tyneru y galon wna grâs. Y galon *dyneraf* gynyrcha yr argraffiadau *dysnaf*, a hi dderbynia ddylanwad gyntaf. Heb adnabod hyn, cofiwn "*amser i dewi*" ydyw.

Yn drydydd.—*Amcan didwyll, santaidd, a gonest.*—I fod yn ddidwyll, dylai godi o *galon lân*; i fod yn santaidd, dylai godi oddiar *gydymdeimlad* â *gwirionedd* pur; ac i fod yn onest, dylai godi oddiar awyddfryd *gwirioneddol* i *wella* arall. Gall amcan ddrwg niweidio yr ysbryd goreu, ond nis gall yr ysbryd puraf wellhau amcan ddrwg. Edrychir ar amcan drwy bob peth. Nid sylfaen yr adeilad ydyw, ond y gongl-faen sydd yn cylymu y cyfan a'u gilydd. Pan syrthiodd Dafydd i'r pechod oedd yn adnabyddus

gysylltiedig â'i enw, anfonwyd Nathan y proffwyd ato ef. Yn yr ymddiddan a gymerodd le rhyngddynt, mae y tri pheth a nodwyd yn eglur gan Nathan. Ceisiodd gael y ffordd i galon Dafydd—y ddameg dyner, yr anghyfiawnder mawr, y gwahaniaeth amgylchiadau; eto, yr ysbryd tyner a nodweddaï y cyfan, a'r amcan santaidd adferwyd Dafydd o'i bechod. Rhoddodd y gwirionedd yn nghalon Dafydd, enillodd gymeradwyaeth ei feddwl, nes y condemniodd y troseddwr i farwolaeth, heb ddeall mai efe ei hun oedd hwnw. Ond wedi deall, nid troi i erlid y proffwyd a wnaeth, ond troi at Dduw mewn edifeirwch. Duw yn unig a allasai dynu allan y bicell daflwyd i'w galon yn y geiriau "*Ti yw y gwr.*" Mae cyfuno y tri pheth a nodwyd yn ein hymadroddion yn dyfod a phob cynghor, cyfarwyddyd, a cherydd, o fewn cylch addewid am fendith Duw. Os na ellir eu cael, "*amser i dewi*" ydyw.

2. AMSER I DEWI *yw pan na allo y rhai a fyddo yn bresenol gydymdeimlo âg amcan a natur y peth y siaradir yn ei gylch.*—Mae y gwahaniaeth sydd yn arferion y byd yn codi allan o'r gwahaniaeth sydd yn chwaeth y byd. Yr hyn sydd yn peri hyfydwch i'r naill, sydd yn peri poen i'r llall. Chwilia y byd am ddedwyddwch, ond nid yr un elfenau sydd yn cyfansoddi dedwyddwch pob dyn. Yr oedd yn rhaid i Belsassar gael llestri y deml i'r wledd i'w gwneyd y peth a ddymunai; ond yr oedd hyny yn boen i galon pob Hebrewr. Mynychir y weithred hono yn mhob oes. Cymysgir a'u gilydd y cysegredig a'r anghysegredig. Tefir gemau o flaen moch yn yr oes hon. Safon moesoldeb, yn mhob ystyr, yw ewyllys ddatguddiedig Duw yn ei Air; ond cymysgir y Gair hwn a phethau hollol anghyd-naws âg ef ei hun. Gwneir hyn pan adroddir rhanau o hono yn nghanol cwmpeini i ddangos arabedd (*wit*). Dolurir ni yn fynych gan anystyriaeth dynion pan yn defnyddio adnodau i ddifyru teimlad anianol yn nghanol ymddiddan cyffredin, ysgafn, a braidd yn ymylu ar fod yn llygredig. Adroddir geiriau Crist am ei fywyd, ei farwol-

aeth, ei adgyfodiad, a'r farn gyffredinol i foddioni am fynud awr gywreinerwydd llygredig y rhai dienwaededig o galon. Ofnwn fod rhai o blant y gaethglud yn yr oes hon yn canu caniadau Seion yn mhlith y Babiloniaid. O bob man y gellir clwyfo gair Duw, yn nhŷ ei garedigion y gellir ei glwyfo ddyfnaf. Mae llawer un a hōna ei fod yn ei gredu, yn amcanu yn ddyfnach am ei fywyd a'i ddylanwad na gelynyon professedig. Mae adrodd geiriau Duw i ddifyru chwaeth a chalon lygredig, yn bechod ysgeler; a byddai teui mewn amgylchiadau felly yn rāsol. Nid ar aelwydydd tafarnau, uwchben y cwpan, lle mae melldith Duw uwch ei ben, y mae geiriau y bywyd i gael eu hadrodd. Pa hyd, tybed, y beiddia dynion ddwyn pethau cysegredig crefydd i leoedd annuwiol? Pa faint yn agosach i'w gilydd y dygir bwrdd Crist a bord cythreuliaid? Mae yn llawn amser i bobl Dduw wybod yn mha le mae llinell y gwahaniaeth rhwng y cysegredig a'r anghysegredig. Gofyned Israel am nerth i dewi, rhag i'r gelyn gablu, os na all lefaru nes gwneyd iddo ddychrynu.

3. AMSER I DEWI *yw pan na byddo genym syniadau clir am yr hyn y dymunem siarad arno.*—Gall ein bod yn fwy tueddol i siarad yn gryf ar bethau amheus nag ar bethau sydd o fewn cylch gwybodaeth sicr. Mae pawb dynion yn fwy anwybodus na gwybodus; y mwyaf gwybodus yw y mwyaf gwylidwrus i siarad am bethau sicr, yn gystal a'r mwyaf gostyngedig yn mherthynas & phethau ansicr. Rhaid i ddyn gael amser i gasglu, cyn y gall wasgaru. O gyflawnder y cyfrenir yn yr ystyr yma. Mae *credu* ein bod yn gwybod yn dra gwahanol i *wybod* yn wirioneddol. Gellir cymeryd yn ganiataol bethau nad ydynt yn wirioneddol. Gall humanoldeb calon ddinystrio ei pherchenog. Mae llawer wedi marw yn druenus o anwybodus, o herwydd eu bod yn rhy humanol i gyfaddef anwybodaeth. Dolur calon yw clywed dyn yn siarad gyda hyfdra a sicrwydd am bethau y mae ei alluocach a'i dduwiolach yn crynu yn eu hymyl. Rheswm dyn dros ddweyd ei feddwl ar bob

peth, yw bod ganddo *farn*. Ei eiddo ef yw hi, a gwae y dyn a geisia ei ysbeillio o honi; ond yn sicr, dylai ofyn iddo ei hun pa faint o fantais y mae y farn hono wedi gael i bwysu pethau. Y fendith nesaf mewn gwerth at *wybod* yw y *gallu* i gyfaddef ein hanwybodaeth, a chofio mai *amser i dewi* ydyw. Sycheda rhai mathau o feddyliau am *newydd-deb*. Ymofynant am newydd-deb er ei fwyn ei hun. Derbynir y gwael am ei fod yn newydd, tra y gwrthodir y da am ei fod yn hen. Mae rhai dynion wrth sychedu cymaint am bethau newydd drwy eu hoes, yn byw yn ddigon hen i fyned yn eiddilod gwanaidd. Maent wedi byw yn wan, ac felly nis gallant farw yn gryf. Diystyrant hen wirioneddau, dibrisiant athrawiaethau syml yr Efengyl, a braidd na chaffai "Efengyl arall" *newydd* well derbyniad na'r hen Efengyl.

4. AMSER I DEWI *ydyw pan fyddo goruchwyliaethau Duw yn ei Ragluniaeth yn ymddangos yn dywyll i ni.*—Dyma faen tramgwydd; a chraig rwystr i lawer meddwl yw yr anghysondeb *ymddangosiadol* sydd yn ngweithredoedd Duw. Mae y goruchwyliaethau fyddant yn myned yn erbyn ein teimladau yn profi ein ffydd yn Nuw. Bydd y duwiol yn fynych yn dyoddef pob anfanteision, tra y bydd yr annuwiol yn mwynhau ffafrau uchaf Rhagluniaeth. Bydd y diweddaf yn teyrnasu hyd at orthrymu, a'r cyntaf yn dyoddef hyd angau. Mae Cain annuwiol yn cael byw, ac Abel onest yn marw o dan gyllell y llofrudd; gwawdir ac erlidir Elias y proffwyd, tra y mae Ahab wasaidd a Jezebel gyfrwys-ddrwg yn mwynhau gwleddoedd y llys; mae Dafydd yn erlidiedig ar fynyddoedd, ond y mae Saul yn ei balas; tefir Daniel i ffau y llewod, ond y mae Darius y tu allan; torir pen Ioan Fedyddiwr am ddweyd y gwir, tra y mae Herod yn meddwi ar ffolineb; mae Paul a Silas yn y carchar, ond y mae y *jailer* yn ei wely o fân blu. Dywed Duw eto fel y dywedodd ei Fab—"y peth yr wyf fi yn ei wneuthur ni wyddost ti yr awrhon, eithr ti a gei wybod ar ol hyn." Mae Crist yn golchi traed ei ddisgyblion

yn fynych. Ceir myned i'r cysegr yn y man i gael esboniad ar lawer o ddirgelion gweithrediadau Duw. Ni bydd eisiau yr enfys yn y cwmwl byth. Yn nghanol dirgelion, "amser i dewi" ydyw. Gellir addoli wrth dewi, ac y mae yr addoliad hwnw yn llawer purach a mwy gostyngedig na'r addoliad a ellir gyflwyno mewn geiriau yn fynych. Un o wersi y sefyllfa bresenol, yw dysgu teui.

II. "AMSER I DDYWEDYD."

1. *Pan fyddo pechodau rhyfygus yn codi eu penau, a chrefydd Mab Duw yn cael ei diystyru.*—Nid oes dim yn rhoddi mwy o orfoledd i wir gredadyn na'r cyfnewidiad a wél efe yr Efengyl yn ei wneyd ar gyflyrau ac yn nghymeriadau dynion. Mae y byd, o ran ei sefyllfa foesol, yn myned drwy gyfnewidiadau yn barhaus. Dylanwadir arno gan alluoedd gwahanol. Nid yr un pechod yw prif bechod pob oes. Ni ellir barnu cyffredinolrwydd dylanwad pechod wrth ei fawredd. Mae ambell i bechod yn ymddangos mor bechadurus, fel yr arswyda dosbarth lluosog rhagddo; tra y mae pechod arall, heb fod mor ymddangosiadol ddrwg, eto yn cynnwys mwy o berygl, o herwydd y cyfryw ymddangosiad.—Mae hen gampau annuwiol yr oes o'r blaen yn ymddangos fel ellyllon i lawer o ddynion a fynant gael eu cyfrif yn foesol. Tra y dychrynant wrth feddwl am greulondeb a barbareidd-dra annuwiolion yr oesau blaenorol, rhedant hwy i gyfeiriad arall sydd, er yn wahanol, eto yn cynnwys cymaint perygl. Medr diafol roddi *respectability* ymddangosiadol i'w ddyfeisiau i gyfarfod â syniadau anianol a balch dyn. Ond dyma y rhai a gynnwysant fwyaf o berygl. Dyma ladron a gyflawnant eu gwaith â menyg am eu dwylaw. Cyflogant un o blant y tŷ i agor y drws iddynt i ddyfod i fewn i ladrata. Dallant y dyn â balchder, ac ysbeiliant ef o'i drysorau. Ofnwn y coleddir arferion gan lawer sydd yn myned yn uniongyrchol yn erbyn dylanwad sanctaidd yr Efengyl. Mae llawer Moses yn myned i'r mynydd heb grynu, llawer archoffeiriad yn myned i'r cysegr heb waed, a llawer proff-

wyd yn myned ger bron Duw heb ymsanteiddio. Mae yr Eglwys wedi syrthio i ddifaterwch am gysegredigrwydd crefydd a'i hordinadau. Mae dynion ieuainc yn cael eu goddef a'u cefnogi i *actio* hanesion sanctaidd y Beibl. Trininr gair Duw fel gair dyn. Ni phetruswn ddywedyd ei fod yn rhyfyg eithafol i nifer o ddynion i wneyd *play* o hanes Joseph, Esther, y dyn dall, &c., a bod yr Eglwysi lle y cefnogir hyn yn anffyddlawm i sancteiddrwydd ac ysbrydolrwydd amcan eu gosodiad. Mae pethau felly yn caledu calonau ein dynion ieuainc, yn darostwng gair Duw i safle rhai o'r llyfrau iselaf a gyhoeddwyd erioed; a disgwylia Duw i'r Eglwys lefaru yn eglur dros burdeb a sancteiddrwydd ei wirionedd, nes y dychryno y rhai a'i cablant. Cyhuddir rhai o weinidogion y cysegr o fynychu tafarnau; telir mwy am ddiodydd meddwol a myglys gan aelodau crefyddol nag a gyfranant at gynaliaeth crefydd; cefnogir sefydliadau sydd yn bwyta nerth ysbrydol yr Eglwysi. Rhaid i Seion Duw ymysgwyd o'r llwch, dyrchafu ei llais, a myned allan yn enw Arglwydd Dduw byddinoedd Israel yn erbyn y Philistiaid dienwaededig sydd yn eu gwatwar. "Dyrchafa dy lef O efengyles Jerusalem." +

2. AMSER I DDIWEDYD *pan fyddo dirywiad yn mywydau aelodau eglwysig, ac athrawiaethau neillduol crefydd Mab Duw yn cael eu diystyru.*—Rhoddodd yr Arglwydd ofal arch y cyfamod i Israel. Os buasai Israel yn gwynebu brwydr â'r gelynion, heb yr arch, buasent yn sicr o golli y dydd. Yr oedd yr arch yn arwydd ac yn ernes o bresenoldeb yr Arglwydd. Ymddirieda Duw ei ymadroddion eto i Seion; ac os bydd yn anffyddlawm i'r ymddiriedaeth, goddiweddir hi gan ei gelynion a gorchfygir hi yn y brwydrau. Mae gwahanol feddyliau yn yr Eglwys ar lawer o wirioneddau; ond y mae gwirioneddau eraill ydynt yn wirioneddau sylfaenol crefydd, y rhai nis gellir crwydro oddiwrthynt—rhaid eu credu mewn trefn i gael gafael ar fywyd tragywyddol. Os gollynga yr Eglwys ei gafael yn y gwirioneddau hyny, bydd yn gwynebu y gelyn heb yr arch.

Os caniata yr Eglwys i ddynion coegion, o syniadau anianol, i ddysgu athrawiaethau "amryw a dyeithr," gwanheir ei nerth, cyll ei dylanwad, a disgyna mewn bywyd i anmhuredd. Bydd "ceryg y cysegr yn mhen pob heol," baner yr Efengyl yn sathrfa o dan draed annuwionion, a gwirioneddau gogoneddus yr Efengyl yn cael eu gwawdio a'u dirmygu. Mae gan Eglwys Dduw ei rhagorfreintiau neillduol; meddienir hwy ar amodau. Ynddi hi mae y Shecinah dwyfol, y ddeddf, a'r cyfamodau. Ond y mae ganddi wialen hefyd; ac os esgeulusir hono, fe gollir y gogoniant. Os caniata yr Eglwys i ddynion amheus o ran cymeriad, llygredig ac aflan eu hymadroddion, annghywir yn eu tystiolaethau, twyllodrus yn eu trafodaeth, i aros ynddi, bydd cwmwl ar y gogoniant. Cadwed Duw yn yr Eglwysi ddynion fyddont yn gryfion yn yr athrawiaeth, ac yn dwyn sêl santaidd dros burdeb bywyd.

3. AMSER I DDYWEDYD *pan fyddo egwyddorion mawrion crefydd ar brawf mewn erlidigaethau.*—Gellir dywedyd am oesau blaenorol, bod cewri yn yr Eglwys yn y dyddiau hyny. Perygl mawr dynion, yw barnu crefydd wrth eu teimladau, yn fwy nag wrth egwyddorion sefydlog. Mae gauaf wedi bod ar grefydd, pan na allasai ond planhigion byw sefyll yr ymosodiad. Bu y ddraig yn cynhyrfu, galluoedd uffern yn ymosod, chwilysoedd yn dirdynu, fflamiau yn llosgi cyrff y saint, a holl dalent cythreuliaid yn dyfeisio y cynlluniau creulonaf i ladd yr Eglwys, a'i dwyn i fradychu ei hegwyddorion. Ond methwyd a llwyddo. Codai grâs fwy o seintiau nag a allai Satan godi o ystanciau. Clywyd llawer bachgen dewr, fagwyd o dan ddylanwad addysg grefyddol, yn dywedyd—

"Af at y stanc i farw,
Mi hunaf yn y fflam,
Cyn byth y gwnaf fi wadu
Hen Feibl mawr fy mam."

Nofiodd miloedd o seintiau Duw i fyd arall ar ddonau eu

gwaed eu hunain. Ond dichon na chynygia y diafol gynlluniau tebyg eto i ddinystrio yr Eglwys. Er hyny, gall egwyddorion crefydd fod ar brawf eto mewn amgylchiadau gwahanol. Os na fygythir bywyd gan oerfel y gauaf, gall gwres yr haf fod yn ddinystriol iddo. Y mae yn hyfryd clywed yr adar yn canu, gweled y blodau yn ymloewi, a'r greadigaeth yn myned drwy fath o adgyfodiad yn y gwanwyn; ond cofier mai yn yr haf y mae yr ymlysgiaid gwenwynig yn myned allan, y sarff yn torchi, a'r pryf yn bwyta nerth pethau tyner. Gall amgylchiadau anffafriol fod yn fwy o fendith nag o golled, ac amgylchiadau ffafriol fod yn fwy o felldith nag o fendith. Disgwylia Duw i'r Eglwys sefyll yn nghanol pob perygl, codi ei llais yn erbyn pob gelyn, a theimlo mai "*amser i ddywedyd*" ydyw.

Yr ydym yn gwynebu ar gyfnewidiadau mawrion. Mae llawer yn siarad gyda hydra annheilwng heddyw, ond bydd yn rhaid iddynt dewi yn y man. Mae y bachgen annuwiol yn bytheirio ei lŵon, cabla Dduw y nefoedd, a defnyddia eiriau sydd yn cael eu hystyr yn y llyn o dân; ond gwêl ddiwrnod yn fuan pan y saif o flaen ei Farnwr yn *fud*; bydd amser i dewi wedi ei ddâl yntau. Carai alw yn ol ei eiriau, a dileu yn dragywyddol eu dylanwad; ond amser i dewi fydd hwnw.

Mae llawer Cristion cywir wrth gyfarfod â siomedigaethau chwerverwon mewn bywyd, yn gorfod teui fel Aaron. Mae yn fud ger bron Duw. "Mae ei ffordd ef yn y môr." Ond dâw dydd y caiff ef siarad—siarad pan y bydd gweithredwyr anwiredd yn teui. Dywed ef ar ddydd pwysig y farn, gyda y dorf waredigol—"dacw y gwr y gobeithiasom ynddo." Mae yr Efengyl yn galw heddyw ar ddynion i edifarhau am bechod, ac i dderbyn maddeuant; ond y mae ei cheisiadau yn ofer. Bydd hithau wedi distewi yn fuan. Mae ganddi lai o addewidion yn bresenol i rywrai nag oedd ganddi ychydig yn ol. Mae rhai o honynt yn myned allan o *date* yn feunyddiol. A phan y bydd wedi teui, y pryd hwnw y bydd llawer o wrandawyr yr Efengyl yn dechreu

sylweddoli eu sefyllfa a'u colled. Gallodd Mab Duw dewi pan y safodd ar ei brawf, ger bron Pilat, ond methodd dewi pan yn neddfle pechadur. Dywedodd, "O dad maddeu iddynt;" a dyna yw ei iaith ar ddeheulaw ei Dad byth. Ond y mae yntau yn myned i dewi—tewi gynyrcha gyfnewidiad drwy y greadigaeth, dry ddafnau y môr yn ffamiau tân, egyr feddau y ddaear, grynhoa yn nghyd i farn yr holl hil ddynol, ac a sefydla bob un yn ei le ei hun am yn oes oesoedd. Cyn y tawo yr Efengyl, plygwn i'w hawdurdod. Gwell i ni weddio fel publican am drugaredd, rhag i ni gael gorchymyn i dewi, fel y cafodd y cythreuliaid. Adnabyddwn amser Duw i dewi a dywedyd.

PREGETH XII.

NI PHALLA EFE.

“Ni phalla efe, ac ni ddigalona, hyd oni osodo farn ar y ddaear; yr unysoedd hefyd a ddisgwyliant am ei gyfraith ef.”—ESAIAS xlii. 4.

TYSTIOLAETH Duw y Tad am ei Fab yw y geiriau hyn, ac yn diweddu yn broffwydoliaeth i'r byd drwy enau Esaiah am Grist fel Cyfryngwr, ac am ei gyfryngdod. *Gwas* y gelwir Crist yn y geiriau, nid i ddynodi fod Crist yn israddol i'r Tad mewn natur ac urddas, ond i ddynodi ei waith yn iachawdwriaeth yr hil ddynol. Pan edrychir ar waith Crist, gelwir Ef yn was; ond yr oedd y gwas yn Fab, a gallai dywedyd, “Myfi a'r Tad un ydym.” Dyhd cofio nad yw Crist yn darfod a bod mewn un berthynas pan y daw i'r golwg mewn perthynas arall. Yn ei berthynas â'r Tad fel gweithydd iachawdwriaeth y byd drwy ei angau, gelwir ef yn was. Fel gwas y mae y Tad yn rhoddi ei gymeriad yn yr adnodau hyn. Yr oedd yn etholedig i'w swydd—wedi ei ddewis allan, wedi ei neillduo er tragwyddoldeb, wedi ei eneinio i'r swydd. Nid oedd hawl gan archoffeiriaid y trefniant moesenaidd i gymeryd yr anrhydedd iddo ei hun. Yr oedd y gosodiad yn allanol ac yn ddwyfol—“Ac nid yw neb yn cymeryd yr anrhydedd hwn iddo ei hun, ond yr hwn a alwyd gan Dduw, megys Aaron. Felly Crist hefyd nis gogoneddodd ei hun i fod yn archoffeiriad.” Etholwyd Ef. Gosodwyd Ef yn Iawn. Fy ngwas—fy etholedig. Mae y broffwydoliaeth yn dangos dwy o linellau neillduol yn nghymeriad Crist—*penderfynolrwydd* a *thynerwch*. Ceir yr elfenau hyn ar wahan yn fynych; a phan felly, mae y naill fel y llall yn beryglus. Mae gallu yn beth peryglus wrtho ei hun, ac y mae tynerwch felly hefyd. Mae gallu yn fynych yn diystyru iawnder, a thynerwch yn dibrisio dyledswyddau. Cyfyd y cyntaf i falchder a chreulondeb; disgyna y llall i ddibrisdod. Rhaid

cael yr elfenau hyn mewn cydbwysedd i ffurfio cymeriad cyfan, a bywyd defnyddiol. Brenin yn meddu ar ddigon o allu, heb feddu ar ddim tynerwch, fyddai yn beryglus i wlad; ac y mae ambell un felly wedi bod, y rhai a nôdasant y ddaear â gwadnau eu traed. Brenin yn meddu ar galon dyner, heb ddim penderfyniad, fyddai yn beryglus o'r tu arall. Y cyfuniad o'r ddau sydd yn ogoneddus. Yr oedd y ddau yn Iesu Grist. "Ni ddryllia gorsen ysig, ac ni ddiffydd lin yn mygu." Dyna dynerwch. Pe buasai Bartimeus gafodd ei olwg gan Grist yn sefyll wrth benelin Esaiiah, ni buasai y disgrifiad yn well. Dywedir fod tynerwch yn hanfodol i'r *nurse* mewn *hospital*. Mor ddistaw y siarada, rhag dolurio y cleifion. Mewn *hospital* oedd Crist. "Ni phair glywed Ei lef yn yr heol." Ond y mae yna benderfyniad—"Ni phalla Efe." Yr oedd y ddau yn Iesu Grist.

"*Gosod barn ar y ddaear.*"—Defnyddir y gair *barn* mewn gwahanol gysylltiadau yn yr Ysgrhythrau; ac y mae hyny yn cynnwys nad yr un ystyr sydd iddo bob amser. Pan ddywedir *barn dyn*, golygir y ddedfryd y mae yn ffurfio ar bethau, ac o'r gwahaniaeth sydd ynddynt yn gwneyd dewisiad rhyngddynt. Golyga weithred o eiddo meddwl dyn yn ol y goleuni fyddo ganddo ar y pryd. Pan ddywedir *barn Duw*, golygir ei gyfiawnder, megys pan ddywedir ei fod yn "*hoffi barn.*" Saif y gair yn y cysylltiadau hyny yn wrthwyneb i annglyfiawnder fel un ffurf neillduol ar bechod. Saif am yr egwyddor o wirionedd fel y mae yn rhedeg drwy holl lywodraeth Duw, yn dyogelu iawnder. Rhêda allau o natur Duw ei hun drwy y cyfan a wnaeth, i brydferthu, i ddedwyddoli, a chysegru y cyfan i Dduw. "*Hoffi barn.*" Brydiau eraill golyga gosbedig-aethau Duw am bechod ar droseddwr. Rhoddir disgrifiad cyffrous o amgylchiadau y daeth Duw i'r golwg ynddynt mewn cymeriad ofnadwy. Dyfroedd barn foddodd yr annuwiolion yn ymyl arch trugaredd a gludai Noa dros y tŷonau; tân barn a losgodd Sodom a Gomora; barn a

agorodd y ddaear, nes y llyncodd yn fyw y tri wyr rhyfygus hyny; ac Herod o dan farn Duw a fu farw, gan bryfed yn ei ysu am ei bechod. Yr ydym yn ddigon cyfarwydd âg ystyr neillduol arall sydd i'r gair. Mae Duw wedi neillduo cyfnod, ac wedi ei alw yn "ddydd barn." Dydd—nid am y bydd yn cael ei wneyd i fyŷy o oriau fel dyddiau eraill, o herwydd bydd amser wedi darfod y pryd hwnw; dydd, nid am y bydd yr haul yn gwasgar ei belydrau, ond am y bydd y cyfnod hwnw yn oleu ar gyfrif y datguddiadau wneir ynddo, a'r goleuni dwyfol oddiwrth wyneb Duw a dywyna ar ei holl lywodraeth foesol. Dydd y farn. Y dydd hwnw pan y bydd Duw yn gwneyd rhagor rhwng y cyfiawn a'r drygionus, yn rhanu goleuni a thywyllwch, yn sefydlu torf nas gall neb ei rhifo mewn dedwyddwch, a thorf arall yn cael ei sefydlu mewn anobaith a chosp. Dydd barn—dydd y bydd gorsedd barn wedi ymddangos, y Barnwr ar ei faine, a'r holl fyd yn clywed y ddedfryd; dydd y bydd yr annuwiolaf yn crynu, y cablwr yn casglu parddu; dydd y bydd Gwaredwr y byd wedi newid ei enw a'i waith, a ffrydlif o ddialeddau yn myned allan o lygaid yr hwn a wylodd uwchben pechaduriaid Jerusalem. Y genau a offrymodd eiriolaeth wedi troi i gyhoeddi cosbedigaethau. Y mae yma ambell i adnod fel pe am ddychrynu yr annuwiol cyn y gosb. "Yr annuwiolion ni safant yn y farn." Diolch i Dduw nid y farn yna sydd yn yr adnod hon. Tybiwn fod y gair *barn* i gael ei ystyr o gyfryngdod y Gwaredwr, o herwydd yn gysylltiedig â chyfryngdod Crist y defnyddir ef. Rhoddir ef i lawr yma fel amcan ei gyfryngdod—"Gosod barn ar y ddaear."

I. RHODDI SYNIAD CYWIR I'R BYD AM ADDOLIAD.—Mae addoliad yn gwestiwn sydd wedi codi uwchlaw ei resymu. Ffaith ydyw, a rhaid rhoddi cyfrif am dani yn rhywfodd—ffraith nas gellir ei gwadu. Nid yw yn gynyrch dysgeidiaeth, o herwydd y mae y mwyaf annysgedig yn gwneyd; nid cynyrch gwareiddiad, o herwydd y mae yr anwareiddiedig yn addoli. Teimla y pagan yn nhywyll-leoedd y

ddaeaf addoliad yn dyrchafu o'i galon, fel yr angel yn ymyl gorsedd Duw, ac nis gellir dileu ei dystiolaeth mewn cythreuliaid yn uffern, o herwydd pe gallent, a phe caent, tòrent allan fel cynt a dywedent "Sanct, Sanct, Fab Duw." Mae y cwestiwn o addoliad wedi tori dros ben cylch dadleuaeth; fe fÿn fyw, pe byddai y byd yn troi yn Babilon, i wneyd deddfau i'w wahardd. Mae gan hwn ei Jerusalem yn rhywle, ei deml mewn rhyw ddinas; ac er mai mab y gaethglud ydyw, ac yn gorfod wylo dagrau hiraeth am ei wlad yn fynych, eto y mae geiriau y testyn yn awgrymu yr agorir y pyrth iddo i ddychwelyd i'w wlad ei hun rhywbryd. "*Gosod barn.*" Yr hyn oedd angen ar y byd, oedd syniadau cywir am wrthddrych addoliad, a natur addoliad, ac y mae dysgeidiaeth yr Ysgrythyrau yn rhoddi y ddau. Mae syniadau cywir am Dduw yn hanfodol i wir addoliad, ac felly yr ydym yn cael Crist yn fynych yn aros i dystiolaethu am Dduw. Dichon mai y llinell amlycaf yn nysgeidiaeth y Gwardedwr am addoliad yw ei fod yn *ysbrydol*.

Ysbrydolrwydd addoliad.—Mae agosrwydd cyfryngau allanol atom yn rhoddi mantais iddynt i ddylanwadu ar ein meddyliau, ac yn peryglu i guddio y gwirionedd ei hun. Mae ffydd o dan fwy o anfantais na rheswm, o herwydd fod yr addoliad yn *ysbrydol*, ac y mae ysbrydolrwydd ein haddoliad yn cyfateb i raddau dylanwad ysbrydol ffydd ar y meddwl. Paŋ oedd Israel yn dyfod allan o ganol eulun-addoliaeth yr Aipht, yr oedd yn anhawdd cael eu meddyliau at Dduw. Yr oedd rhwysgfaeodd eilun-addoliaeth yr Aipht wedi cylmu eu meddyliau wrth y gweledig. Sefydlodd Duw drefniant o addoliad yn yr anialwch, ond âg elfenau gweledig ynddo. Gwisgid ei offeiriaid mewn harddwch, adeiledid yr allorau o'r coed goreu, addurnid y tabernacl âg aur, a chyflawnid y defodau mewn rhwysgan y llwythau; a phob un yn addoli drwy y gweledig, o dan ei luman ei hun. Ond os oedd Duw yn dyfod i gyfarfod y bobl yn y trefniant allanol hwnw, yr oedd yn

dysgu gwirionedd pwysig i'r byd. Yr oedd yno wahanlen, ac oddifewn i hono yr oedd pethau mwyaf gogoneddus y trefniant. Yno yr oedd y thuser aur, y crochan aur, a'r mana, gwialen Aaron, yr arch, y drugareddfa, a'r Shecinah. Oddifewn yr oedd ysbrydolrwydd a gogoniant y gwasanaeth. Yr oedd yr Arglwydd drwy drefniant gweledig, am ddysgu ysbrydolrwydd y gwasanaeth. "Ysbryd yw Duw," meddai Crist. Dyna y dystiolaeth am Dduw oedd yn angen ar y byd. Yr oedd syniad am ei ysbrydolrwydd wedi ei gollu. Adeiladid temlau allanol gogoneddus, cynnelid gwyliau rhwysgfawr, a dadleuai yr Iuddew am y *man* i addoli. "Ysbryd yw Duw," meddai Crist. Distawer tabyrddau y gwleddoedd, tŷner i ffwrdd udgyrn y gwyliau—"Ysbryd yw Duw." Yr oedd Jerusalem, dinas y brenin mawr yn oes y Gwaredwr, wedi ei llanw â ffurfiau heb ddim bywyd, ei gwyliau yn anwiredd, a'i chymanfaoedd yn bechod.—"Ysbryd yw Duw," meddai Crist. Ffydd yn Nuw sydd i fod wrth wraidd gwir addoliad. Mae Duw yn preswyllo y goruchelder a'r cysegr, yn brofwr meddyliau. Gellir cyflwyno addoliad i Dduw oddiar fynydd Ebal, yn nghanol melldithion; a'i ofni ar fynydd Seion, yn nghanol bendithion—"Ysbryd yw Duw." Yr hyn sydd yn eisiau ar y byd yw syniad cywir am Dduw, ac fe geir hyn yn yr Efengyl. "*Gosod barn ar y ddacar.*" Mae ysbrydolrwydd Duw yn cyfateb i eangder a mawredd ei lywodraeth. Nid oes un eulun a ffurfiwyd erioed yn meddu ar ddigon o fawredd i fod yn ganolbwynt addoliad y byd; ac y mae hyd yn nôd yr un genedl yn gorfod cael amryw dduwiau.—Duw rhyfel i fyned i faes y gwaed, a duw heddwch i godi ei faner uwelben y diamddiffyn. Yr oedd ar y byd eisiau syniad am Dduw fuasai yn ddigon mawr i fod yn ganolbwynt i'r holl gread, ac un felly yw Duw.

II. SEFYDLU CYFIAWNDER FEL EGWYDDOR SYLFAENOL AC HANFODOL YN NGWEITHREDIADAU CYMDEITHAS.—Teimla pob un fod ymgymeriad fel yma yn fawr. Mae yr egwyddor o gyfiawnder yn cymeradwyo ei hun, a rhêda fel llinell o aur

drwy holl grefydd Mab Duw. Nid yw gelynion penaf y Gwardedwr, a dirmygwyr penaf y datguddiad, wedi gallu dwyn cyhuddiad erioed yn erbyn y naill na'r llall yn y cyfeiriad hwn. Yr oedd dysgeidiaeth Crist yn cynnwys gwirioneddau hollol ymarferol, ac ni chymerai Crist un canlynwr, ac ni chymer eto, ond rhai a fyddo yn credu y gwirioneddau, ac yn dwyn y cyfryw i ymarferiad. Mae cyfiawnder yn rhedeg drwy holl waith cyfryngwriaeth. *"Yr hwn a osododd Duw yn Iawn trwy ffydd yn ei waed ef, i ddangos ei gyfiawnder, trwy faddeuant y pechodau a wnaethid o'r blaen, drwy ddyoddefgarwch Duw; i ddangos ei gyfiawnder ef y pryd hwn, fel y byddai efe yn gyfiawn ac yn cyfiawnhau y neb sydd o ffydd Iesu."* Ni allasai Duw achub pechadur ar dir cyfiawnder, heb Iawn; ac fe osododd ei Fab yn Iawn, fel y gallai Efe yn gyfiawn achub "y neb a fyddai o ffydd Iesu." Mae cyfryngwriaeth yn gorwedd ar gyfiawnder. Os yw iachawdwriaeth y byd yn gorphwys felly ar gyfiawnder, nis gall llai nag amcanu at osod cyfiawnder yn egwyddor mewn bywyd. Fel y mae cyfrifiad o gyfiawnder Crist yn gwneyd y credadyn yn gyfiawn gerbron deddf Duw, felly y mae sancteiddrwydd yr Efengyl yn ei wneyd yn gyfiawn gerbron dynion. Nid oes neb duwiol yn sanctaidd hollol ar y ddaear, ond y mae pob duwiol yn gyfiawn. Mae yr Efengyl yn dweyd mor groew, "Eiddo Cæsar i Cæsar," ag "Eiddo Duw i Dduw." Nis gellir bod yn gyfiawn gerbron Duw, heb fod yn gyfiawn at ddynion. Fe ddyrchafodd Iesu Grist yr egwyddor yma yn y byd, ac ni chymer lai na hon gan neb. Yr oedd y Gwardedwr am i'w ddisgyblion fod yn glir ar y pen hwn. Fe faddeua Duw filoedd o feiau, ond ni faddeua annghyfiawnder o dan gochl a thwyll. Mae gonestrwydd o fewn cyrhaedd y tlotaf yn y tir. Gall y tlawd fod mor gyfiawn ag angel mewn gogoniant. Y mae yr egwyddor hon yn cymeradwyo ei hun. Mae miloedd o dlodion yn y wlad na chymerai eu gofynwyr eu bywyd am roddi arnynt i'w gorfodi, a byddai yn well iddynt beidio.—Mae Duw yn y nefoedd.

Maent yn dlawd, ond yn onest. Gwell ganddynt wisgo eu carpiâu yn onest, na sidanau a dyled annghyfiawn arnynt. Meddant ar egwyddor Crist. Mae amgylchiadau cymdeithas ar adegau neillduol yn dangos mor fendigedig fyddai cael yr egwyddor i weithrediad. Cawn fod cenedl Israel unwaith wedi myned mor fydol, fel yr oedd y Sabbathau yn faich arni; hiraethent am eu gweled yn myned heibio, er mwyn myned allan i drin clorianau annghyfiawnder, prinhaù yr ephal, ac helaethu y siel. Cosbodd Duw hwynt â barnau am eu hannghyfiawnder. Tybed nad oes cwyn rhwng Duw a'n daear ni yn y dyddiau hyn. Mae masnach yn bwdr drwyddi, cylchoedd anrhydeddus cymdeithas yn cael eu halogi gan annghyfiawnder; a'r llwch yn gorwedd ar wirionedd yn yr heol. Bydd cysylltiadau meistr a gweithiwr wedi dyfod yn fwy hapus pan beidia y naill orthrymu, a phan beidia y llall a chyfyngu. Yn amser llwyddiant, ni ofyna un ormod am ei lafur; ac yn amser caledi, ni chynygia y llall rhy fach am dano. Ni bydd y meistr yn gorthrymu drwy ofyn priddfeini heb wellt; ac ni bydd y gweithiwr yn rhifo yr oriau, ond yn mesur ei waith. Edrycher dros y byd y fath lywodraeth sydd gan bechod ar y ddaear. Y mae trigleoedd y ddaear yn llawn trawsedd. Mae y "gareg yn llcfain o'r mur, a'r trawst yn ei hateb o'r gwaith coed." Gormes, a thrais, a thwyll, yn blaguro. Bydd canibaliaid yr ynysioedd pell-enig, sydd yn rhodio oddiamgylch wedi ymwisgo â dail, wedi dyfod i'w hiawn bwyll, ac i ffeiddio eu creulondeb. Sôn am ryfeloedd sydd yn bresenol. Cyhoeddir rhyfel am ychydig latheni o dir; a'r amlaf ei byddin, a'r flaenaf mewn darganfyddiadau, a'r fedrusaf i drin arfau, hono yn sicr a garia; ni ofynir am gyfiawnder. Ond fe osodir barn ar y ddaear. Mae yr ysbeil-ddyn yn dringo yn lladradaid i anialwch, ac yno yn chwilio am aelwydydd yr unig, i ysbeilio eu plant i gaethiwed, a'u gwerthu hwy dan furthwyl yr arwerthwr yn marchnad y caethion. Gyrir hwy yn ddrofau fel anifeiliaid, ac ni wêl y fam ei phlentyn mwy ar

y ddaear. Ond fe osoda yr Efengyl farn ar y ddaear. Fe fydd banerau rhyddid yn cyhwanu yn awelon pob gwlad.

III. "GOSOD BARN AR Y DDAEAR" YN NATGUDDIAD A LLED-
AENIAD O DREFN OGONEDDUS YR EFENGYL.—Barn yw yr
Efengyl fel y mae hi yn wirionedd, ac yn wirionedd ar
gyfer y byd, yn cyfateb i'r byd yn ei gyflwr presenol.
Trefn yw yr Efengyl yn gwynebu ar aunnhrefn y byd, gwir-
ionedd yn gwynebu ar gyfeiliornadau y byd, cariad yn
gwynebu ar elyniaeth y byd, a iachawdwriaeth yn gwynebu
ar holl bechod, yn mhob ffurf, ac yn mhob graddau arno,
o ddechreu amser i'w ddiwedd. Dyma brif *idea* cyfryngwr-
iaeth Crist—cael trefn i adferyd yr hil ddynol i fod byth
o dan ddylanwad sancteiddrwydd, ac felly i fod byth yn
ddedwydd. Mae y drefn hon yn gwynebu ar y ddaear—
"Gosod barn ar y ddaear." Er cymaint oedd gogoniant
Iuddewaeth, yr oedd yn annghymwys i gylch èangach nag
y gosodwyd hi. Yr oedd yn cyfateb i wlad Canaan—i hili-
iogaeth Abraham. Yr oedd gan hono ei llwyth offeiriadol,
offeiriadaeth yr hwn nid oedd yn cymeryd neb i fewn ond
hâd Abraham. Yr oedd ganddi ei theml, yr hon oedd yn
Jerusalem; yno yr oedd gwyliau cenedlaethol y genedl
yn cael eu cynal. Nid oedd Iuddewaeth yn cyfateb i'r
byd; ac yn nghyflawnder yr amser, y mae yn symud
oddiar y ffordd i un arall, gwell, èangach, a mwy ysbrydol,
i ddyfod yn ei lle. Mae hwn yn gwynebu ar y byd—
"Barn ar y ddaear." Dyma brif waith Crist. Daeth i
roddi syniad cywir am addoliad; i benderfynu am byth
pwy sydd Dduw. Yr oedd ei fywyd Ef fel cymanfa Elias
ar ben Carmel, i egluro cwestiwn addoliad; ond daeth i
ddangos y Duw hwnw mewn cymeriad sydd yn ad-dynu
pechadur ato ei hun. Fe laddwyd llawer yn nyddiau
Elias wrth benderfynu cwestiwn addoliad; ond rhoi bywyd
i filoedd y mae yr iachawdwriaeth. Mae Carmel yn enwog
ar gyfrif y tân a ddisgynodd arno, ond y mae Calfaria yn
enwog ar gyfrif yr Aberth a esgynodd oddiarno. Duw yn
sychu y dwfr oedd ar Carmel, ond gwaed sydd yn y *trans-*

action ar Galfaria, a chafodd Duw ei lwyf foddloni yno dros ddyn. Gan nad oedd Inddewaeth yn cyfateb ond i genedl ac i wlad neillduol, bu farw yn ei defodau; ond y mae ei phrif wirioneddau yn fyw. Fe losgwyd ei hallorau, claddwyd ei hoffeiraiaid, ac fe waharddwyd ei hebyrth. Teml Cristionogaeth yw y greadigaeth, ei Haberth hi yw yr Hwn a osododd Duw yn lawn, ei Hoffeiriad hi yw yr Hwn sydd ar ddeheulaw Duw yn eiriol drosom ni, ac y mae i'r holl ddaear. "*Gosod barn ar y ddaear.*" Yn y blynyddoedd diweddaf, mae llawer o *stipendiary magistrates* wedi eu gosod drwy yr holl wlad—dynion cyflogedig gan y llywodraeth i weinyddu y gyfraith ar droseddwyf. Ond nid *stipendiary magistrate* yw y Gwardwr—Brenin yn gosod barn. Mae allweddau uffern a marwolaeth wrth ei wregys; ond nid *jailez* yw y Gwardwr. Brenin yn "*gosod barn ar y ddaear.*" Nid codi carcharau y mae Hwn, ond codi *hospitals* i wella cleifion. Nid codi dirwyon cyfraith y mae, ond Un wedi talu y ddirwy ei hun dros yr euog. "*Gosod barn.*" Mae y gair "*gosod*" yn gryf iawn am ledaeniad egwyddorion yr Efengyl. Pan ddefnyddir y gair am waith Duw yn neillduol, gesyd allan gadernid a diysgogrwydd y peth a osodir—Wedi ei osod fel nad ysgogo—Duw wedi rhoi sêl ar y maen na feiddia ac nad all neb ddatod y sêl hon byth. Efe a osododd y tywod yn derfyn i'r môr, ac nid oes neb wedi symud y terfyn. Gall yr ofnus gysgu yn ei gaban ar lan y môr, heb grynu ar noson yr ystorom fwyaf, mae Duw wedi gosod terfyn iddo. Gosodwyd i ddynion farw unwaith. Beth yw nerth y gosodiad? Mae un genhedlaeth yn myned, a chenhedlaeth arall yn dyfod. Gwlychir y ddaear gan ddagrau, ac nid yw darganfyddiadau ac addysg yn debyg o newid y gosodiad. Gosodwyd yn Paul "*air y cymmod,*" ac fe fethwyd a'i dynu oddiyno drwy fflangellau, a charcharau, a marwolaeth. "*Gosod barn.*" A lwydda Efe? Mae anffyddwyr yr oesau wedi bod yn edrych ar ddistadledd y cyfryngau, ac wedi dweyd na lwydda. A lwydda Efe? "Mae brenin-

oedd y ddaear yn ymosod, a'r penaethiaid yn ymgynghori yn nghyd;" a'r penderfyniad y daethant iddo yw, na lwydda. A lwydda Efe? Mae gwawdwyr crefydd a chablwyr yr enw yn dweyd na lwydda. A lwydda Efe? Mae gwrandawyr Efengyl wrth wrthod y Ceidwad bob Sabbath, wrth ddirmygu cynygiad o iachawdwriaeth, yn dweyd na lwydda. Beth mae Duw yn ei ddweyd?—"Efe a lwydda," "Ni phalla Efe, ac ni ddigalona hyd oni osodo farn ar y ddaear."

IV. "NI PHALLA EFE, AC NI DDIGALONA HYD ONI OSODO FARN AR Y DDAEAR."—*Ni ddigalona. Paham?*

1. *Ymdeimlad o amcanion digon mawr i'w cyrhaedd.* "*Ni phalla Efe, ac ni ddigalona.*"—Y mae yr amcanion yn cyfateb mewn mawredd i'r meddyliau, a'r aberth a wneir yn cyfateb i'r amcanion—amcanion cyfryngwriaeth. Rhaid cael cydymdeimlad â'r amcanion mewn trefn i ddyfal-barhad a gweithgarwch. Y penaf o holl amcanion Duw, yw iachawdwriaeth pechaduriaid. Geilw yr Apostol hon yn fawr amryw ddoethineb Duw, ac y mae pob peth yn llywodraeth Duw yn ddarostyngedig i'r amcan yma. Mae ymdeimlad o amcanion daionus yn gymorth i ddâl y rhwystrau; a pha un a gŷrhaeddir yr amcan ai peidio, fe fernir y gwrthddrych yn ei amcanion. Fe gyfarfyddodd dynion doethlaf pob gwlad i geisio cymmodi dwy deyrnas. Dadleuwyd hawliau y ddwy ochr, a rhoddwyd ystyriaeth i bob peth. Ond pan gyflwynwyd y penderfyniadau i'r teyrnasoedd, gwrthodwyd hwy gyda dirmyg. Parotowyd i'r frwydr, lladdwyd miloedd, a gruddfana y gwledydd o dan eu beichiau heddyw. Fe fethwyd ag atal y rhyfel, ond bydd enwau y dynion a wnaeth eu rhan i hyny, yn pêr-aoglu pan y bydd enwau y rhyfelwyr yn pydru.

Yr oedd mawredd amcan y Gwarddwr yn cynal ei feddwl i fyny. "Ni phalla Efe, ac ni ddigalona." Yr oedd eisiau cymmodi nefoedd a daear â'u gilydd. A lwydda Efe? Mae yr amcan yn fawr. Dyoddefodd erlidiau ei genedl, gwawd pechaduriaid, chwysodd ddafnau o waed. A lwydda

Efe? Atebed y credadyn a deimlodd flas maddeuant, y dorf sydd wedi croesi i gadwedigaeth; barnier y peth yn sŵn caniadau y dorf orfoleddus, ac yn yr olwg ar wisgoedd a olchwyd yn ngwaed yr Oen.

2. *Yn ei barodrwydd i wneyd yr aberth gofynol i gyfarfod â'r amgylchiad, i gyrhaedd yr amcan.*—Mae pob peth pwysig a wnaed yn y byd erioed wedi ei wneyd drwy aberth, megys fel pe na byddai yn bosibl cyrhaedd un daioni mawr heb i hyny fod yn golled i rai. Mae pechod wedi gwneyd y fath ddifrod, ac wedi cario y fath effeithiau ofnadwy, fel nas gellir dadwneyd ei weithredoedd ond ar yr egwyddor o aberth. Ar yr egwyddor yma y gwneir darganfyddiadau. Sut y mae rhanau neillduol o'r ddaear wedi eu darganfod? Onid drwy aberth? Gwneir aberth gan ddynion i ddim ond enill iddynt eu hunain enw. Nofia un yn y môr am oriau, croesa o wlad i wlad, ac ni chyrhaedda yn y diwedd ond clôd fel y nofiedydd goreu. Ni fydd neb gwell o'r perygl y mae ynddo; a phe darfyddai am dano, a chael o hono "ddyfrlyd fedd," ni byddai colled yn ei farwolaeth. Gwelir un arall yn ymhyfrydu mewn esgyu i'r awyrgylch mewn awyren, fel pe yn teimlo yn *jealous* o adar y nefoedd am fod ganddynt adenydd. Dichon y daw rhywbeth o anturiaeth y dyn yma; ond gwna y naill a'r llall aberth mawr, gan nad faint o ffrwyth fydd iddo yn y diwedd. Rhaid mesur y gwerth a rydd dymuniad ar beth wrth yr aberth a wna i gael gafael ar y peth hwnw. Myned i'r anialwch ar ol y ddafad fesurodd benderfyniad y bugail i gael gafael ynddi. Ysgubo y tŷ hyd nes y caffwyd ef, fesurodd benderfyniad y wraig i gael gafael ar y darn arian. Beth yw penderfyniad yr Arglwydd Iesu i osod barn ar y ddaear? "Ni phalla Efe, ac ni ddigalona." Mesurer ef wrth yr aberth a wnaeth. Gosododd David Livingstone ei galon ar Affrica yn fachgen ieuanc pymtheg oed. Dichon nad oedd ganddo syniad am yr anhawsderau oedd o'i flaen. Bu yn ymladd â llew, yn ymbil am ei fywyd â gelynyon barbaraid; ond chwareuteg iddo, erbyn

heddyw, fe roddodd ei fywyd i lawr yn aberth er mwyn Affrica; ac ni chafodd neb erioed mwy teilwng fedd yn Westminster Abbey. Pob caeth gaiff ei atal rhag myned i gaethiwed, fe fydd gan Livingstone ran yn y gwaith; pob teml a godir i Arglwydd y lluoedd, fe fydd gan Livingstone ran ynddi; pob Beibl a wasgerir drwy y wlad, fe fydd gan Livingstone ran yn y gwaith. Ni phallodd, ac ni ddigalonodd, hyd nes ildo farw. Claddwyd ei galon yn y wlad y rhoddodd ei galon arni, ac fe ysgrifennodd ei enw dros byth yn ei hanes.

Ond beth a sonir am aberth yn ymyl yr adnod hon. Dyma ymgymeriad mwyaf y bydysawd, a dyma ddywedir am dano—"Ni phalla Efe." Dyma yr hunan-ymwadiad mwyaf er mwyn gosod "barn ar y ddaear." *Idea* eithriadol yw aberth yn ei berthynas â Duw. Gallodd alw i fodolaeth greadigaeth gyfan â gair ei enau. Mae Ef yn eu cynnal "â gair ei nerth;" ond i roi "barn ar y ddaear," i roi cyfraith i'r ynysoedd, rhaid gwneyd aberth. Mae y gair *digaloni* yn arwyddocaol iawn. Cyfarfyddodd â llawer o bethau oeddent yn tueddu yn uniongyrchol i'w ddigaloni. Cyfarfyddodd âg erlidigaeth yn fuan, ond ni ddigalonodd. Cafodd ei fagu yn y pentref annuwiolaf yn y wlad, ond ni ddigalonodd; trôdd tyrfaeodd eu cefnau ar ei genadwri, ond ni ddigalonodd; cam-esboniwyd ei wyrthiau, ac erlidiwyd Ef o'u herwydd, ond ni ddigalonodd; bradychwyd Ef gan ei ddisgybl, ond ni ddigalonodd; condemniwyd Ef i farw rhwng lladron, ond ni ddigalonodd; cuddiodd ei Dad ei wyneb oddiwrtho, ond ni ddigalonodd; cafodd ymosodiad unol dynion a chythreuliaid, ond safodd yn ffyddlawn, aeth drwy ei ddyoddefaint, a gellir dweyd ni phallodd Efe, ac ni ddigalonodd.

3. *Ni phalla, am y bydd ganddo allu cyfartal i gyfarfod â'r anhawsderau a gyfyd.*—Mae yr efrydydd ysgrythyrol yn gofyn yn naturiol beth yw y rheswm o'r gwrthwynebiad mawr sydd i'r Efengyl? Paham y mae y byd yn teimlo mor hwyrfydig i ddyfod o dan ddylanwad gwirionedd Duw?

Beth sydd yn yr Efengyl yn cynhyrfu holl deyrnas y diafol? Er cymaint o weithredoedd sydd, mae mwy o gynlluniau. Mae gan bob dyn lawer o gynlluniau heb ddyfod i ben, o herwydd fod rhy fach o allu i weithio y cynlluniau allan. Mae y byd yn codi cof-golofnau yn barhaus o'i allu, ond y mae yma gof-golofnau o'i anallu hefyd. Y mae gan Grist ddigon o allu i gyfarfod â'r anhawsderau a gyfyd. Chwala orseddau annghyfiawnder, diddyma gynghorau Ahitopheliaid yr oesau, ysgydwa ei deyrn-wialen euraidd dros y ddaear brynodd â'i waed, a chwardda yn y nefoedd mewn gwawdiaeth sanctaidd am ben dichellion diafol. Mae y deyrn-wialen aur i fod yn estynedig dros y ddaear oll. Llanwed Duw ei bobl âg ysbryd i weddio "Deled dy deyrnas."

PREGETH XIII.

HIRAETH Y CRISTION.

“CANYS y mae yn gyfyng arnaf o'r ddeutu; gan fod genyf chwant i'm datod, ac i fod gyd â Christ: canys llawer iawn gwell *ydyw*.”
—PHILIPPIAID i. 23.

MAE yr Apostol yn yr adnodau blaenorol yn gosod allan ei berthynas â Christ. Yr hyn oedd Crist iddo ef, ac yntau i Grist. Y mae undeb â Christ yn un o athrawiaethau y Beibl, ac yn un o fendithion mawrion trefn grâs. I'r undeb hwn y priodolir sicrwydd cadwedigaeth y credadyn. Mae yr undeb yn ddirgelaidd a chuddiedig yn ei hanfod, yn ffirwythlawn yn ei gynrych, ac yn dragywyddol yn ei barhad. Yr undeb hwn sydd yn gŵneyd cariad y credadyn mor wresog, ei ffydd mor gref, a'i obaith mor hyderus. Hwn sydd yn ei alluogi i weddio mewn adfyd, ac i orfoleddu mewn gorthrymderau. Dywed Paul yma fod Crist yn fywyd iddo ef. Crist yw sail cyfraniad pob bendith. Efe yw y ffordd, y gwirionedd, a'r bywyd. Yr oedd perthynas neillduol rhwng bywyd Crist a'r byd. Ymgawdolodd Crist er mwyn y byd. Byw i eraill oedd Ef, ac y mae y bywyd hwnw yn esiampl i ni fel y dilynem ei ol Ef. Ni welodd y byd hwn erioed *wir fywyd* hyd nes gweled bywyd Crist. Nid nifer o flynyddoedd sydd yn ffurfio gwir fywyd. Bywyd ysbrydol yw undeb rhwng enaid ail-enedig â Duw, drwy yr hwn undeb y mae heddwch Duw yn llifo i'r enaid. Bywyd ysbrydol mewn ymarferiad yw cydweddiad rhwng ein gweithredoedd ag ewyllys Duw. Gwneuthur ewyllys Duw yw amcan bywyd ysbrydol, a hyny yw dymuniad pob un sydd yn meddu arno. Mae pob amcan llai na hyny yn llai na'r bywyd ei hun. Mae pob peth llai na bywyd heb wir ddyddordeb. Rhaid i fywyd gael nôd

uchel, fel y byddo ganddo ddigon o waith byth. Rhoddodd yr Arglwydd Iesu wedd newydd ar bob peth. Ni feddai y byd ond syniadau cyfeiliornus ar bob peth braidd. Yr oedd pob dyn yn byw iddo ei hun. Ni ofalid gymaint am leshad llawer ag am fwynhad personol. Ond yn mywyd Crist, ceir aberthiad o fwynhad personol er lleshad tyrfa. Mae yr egwyddor yna i'w gweithio allan yn mywyd pob un o ganlynwyr Crist, ac nis gwelwyd gwell engrafft o honi nag yn Paul. Nid oedd neb yn ymorphwys mwy ar deilyngdod Aberth Crist nag ef; ond hefyd, nid oedd neb yn gweithio allan egwyddor bywyd Crist yn llwyrach. Dibynai yn hollol ar drugaredd; ond ar yr un pryd, gweithiai allan ei iachawdwriaeth ei hun drwy ofn a dychryn. Yr oedd yr Apostol yn gallu myned yn mhellach. Gan fod Crist yn fyw iddo, yr oedd marw yn elw iddo. Mae bywyd a marwolaeth Crist wedi gwneyd i angau edrych yn wahanol. Ofnai Job angau, ac edrychai arno fel ei elyn a'i orchfygwr. Syniad Job am farw oedd, dyn yn cael ei *orchfygu*. Dyna yw gwedd gyffredinol ei weithrediadau, oblegyd ychydig sydd yn ymostwng yn wirfoddol i'w lywodraeth. "Dyfroedd a dreuliant y cerig; yr wyt yn golchi ymaith y pethau sydd yn tyfu o bridd y ddaear, ac yn gwneuthur i obaith dyn golli." Colli oedd Job yn ei weled yn mhob man, hyd nes y deuai at ei Brynwr. Yr oedd ei Brynwr yn newid gwedd pethau. Yr oedd golwg yn mlaen yn newid yr amgylchiadau. Gallodd Paul fyned yn mhellach na Job. Yr oedd Paul yn awyddu marw, neu yn hytrach yn awyddu am feddianu yr hyn oedd tuhwnt i angau. Yr oedd un peth yn rhwystr iddo, sef lleshad *eraill*. Yr oedd ei fywyd mor bwysig, fel y buasai yn *golled* i'r byd. Yr oedd arno chwant y ddau—bod yn y byd, a bod gyda Christ. Yr oedd defnyddioldeb a dedwyddwch yn y glorian.

I. "CANTS Y MAE YN GYFYNG ARNAF O'R DDEUTU."—
Ychydig iawn o ddynion sydd yn teimlo yn gylymedig wrth y byd hwn am yr un rheswm a'r Apostol. Mae y

rhan fwyaf o ddynion yn teimlo yn gylymedig wrth y ddaear oblegyd gwahanol bethau. Nid yw y cybydd yn foddllawn ymadael oddiyma, oblegyd yma y mae ei drysor ef; a lle y byddo'r trysor, yno y bydd y galon hefyd. Nid yma oedd trysor yr Apostol; ac eto, yr oedd yn teimlo yn anhawdd iawn ganddo ymadael â'r ddaear. Mae fel pe yn dâl y glorian yn ei law, ac nid yw yn symud y naill ffordd na'r llall. Dywedir fod y geiriau hyn wedi eu llefaru yn gyffelybiaethol. Dywedir fod yma gyfeiriad at long mewn porthladd tramor, wedi myned allan am lwyth o drysorau. Rhyw ddiwrnod, mae y cadben yn cofio am ei gartref, am ei deulu, ac am ei wlad. Mae arno chwant codi angor; ond mae rhyw ddybenion masnachol yn galw arno aros yno ychydig yn rhagor. Mae yn teimlo cyfyngder rhwng awydd am gartref, a chyrhaedd llesiant masnachol. Gwell, er mwyn masnach, iddo aros; ond mwy hyfryd i'w deimlad ef fyddai bod yn ei wlad ei hun gyda ei deulu. Rhywbeth felly a feðdylir yma. Teimlai yr Apostol gyfyngder. Yr oedd ei lestr mewn porthladd tramor; yr oedd yn cofio am ei gartref a'i wlad. Yr oedd cofio hyn yn codi awydd arno am fyned adref; ond yr oedd ei waith heb ei orphen, dybenion ei weinidogaeth heb eu cyrhaedd, a llinell ei fywyd heb ddyfod i'r pen. Gwell i Paul ei hun fuasai myned adref, gan y buasai hyny yn rhoddi terfyn ar yr erlidigaethau; ond gwell i'r Eglwys oedd iddo aros, oblegyd yr oedd rhyw lythyrau eisiau eu hysgrifenu, ac eglwysi eisiau eu cadarnhau yn y ffydd sydd yn Nghrist Iesu.

Mae meddwl am fyd tragwyddol yn fynych yn dwyn cyfyngder. Yr adyn annuwiolaf pan feddylia am farw, a ddechreua ofni; ac fe gyfyd yr ofn yn gyfyngder. Pan byddo euogrwydd yn fflamio yn y fynwes, cyfleusderau i bechu yn darfod, teimlad o farwolaeth yn y cyfansoddiad, dôrau byd tragwyddol yn ymagor, gwelwyd llawer dyn arnystyriol yn ei fywyd yn teimlo o dan yr amgylchiadau hyny; ac yr oedd hwnw yn gyfyngder nas gallwn gael un

syniad am dano—awydd angerddol am fyw ar y naill law, ac ofn byd tragwyddol ar y llaw arall. Pwy a fedr ddychymygu truenusrwydd y cyfryw sydd yn yr amgylchiadau hyny? Ond nid felly oedd Paul. Yr oedd ef wedi colli ofn byd tragwyddol pan y collodd ef ei euogrwydd wrth gael ei gyfiawnhau. Cyfyngder o natur wahanol ydoedd. Mae llawer dyn yn caru y byd hwn oddiar ofn y byd a ddaw. Yr hyn oedd yn cyfansoddi cyfyngder Paul oedd ei awydd am gymdeithas ddigyfrwng yr Iesu ar y naill law, a gwneyd ychydig o ddaioni i achos yr Iesu ar y ddaear ar y llaw arall. Pan ystyriom fath fywyd oedd eiddo Paul, y mae yn syn genym ei fod yn teimlo awydd i aros diwrnod ar y ddaear; oblegyd am bob daioni a wnaeth erioed, ni chafodd gan ddynion ond ei erlid. Os buasai yn sefydlu eglwys, buasai yno cyn hir rhyw gau-athrawon yn camliwio ei ddybenion, ac yn ceisio dadwneyd y cwbl. Pan y pregethai yn enw Iesu o Nazareth, ac y cyhoeddai ffordd iachawdwriaeth, bwridd ef i garchar am hyny. Yr oedd ei oes ef yn llawn o wawd, a dirmyg, ac erlidigaethau; ac eto, y mae yn teimlo yn gylumedig iawn wrth y ddaear. Tybiwn fod Paul yn teimlo yn anwylach at y ddaear fel Cristion, nas gallasai deimlo pe na buasai yn Gristion. Man bychan ar y ddaear oedd haner y ffordd i Damascus, ac nis gallasai ddweyd ond ychydig iawn heb ddweyd hefyd am hwnw; fe osododd hwnw gwllwm rhyngddo â'r ddaear ag oedd yn anhawdd iawn ganddo ei ddatod. "Mae yn gyfyng."

II. "GAN FOD GENYF CHWANT I'M DATOD."—Yr enw a rydd yr Apostol ar farw yw *datod*. Gesydd hyn allan ei fod yn golygu nad yw angau yn dinystrio bodolaeth. Datod y mae—tynu yr hoelion yn rhyddion. Nid ydym i ddeall y geiriau hyn fel yn dysgu nad oedd ofn angau ynddo ei hun ar Paul. Y dull oedd Paul am farw oedd, ei farwoldeb i gael ei lyncu gan anfarwoldeb. Cael ei wisgo â'r tŷ sydd o'r nef, "fel y llyncer yr hyn sydd farwol gan fywyd." Nid oedd Paul am dynu yr hen wisg oddiam dano.

ond rhoddi y wisg anfarwol ar yr hen. Ond gan nas gallai gael yr hyn a ddymunai, boddlonai i ewyllys Duw—*datod*. Un o nodweddau plant Duw ydyw ymostwng i'w ewyllys Ef. Bu yr Arglwydd Iesu ei hun fel hyn unwaith. “Os yw bosibl, aed y cwpan hwn heibio oddiwrthyf; ond nid fel yr wyf fi yn ewyllysio, ond fel yr wyt ti.” Nid oedd Crist yn hoffi angau ynddo ei hun, ond ymostyngodd i'r drefn. Nis gellir disgwyl i neb o'i ganlynwyr *garu* angau, ac eto fe ddywed Paul fod arno chwant i'w ddatod.

1. *Nid wedi blino yn y gwasanaeth oedd ef.*—Mae llawer o nodwedd yr Apostol Paul wedi bod yn ngwasanaeth Crist erioed. Gweithiwr caled oedd ef. Yr oedd ei enaid mewn *gwaith*. Ffyddlawn iawn oedd ef cyn cael ei droi gan rās—ni wasanaethodd neb erioed ddiadol yn ffyddlonach a mwy cywir. Ni welai ddim yn ormod i'w wneyd. Felly yr oedd wedi iddo gael grās; gweithiwr oedd ef. Nid y gweithiwr mwyaf sydd yn achwyn fwyaf. Nis gwyddom ond am ychydig iawn o ddynion wedi marw yn anamserol wrth weithio gormod; ond fe ddywedir wrthym gan feddygon fod llaweroedd yn marw bob blwyddyn o herwydd peidio a gweithio. Y gweithiwr gwaelaf yn ngwasanaeth Crist sydd yn achwyn fwyaf. Methu a gweled ei hun wedi gwneyd digon y mae y diwyd. Nid oedd Paul yn cwyno ar ei waith. Croesodd fôroedd a chyfandiroedd, dyoddefodd newyn ac oerni; ond nid yw yn cwynfan. Yr oedd cymaint o eisiau gorphwys ar Paul ag oedd ar neb; ond yr oedd ei enaid wedi ymhyfrydu yn y gwasanaeth.

2. *Nid oedd yn gweled ei hun wedi gwneyd digon.*—Nid oedd Paul yn meddwl am brynu nefoedd. Gwyddai mai “trwy rās yr ydych yn gadwedig.” Ond yr oedd yn dysgu yr eglwysi fod yn rhaid gwneyd hefyd. Er iddo ef wneyd cymaint, yr oedd yn gweled eisiau gwneyd rhagor. Gwell iddo ef ei hun fuasai myned i'r nefoedd, ond yr oedd eisiau ei wasanaeth ef arnynt hwy. Yr oedd ef wedi gwneyd gormod wrth fodd yr awdurdodau yn Rhufain; ac

fel na chawsai wneyd rhagor, tafasant ef i garchar. Yr oedd ef wedi gwneyd gormod wrth fodd y diafol a'i luoedd, oblegyd yr oedd yn cynhyrfu y byd yn ei erbyn; ond yr oedd yn methu a gwneyd digon wrth ei fodd ef ei hun. Gwas anfuddiol y gwelai ef ei hun, er yr holl a wnai. Mae dynuniad y gwir Gristion yn annhraethol uwchlaw ei allu. Y mae ysbryd y gwaith yn fwy ac yn gryfach na'r cyfryngau. Yr hwn sydd yn gwneyd fwyaf sydd yn gweled fwyaf o eisiau gwneyd; ac y mae gweled yr eisiau yn cyffroi ei zel. Os nad oedd yr Apostol wedi blino, ac heb weled ei hun yn gwneyd digon, paham yr oedd arno chwant ei ddatod?

III. "BOD GYDA CHRIST."—Mae y frawddeg fêr hon yn cadarnhau rhai o brif wirioneddau yr Efengyl. Mae yma gadarnhad i'r athrawiaeth o adgyfodiad Crist o'r bedd. Cadarnha yr Apostol mai bod gyda Christ sydd yn cyfansoddi gwir ddedwyddwch y nefoedd. Pregethai yr Apostol yr athrawiaeth fawr, a'r ffaith ogoneddus, i Grist adgyfodi. Mae adgyfodiad Crist yn llanw lle pwysig yn y grefydd Gristionogol, ac yn un o erthyglau blaenaf credo y Cristion. Drwy adgyfodiad Crist y gwelir i'r ochr draw. Mae niwl tywyllwch cysgod angau mor drwchus, fel nas gall y treiddgaraf ei olygon weled dim, yn annibynol ar adgyfodiad Crist, ond marw a chladdu. Ond y mae y ffaith ogoneddus i Grist adgyfodi, wedi gwasgaru y tywyllwch, ac wedi clirio y ffordd, fel y gall y gwanaf ei olwg yn y llwythau weled dros yr Iorddonen i dir yr addewid. Dyma ei arch ef o'r hen fyd, i fynydd Ararat yn y byd newydd. Y mae yr holl grefydd Gristionogol yn pwyso ar y gwirionedd hwn. "Ac os Crist ni chyfodwyd, ofer yn wir yw ein pregeth ni, ac ofer hefyd yw eich ffydd chwithau." Pe gellid symud ymaith y golofn hon o'r deml, syrthiai yr holl adeilad ar unwaith. Pe llwyddid i wrthbrofi y gwirionedd hwn, collai y fflam fywiol anfarwol sydd yn y Cristion ei chynaliaeth. *Ond Crist a gyfodwyd.* Profwyd hyny ar wahanol adegau. Gwir na welodd y wyliadwriaeth Ef yn

dyfod o'r bedd; ond gwelsant y maen wedi ei dreiglo, a'r bedd heb neb ynddo; ac yr oedd hyny yn gystal tystiol-aeth iddo adgyfodi a dim, oblegyd Efe yn unig a gladdwyd ynddo. Cafodd ei elynion edrych digon arno cyn iddo farw, ond ni chafodd un o honynt ei weled wedi iddo adgyfodi. I'w gyfeillion y dangosodd ei hun wedi hyny. Gwyddai Paul iddo farw drwy derfynedig gynghor a rhagwybodaeth Duw, ac i ddwylaw anwir ei groeshoelio; ond gwyddai fwy na hyny—iddo adgyfodi. "Canys os ydym yn credu farw Iesu, a'i adgyfodi, felly y rhai a hunasant yn yr Iesu a ddwg Duw hefyd gydag ef."

Mae yr Apostol yn cadarnhau mwy yma—cadarnha mai presenoldeb yr Arglwydd Iesu fydd yn cyfansoddi nefoedd. Pan y mae y Cristion ar y ddaear, y mae Crist gydag ef. "Wele yr ydwyf fi gyda chwi bob amser hyd ddiwedd y byd." Yr addewid fawr yna a gadwodd feddyliau y disgyblion i fyny yn ngwyneb llawer profedigaeth lem. Byw ar yr addewid o bresenoldeb Crist y mae yr Eglwys. Crist gyda'r Cristion ar y ddaear; ond yn y nefoedd, y Cristion fydd gyda Christ. Mae yr Apostol yma yn gafaelyd yn addewid a thystiolaeth Crist ei hun. "Yr wyf yn ewyllysio lle yr wyf fi fod o honynt hwythau hefyd gyda myfi." "Os gwasanaetha neb fi, y Tad a'i anrhydedda ef." Y mae gwasanaethu Crist yn sicrhau dau beth—cael presenoldeb Crist yn y byd hwn, a bod yn ei bresenoldeb byth yn y byd a ddaw.

Pwy a fedr ddechymygu am yr anrhydedd a ddaw oddi wrth y Tad? Gallodd Ef godi bachgen o feibion y gaethglud i fod yn drydydd yn mreniniaeth gwlad estronol. Codi un arall drwy nifer o brofedigaethau, i fod yn llywydd ar holl drysorau gwlad gyfoethog. Pa beth y mae anrhydedd y Tad yn ei gynnwys? Cynnwysa fod y cyfryw yn aelod o'i deulu,—angelion i fod yn ysbrydion gwasanaethgar i'w gludo rhag taro ei droed wrth gareg; cynnwysa fod byth yn ei ffafr. Ni fydd yr Iesu yn foddllawn nes gweled ei holl deulu wedi cyrhaedd adref yn ddyogel. Dywedir fod

Wellington yn arfer bob blwyddyn fynu golwg ar ei hen filwyr fu gydag ef yn mrwydr Waterloo. Caent oll dalu ymweliad â'i balas unwaith bob blwyddyn; ond ni chaent fyw yno. Gwna yr Iesu fwy na hyny. Mae ganddo Ef balas, ac y mae wedi penderfynu mynu ei holl bobl nid i roddi tro, ond i fyw yno gydag Ef byth. Teimlai Paul chwant gweled y dydd yn gwawrio. Yr oedd arno chwant gweled y palas. Digion tebyg ei fod yn cofio ei ogoniant oddiar pan y bu yno am dro gynt. Paham yr oedd arno chwant?

IV. "CANYS LLAWER IAWN GWELL YDYW." Paham?

1. *Am y byddai wedi cyrhaedd perffeithrwydd.*—Nid oes neb o ddisgyblion Crist yn hōni perffeithrwydd yn bresenol; a phe yr hōnent, byddai hyny yn brawf o anmlherffeithrwydd. Cyrchu at y nôd y maent heddyw. Nid yw y byd hwn yn gyfaddas fel y mae i ddâl dynion perffaith. Ymwelodd un perffaith â'r byd hwn unwaith, ond Efe a gafodd ei erlid fwyaf. Pa fwyaf santaidd y byddwn, mwyaf oll o bechod a deimlwn; a pha fwyaf o bechod a deimlwn, mwyaf oll y gwæddwn fel Dafydd, "Glanha fi oddiwrth fy mhechodau." Nid oedd neb yn teimlo ei bechod yn fwy na Paul.

2. *Am y byddai mewn cyslaw'n fwynhad o'r nefoedd.*—Ychydig a all y Cristion ddâl yn bresenol o fwynhad gwirioneddol; yn nghanol elfenau cymysgedig y mae yn byw. Tardda llawer o'i fwynhad o'r gwahaniaeth sydd rhwng y cyfryw; ond yn y nefoedd, bydd yn nghanol perffeithrwydd llawenydd.

PREGETH XIV.

Y SARFF BRES A DYRCHAFU MAB Y DYN.

"Ac megys y dyrchafodd Moses y sarff yn y diffaethwch, felly y mae yn rhaid dyrchafu Mab y dyn: fel na choller pwy bynag a gredo ynddo ef, ond caffael o hono fywyd tragywyddol."—IOAN iii. 14-15.

CYDMARIAETH brydferth o eiddo Mab Duw yw y geiriau hyn, er egluro i Nicodemus wirionedd mawr amcan cnawdoliad yr Arglwydd Iesu. Mae holl gydmariaethau y Gwardwr yn dwyn olion prydfertlwch. Dewisai y gyfaddasaf i egluro y gwirionedd, ac ni byddai perygl i'r meddwl coethusaf gael ei ddolurio gan iaith, elfenau, na chymhlwysiad yr un o honynt. Byddai cyfrwng trosglwyddiad y gwirionedd yn cyfateb i fawredd ac ysbrydolrwydd y gwirionedd a eglurid, a byddai y wisg allanol yn deilwng o anrhydedd y gwirionedd a ddangosid. Un rheswm am gyfaddasder damegion a chydmariaethau i ddysgu gwirioneddau i'r meddwl yw, fod dyn yn byw cymaint i synwrau naturiol a phrofiad. Drwy y cyntaf y mae yn byw i'r presenol; ond drwy y diweddfaf, i'r gorphenol. Cyfarfyddiad dyn âg amgylchiadau allanol sydd yn y cyntaf; ond cyfyd profiad o'r hyn y mae dyn yn weithredol wedi myned drwyddo. I'r graddau y llwyddir i ddwyn gwirionedd mewn portread o flaen y cyntaf, neu y gweithir ef i'r teimlad drwy y diweddfaf, i'r graddau hyny y dangosir gwirioneddau i amgyffrediad dyn. Cyfarfod â hyn oedd amcan ymadroddion cyffelybiaethol a damegol Crist Iesu, ac fe lwyddodd, os nad i enill y meddwl i *garu* y gwirionedd, i *deimlo* y gwirionedd. Mae ysbrydolrwydd y gwirionedd yn anfantais i'w ddangos; ond er hyny, dyma ffynonell ei awdurdod. Yr oedd y canwyllbren aur yn llosgi yn y cysegr ddydd a nos; ond

yr oedd yno Lefiad yn gofalu am yr olew arno. Mae gorchymynion y Datguddiad yn llosgi ar hyd y canrifoedd i ddangos cyfeiriad dyledswydd. Mae addewidion y Beibl yn goleuo drwy gymylau duaf bywyd a marwolaeth; ond ysbrydolrwydd y gwirionedd yw y Lefiad sydd yn tywallt olew ar *lamp* pob gorchymyn ac addewid. Dyma sicrwydd parhad anfarwoldeb y gwirionedd, a'i ddylanwad tragwyddol ar feddwl mewn sefyllfa ddyfodol.

Cyfeiria yr Arglwydd Iesu yn y gydmariaeth at amgylchiad hynod yn hanes cenedl Israel, at farn a thrugaredd. Yr oeddynt wedi eu cydwau yn holl hanes y genedl. Tynerid y farn gan drugaredd; a phan gamddefnyddid y drugaredd, disgynai y farn. Porthodd Duw y bobl yma â mana o'r nefoedd; ond gan na phrofodd llawer o honynt ddim ond mana erioed, ni wyddent werth y drugaredd. Tywyllwch y nôs sydd yn dangos gwerth goleuni haul i'r teithiwr blin; tair blynedd o syched sydd yn dwyn ambell i Ahab annuwiol i roddi gwerth ar fendith feunyddiol; ac nid un mab afrallon sydd wedi gweled gwerth tŷ ei dad pan wedi myned yn dlawd mewn gwlad bell. Porthid Israel â mana; ond galwent ef "y mana gwael hwn"—bara angelion. Grwgnachent; ac am y grwgnachrwydd yn erbyn Duw a Moses ei was, anfonodd yr Arglwydd i'w canol seirff tanlyd i'w rhwygo. Yn eu cyfyngder, gwaeddasant ar yr Arglwydd, ac yntau a orchymynodd godi sarff o brês ar drostan, fel y gallai plant Israel a frathwyd weled hono a derbyn meddyginiaeth. "Megys y dyrchafodd Moses y sarff yn y diffaethwch, felly y mae yn rhaid dyrchafu Mab y dyn, fel na choller pwy bynag a gredo ynddo Ef, ond caffael o hono fywyd tragwyddol."

"*Fel na choller,*" "*ond caffael.*"—Yn y cyntaf y mae swm maddeuant yn tori yr afael rhwng pechod a chalon; ond yn y diweddaf mae swm grâs yn glanhau y tŷ. Yn y cyntaf y mae yr hen ddyn yn marw; ond yn y diweddaf mae y dyn newydd yn dechreu byw. Yn y cyntaf mae

elfenau trueni yn cael eu tynu o galon yr euog; ond yn y diweddaf mae elfenau sancteiddrwydd yn cael eu rhoddi yn eu lle. "Fel na choller"—dyn yn cael ei anghymwyso i uffern; "ond caffael"—yn cael ei addasu i'r nefoedd. Rhwng y ddau, bydd cyfryngwriaeth wedi cadw miloedd byth. Ond canlyniad fydd hyn o ddyrchafu Mab y dyn. Gallasai y rhai a frathesid ac a wellesid gael y pla neu yr haint ar ol gwella o'r rhwygiad; ond mae dyrchafu Mab y dyn yn dyogelu, "fel na choller. . . . ond caffael o hono fywyd tragwyddol."

I. MAE Y GYDMARIAETH YN DANGOS DARPARIAETH O EIDDO DUW AR GYFER BARN A PHECHOD—Y SARFF AR GYFER Y FARN, A'R IAWN AR GYFER PECHOD.—Mae gwahaniaeth dirfawr rhwng barn a phechod, er eu bod yn gysylltiedig braidd yn eu holl hanes. Cosbedigaeth yw barn, anufudd-dod yw pechod. Cyfyd y diweddaf o galon anghrediniol dyn; cyfyd y cyntaf o lywodraeth Duw. Pechod yw achos y farn, a rheda y naill yn gyfochrog â'r llall byth. Rhoddi trugaredd oedd amcan dyrchafiad y sarff brês, ond cyflwyno iawn oedd amcan dyrchafiad Crist. Cysgod o'r Iawn oedd dyrchafiad y sarff brês; trugaredd, drwy gysgod, oedd y feddygiuniaeth. Iawn mewn trugaredd oedd y dyn Crist Iesu, a thrugaredd mewn iawn yw yr iachawdwriaeth, a chyfyd y ddau o galon faddeugar, sydd yn llifeirio drosti yn garedigrwydd, yn gymwynasgarwch, ac yn faddeuant i fyd o droseddwyd.

1. *Mae y ddarpariaeth wedi ysgogi y tuallan i'r meddwl, ac yn annibynol arno.*—Mae cyfatebiaeth rhwng mawredd y meddwl a mawredd y meddylddrychau a gynyrcha efe. Nis gall dyn wneyd dim yn uwch na'r egwyddorion sydd yn ei lywodraethu—dyna fesur ein gweithredoedd. Nis gall ein iaith gynnwys *ideas* uwch a dyfnach na'r meddwl er mwyn yr hwn y rhoddwyd iaith i'w ddangos. Mewn sefyllfa o ddadblygiad y mae y meddwl, ac y mae yn ymddadblygu drwy gymorth elfenau allanol. Mae ei amgyffrediad o wirionedd yn cyfateb i'r sefyllfa o ddadblygiad y


mae wedi gyrhaedd; ac felly y mae y gwirioneddau sydd yn anamgyffredadwy i'r meddwl yn y sefyllfa bresenol o fodolaeth, yn amgyffredadwy yn y sefyllfa nesaf, yr hon fydd yn uwch ac yn ysbrydol. Yn ei elfen ei hun y mae bywyd yn cynyddu fwyaf, yn ei elfen ei hun y mae cydymdeimlad yn dyfnhau fwyaf, ac yn nghanol ysbrydolrwydd byd arall yr amgyffreda fwyaf.

Teyrnasai marwolaeth drwy y gwrsyll; nid oedd meddyginiaeth yn codi o unlle. Daeth y feddyginiaeth o'r tu allan i'r gwrsyll—*idea* ddwyfol oedd dyrchafiad sarff o brês. Fel yr oedd y farn yn dyfod oddiwrth Dduw, felly y daeth y drugaredd. Cyferfydd y ddau hyn yn fynych yn ngweithredoedd Duw; er nad ydynt yn dyfod ar hyd yr un ffordd. Daw y naill ar edyn fflamlyd cyfraith ddredig, a'r llall ar edyn angelion trugaredd—gweision etifeddion iachawdwriaeth. Ffordd y cyfamod gweithredoedd yw llwybr y naill, daw y llall ar lwybr y cyfamod grâs. Saethau ar fwâu y bygythion yw y naill, ond pren yn péreiddio y dwfr chwerwaf yw y llall. Daw y farn oddiwrth Dduw ar ddyn am bechu—i'w gosbi; daw y drugaredd o Dduw i ddyn er ei gadw. Gelwir trefn iachawdwriaeth yn gynyrch "mawr amryw ddoethineb." Mae iachawdwriaeth i'w mesur nid wrth y pechadur a'i derbynia, ond y Duw a'i rhodda. Yr awdurdod y mae pechod yn myned yn ei erbyn yw yr awdurdod y gollyngir pechadur yn rhydd ganddo. Cofier mai awdurdod ydyw. Mae gwahaniaeth rhwng awdurdod ddwyfol a dynol. Yn y brenin gwladol, cyferfydd awdurdod a pherthynas, ond y mae yr awdurdod yn uwch na'r berthynas. Tynodd un brenin un o lygaid ei fab ei hun, o herwydd iddo droseddu y gyfraith. Y berthynas sydd yn creu yr awdurdod, ond yr awdurdod sydd yn llywodraethu y berthynas. Yma y gorweddaï anhawsder Darius i ryddhau Daniel. Yr oedd ei awdurdod yn uwch na'i deimlad. Mae pechod yn myned yn erbyn awdurdod ddwyfol, ond y mae yr awdurdod yn is na'r berthynas, ac o herwydd hyny y gall Duw ollwng yr euog

yn rhydd. Mae awdurdod yr Arglwydd Iesu yn codi o'i berthynas—"Ac a roddes awdurdod iddo i wneuthur barn hefyd, o herwydd ei fod yn Fab dyn." Mae holl awdurdod Duw wedi plygu i'r berthynas. Mae trefn adferiad yn gwreiddio yn meddwl Duw ei hunan. Mae Crist wedi ei ddyrchafu yn Iawn. Mae holl golled pechod wedi ei adferyd. Dyma feddylddrych newydd i'r byd, a bydd yn newydd yn nghanol oesau y byd. Dywedir mai mewn cyfyngder mae y meddwl dynol yn dyhuno i ddyfeisio; ond dyma ddyfais sydd yn gorpholiad o holl ddoethineb Duw.

2. *Darpariaeth yn codi o benarglwyddiaethol ras, annibynol ar bob haeddiant dynol.*—Nid oes dim ag sydd yn arddangos llygredd y meddwl yn fwy na'r duedd sydd ynddo i wadu penarglwyddiaeth Duw. Cyfarfyddwn â dirgelwech yn mhob ran o lywodraeth Duw; nid yw wedi gweled yn dda i egluro y pahan a'r pa fodd o'i holl weithredoedd. Gall dyn ofyn cwestiwn y byddo efe ei hun yn anghymwys i dderbyn yr atebiad. Rhedodd y genad i hysbysu y wraig o anffawd a gyfarfyddodd ei gwr; ond y cwestiwn cyntaf a gododd yn ei meddwl oedd, a oedd ei gwr yn fyw. Gofalwyd wrth ateb am ei theimladau. Nid oedd yn gymwys i dderbyn newydd mor ofnadwy ar unwaith. Bu y fam farw yn ddiweddar pan glywodd fod ei bachgen wedi glanio o'r wlad bell—gormod gorfoledd. Beth pe byddai Duw yn rhoddi atebiad i ambell gwestiwn sydd wedi ei ofyn? Dyrchafwyd sarff o brês i wella y brathedigion. Gellid gofyn nifer o gwestiynau. Pahan mai sarff ydyw?—Nis gwyddom. Pahan mai sarff o brês ydyw?—Nis gwyddom. Pahan na fuasai hi yn cael ei chodi yn union wedi i'r seirff tanllyd ddyfod i'r gwersyll?—Nis gwyddom. Y ffaith noeth sydd genym ni. Duw fel penarglwydd wedi gwneyd y peth. Ceisiwyd gofyn llawer o gwestiynau gyda golwg ar athrawiaeth yr ymgnawdoliad, &c. Pahan y cadwodd Duw ddyn, yn fwy na'r angel colledig?—Nis gwyddom. Pahan y gadawodd Duw

i filoedd o flynyddau fyned heibio cyn yr ymgnawdoliad ? —Nis gwyddom ; ond y mae y ffaith gyda ni.—“Hwn a osododd Duw yn Iawn,” “Felly y carodd Duw y byd, fel y rhoddodd Efe ei unig-anedig Fab.” Mae holl drefn iachawdwriaeth yn dangos penarglwyddiaeth Duw. Mae pob peth yn cyd-dystio am Dduw—gwneyd y cyfan fel y mŷn y mae Ef. Mae ei ewyllys Ef mor berffaith, ei galon Ef mor dyner, fel y mae ei benarglwyddiaeth yn gogwyddo yn gydymdeimlad i ddyn. Mae iachawdwriaeth yn codi allan o haeddiant ; mae yr haeddiant yn codi allan o waith a Pherson Crist. Mae Crist yn gyfryngwr rhwng Duw a dynion, a chyfryngdod wedi tarddu yn ewyllys Duw. Mae hon yn drugaredd yn Nuw, yn haeddiant yn y Cyfryngwr, ac yn rās yn y pechadur, ac unol iaith y dyrfa gedwir fydd “Iddo Ef yr hwn a’n carodd.”



3. *Neillduolrwydd y ddarpariaeth—un sarff bres, ac un Mab y dyn wedi ei ddyrchafu*—Yr oedd amryw o seirff tanllyd yn rhwygo, ond un sarff o brês i feddyginiaethu. Yr oedd yn gyfartal i'r holl ddinystr. Mae y cyfryngau drwy y rhai y llygrir calon a bywyd yn llawer, ac felly mae y perygl yn fwy. Yr oedd prif bethau Duw yn unigol. Yr oedd gogoniant y tabernacl yn ddwyfol. Cysgodid ef o dan aden angel y cyfamod ; ond nid oedd iddo ond un cysegr sancteiddiolaf, yn yr hwn yr oedd cynddrychioliad o bresenoldeb Duw. Yn mhlith holl ddyddiau gosodedig Duw, un dydd gwyl y cymmod, ac un archeffeiriad a weinyddai yn ol gorchymyn Duw. Un sarff o brês. Mae gogwydd mewn dyn i ymddiried yn y llawer a'r mawreddog. Symud hwn oedd amcan Duw wrth *reducio* byddin Gedeon. Gallasai perchen prês y greadigaeth roddi iddynt y nifer a fynai o seirff prês ; ond un oedd eisiau. Dim ond dwy dorth a dau bysgodyn oedd ar gyfer y pum mil ; a gofynent beth oedd hyny rhwng cynifer. Dibynai y cyfan ar *bwy* oedd yn myned i dori y torthau, ac i ranu y pysgod. Cysyllter y cyfan â gallu Duw. Un sarff brês ; ond ordeiniad Duw oedd hi.

“*Dyrchafu Mab y dyn.*”—Darpariaeth o eiddo Duw yw trefn yr Efengyl ar gyfer pechod yn ei holl agweddau, llygredigaeth yn ei holl drueni, euogrwydd yn ei holl raddau. Byd o bechod. Dyma ddarpariaeth ar ei gyfer, un Aberth darparedig, darparedig gan Ddeddf-roddwr gwreiddiol y byd; ac mor fawr, fel nad oes lle i aberth arall dros bechodau. Mae haeddiant y Cyfryngwr wedi llanw yr holl ofynion dros yr ymylon. Ni bydd eisiau neb ond Crist. Mae gobaith byd o bechaduriaid yn canol-bwyntio mewn *un* Ceidwad, fel mae gogoniant holl briodoleddau Duw yn cyfarfod mewn un Cyfryngwr. Dyma yr unig drugareddfa. Dyma lle mae y dystiolaeth yn dawel o dan dywalltiad y gwaed. Bechadur, cymer afael yn yr unig ffordd i ddiangfa. Un Cyfryngwr—y dyn Crist Iesu.

II. Y GYDMARIAETH FEL Y MAE YN DANGOS Y FEDDYGINIAETH YN DYFOD I FEDDIANT Y GWETHDDRYCHAU DRWY GYD-SYNIAD AG AMODAU GOSODEDIG GAN YR ARGLWYDD.

Dyrchafu Mab y dyn.—Y mae yn anhawdd penderfynu i foddlonrwydd ystyr neillduol y dyrchafu hwn. Gellir *dyrchafu* Crist yn ei fywyd fel *cynllun byw o sancteiddrwydd* o flaen dynoliaeth. Nid oedd rhinweddau pawb eraill ond rhosynau ar ddraen, wrth gael y rhosyn yn gorfod dyoddef pigiad y ddraenen. Nid oeddent ond tywyniad pelydrau gloewon o oleuni rhwng cymylau duon yn bygwth storom yn fuan; ond yr oedd cymeriad Crist yn berffeithrwydd hollol, yn sancteiddrwydd difrychau. Bydd yn anhosiibl dyrchafu bywyd a chymeriad Crist yn rhy uchel. Fel y mae ei ddynoliaeth ar ddeheulaw Duw yn gynllun o gorff gogoneddig y sant perffeithedig, felly y mae ei fywyd yn gynllun o fywyd pur. Ond golyga y gair *dyrchafu* yma fwy na dangos y *bywyd* gogoneddus hwn o flaen y byd. Mae cymeriad Crist wedi uno â'u gilydd elfenau yr edrychid arnynt yn annghymmodadwy. Mae sancteiddrwydd y gyfraith ynddo, ac eto grâs ar ei wefusau. Mae cyfraith ei Dad o fewn ei galon, ond gallodd amddiffyn

a thaenu ei aden dros y bechadures. Mae mor ofnadwy, nes y syrthia milwyr yn wysg eu cefnau; ac mor dyner, nes yr enilla ymddiriedaeth y pechadur mwyaf. Nis gellir dweyd gormod am Hwn. Ond y mae yma ddyrchafu mwy. Buasai gagendor rhyngom â'r nefoedd o ran bywyd Crist. Er fod y cynllun o flaen y byd, beth yw nerth y llygredd sydd yn y byd yn awr? Mae y dylanwadau sydd yn codi o addysg ac esiamplau yn annigonol i'r byd. Rhaid ei ddyrchafu Ef megys y dyrchafodd Moses y sarff. Dichon fod y Gwarddwr yn cyfeirio yn fwyaf uniongyrchol at ei ddyrchafiad i'r groes yn Iawn. Defnyddia yr un gair am hyn ar ol y tro hwn.—“A minau os dyrchefir fi oddiar y ddaear, a dynaf bawb ataf fy hun.” Fel mai dyrchafiad y sarff oedd yn dangos bywyd, felly marwolaeth y Gwarddwr yw sail cadwedigaeth y pechadur a gredo. Mae pob dangosiad o Grist y tu yma i'w ddangos yn Aberth yn rhy fach i gyfarfod â'r byd. Dyma angen mwyaf y byd, a rhaid cael hwn, onide ni bydd ond colledigaeth dragywyddol yn aros dynoliaeth.

Rhaid ei ddyrchafu.—Dylid cysylltu y gair “rhaid” a bwriadau Duw. Rhaid yn codi o arfaeth Duw. Nid rhaid o herwydd amgylchiadau allanol y Gwarddwr, ond rhaid yn codi o dragywyddoldeb, ogyfamod y prynedigaeth, rhaid yn cael ei esboniad yn nghadwedigaeth tyrfa o droseddwyr—“rhaid ei ddyrchafu.” Ai nid oes ymddarostyngiad yn yr Anfeidrol i ddyfod o dan y gair *rhaid*? Defnyddia Crist y gair am amgylchiadau *neillduol*, er mwyn cadw y neillduolrwydd yn y golwg. Pan y buasai Iesu Grist yn cyflawni gweithredoedd y buasai y torfeydd yn synu ato, ni ddefnyddiai y gair “rhaid.” Pan y buasai yn codi un marw i fywyd, ni ddefnyddiai y gair “rhaid.” Synai y bobl at ei allu, ond esbonid y weithred oddiar gydymdeimlad, yr hyn a wna i eraill pe gallasant; ond am yr amgylchiadau yr aeth Crist iddynt, amgylchiadau na welai y byd un rheswm am danynt, dywedai “rhaid.” “Rhaid i Fab y dyn fyned i Jerusalem, a dyoddef llawer

gan yr henuriaid"—*rhaid* iddo ddyoddef. A ddyoddefa yr Hwn a grinodd y ffigysbren â'i air? *Rhaid* iddo ddyoddef. A ddyoddefa yr Hwn a ddistawa y storom, ac a lonydda y môr? *Rhaid*. Paham yr aeth ddyddiau yn nghynt i'r wyl ddiweddf nag i'r gwyliau blaenorol? Y *rhaid* yma oedd yn gweithio ynddo. Ni welai y bobl un rheswm am y fath beth, ond "rhaid." "Felly y mae yn rhaid dyrchafu Mab y dyn, fel na choller." Rhaid yn codi o gyfamod tragwyddol, yn cael ei nerth o dragwyddoldeb. Rhaid dyrchafu Mab y dyn. Dyma'r Anfeidrol yn ymostwng, yn plygu i amgylchiadau, a dylid gofyn i ba beth? "Fel na choller pwy bynag a gredo ynddo Ef." Ond ni therfynai y gair "rhaid" yn y fan yna. Yr oedd yna "rhaid" arall yn canlyn—rhaid yn codi o'r un cysylltiad, ond o natur wahanol. Wrth sôn aim adgyfodiad y Gwaredwr, dywedir "nad oedd bosibl ei atal ef ganddo." O dan ddylanwad yr un "rhaid" yr adgyfododd Crist ag y bu Efe farw; ac wedi ei adgyfodiad, yr oedd yna "rhaid" arall—"rhaid i'r nef ei dderbyn hyd amséroedd adferiad pob peth." Rhaid iddo ddyoddef y pethau hyn, a myned i mewn i'w ogoniant. Yr un "rhaid" eto. Ni adawodd y gair "rhaid" yr Arglwydd Iesu er pan y gwnaethpwyd Ef o dan y ddeddf, hyd nes iddo ddyoddef ei mellidith hi; ac ni adawa Crist y gair "rhaid" hyd nes y byddo amcanion cyfryngwriaeth wedi eu cyrhaedd. Yn swm y gair "rhaid" y gadawodd yr Iesu y ddaear, ac fe ddeil yr Iesu ei afael ynddo hyd nes byddo y dorf gadwedigol yn ddyogel. Dyma, bellach, reidrwydd y weinidogaeth efengylaidd. Ei ddyrchafu yn Aberth digonol, yn iawn anfeidrol ar gyfer cyflwr damniol a cholledig y byd. Dyma brif wirionedd gweinidogaeth yr Efengyl drwy yr oesau, ac os collir golwg ar hwn, ni bydd efengyl yn y weinidogaeth. Bu athronwyr yr oesau blaenorol yn gwawdio y gwirionedd hwn. Mae haneswyr wedi ceisio anwybyddu y gwirionedd hwn. Mae ffurf-lywodraethau wedi ceisio cael gwared o'r "rhaid" yma, ond y mae yn sefyll—*rhaid*

dyrchafu. Pe datodid cloion rhydlyd hen garcharau, i dafu y drysau yn agored eto, i dderbyn i fewn addolwyr Duw, rhaid *dyrchafu*. Pe adferyd yr hen offerynau i boenydio saint Duw, *rhaid dyrchafu*. Pe cyneuid coelcerthi ar fryniau y ddaear eto i losgi y Beibl, rhaid *dyrchafu*; a phe llosgid cenhadau Arglwydd y lluoedd wrth y miloedd eto, rhaid *dyrchafu*. Codai Duw genad am bob merthyr, allor gweddi am bob stanc—rhaid *dyrchafu Mab y dyn*.

Mae y gydmariaeth yn dangos perthynas â chyflwr y byd; ond y mae yma beth yn dyfod i fewn rhwng y ddau —“Credû ynddo Ef.” Ordeiniwyd y sarff brês i fod yn gyfrwng meddyginiaeth i bob un a fuasai yn *edrych arni*. Yr oedd chwech o ddinasoedd noddfa yn perthyn i Israel, ond gallasai nad oeddent yr un mor fanteisiol i bawb. Dichon y byddai y llofrudd yn byw y tuallan i'r llwyth; ac ar ol rhedeg am bellder dirfawr, y delid ef yn ymyl y ddinas noddfa. Yr oedd Jerusalem yn ganolbwynt crefydd y genedl; ond bu rhaid i lawer Hannah beidio a myned i'r wyl, eithr aros gartref i ddiddefnu Samuel. Ond yr oedd trefniad y sarff brês yn wahanol. Yr oedd hi yn y gwerysll ar drostan; ac er y gallai rhai llwythau fod yn mhellach oddiwrthi nag eraill, eto gwelent hi oll yr un mor fuan; ac yn y fan hwy a iacheid. Un o'r golygfeydd mwyaf swynol fuasai gweled tad oedranus yn ymdrechu dâl pen ei fab i fyni y gael golwg ar y sarff brês. Ymddengys fod Duw wrth ordeinio yr amod, yn cadw golwg ar ei rhoi y peth agosaf i'r dyn. Ni fuasai ei chodi o un gwerth oni bai ei bod ar gyfer *pawb*. Edrych. Yn gyferbyniol i hyn y daw *credu* yn mherthynas â *dyrchafu Mab y dyn*. Yr hyn oedd *edrych* i Israel yw *credu* i bechadur yn nhrefn yr iachawdwriaeth.

“*Credû ynddo Ef*.”—Defnyddir y gair “*credu*” yma i olygu gweithred uniongyrchol o eiddo y meddwl. Rhesymu y mae dynion yn nghylch pethau y dylent eu *credu*, a chredu llawer y dylent eu rhesymu. Gellir rhesymu llawer o bethau, heb gyrhaedd un amcan. A welsoch chwi

y darlun hwnw—“*Conquered, but not subdued.*” Gellir gorchfygu heb enill. Yr oedd y bachgen yn y darlun wedi ei orchfygu gan ei fam, ond yr oedd digofaint yn ei lygaid, cabledd yn ei enau, a dial yn ei galon—heb ei enill. Gellid rhesymu â gwrandawyr Efengyl am y ddyledswydd o gredu nes nas gallont symud, ond ânt hwy i'r farn yn golledig o ganol rhesymau. Gwelwyd goleuni yn y nos yn yr haf. Er ei fod yn oleuni, nid oedd yn lladd. Gall rhesymau oleuo, ond y mae eisiau lladd y pechadur.

Credu, nid amgyffred.—Mae amgyffred yn anmhosibl, ond y mae credu yn yr ymyl. Gallasai llawer un ofyn yn Israel paham yr ordeiniodd Duw sarff o brês, a phaham sarff o brês; ond buasai gofyn cwestiynau felly yn costio eu bywydau iddynt. Dadleua rhai am bethau y dylent eu gadael yn llonydd. Disgynai angel ar amserau i lyn Bethesda, a chynhyrfai y dyfroedd; ond ni ofalai y cleifion pa angel ydoedd. Beth gwell fuasent o ddadlau am ei enw?—Neidio i'r dwfr oedd eu gwaith hwy. Mae gwirioneddau penaf yr Efengyl yn wirioneddau i'w credu.

Credu sydd yn cysylltu yr enaid wrth Grist. *Credu*—dyma y gair sydd yn pontio yr adwy rhwng gwlad y cibau a thý ei dad i'r afradlon. *Credu*—dyma sydd yn symud Noah o ddaear gondemnedig i ddiluw, i fewn i arch nofiai dônau y farn. *Credu*—dyma sydd yn dwyn Lot o ganol elfenau tanllyd Sodom i Soar. *Credu*—dyma sydd yn dwyn yr annuwiol at Fab Duw. A yw y garddwr yn deall wrth drafferthu gyda choed yr ardd pa fodd y mae y coed yn ffrwytho? A yw y morwr yn deall cyfansoddiad y *lighthouse*? Yr unig beth a wýr yw ei fod yn dangos y graig beryglus. A yw y claf yn deall natur y feddygiaeth?

Credu, nid amgyffred. Mae athrawiaethau y Beibl yn crogi drostynt yn ffrwythau llawnion ac addfed. Ein cymhell ni i'r wledd y mae yr adnod. Mae bygythion y Beibl yn cyhoeddi yn uchel; gofyn genym ochel y creigiau maent hwy. *Credu.* Clywodd miloedd fod aur wedi ei ddarganfod yn y gwledydd pell; ond yr ymfudwr fentrodd

ar y dystiolaeth a fu yn well o hono. Mae y sarff brês wedi ei chodi. Pwŷ a wellheir?—Y rhai a edrychant.

“*Rhaid dyrchafu Mab y dyn.*”—Dyma brif ddyfais llywodraeth Duw; dyma brif ryfeddod y bydysawd. Yn hon y mae holl gyflawnder y golud anchwiladwy, holl faddeuant y fynwes ddwyfol; ond rhaid credu mewn trefn i feddianu y cyfan.

III. Y GYDMARIAETH FEL Y MAE YN DANGOS SICŴYDD LLWYDDIANT Y MODDION A ORDEINIWYD GAN DDUW I GYRHAEDD YR AMCAN YN Y DIWEDD.—“*Fel na choller,*” “*ond caffael o hono fywyd tragwyddol.*”—Mae holl amcanion Duw yn deilwng o'r moddion a ddefnyddia Efe i'w cyrhaedd, ac y mae pob moddion a ddefnyddia Efe i gyrhaedd amcanion, y cyfaddasaf at y bwriad. Ni ddefnyddiodd Duw erioed foddion mawr i gyrhaedd amcan bach, ond defnyddiodd foddion distadl i gyrhaedd amcanion gogoneddus. Yr amcan oedd tynu ymddiriedaeth i Dduw o'r moddion. Ymddengys y moddion weithiau yn annghydmarus â'r amcan; ond dylid peidio barnu yn rhy fuan, amcan mwyaf Duw yw “fel na choller.” Sir James Thornhill oedd y boneddwr a ymgymerodd â phaentio oddifewn i ryw ranau o Eglwys St. Paul, Llundain. Un diwrnod yr oedd wedi gorphen rhan neillduol, a syllai arno; ac wrth syllu, cerddai yn ol er mwyn cael gwahanol olygfeydd. Dygwyddai fod cyfaill gerllaw yn sylwi ar yr *artist*. Neidiodd yn mlaen, cydiodd mewn *brush*, a thynodd ef dros y *painting*. Ar hyny, rhuthrodd Sir James yn mlaen i geisio achub y gweddill, a gofynodd i'r dyn i ba beth y gwnaeth y peth hwn. “Yr wyf wedi spwylio y *painting* i gadw y *painter,*” meddai yntau; ac ar hyny, diolchodd Sir James pan welodd y buasai wedi cwmpo dros y *scaffold* oni bai y weithred. Tybed nad oes llawer gweithred felly gan Dduw, “fel na choller?” Tynodd Duw Abraham allan o wlad Caldea, o ganol dedwyddwch ei berthynasau.—Spwylio y *painting* i gadw y *painter*. Cadwyd y sarff brês am flynyddoedd, ond yn nyddiau Hezekia aeth y bobl

i addoli y sarff brés yn lle Duw. Torwyd hi yn ddarnau—spwylio y *painting*, ond yn cadw y *painter*. I ba beth yr aeth Duw ág ambell i blentyn tlws, y rhwygwyd ambell i galon, y bylchwyd ambell aelwyd? Spwylio y *painting* i gadw y *painter*. Ambell i bechadur a gymerai olwg dyner arno ei hun, a ymfrostiai yn ei burdeb; ond pan y tywynodd goleuni gwybodaeth Duw yn wyneb Iesu Grist i'r galon, dinystrwyd yr hunanoldeb. Yr oedd ef yn ol y ddeddf yn ddiargyhoedd, yn ol y sect fanylaf yn Phariseaid, o lwyth Benjamin. Mae y darlun yn brydferth; ond ar haner y ffordd i Damascus, daew ysbryd Duw yn tynu y *brush* dros y darlun.—“Arglwydd, beth a fynu di i mi ei wneuthur? Yr hwn oeddwn o'r blaen yn gablwr, yn erlidiwr, ac yn drahaus, eithr mi a gefais drugaredd.”—Spwylio y *painting* i gadw y *painter*. “Fel na choller.”

“*Fel na choller,*” “*ond caffael o hono fywyd tragywyddol.*”—A oes gan yr Efengyl rywrai i ddangos ei bod hi yn alluog i gyrhaedd ei hamcan? Gosodwn ein clust wrth borth Paradwys Duw i glywed cân y dyrfa lân sydd heddyw yn eu dillad gwynion, llawryf buddugoliaeth yn eu dwylaw, cân newydd yn eu geneuau. “Iddo Ef.” Mae y cyfnewidiad mawr yr hōna yr Efengyl a wna hi ar y ddaear, wedi peri i amryw amheu ei gallu. Dywedwyd gan lawer na lwyddesid byth i osod y *telegraph* rhwng y wlad hon ac America, ond y mae yn ffaith. Y mae gan yr Efengyl filoedd o dystion, “*fel na choller.*”

Mae yma ddwy wedd i'r iachawdwriaeth—peidio a cholli, a rhoi bywyd tragywyddol, ac mae cadwedigaeth yr Efengyl yn golygu y ddau. Iachawdwriaeth ar ei haner fuasai heb hyny. Mae Mab y dyn wedi ei ddyrchafu er mwyn cwblhau y gwaith, “fel na choller.”—A lwydda Efe? Pwy a welodd fethiant erioed yn nghynlluniau Duw? Crogodd blanedau y nefoedd wrth linyrau deddfau, ac nid oes un wedi tori ymaith erioed. Ordeiniodd Arch i Noah; hi ddaliodd yn y storom. Tybed na lwydda angau y groes? A oes un pechadur wedi methu a chael trugaredd? A oes

enghraifft o un wedi myned yn ormod o bechadur? Mae y môr yn cario y *Great Eastern* fel bâd pysgota; mae yr aderyn yn cario ei adenydd heb deimlo eu pwysau. Mae moddion ordeiniedig Duw yn sicr o ddyfod i ben yn ei effeithian. Mae ymasierwydd, “fel na choller.” Mae ordeiniadau y nefoedd yn gadarnach na'r mynyddoedd oesol.

Mae yr adnod ddiweddaf yn esboniad ar y gyntaf. Beth a allasai fod yn ddigon mawr i gyfrif am yr ymostyngiad anfeidrol o fod yn ffurf Duw i ddyfod yn agwedd gwas? —“*Fel na choller.*” Beth sydd yn cyfrif am y dyoddefaint ingawl yn oes y Gwardedwr?—“*Fel na choller.*” Beth sydd mewn golwg yn y farwolaeth ddirmygiedig ar y groes?—“*Fel na choller.*” Treiglwyd y maen ar foreu y trydydd dydd, agorwyd pyrth cysgod angau, a daeth Mab y dyn yn fuddugoliaethus o Edom o Bosrah, i ba beth?—“*Fel na choller.*” Esgynodd i ddeheulaw y Tad i fyw bob amser i eiriol drostynt hwy, “fel na choller.” Mae udgorn arian yr Efengyl yn gwahodd yr holl genhedloedd, “fel na choller.” Caffael bywyd tragwyddol. Mae yr adnod yn dechreu yn nghanol cwynfanau y brathedigion, ond y mae hi yn diweddu yn nghanol caniadau y gwelledigion. Mae yr adnod yn dechreu gyda *sarff*, ond y mae hi yn diweddu gydag *Oen*. Mae hi yn dechreu gyda brathiadau y seirff tanllyd, ond y mae hi yn diweddu gyda'r balm sydd yn Gilead. Mae hi yn dechreu yn nghanol diffaethwch, a'i brofedigaethau, ond yn diweddu yn nghanol Canaan a'i gogoniant. Dechreua gyda dyrchafu, ond diwedda gyda bywyd tragwyddol. Pa fodd y ceir ef? *Caffael. Credu* i gaffael. Nid i haeddu, ond i gaffael.

“*Pwy bynag.*”—Mae pob gwahaniaeth wedi ei ddileu. Fe fydd Mair Magdalen a Lydia yn cydganu am rinweddau y gwaed. Bydd Pedr a'r canwriad yn cyd-fwynhau bywyd tragwyddol. *Pwy bynag.* Mae terfynau trugaredd wedi symud. Mae y groes yn cael ei dâl i fyny, a iachawdwr-iaeth i derfynau y ddaear ynddo Ef. Mae telerau grâs yn dyfod i bawb—*caffael.*

PREGETH XV.

ATEBIAD CRIST I'R GOFYNIAD MAWR.

“Yr Iesu a ddywedodd wrtho, A ydwyf gyhyd o amser gyd â chwi, ac nid adnabuost fi, Phillip? Y neb a'm gwelodd i, a welodd y Tad; a pha fodd yr wyt ti yn dywedyd, Dangos i ni y Tad?—IOAN xiv. 9.

LLEFARWYD y geiriau hyn gan yr Arglwydd Iesu wrth y bwrdd, y noson y sefydlwyd y swper sanctaidd. Er fod holl eiriau Crist yn werthfawr, eto yr oedd amgylchiadau neillduol yn ei fywyd pan y caffai y geiriau a lefarai ddyfnach ystyr a dylanwad, a rhai felly yw y geiriau hyn. Yr ydym o dan ddyled ddirfawr i ambell un am ofyn cwestiynau i Fab Duw. Ychydig iawn o sôn sydd genym am Phillip, ond pe na buasai wedi gwneyd dim ond gofyn y cwestiwn sydd wedi achlysuero y geiriau prydferth a gorlwythog o feddylddrychau sydd o gwmpas y testyn, buasai yn werth ei alw i'r gyfeillach y noson hono. Dywedai Crist wrthynt ei fod yn myned oddiwrthynt. Gofynai Thomas i ba le. Dywedai Crist ei fod yn myned at ei Dad, a gofynodd Phillip am gael gweled y Tad. Synai Crist at eu hanwybodaeth, ac yma y mae yn dyferu rhai o'r geiriau mwyaf prydferth, y datguddiadau mwyaf eglur, a'r syniadau mwyaf nefolaidd—“*Y neb a'm gwelodd i, a welodd y Tad.*”

Yr oedd yn rhaid meddu syniadau clir am Grist, er cyrhaedd syniadau clir am Dduw, o herwydd y dwyfol wedi ymddangos oedd Efe. Dyma oedd yn nodweddu y disgyblion yn barhaus; yr oeddent yn methu a sylweddoli y berthynas yr oedd Crist ynddi, oddieithr yn ngwyneb ei wyrthiau neillduol. Amcanai y Gwaredwr ddyrchafu eu syniadau mor uchel, nes gallu synied am y dwyfol yn mywyd, cymeriad, a gweithredoedd Crist ar y ddaear.

I. Y DYSTIOLAETH FEL Y MAE YN CYFARFOD A DYMUNIAD Y MEDDWL DYNOL I DDYFOD O HYD I'R ANWELEDIG.—Nodwedd'r pob *system* sydd yn dysgu gau-grefydd gan y ffaith eu bod yn cyfranogi mwy o'r gweledig nag o'r anweledig, tra y nodwedd'r gwir grefydd gan y ffaith ei bod yn cyfranogi mwy o'r anweledig nag o'r gweledig. Mae y cyntaf yn effeithio ar y meddwl drwy y corff, a'r diweddaf ar y corff drwy y meddwl. Ni all y cyntaf ddylanwadu dim ar feddwl oddieithr fod ganddi rywbeth i'r corff i'w weled, ei glywed, neu ei deimlo—darpariadau i gorff ydynt, a thrwy hynny i effeithio ar y meddwl. Ni all y diweddaf effeithio dim ar y corff, oddieithr fod ganddi allu i ddylanwadu ar y meddwl, i'w deimlo, i'w ddymuno, i'w garu, ac i'w feddianu. Yn y cyntaf, y corff yn flaenaf, ac yna y meddwl; yn y diweddaf y meddwl yn flaenaf, ac yna y corff. Dylanwad yw y cyntaf yn gweithio drwy y cyfrwng ar y prif weithredydd, sef y meddwl; dylanwad yw y diweddaf yn gweithio ar y cyfrwng, sef y corff, drwy hanfod, bywyd, ac achos pob gweithred, sef y meddwl. Pa un o'r ddwy yw y gyfaddasaf i ddyn sydd yn dâl perthynas agosach âg egwyddorion nac âg amgylchiadau, â phethau anweledig nac â phethau gweledig? Gan fod prif wrth-ddrychau gau-grefyddau yn weledig, rhaid i'w dylanwad effeithio yn gyntaf ar y gweledig; ond gan fod prif wrth-ddrychau crefydd ysbrydol yn anweledig, rhaid i'w dylanwad hi effeithio yn gyntaf ar yr anweledig.

Cyfoda y cwestiwn yn naturiol, a yw y dylanwadau ar y gweledig yn flaenaf ac yn benaf yn diwallu y meddwl? Ymddengys fod yn mhob ffurf o gau-grefydd syniad am rywbeth anweledig. Gelwir ef wrth wahanol enwau; eto, y syniad hwn sydd yn cadw y defodau a'r cyflawniadau yn nghyd. Pan ymwelodd Paul âg Athen, yr oedd eu duwiau yn dra lluosog; ac os mai lluosogrwydd o dduwiau oedd yn eisiau, ni wrandewisid ar Paul yn areithio; ond mae y ffaith iddynt roddi gwrandawriad iddo, yn awgrymu nad oedd yr holl dduwiau oedd ganddynt wedi diwallu eu

meddyliau; ac yr oedd ganddynt hwy eu hunain syniad am yr anweledig cyn i Paul ddyfod atynt, oblegyd yr oedd yno "*allor i'r Duw nid adwaenir.*" Mae pob gau-dduw yn gynyrch dychymyg llygredig, yn gweithredu i geisio boddloni y meddwl yn ei syched am Dduw; ac mae y dychymyg yn rhoddi y ffurf neillduol i'r syniad yn ei wedd neillduol sydd iddo yn y meddwl. Edrychir ar eulun-addoliaeth fel ysbeiliad ar eiddo Duw, ac felly y mae, ond erys yn brawf gweledig fod rhyw berthynas rhwng y meddwl a rhyw wrthddrych anweledig, ac ymgais i roddi ffurf i'r syniad am yr anweledig hwnw yw eulunod y ddaear heddyw. Dichon y dylem edrych gyda mwy o dynerwch nag o wawd ar yr eilun-addolwr sydd yn ymgrymu i'r hyn a wnaeth ei ddwyllaw ef ei hun. Mae ardderchawgrwydd y natur ddynol megys yn argraffedig ar dalcen pob eulun, ar gyrn pob allor, ac ar golofnau pob teml godwyd i eulunod. Gwir fod cyrff y rhai a foddodd yn yr afon Ganges, ac a losgwyd ar freichiau tanllyd y *juggernaut*, yn tystiolaethu i greulonderau eulun-addoliaeth; ond y mae llawer un wedi marw ar y crogbren o herwydd gadael i'w gariad fyned o dan lywodraeth ei nwyd. Gogoniant dyn yn mharadwys cyn pechu, ac ardderchawgrwydd sant wedi ei brynu drwy farwolaeth, a'i sancteiddio â'r gwaed, oedd yn rhedeg o dan yr holl greulonderau. Meddwl yn dyheu am gael gafael yn yr anweledig, ac i ddyfod i undeb âg ef, heb weled dim yn ormod i'w wneyd oedd yn y creulonderau, ond iddo golli y ffordd drwy gynyg y creulawn yn lle y tyner i Dduw.

Nis gellir condemnio mewn geiriau rhy gryfion ymddygiadau cenedl Israel o lan y Môr Coch hyd odreu mynydd Sinai. Ond dylem gymeryd i fewn y cyfnewidiadau dirfawr yr oeddent newydd fyned drwyddynt. Yr oedd arwyddion gweledig gyda hwy o'r presenoldeb dwyfol; ond wrth odreu Sinai, y maent yn colli Moses. Iddynt hwy yr oedd Moses yn cynddrychioli Duw, drwyddo ef y cyflawnai Duw y gwyrthiau, ac yr oedd y gwyrthiau wedi

colli Moses, y gweledig, yn methu cadw eu meddyliau wrth yr anweledig. Yr oedd gwneuthuriad y llo aur yn *insult* i Dduw oedd wedi eu harwain â chwmwl ac â thân, wedi parthu y môr yn ffordd iddynt, ac wedi eu porthi drwy wyrthiau neillduol. Anniolchgarwch a phechod cywilyddus oedd addoli llo aur wedi hyny. Ond y mae yna hefyd rywbeth *noble* o gylch y peth. Mae y parodrwydd a ddangoswyd i wneyd yr eulun, at y fath draul, yn tystiolaethu, er wedi camsynied y gwrthddrych, a hyny yn ngwyneb amgylchiadau oedd yn gwneyd gwrthgiliad oddiwrth Dduw yn bechod ofnadwy, fod rhywbeth yn y meddwl yn dyheu am gael gafael yn yr anweledig. Ymddengys i ni fod Duw yn edrych ar bob ffurf o addoliad gyda mwy o dnerwch nag ar un pechod arall, er ei fod yn myned yn fwy uniongyrchol yn erbyn ei hawliau a'i orsedd, o herwydd y mae yn gweled o dan yr addoliad yna rywbeth a blanodd Efe ei hun. Drwy y gweledig y mae dyn yn gallu myned at yr anweledig. Rhaid cael corff am feddwl yn ei sefyllfa bresenol, ond ymddengys fod corff yn anfantais i feddwl weithiau hyd nes y delo yn ddigon ysbrydol i edrych ar y greadigaeth o'i amgylch fel corffoliad gweledig o allu a daioni yr Anweledig. Dywedir mai yr offeryn mwyaf ei ddylanwad ar galon dyn yw y delyn. Ysgogodd yn meddwl rhywun, ond y mae hi yn gorffoliad gweledig o'r meddwl hwnw bellach. Felly creadigaeth; *idea* anweledig yn meddwl y Duw anweledig oedd hon. Gall corffoliad yr *idea* yna foddioni clust dyn, ond y mae yna rhyw ddyheu am gael gafael ar yr Anweledig ei hun. Y duedd yma i geisio cael gafael ar yr Anweledig barodd i Phillip ofyn y cwestiwn, i rododi y cais at Fab Duw, "*dangos i ni y Tad, a digon yw i ni.*" Mae y meddwl yn dyheu am yr anweledig o herwydd—

1. *Mai yn yr anweledig y mae ffynonell uchaf ein dedwyddwch presenol a dyfodol ni.*—Pan orlifai yr afon Nile dros ei cheulanau, byddai gobaith am gynhauaf da yn yr Aipht y flwyddyn hono; ond bu cenhedlaethau yr

Aipht byw, a phasiodd canrifoedd, heb wybod yn mha le yr oedd *tarddiad* yr afon. Yr oedd yn rywle anadnabyddus iddynt hwy. Mae prif ffynonell mwynhad meddwl dyn yn yr anweledig. Yr ydym ni yn gweled y nodwyddau yn symud ar ddeial y *clock*, ond y mae yr hyn sydd yn cyfrif am eu symudiadau o'r golwg o dan y deial. Mae y mwynhad sydd yn codi o amgylchiadau gweledig yn fyr ei barhad, fel bywyd y pren fyddo ei wreiddyn ar wyneb y ddaear; ond y mae gwir fwynhad a'i achos o'r golwg yn y byd anweledig. Bu pentrefi bychain gwledig yn Nghymru yn dyoddef yn fawr ar adegau o herwydd fod y ffynonau bychain oedd yno yn sychu yn y gwres mawr, ond yr oedd yno ambell i ffynon nad oedd sychu crwstyn y ddaear yn effeithio dim arni—yr oedd ei tharddiant hi yn yr anweledig. Dacw frenin yn ei wledd, yn nghanol ei annuwioldeb, yn cael golwg ar ddarn llaw yn ysgrifenu ar galchiad y pared. Y mae ffynon ei fwynhad yn sychu; ond dacw Daniel yn nghanol deddf y brenin, a llid ei elynion, yn mwynhau drwy y cwbl; yr oedd ffynon ei fwynhad yn yr anweledig. Ar fynydd y gweddnewidiad, disgleiriodd wyneb y Gwaredwr fel yr haul, aeth ei ddillad can wyned a'r goleuni. Nid oedd y gweithredydd yn y golwg. "Dangos i ni y Tad, a digon yw i ni." Teimlai Phillip fod yr oll a welodd ac a adnabyddodd yn rhy fach. Ni chafodd yr annuwiolion *ddigon* o fwynhad erioed. Cafodd Pharaoh gerbyd, ond fe gollodd ei olwynion yn y môr; fe gafodd Ahab wisg Jehosaphat, ond bu farw ynddi er hyny. Rhaid cael gafael ar fwynhad fyddo yn tarddu o rywle na fyddo o dan ddylanwad amgylchiadau. "*Y neb a'm gwelodd i, a welodd y Tad.*"

2. *Mae y meddwl yn dyheu am yr anweledig, o herwydd dyma ganolbwynt gweithrediadau y meddwl.*—Mae yn rhaid i feddwl gael rhywbeth fyddo yn anamgyffredadwy. Teimla y meddwl fwynhad neillduol wrth fyfyrion ar wirioneddau y rhai y daw mewn amser i'w deall; ond pe gallai gredu y deuai i ddeall pob peth, byddai un elfen

bwysig o'i fwynhad wedi ei thynu ymaith. Gwirioneddau am Dduw yw y gwirioneddau uchaf a gogoneddusaf, a gorwedda y rhai hyn o'r golwg, o dan bob gwirionedd arall. Ffeithiau sydd yn tynu fwyaf o sylw yn awr. Mae y *paham a'r pa fodd* yn ddyeithr i ni. Yr ydym yn myfyrio gwirioneddau mewn ffeithiau yn bresenol. Yr ydym yn dysgu gwirioneddau mewn ffeithiau; gwirioneddau dwyfol mewn gweithredoedd dwyfol. At hyn y cyfeiriai yr Arglwydd Iesu. Dywedai Crist wrth Phillip am fyfyrion arno ef, o herwydd yr oedd ei fywyd a'i weithredoedd ef yn esboniad ar y Tad. Yr ydym ni yn myfyrio cariad tragywyddol yn ffeithiau ac amgylchiadau bywyd Crist. Yr ydym yn gweled yr afal yn syrthio oddiar y pren i'r ddaear, ac yn y ffaith yna yr ydym yn myfyrio ar weithrediad deddf at-dyniad. Y mae y ffaith yn agosach atom na'r ddeddf, ond nis gallwn feddwl am y ddeddf ei hun heb ei chysylltu â Duw. Gwirioneddau mewn cymeriad, neu ffeithiau, yw yr uchder mwyaf y gallwn ni godi iddo heddyw, ond daw y meddwl yn alluog i fyfyrion ar y gwirioneddau ynddynt eu hunain. Mae y meddwl dwyfol yn cael ei ddarllen yn y ffaith heddyw—"Y neb a'm gwelodd i, a welodd y Tad"—myfi yw yr agosaf i chwi. Mae fy mywyd i yn gorffoliad gweledig o feddyliau tragywyddol fy Nhad. Mae fy angau i yn esboniad ar gariad tragywyddol fy Nhad; astudiwch chwi y dwyfol yn y dynol, y mae ef yn nes i chwi. Ond fe ddaw y meddwl i ddarllen y ffaith yn ngoleuni yr *idea*. Ni orphwysa y meddwl hyd nes y daw at hanfod a bywyd yr holl fyd, achos a rheswm pob gweithrediad yn y llywodraeth.

8. *Mae y meddwl yn dyheu am yr anweledig, o herwydd dyma ei orphwysfa dragywyddol.*—Teimlai Phillip y buasai gweled y Tad yn ei ddigoni. Mae cyfaddasrwydd yn y meddwl dynol i dderbyn datguddiad o Dduw, ac ni ellir llanw hwnw ond gan yr Anfeidrol ei hunan. Yr oedd rhywbeth gogoneddus yn ngwaith Duw yn planu coed gardd Eden; ond yr oedd planu yn y meddwl chwen-

ychiad am Dduw i feddwl creadur yn llawer mwy gogoneddus. Yr oedd cafnio lle y moroedd yn y ddaear yn ogoneddus, ond yr oedd gosod lle i Dduw babellu mewn enaid dynol yn fwy gogoneddus. Rhaid i feddwl gael rhywbeth mwy na g ef ei hun i aros ynddo. Ni feddyliai y darganfyddwr wrth dreulio blynyddoedd i chwilio dirgel-fanau, am wneyd ei gartref yno. Gallasai Israel oddef tri ugain a deg o flynyddoedd yn Babilon, o herwydd nid oedd i gartrefu yno. Gall yr ymfudwr aberthu cysuron teuluaid i chwilio am aur ar lanau aberoedd ac afonydd y wlad bell; nid yw yn meddwl cartrefu yno. Mae cartref i fod yn grynhoad o bob cysuron, yn orphwysfa ar ol pob llafur. Mae meddwl dyn yn chwilio llywodraeth y Duw mawr; gall gyflymu ei deithiau drwy fydoedd ar ol bydoedd; gall fyfyrio ar weithrediadau, egwyddorion, a deddfau; gall rifo, mesur, a phwyso, sêr y nefoedd; ond nis gall wneyd ei gartref yn y fan yna. Rhaid iddo gael gwneyd ei gartref yn ymyl yr orsedd-fainc. Mae meddwl yn rhy fawr i gartrefu ond yn yr Anfeidrol ei hunan. Gall athronwyr Groeg ac Athen ei gyfarch, a chynyg ~~systemau~~ iddo, ond rhy fach; gall anffyddwyr yr oesau neshau yn mlaen a chynyg eu cynrychion iddo, ond rhy annheilwng; gall gorseddau y ddaear gynyg eu cysgod, ond rhy fach. Mae yr enaid yn dymuno cael dringo ochr y mynydd i wrando Nazarëad tlawd; ac wrth ei glywed, gorfoledda. Atolyga gael eistedd wrth draed y proffwyd o Nazareth, i wrando gwirioneddau o'r orsedd dragywyddol. Goddefer i'r teithiwr i ganmol ei gartref, ond y Cristion ei Dduw.

II. FOD Y DYSTIOLAETH YMA O EIDDO Y GWARDWR YN DYEOD I GYFARFOD A'R SYNIAD UCHAF SYDD YN Y MEDDWL AM BERTHYNAS.—I'r athronydd y syniad uchaf am Dduw yw ei fod yn achos dechreuol y cwbl sydd mewn bodolaeth. Nid llyfr i ddysgu athroniaeth yw y Beibl, oddieithr athroniaeth trefn iachawdwriaeth. Tystiolaethir yn bendant ynddo mai Duw yw gwir achos y cwbl; ond y ffurf o dystiolaeth, ac nid y ffurf o ymresymiad, a roddir i'r gwirionedd, o

herwydd nid dyma y cymeriad uchaf a wisga Duw yn y datguddiad. Mae y Beibl yn rhoddi y lle mwyaf i'r arwedd bwysicaf yn nghymeriad y gwrthddrych. Nid oes un wedd yn cael ei rhoddi i gymeriad Duw yn ei Air nad oes yna rhywbeth yn y meddwl dynol yn gofyn am dano ac yn cyfateb iddo. Mae gwahaniaeth dirfawr rhwng yr eglurhad a roddir ar gymeriad yr Anfeidrol yn y greadigaeth a'r datguddiad a roddir o hono yn ei weithredoedd eraill. Pe buasai y Beibl yn cau gyda hanes creadigaeth y byd, a sancteiddiad y Sabbath, buasai yr hanes yna yn dyfod i gyfarfod a chwestiwn neillduol yn y meddwl dynol. Er cymaint yw ymdrech rhai dynion i osod y greadigaeth i sefyll megys arni ei hun, eto y mae yr hen gwestiwn yn aros heb ei *settlo* gan y blaid yna. Dyweder mai damwain sydd yn cyfrif am y cwbl, bydd y dyrswch yn myned yn fwy, bydd y syniad o ddyogelwch wedi ei lwyr golli, a bydd y syniad o *lywodraeth* wedi ei golli hefyd. Rhaid i ni gael achos dechreuol i'r cyfan. Yr ydym yn dilyn cadwen bodolaeth yn ol drwy ddolenau dirif effeithiau, y rhai ydynt ail-achosion; a saif y meddwl ar ddibyn creadigaeth yn y dechreu, a phe gallai ymdaflai i ganol y tragwyddol, a llefai allan, "O na wyddwn pa le y cawn ni ef." Buasai cael datguddiad o Dduw fel achos dechreuol y cyfan yn dyfod i gyfarfod â ganen neillduol yn y meddwl, a phwy allasai roddi hyny yn well nag Efe—yr Hwn oedd gydag Ef pan osododd Efe sylfaeni y ddaear i lawr, pan rhoddodd Efe gylch ar wyneb y dyfnder. Ond y mae yma fwy—*Tad*. Pe buasai y dystiolaeth yma yn cau gyda datguddiad o Dduw fel *Llywodraethwr* y cwbl, buasai yn dyfod i gyfarfod â chwestiwn pwysig yn y meddwl, sef, ar bwy y mae y cyfan yn dibynu? Mae dibyniaeth o'n hamgylch. Nis gall y planhigyn fyw ond yn mywyd y ddaear, ac nis gail y bywyd hwnw ei gynal ond drwy feithriniad y gwahanol elfenau oddi allan. *Dibynu* y mae y cwbl, o'r gwrthddrych distadlaf hyd y creadur gogoneddusaf. Digon hawdd deall sut y mae y plentyn sydd yn

mreichiau ei dad yn ymgynal. Felly y mae yr oll a welir, a'r oll ni welir, o'r greadigaeth yn cael eu dâl i fyny yn mreichiau yr Anfeidrol a'r Tragwyddol ei hun.

Mae yn ein meddyliau ni syniad am berthynas yr oll a welir â rhyw allu ni welir, ac mae y syniad hwnw yn cyfodi oddiwrth berthynas hanfodol y Crëwr a'i greadigaeth, at berthynas y Deddfwr a'r llywodraeth. Mae y naill yn awgrymu y llall i ni. Fe allodd yr *architect* godi adeilad prydferth, ac mae ei enw wedi ei gysylltu â'r adeilad yn ein meddyliau ni; ond nid yw y syniad o ddibyniaeth yna; ar sylfaen o eiddo rhywun arall y codwyd yr adeilad. Gallodd yr *engineer* dafu pont dros y cwm cul; ond yr oedd ei cholofnau yn pwyso ar ddaear Duw. Mae y llongau godidog â'u hwylliau yn chwareu fel angelion yn yr awyr, ond awyr Duw ydyw. Caiff y cynllunydd ei gladdu, ond bydd yr adeilad yn sefyll. Gull y bydd cynllunydd y llong yn fyw pan bydd hi wedi suddo i'r gwaelod, ond y mae yr awelon yn chwythu o hyd. Nid oedd y naill yn dibynnu ar y llall. Pe llwyddai y bobl hyny sydd yn ceisio tori y cysylltiad sydd rhwng Duw a'i greadigaeth, byddent fel Samson, yn cael eu claddu yn adfeilion yr adeilad, ymollyngai y cwbl allan o fodolaeth. Dymuniad ein calon wrth edrych ar y crëad o'n cwmpas, ac wrth ystyried ei pherthynas â Duw yw, "O Frenin, bydd fyw byth," cadw y deyrn-wialen yn dy law. Buasai y datguddiad o Dduw, yr anweledig, fel yna yn dyfod i gyfarfod â'r syniad sydd yn y meddwl am *berthynas*, a phwy allasai wneyd hyny yn well nag Efe, yr Hwn sydd yn cynnal pob peth trwy air ei nerth? Ond y mae yma berthynas uwch — "A welodd y *Tad*."

Buasai datguddiad o Dduw fel *canolbwynt* daioni moesol, ac fel *amddiffynnydd rhinwedd*, yn dyfod i gyfarfod â chwestiwn neillduol yn y meddwl. Er fod ein daear ni wedi ei llanw â drygioni a thrawsedd, y mae y syniad o lywodraeth foesol yn hanfodol i'r ddaear eto. Beth pe galleffem feddwl am deyrnas Prydain Fawr wedi cael ei

meddianu am fis o amser gan y syniad nad oes yma un math o lywodraeth? Pwy a all ddychymygu y trueni a ddilynai hyny? Edrycher i'r gwledydd lle y mae gwrthryfel wedi tori allan, a'r llywodraeth yn rhy wan i'w roddi i lawr. Pwy a all ddesgrifio y trueni ofnadwy, y dinystir dychrynlyd, y lladradau, y llofruddiaethau, a ganlynai hyny? Beth pe byddai y syniad yn myned allan nad oes llywodraeth foesol i'w chael? Yn mha le y byddai terfyn y trychineb? Gorchuddid y ddaear gan ddiluw o drueni. A garem ni weled carcharorion Prydain Fawr yn cael eu gollwng yn rhydd, i ddyfod allan o'r carchar, dyhirod cymdeithas yn dyfod yn ol i'n gwlad; puteiniaid, lladron, a llofruddion, yn dyfod yn rhydd? Beth pe caffai holl ysbrydion drwg uffern eu gollwng yn rhydd. Beth pe byddai pyrth uffern yn cael eu tafu yn agored, a chaniatad yn cael ei roddi i'r cythreuliaid sydd yn ngharchar ynô i fyned yn rhydd? Pa fath le fyddai y ddaear pe llenwid hi âg ysbrydion drwg Cain, Saul, Ahab, Jeroboam, Belsassar, Judas, Herod, Pilat, Nero, &c.? Annuwoliion yr oesau yn cael eu gollwng yn rhydd. Troid y cyfan yn uffern ar unwaith. Syniad bendigedig yw fod gorseddfaine Duw yn nghanol y bydysawd. Teimlir dylanwad ei deyrnwialen oddiwrth yr angel cryfaf yn ymyl yr orsedd hyd at yr ysbryd dyfnaf mewn trueni. Buasai datguddio yr Anweledig yn y berthynas yna yn dyfod i gyfarfod â theimlad neillduol yn y meddwl dynol; ac yr ydym yn barod i ddiolch am orsedd all rwymo pob ysbryd drwg, a gwobrwyo pob gweithred dda. Pwy allasai ddatguddio Duw yn y cysylltiad yna fel Efe? Y mae Ef yn ymyl yr orsedd, cyfraith ei Dad yn ei galon, allweddau pyrth marwolaeth wrth ei wregys, iachawdwriaeth i ddynion yn ei waed; ond nid dyna y berthynas sydd yma. "A welodd y Tad."

Mae yr Arglwydd Iesu yn y geiriau hyn yn dyfod at y syniad uchaf o berthynas sydd yn meddwl dyn—*Tad*. Syniad hapus i ddyn yw fod Duw yn achos cyntaf a dech-

reul y greadigaeth; y prydferthwch, a'r drefn, a welir; fod pob llwchyn o fater wedi cael ei fodolaeth drwy ewyllys a gallu y Duw anweledig. Syniad gogoneddus i ddyn yw fod yr amrywiol wrthddrychau sydd mewn bodolaeth o dan reolaeth anfeidrol ddoethineb, ac nad oes berygl iddynt fyned i wrthdarawiad â'u gilydd o dan ei arweiniad Ef. Ond y mae hwn yn rhy fach i gyfarfod â meddwl dyn. Syniad hapus i feddwl, â thueddiadau sanctaidd ynddo, yw fod gorsedd foesol y Jehofa yn nghanol y bydysawd, i ddyogelu trefn, ac i sicrhau y caiff drygioni ei atal, yr annuwiol ei arafu, a'r santaidd ei gadw. Ond y mae hynyna yn rhy fach. *Tad yw Duw.* Dyna y berthynas uchaf. Gellir deall hon yn well nag un arall. Mae cenhedloedd i'w cael nas gallant ymresymu yn nghylch achos cyntaf, na deall yr angenrheidrwydd am ddolen gydiol rhwng y créad a Duw, na'r angenrheidrwydd am lywodraeth foesol; ond y mae y syniad ar berthynas o dad mor gyffredinol a'r ddaear, a dyma enw Duw—*Tad.* Mae pob syniad arall yn gadael dyn mewn unigrwydd. Mae unigrwydd yn cynyrchu teimlad o boen yn ein calon. Gwelsom weithiau gladdu tad a mam, ac un bychan ar eu hol. Yr oedd yn unig ar ben y tŷ, y cysgod wedi ei dynu oddiarno, ei obaith a'i galon yn y fynwent. Gorthrymir ef, nid oes ganddo amddiffynwr; erlidir ef, nid oes ganddo noddfa. Pwy a all bwysu gofid plentyn amddifad? Ond y mae syniad mwy i'r gair "amddifad" na hynyna. Mae yma rai yn amddifad, heb Dduw yn dad, yn agored i bob storom. Ond y mae rhywrai yn deall y geiriau yma,—Dy Dad "a bwysodd y mynyddoedd mewn pwysau." Ni roddir i ti ormod o faich ar dy ysgwydd. Efe lanwodd gwpan y môr. Ni oddefa i ti farw yn y storom. Tad yw Duw; mae Ef wrth y llyw.

III. YR ARWEDDAU NEILLDUOL A RODDWDYD I'R BERTHYNAS HON YN Y DATGUDDIAD O HONI YN Y MAB.—"*Y neb a'm gwelodd I.*"—Mae yr Arglwydd Iesu yn hòni ei fod Ef yn d dangosiad o'r Tad i'r byd. Felly, rhaid i ni edrych ar

gymeriad y Gwaredwr fel eglurhad ar Dduw.

1. *A welodd y Tad o ran sancteiddrwydd a pherffeithrwydd ei natur.*—Y mae perffeithrwydd yn mhob ystyr yn hanfodol i'r syniad am Dduw. Ond sut y gallesid cyflwyno syniad am y perffeithrwydd hwnw i'r byd, gan nad oedd neb i'w gael a allasai fod yn gyfrwng i gario y cyfryw syniad allan? Fe anfonodd Duw ei gyfraith oddiar Sinai i'r gwerysll yn llaw Moses, ac ni a wyddom sut y daeth hi oddiyno at y bobl. Ond pa fodd y daeth hi i ben y mynydd? Sut y daeth i fod ar y llechau? Gorfu i Dduw guddio y gogoniant mewn niwl. Yr oedd presenoldeb y Dwyfol mor agos i'r dynol, yn cynhyrfu elfenau natur drwyddynt. Beth yw y pellder sydd rhwng y Crëwr a'i greadigaeth, nis gwyddom. Mae y naill yn feidrol, y llall yn Anfeidrol; mae y naill yn ddibynol, a'r llall yn bodoli o hono ei hun. Yn mha le y mae llinell y cymundeb rhwng y dibynol a'r Annibynol, rhwng y creuedig a'r Digreuedig, nis gwyddom. Beth yw y pellder sydd rhwng yr Ysbryd tragywyddol ag ysbrydion glân y gogoniant, nis gwyddom, nac yn mha le y mae llinell y cymundeb ychwaith. Mae Duw yn gallu cyflwyno syniad am ei berffeithrwydd i'r angelion yn rhywfodd; ond y mae pellder mwy rhwng Duw a'n daear ni, y pellder sydd rhwng y Deddf-roddwr a'r deddf-dorwr, rhwng pechod a sancteiddrwydd. Yr oedd Aaron yn gallu cyflwyno dymuniad Israel i Dduw yn y cysegr sancteiddiolaf, ond yr oedd yn rhaid colli bywyd yn aberth i gyflwyno syniad am Dduw i Israel. Mae y man agosaf y daeth Duw at ddyn yn ein testyn—“*Y neb a'm gwelodd i, a welodd y Tad.*” Dyma gorffoliad gweledig o'r Anweledig, dyma gorff gweledig am sancteiddrwydd a pherffeithrwydd y natur anweledig a dwyfol.

Mae y byd yn methu a deall sut y gallodd yr Arglwydd Iesu arwain bywyd fel y gwnaeth yn nghanol elfenau mor wrthwynebol. Mae yn bosibl ac yn debyg i rai i gyhuddo y Gwaredwr o feiau y tybient hwy ei fod yn euog o honynt.

Cymeriadau hollol wahanol i Grist oedd yn arfer mynychu tŷ Zacheus, ac nid oedd neb yn dyfod oddiyno ar ei well, na Zacheus yn well ar ol i neb fod yno. Ond pan aeth y Gwardedwr yno, fe aeth ei sancteiddrwydd mor agos i nyth ei anwiredd, fel y llosgodd hi cyn iddo ddyfod allan. Mae yn anhawdd i gymeriad glan fyned at fyd euog, i gymdeithas aflan, heb gael dylanwad damniol yn ei natur; ond fe allodd y Gwardedwr glirio calon o saith o gythreuliaid, fel clirio teml o werthwyr colomenod. Fe allodd y Gwardedwr fod yn nghymdeithas ysbryd drwg am ddeugain niwrnod, heb i *sulphur* ei wisg lychwino dim ar ei ddillad. Troai yn nghanol cymdeithas, ond yn ddidoledig hefyd; yn nghanol pechaduriaid, ond yn ddihalog hefyd; yn nghanol temtasiynau, ond yn sanctaidd hefyd. Os ydych am wybod natur hinsoddau gwledydd y ddaear, edrycher ar y ffrwythau sydd yn tyfu ynddynt. Os am gael esboniad ar natur Duw, os am gael prawf o berffeithrwydd a sancteiddrwydd y nefoedd a'r natur ddwyfol, edrycher i fywyd pur yr Arglwydd Iesu. Mae Matthew ac eraill wedi ysgrifenu ei hanes, ond heb ddrwg i ddweyd am dano. Dyma fywyd oedd yn codi at gyfraith Duw, tra yr oedd bywydau pawb eraill yn plygu o dan y gyfraith. Fe fethwyd a deall Galileo, o herwydd ei fod yn dweyd fod y ddaear yn troi o gylch yr haul. Erlidiwyd ef am hyny, ond Galileo oedd yn gywir. Dywedodd Mab Duw mai troi o gylch sancteiddrwydd y gyfraith yr oedd y byd i fod. Erlidiwyd Ef, ond Efe oedd yn gywir. Erlidiwyd Ef, ond dyoddefodd; bygythiwyd Ef, ond ni fygythiodd yn ol. Bu fyw i roddi esiampl i ni, fel y canlynem ei ol Ef. Ysgrifenodd y *top line* ar *gopy character* y natur ddynol, a dywedai dyna gymeriad fy Nhad. Mae miloedd yn ceisio ysgrifenu fel Efe heddyw. Planodd bren yn yr anialwch oedd yn dwyn yr un ffrwyth a choed Canaan. Triniodd dānau telyn calon Mair Magdalen, i chwareu ar y ddaear dōnau Hannah y broffwydes yn y nefoedd; a gadawodd ei gymeriad ar ei ol, fel drych, i weled ei Dad ynddo.

2. "*Y neb a'm gwelodd i, a welodd y Tad*" yn nhynerwch ei galon a charedigrwydd ei fywyd.—Ymddengys mai y galon sancteiddiaf yw y galon dyneraf. Y Sanctaid oedd y Gwaredwr, ond Efe oedd y tyneraf a welodd y byd erioed. Corffoliad o gariad, gwisg allanol weledig am drugaredd Duw. Nid *cenad* yn unig oedd y Gwaredwr. Yr oedd yr angelion yn genhadau trugaredd i Lot, ond nis gallasant hwy ddweyd "*Y neb a'n gwelodd ni, a welodd y Tad.*" Dyma Dduw wedi dyfod i'r man agosaf atom. Calon dynner oedd gan y Gwaredwr. Ni allasai oddef llefau deillion am lygaid, gwahangleifion yn eu poemau, na gruddfanau y tlawd am fwyd, heb i'w galon doddi. Ni allasai edrych ar dagrau dwy chwaer ar ol eu brawd, na chlywed ocheneidiau gweddw wrth hebrwng corff ei hunig fachgen i'r fynwent, heb deimlo ei galon yn toddi yn ei thynnerwch atynt. Ni allasai edrych ar Jerusalem heb wylo drosti, na gwrando cri y lleidr edifeiriol am drugaredd, heb estyn ei fraich i'w waredu. Eglurhad ar galon y Tad oedd caredigrwydd y Gwaredwr. A welwch chwi roddion y dyn cyfoethog i'r tlawd? Dyna oedd yn ei galon. A glywsoch ddaid yr areithiwr am ryddid i'r caethion, am dynu ymaith yr haiarn sydd am danynt? Dyna oedd yn ei galon. A glywch chwi erfyniadau y fam am faddeuant i'w bachgen drwg, wedi iddo droseddu? Dyna oedd yn ei chalon hi. A welwch chwi y ffynon o ddwfr dardda i fywyd tragywyddol yn nghalon y wraig o Samaria? Dyna oedd yn ei galon Ef. A welwch chwi gadwynau anwiredd Zacheus yn myned yn ddrylliau? Dyna oedd yn ei galon Ef. A glywsoch chwi leferydd maddeuant pechodau wrth Mair Magdalen? Dyna oedd yn ei galon. Pa fath un yw Duw? Un fel yna ydyw—Un sydd yn barod i dori cadwynau anwiredd y pechadur mwyaf ydyw, i gyhoeddi maddeuant rhad i'r edifeiriol tlotaf, ac i gyfoethogi pwy bynag a foddlon a dderbyn ganddo.

3. *Mae y datguddiad yma wedi ei roddi nid yn unig yn y wedd dyneraf, eithr hefyd yn y man agosaf, a thrwy y*

cyfrwng mwyaf gogoneddus ac urddasol.—“*Y neb a'm gwelodd i.*”—Dyma y man agosaf y gallasai Duw ddyfod at ddyn oedd hwn. Daeth gydag awel y dydd i Eden, mewn cwmwl i ben Sinai, mewn fflam dân i olwg Manoah, ond daeth yn natur dyn i Bethlehem. Tybiwn mai y man agosaf y daeth Duw iddo cyn hyn, oedd ar y drugareddfa aur yn y cysegr sancteiddiolaf, ar ddydd y cymmod. Ond y mae yna amryw bethau sydd yn awgrymu y pellder yn y fan agosaf. Nid oedd neb yn cael myned i olwg y drugareddfa ond archoffeiriad eneiniedig. Yr oedd hwn yn i fod â gwaed yn ei law; ac yr oedd yna len yn crogi rhwng y cysegr a'r sancteiddiolaf. Am y llen yr oedd y Dwyfol o hyd. Buasem yn caru cael golwg ar Dduw yn y cysegr ar y drugareddfa, rhwng y Cerubiaid; ond y mae Ef yn nes heddyw—mae yn ein natur ni. Fe rwygwyd y llen, nes y mae miloedd wedi ei weled. “Ni a welsom ei ogoniant Ef: gogoniant megys yr unig-anedig oddiwrth y Tad, yn llawn grâs a gwirionedd.” Ni a'i gwelsom Ef yn distewi storom ar Fôr Galilea, ac ni a'i teimlasom yn distewi storom o'n mewn. Ni a'i gwelsom Ef yn codi meirwon, a ni a'i teimlasom yn llefaru bywyd i ni yn ein pechodau. Mae Duw yn ddigon agos yma i'w weled a'i glywed. Ofnai Esther anturio i mewn at Ahasferus hyd nes yr estynid teyrn-wialen aur yr orsedd allan. Byddai gormod o ofn ar ddyn anturio at y Dwyfol onid estynid trugaredd allan, ac y mae teyrn-wialen aur grâs yn estynedig at y byd.

PREGETH XVI.

Y CYDGYFARFYDDIAD.

"TRUGAREDD a gwirionedd a ymgyfarfuant; cyfiawnder a heddwch a ymgusanasant. Gwirionedd a Jardda o'r ddaear; a chyfiawnder a edrych i lawr o'r nefoedd."—SALM lxxxv. 10-11

ANALLUAWGRWYDD y meddwl dynol i syniad yn gywir am Dduw yn ei hanfod a'i natur, sydd yn cyfrif am ddullwedd gwirioneddau datguddiedig y Beibl; ac eto fe godir gwrthwynebiad i'r gwirionedd, ar gyfrif ei ddullwedd, gan y meddwl sydd yn amddifad o ostyngeddwydd i adnabod ei hun, ac o gydymdeimlad sanctaidd â'r pur, yr ysbrydol, a'r dwyfol. Sonia y testyn am rai o briodoleddau yr Anfeidrol, y priodoleddau uchaf ag sydd yn gysylltiedig â'r datguddiad uchaf o Dduw. Mae pob datguddiad o Dduw yn cyfateb i'r meddwl yn y sefyllfa y byddo efe ynddi pan yn cael y datguddiad. Mae priodoleddau naturiol yn cario dylanwad cryf ar feddwl isel mewn dadblygiad neu ysbrydolrwydd, a hyn sydd yn cyfrif am fod y datguddiadau o Dduw mor llawn o hyn yn yr hen oruchwyliaeth. Mae ystorm o fellt a tharanau wedi cario syniad cryfach am Dduw i ambell feddwl, na gweithrediad cyson gallu Duw yn nhrefniadau cyson ei lywodraeth; ac fel y mae sŵn yn deffroi y cysgadur, ac yna yn gweled, felly mae y meddwl, rhodia yn nghanol amlygiadau o'r anfeidrol heb ganfod olion llaw Duw, tra y mae yr ofnadwy yn ei ddihuno, ac yna gwêl. Er mai drwy briodoleddau neillduol y gallwn gael syniad am Dduw, eto mae perygl i ni feddwl am *Dduw* fel *dyn* ar y naill law, neu am *hanfod* yn *rhanau* ar y llaw arall. Y cyntaf yw y cyfeiliornad y syrthiodd yr athronyddwyr paganaidd iddo, nes y dwyfolent y dynol. Y diweddaf yw y syniadau y mae Pantheistiaeth y dyddian

presenol wedi myned iddo, nes darostwng yr Anfeidrol i derfynau, ac edrych ar y cyfan fel corffoliad o Dduw. Mae y cyntaf yn codi dyn, a'r llall yn darostwng Duw. Nid yw y meddwl yn alluog i fwynhau datguddiad o Dduw yn mhob priodoledd fel eu gilydd. Gall pechadur weled sicrwydd ei gosbedigaeth yn rhai o briodoleddau Duw. Y gallu oedd yn ddigon i alw i fodolaeth y greadigaeth gyfoethog ac amrywiol hon, a llywodraethu yr oll, sydd hefyd yn ddigon i gosbi pob un a droseddo ar orchymynion Duw. Y cyfiawnder hwnw foddodd y byd am ei anghrediniaeth, ddifâodd y Sodomiaid am eu haniweirdeb, ac a aredodd wledydd y ddaear â barnau, sydd eto yn alluog i gosbi yr annuwiol am ei bechod. Byddai datguddiad o Dduw yn y priodoleddau hyn yn *unig* yn effeithio ar *ofn* yr euog, nes y buasai y byd fel cenedl Israel ar ochrau Sinai, yn dymuno ar i Dduw beidio a llefaru. Ond y mae y Datguddiad yn cynnwys gwirioneddau am Dduw sydd yn dylanwadu ar *obaith* y byd. Yn fynych gosodir hwy allan genym ni fel pe yn wrthwynebol i'w gilydd, tra y maent, er yn *wahanol*, yn *cydweithredu* yn holl weithredoedd Duw. Hyn fydd yn gwneyd y nefoedd yn ogoneddus, ac uffern yn druenus. Y mae holl briodoleddau Duw wedi ymgyfarfod yn Mab Duw. Y mae Efe wedi crynhoi yr holl bethau yn y nefoedd ac ar y ddaear ynddo Ef. Ynddo Ef y mae cyfiawnder a heddwch, gwirionedd a thrugaredd, wedi ymgyfarfod, ac yn cario dylanwad cydrywiol ar y byd. Byddai y ddwyfroneg ar fynwes yr archoffeiriad ar ddydd y cymmod yn cynnwys enwau y deuddeg llwyth, a byddai enw y naill llwyth mor eglur a'r llall. Llwyth Levi oedd yr agosaf i'r Tabernacl yn y gwrsyll, ond byddai pob llwyth fel eu gilydd ar y ddwyfroneg. Felly y mae holl briodoleddau Duw yn yr Efengyl. Dyma ddwyfroneg ein Harchoffeiriad ni, wyneba yr holl briodoleddau ar fyd o bechaduriaid fel eu gilydd. Maent wedi ymgyfarfod mewn sylfaen i weithredu, ac yn nodweddu yr holl weithrediadau.

“TRUGAREDD A GWIRIONEDD A YMGYFARFUANT.”—Yr Arglwydd a wisgodd yr enw hwn arno ei hun—“*Duw trug-arog,*” onide ni fuasai neb yn ddigon eofn i’w roddi arno. Rhoddodd yr enw arno ei hun o ganol amlygiadau o ogoniant ei natur a mawrhydi ei gyfraith y dydd y disgynodd Efe mewn cwmwl gogoneddus i gopa Sinai danllyd, y gwisgodd Efe oleuni fel dilledyn, ac y taenodd Efe y nefoedd fel llen, y cyneuodd Efe ei fellt, ac y gollyngodd Efe y gwynt allan o’i ddyrnau. Gwisgwyd yr enw hwn y dydd hwnw pan y rhoddid ail-argraffiad o ddeddf Duw. Ysgrifenyd hi ar y cyntaf yn llech y galon, ond yma ar lechau ceryg. Dywed yr athronydd fod natur faterol yn dwyn olion priodoleddau naturiol Duw; ond dyma Dduw yn argraffu trugaredd arni ar Sinai; a pha ryfedd iddo grynu pan oedd y fath gyfarfyddiad arno?—Trugaredd a gwirionedd. Trugaredd sydd yn cario y dylanwad hapusaf ar feddwl dyn. Cartrefa yn y meddwl Anfeidrol erioed, a sefydlodd ei sylw ar fyd o wrthryfelwyr. Hon oedd yn gwneyd natur yr Anfeidrol ei hun yn wrthddrych at-dyniad penaf angelion gwynion gwlad y goleuni, yn ganolbwynt gobaith dynion truenus, ac yn ffynonell gorfoledd y dyrfa gadwedigol yn y nef byth. Hon ddarparodd yr anchwil-iadwy olud yn y rhagolwg ar dylodi y natur ddynol, ddarparodd lawnder ar gyfer newyn am gyfiawnder, a hon sydd wrth ben y bwrdd mewn rhagluniaeth a grâs, yn rhoddi i’r rhai a ymddiriedant ynddo Ef. Trugaredd.—Hon ofalodd fod arch Noah yn *waterproof* ar ddydd y diluw, ac am angelion digon cyfarwydd a’r ffordd i Soar, fel y buasai Lot yn ddigon dyogel. Hon gododd ei ystafell i’r haul, agorodd y drws iddo bob boreu er y boreu y pechodd Adda; ac a roddodd i’r lleuad ei hamserau nod-edig, fel y mae y morwr a’r medelwr yn cyd-lawenhau wrth eu gweled. Pan y mae heintiau yn anrheithio y trefydd, mae hon yn adeiladu *hospitals* ar gyfer y cleifion, *asylums* i wallgofiaid, a thlot-dai i dderbyn y diymgeledd. Hon sydd yn rhoddi nerth yn fferau y gwyr cryfion, ac yn

darparu cadair ddwy-fraich i'r hen wr penllwyd. Dyma *nurse* y Brenin Mawr, sydd yn gwylied gwely gwellt y cardotyn, yn gystal a gwely plyf y boneddwr; yn trin clwyfau y dyoddefus, yn gystal a llanw cwpan melus y nwyfus. Gofala am ffyn cyfaddas i hen wyr a hen wragedd Jerusalem i rodio drwy yr heolydd, a chaiff llawer coegyn deimlo rhywbryd iddynt ddefnyddio cynorthwywyr trugaredd cyn bod eu heisiau. Rhodia drwy ganol cleddyfau gelynon, gan dynu y min oddiarnynt; cyhwfana faner wen rhyddid ar diroedd caethiwed a gormes; datoda gadwynau y caeth, darpara Ebedmelech i gyfodi Jeremiah o'r daeardŷ, teifl byrth caethiwed i'r caeth fyned yn ol i'w Jerusalem, lleinw big cigfran âg ymborth i broffwyd Duw rhag newynu, a rhydd olew mewn ystên i weddw dalu y ddyled. Cylyma golyn y wiber rhag rhwygo llaw yr Apostol; cydia yn llaw plentyn Duw i'w arwain allan i'r heol o'r carchar; ac er ei bod fel colomen Noah yn ehedeg uwchben diluw o drueni, y mae ei hesgyll fel esgyll colomen wedi ei gwisgo âg arian. Pwy na waedda bydd fyw byth, Drugaredd, a theyrnasa yn iachawdwriaeth dragwyddol eneidiau dynion.

GWIRIONEDD.—Un o'r cwestiynau mwyaf buddiol a ofynwyd erioed oedd hwnw, “Beth yw Gwirionedd?” Gofynwyd ef gan un ag oedd yn wir bwysig iddo wybod beth oedd, a gofynwyd ef i'r unig un a allasai roddi atebiad llawn iddo; ond cyn iddo gael amser i ateb, symudodd y gofynydd at beth arall, ac y mae y byd hyd heddyw yn amddifad o ddarnodiad llawn o beth yw Gwirionedd. Dywed Bacon, yr athronydd, mae yr *hyn sydd* yw Gwirionedd. Ychydig iawn felly o wirionedd sydd i'w gael. Pe tynid allan o ambell i feddwl ei syniadau cyfeiliornus, ei obeithion twyllodrus, ei ragfarnau niweidiol, ei wago-goniant gwênïeithus, a'i bleser annuwiol, pa faint, tybed, fyddai ar ol yn y meddwl hwnw? Mae llawer yn ymbleseru yn y ffugiol; edrychant ar ddarluniau, gwrandawant ar chwedlau, ymhyfyrdant mewn teganau, gorfoleddant

yn y sŵn, ffeiddiant y sylwedd, a byddant farw yn dlawd. Gwirionedd yn y *masnachwr* yw dweyd y gwir am y nwyddau, gan beidio eu canmol er twyllo, na phleidio a chodi mwy na ddylid am danynt. Gwirionedd yn y *prynwr* yw peidio a darostwng pethau er mwyn tynu eu pris i lawr, a gofalu talu mewn ffordd onest i bawb yr hyn y cytunodd efe arno. Gwirionedd yn y *meistr* yw peidio a gorthrymu o herwydd llawnder y farchnad, nes dirwasgu y gweithiwr i amgylchiadau nas gall efe dalu i bawb eu gofynion; a gwirionedd yn y *gweithiwr* yw arfer cydwybod i roddi cymaint o waith ag a ddylai am y gyflog a dderbynia. Gwirionedd yn y *feistres* yw rhoddi safle briodol i'r forwyn, gan beidio ei dirmygu a gwneyd iddi deimlo ei sefyllfa drwy gadw breintiau oddiwrthi, gan gofio fod ganddi enaid cyfrifol i Dduw, ac er mwyn y cyfrifoldeb, rhoddi cyfiawnder iddi; a gwirionedd yn y *forwyn* yw gofalu parchu ei meistres, gan ofalu am ei heiddo fel pethau perthynol iddi hi ei hunan, a rhoddi ufudd-dod parchus i'r holl orchymynion y mae hi drwy gyfamod wedi addaw gwneuthur. Gwirionedd yn y gweinidog yw cyflawni ei swydd, gan fyfyrto y gwirionedd, dwyn allan o heno bethau newydd a hen, pregethu y gair yn onest a chydwybodol, a bwrw golwg dros braidd Duw. Gwirionedd yn yr Eglwys yw ateb cydwybod i Dduw ei bod yn gwneyd ei goreu i oleuo, i santeiddio y byd, a gogoneddu Duw, gan deimlo pryder am iachawdwriaeth annuwiolion.

Y mae gwirionedd yn mhob un o'r manau hyn megys mewn drych—mewn cysylltiadau anmherffaith; ond yn Nuw y mae yn ogoniant mwy ofnadwy, ac at y gwirionedd yn ei ffynonell y cyfeirir yma. *Gwirionedd*.—Hwn roddodd *stamp* y llywodraeth ddwyfol ar holl eiddo Duw drwy ei ymherodraeth. *Hwn* brydferthodd nef y nefoedd fel i fod yn gartrefle i angelion a seraphiaid. Hwn balmantodd ystrydoedd y ddinas nefol âg aur pur, gynenodd ei haul nad yw yn machlud ddydd na nos, blanodd bren y bywyd ar lan afon bur o ddwfr y bywyd—pren sydd yn dwyn

ffrwyth bob mis, a'i ddail i iachau y cenedloedd. Hwn sydd yn anfon allan ei genhadau yn ysbrydion, a'i weinidogion yn dân ffamlyd, i ddadleu gerbron y cenedloedd hawliau Duw y nefoedd. Gwirionedd fethodd oddef angelion yn y lle sanctaidd heb eu cosbi, alltudiodd ein rhieni o Baradwys; daflood bont o fywyd ysbrydol i fywyd tragywyddol, fel y gallodd Enoch ac Elias groesi yr ochr uchaf i lywodraeth marwolaeth heb eisiau myned "drwy lyn cysgod angau." Chwareuad ei edyn ef oerodd y ffwrn ar ol tafod y fflam. Cosba bechod, gwobrwyd rinwedd. Mae ef yn fur o dân o gylch y Jerusalem ysbrydol, yn fflam yn llosgi yn y berth am ganrifoedd. Dadleuydd bywyd yr eglwys filwriaethus yn y llysoedd, a chân yr eglwys orfoleddus wedi cyrhaedd adref.

Y CYFUNIAD—TRUGAREDD A GWIRIONEDD A YMGYFARFUANT.—Y mae cyfarfyddiad gwahanol elfenau yn ffynonell o berygl neu o ddyogelwch. Cyfarfyddiad y fflam a'r pylor fu yn achlysur i ddinystrio yr adeilad gwerthfawr, ac i golli rhai bywydau. Cyfarfyddiad y nwy a thân fu yn achlysur i hyrddio ugeiniau i dragywyddoldeb mewn mynudd yn y danchwa ddifafol. Cyfarfyddiad y byddinoedd arfogedig ar y maes fu yn achlysur i filoedd syrthio yn ebyrth i greu-londeb a gam-enwir yn ddewrder. Mae y Jehofa yn gorfod *bario* i fyny rhwng pethau o natur wahanol, rhag iddynt ddyfod i gyffyrddiad â'u gilydd. Mae deddfau y gyfundrefn henlawg y fath fel y siorheir na chyferfydd pethau â'u gilydd. Dywedir fod cymaint gwahaniaeth yn maint planedau y gyfundrefn, ac y teithiant yn y fath gyflymder o dân ddylanwad deddfau gosodedig, fel pe y cyffyrddent, y byddai yn ddinystr cyffredinol, y dinystrid y cydbwysedd yn y gyfundrefn. Ond ni raid ofni, mae Anfeidrol Ddoethineb wedi rhoddi iddynt eu llwybrau. Efe yw yr hwn sydd yn arwain Arcturus a'i feibion, ac yn dwyn Mazzaroth allan yn ei hamser. "Geilw y sér wrth eu heiwau, a chan amllder ei rym Ef a'i gadarn allu, ni phalla un." Beth pe deuai sancteiddrwydd yr Anfeidrol i gyff-

yrddiad âg a fendid calon y pechadur? Lleddid yr euog, heb obaith adferiad.

Ond y mae yma gyfuniad gogoneddus—"Trugaredd a gwirionedd a ymgysfuant." Nid yw trugaredd yn gwneyd gwirionedd yn llai awdurdodol, na gwirionedd yn cyfyngu gweithrediadau trugaredd ar yr edifeiriol. Nid yw trugaredd yn lleihau dim ar ofynion cyfiawn gwirionedd, ac nid yw gwirionedd yn cau llaw trugaredd. Y mae y ddau wedi ymgysfuant—wedi cael un rhêdle cyffredinol i'w gofynion a'u bendithion, ac ymgeleddant yr un gwrth-ddrychau yn yr Efengyl. Mae lliwiau yn ogoneddus pan ar wahan. Edmygwn y rhosyn coch, er mai ar ddraenen y mae yn tyfu. Edmygwn y lili wen, wylaidd, daflodd sidanau y dwyrain am Solcmon i'r cysgod yn dragywydd. Synwn at y glaswelltyn; er mai byr yw ei oes, y mae yn awgrymu gwers i'r byd. Os yw lliwiau felly yn ogoneddus, beth ydynt wedi iddynt gael eu cyfrododdu drwy eu gilydd yn enfys cyfamod Duw â Noah. Mae rhinweddau dynol yn ogoneddus byth ar wahan. Anfarwolodd ffydd enw Abraham, amynedd enw Job, plyga dyngarwyr ein hoes ni i enw John Howard, adroddir am haelioni arall; ond beth yw gogoniant y rhinweddau yna pan wedi cydgyfarfod yn yr Hwn yr oedd holl gyflawnder y Duwdod yn preswyllo yn gorfforol? Yn ngherbyd gwirionedd y gwelir trugaredd ar bob amgylchiad. Ni ddaeth gwirionedd i'r byd hwn erioed heb drugaredd gydag ef. Talodd y tywysog brenhinol hwn ymweliad â'r hen fyd, ond cymerodd drugaredd gydag ef i gloi drws yr arch, a gofalodd am yr allwedd ei hun. Oni buasai Joseph, buasai wedi dyfod yn newyn mawr ar yr Aipht. Ond bu ef yn foddion i barotoi ar gyfer y newyn; ac am hyny, cafodd gerbyd y brenin, modrwy y brenin, a chadwyn aur am ei wddf, a phawb i waeddu "Abrec." Oni buasai trugaredd, buasai yn newyn tragywyddol ar y ddaear. Ond yn ngwyneb y darpariadau, gwelir trugaredd yn dyfod i'r ddaear yn y cerbyd brenhinol. Mae modrwy aur y cyfamod ar ei llaw, a gwirionedd yn

gorchymyn i bawb blygu o'i blaen. Ni chawsai gwirionedd fyned i un man heb drugaredd. I ba le wyt ti yn myned, wirionedd? Yr wyf yn myned yn dystiolaeth ar ddwy lech o fewn arch y cyfamod. Mi ddof finau yn gauad ar yr arch, yn drugareddfa aur, meddai trugaredd. I ba le yr wyt ti yn myned wirionedd? Yr wyf yn myned gyda'r Iesu i gyhoeddi gwaeau uwchben y Phariseaid. Mi ddof finau i gyhoeddi bendith uwchben y Publicanod edifeiriol. Gyda'u gilydd yn mhob man. Canodd Moses â'r bobl gân i'r Arglwydd ar lan y Môr Coch, ond yr oedd Miriam y broffwydes yno hefyd. A glywch chwi wirionedd yn canu? Efe "a dywysodd ei bobl trwy yr anialwch: o herwydd ei drugaredd sydd yn dragywydd." "Yr hwn yn ein hisel-radd a'n cofiodd ni: o herwydd ei drugaredd sydd yn dragywydd."

"CYFIAWNDER A HEDDWCH A YMGUSANASANT."—*Cyfiawnder*.—Y mae gwahanol ystyron i'r gair "cyfiawnder" yn yr Ysgrhythrau, a derbynia ei ystyr fel rheol o'r cysylltiadau y saif ynddynt. Golyga weithiau y gonestrwydd hwnw sydd rhwng dynion a'u gilydd mewn ystyr fasnachol; brydiau eraill golyga weithrediadau gorsedd Duw; a phrydiau eraill golyga y briodoledd hono yn Nuw. Y gwahaniaeth rhwng gwirionedd a chyfiawnder yw, fod y naill yn sylfaen, a'r llall yn adeilad. Mae y naill yn egwyddor, a'r llall yn ddeddf. Mae cyfiawnder yn hanfod bywyd, a'r gwirionedd yn rheol bywyd. Y gofynydd yw cyfiawnder, a gwirionedd yw y gofynion. Mae y naill a'r llall yn rhedeg yn gyfochrog yn hanes holl lywodraeth Duw. Cyfiawnder yw sylfaen gorsedd y Jehofa. Mae priodoleddau eraill Duw yn rhedeg allan o'r orsedd, ond y mae hon yn aros yn sylfaen. Datgenir gogoniant Duw gan y nefoedd, dywedir am waith ei ddwyllaw Ef gan y ffurfafenau, ond cuddir cyfiawnder gan gymylau. Mae gormod o ddisgleirdeb yn ei belydrau heb eu dofi â thywyllwch. Gellir dweyd fod doethineb yn holl waith Duw, ond nid dyna sylfaen ei orsedd. Dyma beth cryfaf llywodraeth Duw yw cyfiawnder, a rhaid i bobpeth blygu

i hwn. Mae deddfau natur yn gryfion. Nid oes gymaint ag enghraifft o wendid ynddynt. "Yr haul a' edwyn ei fachludiad;" ffeindiodd ddrws ei ystafell er dydd ei gread. Gosododd derfyn i'r môr, a chyn yr â drosodd bydd ei dônau cynddeiriog yn ddafnau mân. Rhoddodd ffordd i fellt y taranau, ac ni chamsyniant eu llwybrau. Ond pe diddymid ordeiniadau y nefoedd, a thynu i lawr y terfynau gosodedig, safai cyfiawnder yn ddiysgog yn nghanol y rhyferthwy, a byddai yn ddigon galluog i ddâl gafael yn nghrwydriaid y bydysawd, a'u hadfer i drefn.

Cyfiawnder sydd yn cylchynu yr angelion yn y nefoedd i droi o amgylch gorsedd y Jehofa. Hwn drodd yr allwedd yn y clo i osod cythreuliaid yn y carchar, heb obaith diangfa. Hwn osododd gleddyf tanllyd yn llaw Cerub yn ymyl porth Eden, a safai rhwng Duw a phechadur ar hyd yr oesau. Nid yw yn newid yn ei ofynion; nis gall ofyn mwy, na derbyn llai. Nid yw yn wan yn ei fygythion; ceicw y min arnynt i daraw yr annuwiol. Nid yw yn brin yn nghyfoeth ei fendithion, er cyfoethogi miliynau. Hwn ydoedd yn nyddiau y proffwyd Zechariah yn gyru allan bedwar o gerbydau i gynniwair y ddaear, a deuant allan oddirhwng dau fynydd o brês—arfaethau digyfnewid yr Hollalluog. Byseidd anweledig hwn a ysgydwai ddail y goedwig, nes siglo calon y llofrudd, nododd Cain yn ei dalcen am ladd ei frawd, gamiataodd i gwn Samaria lifo gwaed yr hwn a gynygiodd am fywyd proffwyd Duw, wnaeth i Darius gadw gwylnos pan oedd Daniel yn cysgu rhwng mynwesau llewod, gadwodd gydwybod Herod yn y fynwent i ddweyd "Y Ioan y torais i ei ben *yw*," aca dynodd dystiolaeth o enau Judas i ddiniweidrwydd yr Hwn a fradychodd. Un cryf yw cyfiawnder. Dyma y cyfiawnder sydd yn dyogelu y caiff y rhai a rydd gwpanaid o ddwfr i ddisgybl yn enw disgybl, eu gwobr; y caiff Rahab fyw pan y bydd Jericho yn syrthio, a Joshua orfoleddu pan y bydd Israel yn gorchfygu. Hwn sydd yn tynhau tânau telynuau gogoniant, yn cadw hoenusrwydd yn edyn seraph-

iaid, yn gofalu am *ddates* addewidion cyfryngwriaeth, yn cloddio o dan sylfaeni y bryniau sydd i gael eu gwneyd yn wastadedd, ac yn *surveyo* y ffordd uniawn, gan dynu y gwyrni o honi, yn gofalu am weision cymhwys i etifeddion iachawdwriaeth, gan eu cyfeirio tua'r ddinas gyfaneddol, a hwn sydd yn rhoddi yn eu geneuau gân newydd—"Cyfiawnder marwol glwyf, a haeddiant dwyfol loes."

HEDDWCH.—Dyma un o eiriau tyneraf iaith, a chyfranydd penaf cysuron bywyd ar y ddaear. Absenoldeb hwn sydd yn cyfrif am lawer o drueni y ddaear. Mae llwyddiant masnachol y byd yn dibynu ar heddwch. Nid yw yr eos yn canu yn sŵn saethau, y blodau yn aroglu ar ol i'r llwydrew ddisgyn, na'r yd yn addfedu ar ol i'r gauaf ddyfod. Pa wlad mor ddedwydd a llwyddianus a'r wlad y mae heddwch yn teyrnasu ynddi? Mae ei llywodraeth yn gyfiawn, a'i bro yn heddychol. Ffurfa ei deddf-wneuthurwyr gyfreithiau i atal drygioni, i wastadhau a dyogelu iawnderau, i symud beichiau cymdeithas, i hyrwyddo addysg a gwybodaeth, ac i wneyd y genedl yn un gref mewn dysg a rhinwedd; ac argraffa ar faneran ei llongau "Heddwch a chyfiawnder." Rhoddir mwy o bwys ar egwyddorion mawrion ac hanfodol dynoliaeth nag ar wagogoniant. Y dyngarwr a glodforir, a'r moes-ddysgwr a wobrwyr. Sefydlir ei hysgolion ar gyfer astudio pethau mawrion natur a datguddiad; ac nid William Armstrong a gaiff deitl am wneuthur *cannon*, ond Robert Moffat am dreulio ei oes yn nhywyll-leoedd y ddaear, yn mysg paganiaid, i daenu egwyddorion gwirionedd. Pa eglwys mor lwyddianus a'r eglwys y mae heddwch o'i mewn? Meibion tangnefedd a heddychol ffyddloniaid Seion, y gelwir ei haelodau. Codi i fyny wreiddiau gwenwynig annghydfod, ac adfer heddwch, yw amcan ei bodolaeth. Yn un a chytun oedd hi pan ddisgynodd addewid y Tad arni yn Jerusalem. Myned allan yn llu banerog i gydymosod ar ddrygau yw un o brif amodau ei llwyddiant. Bod heddwch o fewn ei rhagfur, sydd yn cyfrif am fod

ffyniant yn ei phalasaau. Y mae yn anhawdd clywed dim tra y bydd storm o fellt a tharanau yn yr awyrgylch. Mae gorlifiadau yn dinystrio y ffrwythau ar y glenydd; mae blodau y pren afalau yn cwmpo o dan nerth y storom. Mae diffyg heddwch yn lladd nerth yr eglwys gryfaf; ac yn gosod maglau am weithrediadau yr eglwys fwyaf lwyddianus.

Heddwch,—mae hwn fel colomen yr arch, yn ehedeg uwch ben diluw cenfigen, gelyniaeth, a drygioni y byd, gan gario dalen werdd olew-wydden proffwydoliaeth yn ei gylfin, i ddweyd fod y diluw yn myned yn llai, a blodau Paradwys yn dechreu ail-ymddangos ar ol y dinystr. “A bydd dy heddwch fel yr afon, a’th gyfiawnder fel tônau y môr.” Mae hwn yn myned allan i faes y gwaed wedi y frwydr, i arllwys olew i archollion y clwyfedigion, ac i gladdu y trueiniaid a aethant yn ebyrth i greulondeb ac uchelgais dynion annuwiol. Am hwn y mae yr amddifad yn gwaeddu, y weddw yn wylo, a’r fam yn ocheneidio. Hwn ysgrifonodd gytundebau teyrnasoedd ar derfyn rhyfeloedd gwaedlyd, ac a beraroglodd enwau *nurses* a ymgeleddodd y trueiniaid. Y mae yn hunan-ymwadol, ond yn wrol; yn ddistaw, ond yn hyawdl; yn dymuno caredigrwydd, er ei fod yn frenin; yn ymwisgo mewn sachliain ar ddydd gwyl rhyfel, er fod ganddo ei sidanau; ac yn wylo er fod ganddo delyn. Rhodia drwy ganol byddinoedd, ond nis gellir ei ladd; rhybuddia y gorchfygwr, a chyweiria wely y gorchfygedig; ac ar ddydd dathliad y fuddugoliaeth, ni wél ef yn werth gwrando ar y clychau na’r *bands* yn chwareu, eithr plana flodau ar feddau y llofruddiedig, a bydd yn gwneyd banerau heddwch ar gyfer y dydd na ddygant ryfel mwyach. Mae yn well ganddo weled sychau na chleddyfau, pladuriau na gwaewffyn. Mae cerddoriaeth iddo ef yn nghân aflafwr yr aradwr, a *music* iddo yn hogiad y pladuriau. Buasai yn well ganddo dreulio wythnos yn maesydd Boaz gyda y medelwyr a’u crymanau, yn swn caneuon y llancesau o bentref Bethlehem, na threulio awr

yn ngwersyll y Philistiaid. *Heddwch*, am hwn y mae cythreuliaid uffern yn ocheneidio, canu am hwn oedd yr angelion ar y boreu hynod hwnw—"Ar y ddaear *tangnefedd*." Rhoddi hwn y mae Ysbryd y grás yn yr enaid, yn dangnefedd uwchlaw bob deall; a dyma enw goruchel Duw—Duw y *tangnefedd*. Pwy na ddymunai am dano?

"CYFIAWNDER A HEDDWCH A YMGUSANASANT."—Y mae cydweithrediad rhyngddynt erioed yn llywodraeth Duw; ond awgrymir yma fod rhywbeth yn hanes y ddaear pan y safent yn mhell oddiwrth eu gilydd. Sylfaen gwir heddwch yw cyfiawnder, a ffrwyth perffaith gyfiawnder yw heddwch. Nis gall gwir heddwch fodoli ond drwy gyfiawnder. Mae sefyllfa cyfiawnder yn gyfryw fel y deil berthynas â dyn am dragywyddoldeb, ond gall dyn fod heb heddwch. Eithr sonia yr adnod hon am gyfarfyddiad y ddau—"Cyfiawnder a heddwch a ymgusanasant." Anghyfiawnder yw pechod, ac felly cynyreha ryfel rhwng hawliau a bywyd, a rhaid i'r naill blygu i'r llall. Ni buasai heddwch ar draul diystyru hawliau cyfiawnder yn ddyogel, ac ni buasai cyfiawnder heb heddwch ond gallu i ddamnio. Mewn dau fan y gwelir cyfiawnder heb heddwch, sef yn uffern ac yn Nghalfaria. Yn uffern y mae yn cosbi yr annuwiol, am eu drygioni, yn amddiffyn hawliau y llywodraeth ddwyfol, ac wedi cloi mewn caethiwed rhai a gamddefnyddiasant eu rhyddid. Yn uffern y mae y bygythion fuont yn-saethau ar fwa y ddeddf am flynyddau, wedi eu gollwng at yr annuwiol, mae yr ystorm a fu yn crynhoi wedi tori allan yn fellt digofaint. Yno y mae cyfiawnder wedi cydio yn y cleddyf y bu efe yn ei hogi am flynyddau, a *date* "y llid a *fydd*" wedi ei newid.

Yn Nghalfaria gwelir cyfiawnder yn taro Meichniydd y cyfamod newydd, yn gollwng melldith y ddeddf i galon yr Hwn nid adnabu bechod. Nid oes sŵn heddwch yn y ffrwydr; ond hi ddybenodd yn heddwch tragywyddol. Ynddo Ef y mae cyfiawnder wedi derbyn lawn, a dyma sail heddwch i fyd euog. Lleddid yr aberthau yn ol y

gyfraith yn y gwersyll, dygid eu gwaed i'r cysegr sancteiddiolaf gan yr archoffeiriad, taenellid ef yno ar y drugareddfa rhwng edyn y Cerubiaid; ond ar ddydd y cymmod gwelid yr archoffeiriad mewn gwisgoedd llaesion, yn chwythu yn yr udgorn arian, nes y buasai miloedd Israel yn gorfoleddu, heddwch a maddeuant wedi cyfarfod ar gauad yr arch ar y drugareddfa. Bu farw Crist yn Aberth; yn ei aberth, cafodd cyfiawnder gymaint a allasai ofyn; ac o dan yr anfeidrol ofynion, bu Mab y dyn farw; ond ar y trydydd foreu, daeth i fyny o Edom o Bosrah, yn chwythu yn udgorn arian yr Efengyl. Codi i gyfiawnhau yr annuwiol. Oddiar y boreu hwnw, y mae heddwch yn dyfod o Sinai, fel o Galfaria. Mae melldithion mynydd Ebal yn distewi yn mendithion mynydd Seion. Mae angel dinystriol yr Aipt wedi troi yn was i etifeddion iachawdwriaeth. Y mae hwn yn wirionedd yn nghyfnewidiad calon y pechadur edifeiriol. Dydd hynod oedd hwnw pan ddaeth hawliau cyfiawnder yn eu llymder a'u manylrwydd i ofyn. Cododd yn storom, torodd allan yn felt tanlyd, ond cyfeiriodd trugaredd wyneb pechadur i Galfaria, lle y daeth iddo heddwch. Tawelodd y storom, llonyddodd y môr. Pwy a all roddi desgrifiad o'r amgylchiadau? Nefoedd yn duo, uffern yn poethu; ond daeth heddwch.

“Er nad yw'n nghnawd ond gwellt,
A'm hesgyrn ddim ond clai,
Mi ganaf yn y mellt,
Maddenodd Duw fy mai.
Mae Craig yr Oesoedd dan fy nhraed,
A'r mellt yn diffodd yn y gwaed.”

“GWIRIONEDD A DARDDA O'R DDAEAR, A CHYFIAWNDER A EDRYCH I LAWR O'R NEFOEDD.”—Y mae melldithion pechod wedi disgyn hyd yn nôd ar y ddaear. Mae ei gwyneb yn cael ei greithio gan ddrain a mieri; ond y mae dyddiau gwell i wawrio, pan y tyf ffinidwydd yn lle drain, a myrtwydd yn lle mieri. Mae yma gyferbyniaeth brydferth—gwirionedd yn myned i fyny, a chyfiawnder yn dyfod i lawr.

Daear a nefoedd yn myned i gyfarfod â'u gilydd. Os bydd cyfiawnder yn edrych ar y ddaear drwy gyfryngwriaeth, bydd ffrwyth cyfryngwriaeth yn sicr o godi tua'r nefoedd.

Mae y gwanwyn yn ogoneddus. Sylwer ar y gwllith. Disgyna yn gawodau, heb ddihuno y baban yn ei gryd, nac aflonyddu hun yr hen wr sydd yn codi wrth lais yr aderyn. Dacw y wawr yn tori, ac â chadach sidan yn sychu y deigrin sydd ar rudd wen ddihalog y lili; yn *fanio* dail y goedwig, i roddi awyr i *lungs* yr adar bach i ganu; yn taenu *carpet* gwyrdd-las i wneyd *playground* i'r wŷn. Onid oes rhywbeth yn debyg i wirionedd yn tarddu o'r ddaear. Daear ogoneddus fydd y ddaear hon wedi i'râs godi y creithiau oddiarni, wedi i'r awyr gael ei buro oddiwrth lŵon a chabledau yr annuwiol, pan y llenwir hi â mawl Seion, a blodau y Baradwys gyntaf yn ail-y addeddangos gyda mwy o ogoniant. Beth fydd gogoniant y ddaear wedi y perffeithir arni waith cyfryngwriaeth? Bydd yma gyfnewidiad trwyadl. Yr oedd afonydd Abana a Pharphar yn Damascus yn gallu golchi i fwrdd fudreddi, ond yn yr Iorddonen y colodd Naaman ei wahanglwyf. Pan y bydd cyfiawnder yn cartrefi ar y ddaear, bydd yma wirionedd yn mhob man. Ni wnaeth Crist ond edrych ar y dwfr yn y briodas, ac fe wridodd wrth ei edrychiad. Bydd cyfiawnder yn edrych i lawr, nes newid gwyneb y ddaear. Drwy gyfryngwriaeth y mae cyfiawnder yn edrych ar y ddaear. Edrychodd ar yr hen fyd heibio, nes y berwodd ffynonau y dyfnder; aeth ei wreichion i gyffyrddiad âg elfenau Sodom, nes y llosgodd y ddinas yn ulw. Ond drwy gyfryngwriaeth yr edrycha yn awr. Edrychodd yr Iesu ar Pedr, nes y tynodd ddagrau edifeirwch o'i galon. Ond tafodd faddeuant yno drwy yr un edrychiad. Nid oes eisiau ond i'r haul agor ei lygaid, i edrych ar y glaswelltyn, na bydd efe wedi tafu ei fynwes yn agored i ddweyd ei hanes wrth bawb a'i gwêl.

Bechadur! y mae gan gyfiawnder gleddyf yn ei law eto, mell tannlyd yn ei edrychiad eto, barnau yn swm ei gamrau

eto, ac ni wna gymmod â thi yn un man ond yn yr Hwn a dalodd ei holl ofynion. Ond wedi dy gymmodi, bydd cyfiawnder a gwirionedd yn sefyll rhyngot a'r gwaethaf byth. Ni'th losgir yn y fflam, ni'th foddir yn y tônau, ni'th newynir gan yr amgylchiadau, "dy fara a roddir i ti, a'th ddwfr fydd sicr." Daw y ddaear mor debyg i'r nefoedd, fel y bydd y naill yn gweled ei darlun yn y llall.

PREGETH XVII.

Y TEITL AR Y GROES.

"A PHILAT a ysgrifennodd deitl, ac a'i dododd ar y groes. A'r ysgrifennodd, IESU O NAZARETH, BRENIN YR IUDDEWON. Y teitl hwn gan hynny a ddarllenodd llawer o'r Iuddewon; oblegyd agos i'r ddinas oedd y fan lle y croeshoeliwyd yr Iesu, ac yr oedd wedi ei ysgrifenu yn Hebraeg, Groeg, a Lladin."—IOAN xix. 19-20.

MAE yr amgylchiad sydd yn dyfod â'r adnodau yma i fewn yn sefyll fel prif amgylchiad llywodraeth Duw, sef, croeshoeliad Arglwydd y gogoniant. Mewn cyferbyniad i hwn y mae pob creulondeb arall yn diriondeb, pob gelyniaeth arall yn gariad, a phob dyoddefaint arall yn fwynhad. Yma y mae pechod yn fwyaf porfforaidd, anwiredd yn cael fwyaf o'i ysgarlad, a dirmyg a gwaradwydd ddyfnaf o bob man. Yn nghroeshoeliad yr Arglwydd Iesu, gwelir y fath gydgyfarfyddiad o amgylchiadau, sydd yn ymddangos ar yr olwg gyntaf yn ddamweiniol, ond oeddynt o dan oruwch-lywodraeth Duw—cydgyfarfyddiad na welir ei fath yn hanes yr holl hil ddynol. Nid rhyfedd i un ddywedyd, "Yn wir, Mab Duw oedd y dyn hwn." Arferiad yn mhlith y Rhufeiniaid oedd croeshoelio, ac arferent ar achosion neillduol ysgrifenu uwchben y croeshoeliedig yr achos o'i groeshoeliad. Ni wnaent hyn bob amser, ond ar achlysuron penodol. Yn gyson â'r arferiad hwn, mae Pilat, swyddog Rhufain, yn gwneyd hynny â Christ. Tra thebyg y gall fod llawer math o ysgrif wedi ei rhoddi ar y groes o'r blaen, ond ni welwyd tebyg i hon yno. Cyhoeddi euogrydd y croeshoeliedigion y byddent bob amser, ond dyma ysgrif yn cyhoeddi gogoniant y Croeshoeliedig. Megys na chroeshoeliwyd neb erioed o'r blaen fel Hwn, felly ni chafodd un groes erioed o'r blaen yr anrhydedd o

ddwyn teitl o fath hwn. Mae teitl pob croeshoeliedig arall yn gwneyd enw Calfaria yn ddychryn, yn gwisgo copa y mynydd â gwaradwydd, cwmwl o ddirmyg; ond y mae teitl Iesu o Nazareth wedi clirio y cwmwl gwaradwyddus, mae Calfaria wedi colli ei ddychryn, a Duw wedi sefydlu deddf at-dyniad ei lywodraeth foesol yn y man y bu dynoliaeth yn arswydo rhagddo.

Ysgrifenyd y teitl gan Pilat. Edrychir ar swydd barnwr fel un o'r rhai pwysicaf, yn enwedig pan y byddo cadw neu golli *hywyd* yn y cwestiwn. Disgwylir cael yma wybodaeth äang, a meddwl uwchlaw teimlo un dylanwad, ond yn unig oddiwrth ffeithiau. O bob barnwr y daeth i'w ran i benderfynu y cwestiwn o fyw neu farw carcharor, y mwyaf anhapus ei ran oedd Pilat. Fel y mae marwolaeth pob carcharor arall yn cilio i'r cysgod yn ymyl marwolaeth y Gwardwr, felly y mae dedfryd pob barnwr yn diflanu yn ymyl dedfryd Pilat. Ni dderfydd Pilat byth a melldithio ei ran iddo fod yn farnwr ar achos Crist. Ar un adeg ar y prawf, gallasid meddwl fod Pilat yn meddu ar ddigon o wroldeb i amddiffyn Crist. Tystiolaethodd i'w ddiwiweidrwydd, ac yr oedd cryn lawer o wroldeb yn angenrheidiol at hyny; ond fel yr oedd gelynyon Crist yn ymhyflau, mae gwroldeb Pilat yn dechreu cilio. Gwir fod Pilat mewn lle cyfyng, ond nid oes unrhyw gyfyngder a gyfreithlona ddyn i symud oddiar lwybr ei ddyledswydd. Ceisiodd Pilat wneyd yr hyn mae llawer wedi geisio wneyd ar ei ol—boddloni dwy ochr, a gadael i wirionedd gael ei sathru ar yr heol. Ofnai ei gydwybod ar y naill law, ac ofnai yr Iuddewon ar y llaw arall. Er mwyn boddloni yr Iuddewon, traddododd Grist iddynt i'w groeshoelio, a golchodd ei ddwylaw mewn dwfr, er mwyn boddloni ei gydwybod; eto, mae lle i ofni fod ei gydwybod heb ddistewi hyd heddyw. Ond fe fynodd Duw i'w adyn hwnw dystiolaethu i wirionedd, nad oedd ef ei hun yn gweled dim o hono. Yr oedd y darn llaw yn dychrynu Belsassar, ond gwnaeth llaw halogedig Pilat ysgrifenu cysur i'r holl gyd.

Ysgrifenydd y teitl yn y tair iaith, i ddangos Iesu fel y canolbwynt i grefydd yr Hebraeg, doethineb y Roeg, a gallu y Lladin.

I. TEITL IESU GRIST FEL BRENIN WEDI EI YSGRIFENU YN HEBRAEG, I'W DDANGOS FEL CANOLBWYNT CREFYDD Y BYD.— Mae amcanion Duw yn ymguddio yn nghysgod eu gilydd yn fynych. Y nesaf atom ydym ni yn ei weled, tra y mae y pellaf oddiwrthym, fe ddichon, sydd bwysicaf. Tra y gwnelai y Rhufeiniaid ysgrifenu achosion carcharorion neillduol, eto, ni wnaent hyny mewn tair iaith ond yn anaml. Ond goruwch-lywodraethodd Duw yr amgylchiadau, fel yr ysgrifenydd achos Iesu o Nazareth mewn tair iaith. Yr ydym yn dywedyd goruwch-lywodraethu, am y rheswm fod gan Dduw amcanion neillduol yn ngosodiad yr ysgrifeni i fyny. Ni welir yr amcanion hyny heb i ni edrych ar holl amgylchiadau bywyd a marwolaeth y Gwaredwr yn eu perthynas â'r *ewyllys ddwyfol*. Tra y cydnabyddwn gydgysfarfyddiad amgylchiadau, eto, nid i'r cydgysfarfyddiad hyny y priodolwn hynodion bywyd a marwolaeth yr Arglwydd Iesu. Mae llywodraeth Duw ar feddwl, ar dafod, a threfniadau yr annuwiol, a chyrhaedda ei amcanion mawrion ei hun drwy hyny. Gwnai i Phari-sead balch wrth geisio cyhuddo yr Iesu, gyhoeddi gobaith i bechadur. "Mae hwn yn derbyn pechaduriaid." I Pilat wrth geisio clirio ei hun, gyhoeddi dylanwad y marw y trochodd efe ei ddwyllaw ynddo ar y byd; ac i'r milwr wrth geisio amddiffyn eu hunain, i bregethu adgyfodiad Crist o'r bedd. Nid oes dim yn arddangos goruwch-lywodraeth Duw yn fwy nag amgylchiadau y groes. Pan oedd creulondeb pechadur wedi codi i'w fan uchaf, diafol wedi gweithio ei gynlluniau allan berffeithiaf, drygioni y galon ddynol ac eiddigedd satanaidd wedi ymuno yn erbyn y Gwaredwr, y pryd hwnw y mae dwyfol ddoethineb wedi arfaethu codi baner iachawdwriaeth i fyny, rhoi iachawdwriaeth wrth byrth uffern, ac achub un oedd â sawyr y fflam arno, i Baradwys gyda'r Iesu. Un o neillduolion cenedl

yw y serch sydd ganddi at ei hiaith. Fel y mae y boneddwr cyfoethog yn ofalus am ei eiddo, felly y mae cenedl am ei hiaith. Dyma drysordŷ y genedl; yma y ceidw hi ei thrysorau, a rhydd bob peth i fyny o flaen ei hiaith a'i chrefydd. Ond ymddengys nad yw pob iaith yr un mor ogoneddus. Fel y mae cenedloedd yn gwahaniaethu mewn dysg a gallu, felly y maent yn gwahaniaethu a rhagori yn eu cyfoeth meddyliol. Ond dichon na chyfeiliornem pe dywedem, ag eithrio un, mai y iaith Hebraeg yw y fwyaf ogoneddus. Yma y mae trysorau meddyliol mwyaf y byd. Hon oedd iaith y genedl a ddewisodd Duw iddo ei hun. Yn yr iaith hon yr ysgrifenyddwyd cyfraith Duw. Fe ystyrir yr iaith ag y byddo y gyfraith ynddi yn bwysig. Hono yw iaith y llys brenhinol, llysoedd cyfreithiol, masnach, ymrwymadau, a phobpeth y llywodraeth fel *llywodraeth*. Pan ddisgynnodd Duw ar Sinai, ysgrifennodd y ddeddf â'i fys ei hun. Nid ydym yn cael i un iaith arall gael yr anrhydedd yma. Ymfrostir weithiau pan fyddo gweithiau neillduol wedi eu cyhoeddi mewn rhyw iaith, mai yr iaith hono yw yr ogoneddusaf; ond beth am yr Hebraeg?—Iaith ag a allai ymfrostio yn ysgrifenu Duw ei hun. Dyma yr iaith a gafodd yr anrhydedd o gyfleu i'r byd syniad am sancteiddrwydd, cyfiawnder, a grâs Duw. Ysgrifenyddwyd y gyfraith ar galon dyn, ond collwyd hi oddiyno, a rhoddwyd hi yr ail waith yn yr iaith oedd yn nesaf i'r galon. Mae ysbryd Duw yn ei chodi eto o'r iaith i'r galon. Dangosid perthynas rhwng Crist a'r gyfraith yn ysgrifeniad y teitl yn Hebraeg. Amcanai Ysbryd Duw ddysgu y byd wrth gyfarwyddo llaw Pilat i ysgrifenu y teitl yn Hebraeg, iaith y gyfraith, fod y deddfwr a'r ysgrifenu gerllaw eu gilydd. Gwnaethpwyd yr Arglwydd Iesu dan y ddeddf. Nid dileu oedd hyny, ond yn unig *newid safe*. Gall yr un dyn fod yn awdwr deddf, a bod yn ddeiliad iddi wedi hyny. Bu Iesu Grist farw dan felldithion deddf—ei ddeddf ei hun ydoedd; ond ei gariad a wnaeth ei melldithion yn eiddo iddo. Ysgrifennodd Duw ei ddeddf ar lechau ar

Sinai, ond cariodd hi yn ei galon i'r groes. Crynodd Sinai wrth ei rhoddi, crynodd Calfaria wrth ddyoddef ei melldithion. Crynu nes gyru ofn marw ar ddyinion byw wnaeth Sinai, ond crynu nes gyru chwant byw ar ddyinion marw a wnaeth Calfaria; ac fel rheswm dros bethau mor rhyfedd, gwnaeth Ysbryd Duw i Pilat ysgrifenu ar y groes—"IESU, BRENIN YR IUDEWON." Nid oedd rhaid ysgrifenu hyny pan y rhoddwyd y gyfraith. Yr oedd y mawredd oedd yno yn cyfateb i'r syniad sydd yn y meddwl dynol am fawredd. Ond pan oedd 'Crist yn dyoddef, yr oedd yn rhaid ysgrifenu ei deitl; yr oedd ei ddirmyg yn cuddio ei ogoniant. Ni raid dweyd wrth deithiwr mai pendefig sydd yn byw yn y palas. Yr Anfeidrol yn nghysegr anian oedd ar Sinai. Yr oedd pawb yn ei adnabod Ef yno. Yr oedd Ef yno yn gwisgo goleuni fel dilledyn, ei fellt yn llewyrchu y byd, ac yn gwneyd taranau â'i lais. Yr oedd ei orsedd yn ddigon amlwg. Gwelai dynion y *brenin* drwy y cwbl. Ond daeth y brenin yn agwedd *gwas*, magwyd ef yn Nazareth, bu fyw yn mhlith pechaduriaid, a bu farw ar y groes. Mae ei swydd frenhinol o'r golwg; mae y Deddfwr o'r golwg; ond os nad yw dynion yn gweled dim ond gwrthodedig, gofalodd dwyfoliaeth ysgrifenu "*Brenin yr Iuddewon.*"

Tra y cydnabyddwn fod yr iaith Hebraeg wedi ei hanrhydeddu drwy gael y gyfraith wedi ei hysgrifenu ynddi, eto, i gyfarfod â dynoliaeth lygredig, fe roddwyd ynddi beth mwy gwerthfawr. Fel yr oedd cenedl Israel yn briodoriaeth i Dduw, felly yn yr iaith Hebraeg y cafwyd datguddiad o feddwl grâsol Duw. Yr Hebraeg oedd iaith *crefydd* y byd cyn yr ymgnawdoliad. Mae y datguddiad hwn yn cynnwys gwirioneddau pwysig am Dduw a dyn, amser a thragywyddoldeb. Datguddiad o Dduw fel gwrthddrych i'w addoli, a dyledswydd dyn i'w addoli. Pob datguddiad a gaed o Dduw, yr oedd yn yr iaith Hebraeg. Iaith gwir grefydd oedd hon. Mae yn wir fod ieithoedd eraill, a chrefyddau eraill. Mae eulun-addoliaeth



yn hen iawn. Mor fuan ag y dechreuwyd addoli y gwir Dduw, fe ddechreuwyd addoli eulunod. Ond rhaid cael canolbwynt i grefydd. Canolbwynt y llywodraeth wladol yw y brenin. Diddymer yr orsedd, chwelir y llywodraeth, a dinystrir y cyfansoddiad. Mae pob awdurdod yn dyfod o hono ef. Fel y mae y galon i'r corff dynol, felly mae y brenin i'r llywodraeth wladol. Diorseddwyd brenin yn ddiweddar, ac er pan ymadawodd â'r orsedd, nid oes yno ond rhyfel cartrefol yn anrhaithio y wlad, byddinoedd arfog, dinasoedd gwarchaedig, pentrefydd anrheithiedig, gwagedd gweddwon, a phlant amddifad. Mae y wlad wedi colli ei chanolbwynt, y deddfau wedi colli eu grym, a iawnderau yn cael eu sathru. Nid oes terfyn ar greulondeb y llofrudd, nac ar rhaib y lleidr. Mae y llew wedi tori drwy y *cage*, a'r anifeiliaid gwylltion yn ysglyfaethu. Mae deddf fawr cymdeithas wedi ei dryllio. Rhaid cael canolbwynt i bob llywodraeth, a'r *brenin* yw hwnw. Felly hefyd, rhaid cael canolbwynt i grefydd; a'r cyfeiliornad mawr y syrthiodd cymdeithas iddo oedd gweithio y gwirionedd hwn yn rhy bell—rhoi agwedd amhriodol iddo. Anhawdd cadw y meddwl o fewn terfynau priodol. Mae yn bosibl *gor*weithio gwirionedd. Pan welwyd mai y brenin oedd canolbwynt y llywodraeth wladol, ceisiwyd ei roddi yn ganolbwynt i grefydd. Rhaid i grefydd wrth ganolbwynt. Mae yr hwn sydd yn ganolbwynt i fod hefyd yn frenin; ond nid brenin gwladol. Dyma ei eiriau, "Fy mreniniaeth i nid yw o'r byd hwn;" a gyda golwg ar ei dylanwad, dywed, "A minau, os dyrchefir fi oddiar y ddaear, a dynaf bawb ataf fy hun." Canolbwynt crefydd yw Mab Duw ei hun. Beth sydd yn cyfrif am gyfanrwydd y genedl Iuddewig? Pan oedd cenhedloedd amgylchynol iddi yn cyfarfod â gwrthdarawiadau, cadwodd hon yn fyw a chyfan. Tra yr oedd llywodraethau gwladol yn codi, brenhinoedd yn cael eu coroni, cyfreithiau yn cael eu ffurfio, temlau yr eulunod yn cael eu cysegru, anghofid yr Arglwydd, ac felly nis gallesid disgwyl iddynt barhau. Tra

y mae genym *lawer* o sefydlwyr cyfundrefnau, eto, mae y cyfundrefnau hyny yn marw. Sefydlodd yr Arglwydd Iesu gyfundrefn, ond y mae Ef yn ganolbwynt i'w drefn ei hun. Fel yr oedd yn rhaid cael cyfundrefn a allasai gyfarfod â natur gyfan, felly hefyd yr oedd yn rhaid cael rhywun a fuasai yn ddigon mawr i fod yn ganolbwynt i'r natur hono. Fel yr oedd crefydd yn cyfarfod â'r natur ddynol yn ei bendithion a'i dyledswyddau, felly hefyd yr oedd eisiau bod canolbwynt crefydd yn ddigon mawr i gyfarfod â phob person; ac nis galleid cael gafael ar neb yn ddigon mawr ond y dyn â'r Duwdod ynddo yn trigo. Mae Iesu Grist yn ganolbwynt crefydd, fel y mae ei Aberth yw yr unig aberth sydd yn cyfarfod â chyffredinolrwydd llygredigaeth y natur ddynol. Fel y mae bodolaeth unrhyw lywodraeth wladol yn troi o amgylch y brenin a'r orsedd, felly y mae cydwybod y byd yn troi o amgylch yr Aberth. Fel y mae holl ddeiliaid y lywodraeth yn derbyn sierwydd am amddiffyniad i'w cymeriadau a'u heiddo oddiwrth gadernid yr orsedd, felly mae y meddwl dynol yn rhoddi ei holl obaith am gadwedigaeth ar ddigonolrwydd yr Aberth. Ac o'r tu arall, fel y mae gwendid yr orsedd yn dinystrio holl fodolaeth y deyrnas, felly y mae annigonolrwydd yr Aberth yn mhob crefydd ddynol yn dileu cysuron, ac yn tywyllu tragywyddoldeb ei hun. Ond fe ysgrifonodd Pilat eiriau o dan gyfarwyddyd Ysbryd Duw, sydd yn taflu goleuni ar holl gylch bodolaeth dyn. "*Brenin yr Iuddewon.*" Ni ysgrifonodd llaw neb erioed frawddeg bwysicach am yr Iawn na llaw Pilat. Mae edrych ar amgylchiadau y groes yn sugno meddyliau mwyaf llywodraeth Duw, ond nis gwyddom pa amgylchiad y rhyfeddir fwyaf ato. Synai ac anfoddlonai yr Iuddewon i Pilat ysgrifenu yr hyn a wnaeth, oblegyd nis gwelent hwy ond *croes*, tra yr oedd yno *orsedd*. Nis gwelent hwy ond *merthyr*, tra yr oedd yno *Iawn*. Nis gwelent hwy ond *heretic*, tra yr oedd yno *Broffwyd*. Tra na welai pechadur ond un melldigedig, gwelai Seion ei *Meichntydd*. Tra na welai dynion ond

damwain, gwelai angelion sylfaen at-dyniad tyrfa nas gall neb ei rhifo at Dduw. Gwrthodedig y ddaear, ond Etholedig y nef, drwg-weithredwr gan ddynion, ond Aberth dyhuddol digofaint; ac wrth farw mewn tloidi, fel Brenin fe roddodd deyrnas i'r lleidr edifeiriol. Os oedd coron ddrain ar ei ben, bu farw o dan ei deitl—"Brenin yr Iuddewon."

II. YSGRIFENWYD TEITL IESU GRIST YN Y ROEG, I DDANGOS MAI EFE YW CANOLBWYNT DYSGEIDIAETH Y BYD.—Mae hyn yn ein dwyn i olwg arall ar gyfryngwriaeth y Gwardwr. Daw yma o'n blaen yn y swydd o Broffwyd. Ysgrifenwyd rhan o'r Beibl yn yr iaith hon. Yn hon yr ysgrifenwyd y Testament Newydd. Dywedir mai dyma yr iaith odidocaf, a chyflawnaf o eiriau, iaith teyrnas a gododd yn uwch mewn llawer ystyr nag un deyrnas arall, yn enwedig yn ei dysgeidiaeth. Ymfrostiai yn ei dysgawdwr; iaith yr hen athronwyr oedd yn gweled mwy drwy y niwl, nag y mae llawer yn weled yn ngoleuni haul. Gwelent hwy fwy yn y nôs, na wél llawer yn y dydd. Dywedir mai yn yr iaith hon yr oedd y llyfrau goreu, y meddyliau mwyaf addfed, a'r meddylddrychau godidocaf. Mae y byd wedi arfer plygu o'i blaen, a thalu iddi deyrnged. Dywedir fod ei llenyddiaeth mor gyfoethog, fel yr ydys yn ei weled yn werth ei dysgu er mwyn cael gafael ar gyfoeth y meddyfian sydd ynddi. Ni welai neb ef yn werth i osod ei arian allan er mwyn yr hyn a geid oddiar lechweddau mynyddau Cymru; ond os nad oes dim ar eu hwynebau, mae Duw wedi cuddio cyfoeth *ynddynt*, nes ydynt fel coffrau mawrion, llawnion o drysorau. Felly am yr iaith Roeg, mae ynddi gyfoeth dihysbydd o feddyliau, fel y mae llawer un wedi cael trysorau gwerthfawr o'i mewn. Ond yr oedd yna ddiffyg pwysig yn ei holl ddisgeidiaeth, ac nis gallasai neb lanw y diffyg hwnw ond yr Hwn a'i gwnaeth. Mae y ddynoliaeth, er cael yr athrylith fwyaf, y syniadau goruchelaf, a'r iaith fwyaf ardderchog i'w trosglwydde, yn teimlo yn dlawd yn nghanol y cwbl. Nis gall corff fyw ar

ſtodau. Bara yw ei angen. Nis gall enaid foddloni ar ddim ond *gwirionedd*. Mewn trefn i gael cyfundrefn i fod yn ganolbwynt, mae eisiau iddi feddu ar dri o bethau, ac y mae y tri hyny yn Nghrist a'i ddysgeidiaeth, ac ynddo Ef yn unig.

1. *Gallu i roddi cyfundrefn o wirioneddau yn cyfateb i sefyllfa a safle y meddwl dynol.*—Yr unig wrthddrych sydd yn ddigon mawr ar y ddaear i ymaflyd mewn gwirionedd, yw meddwl; a'r hyn sydd yn ei alluogi i ymaflyd mewn gwirionedd, sydd yn ei alluogi i ymaflyd mewn cyfeiliornad. Mae y gwahaniaeth sydd rhwng cyfundrefnau yn cadarnhau fod y meddwl yn gallu gafaelyd yn y ddau, ac y mae y rhan fwyaf o honynt yn cynnwys y ddau. Nid ydynt mor dda fel nad oes rhyw gymaint o ddrwg ynddynt, nac mor ddrwg fel nad oes rhyw gymaint o ddaioni ynddynt. Ond er fod y meddwl yn gallu ymaflyd yn y ddau, eto, nis gall un gyfundrefn sydd yn cynnwys y ddau, gyfateb i'r meddwl dynol. Tra y byddai un yn codi, byddai y llall yn tynu i lawr; tra y byddai y naill yn saneteiddio, byddai y llall yn halogi. Un o ddeddfau bywyd yw cynydd; ac un o nodweddau y meddwl dynol ydyw. Mae pob bywyd fydd o dan ddeddf yn cynyddu; ond cynyddu mewn ddeddf, ac yn gyson â deddf y mae. Yn y gyfraith sydd yn gwahardd y mae ein rhyddid ni. Felly cynydd yn gyson â deddf yw cynydd y meddwl. Rhaid gofalu hefyd am gydgordiad rhwng yr ymborth a natur y bywyd.

Ymddengys nad oedd neb yn deall y meddwl, o herwydd yr oedd ei feddygon ei hun yn ei ladd. Yr oedd eisiau ar y meddwl gael cyfundrefn fuasai yn fwy nag ef ei hun, fel y wisg am y corff. Ond pa feddwl allasai fyw uwchlaw iddo ei hun? Pwy allasai gario mwy na'i nerth? Twyllwyd y meddwl lawer gwaith. Ni allasai neb roddi cyfundrefn o wirioneddau yn cyfateb i'r meddwl, ond yr Hwn a grëodd y meddwl. Wrth ddilyn datguddiadau o wirionedd yn yr hen oruchwyliaeth, gwelwn mai araf iawn y gwnawd

hyny. Ond yr oedd y gwirionedd a ddatguddid yn llawer mwy na'r meddwl. Pan yr elai y meddwl drwy un dad-blygiad, rhoddid un arall mwy. Nid oedd y meddwl mewn sefyllfa y gallasai dderbyn yr holl wirionedd ar yr un pryd. Ofer fyddai cynyg ond pethau lleiaf gwybodaeth i genedl ar ddechreuad ei gwareiddiad. Mae y fam yn gofalu rhoddi y geiriau hawddaf i'w phlentyn pan yn dechreu siarad. Gofala yr ysgol-feistr roddi y wyddor o flaen y plentyn ar ei waith yn dyfod i'r ysgol. Fel y bydd y plentyn yn cynyddu, caiff bethau mwy, ond mwy *cyferbyniol* yw pob mwy felly i bethau eraill, tra y mae y meddwl wrth barhau i esgyn, yn gofyn am bethau mwy—mwy na'r meddwl ei hun. Dywedodd y Gwardwr, "Y mae genyf eto lawer o bethau i'w dywedyd, y rhai ni ellwch eu dwyn yr awrhon." Gan nad i ba raddau yr astudiodd ac y llwyddodd dynion i ffurfio moeswersi, mae y meddwl yn tyfu drwyddynt. Mae darganfyddiadau a dyfeisiau yn taffu *systemau* yr hen ddoethion i ddyrswch; ond daew Nazaread yn dringo llechweddau mynydd Palestina, a esyd gyfundrefn o flaen y meddwl na thyf ef drwyddo byth.

2. *Gallu i roddi cyfundrefn o wirioneddau yn cyfateb i gyflwr y meddwl.*—"Gwirionedd fel y mae yn yr Iesu."—Mae cyflwr y meddwl yn gwahaniaethu oddiwrth ei sefyllfa. Mae sefyllfa y meddwl yn dâl perthynas â bodolaeth yn gyffredinol, ond y mae cyflwr y meddwl yn dangos perthynas y meddwl â Duw, ac â thynged annghyfnwidiol. Er fod y gwahaniaeth hwn rhyngddynt, eto, mae yma gysylltiad. Mae yr Efengyl yn cyfarfod â'r meddwl yn y ddwy wedd. Fel cyfundrefn o wirioneddau, yn ymwneyd â deall; ond unwaith y daw y gwirionedd i'r deall, mae ef yn effeithio ar y galon. "*Sancteiddia hwynt yn dy wirionedd: dy air sydd wirionedd.*" Mae y gwirionedd fel y mae yn dyfod i gyfarfod â chyflwr y byd yn eang, cynnwysa ddatguddiad o Dduw yn ei gymeriad trugarog, o'r ddeddf yn ei hawliau bythol, o'r galon ddynol, fel y mae hi yn llygredig, ac o fendithion yr Efengyl. Ni chymerodd

neb faes mor eang i'w weinidogaeth ag a gymerodd Crist. Pregethai wirioneddau, nes y buasai y galon a gondemnid ganddo yn cynhyrfu. Yr oedd llawer o weinidogaeth Crist yn myned yn erbyn y meddwl. Gwelai ragrith drwy gochl y Pharisead. Gwelai galon y Saducead yn crynu o ofn y farn a wadai â'i dafod. Golchai ei ddwyllaw ar ddiwedd pob oedfa oddiwrth waed pob un o'i wrandawyr. Ni lwyddai bygythion gelynyon, na hudoliaethau cyfeillion professedig i'w ddenu cddiar y ffordd. Dywedyd gwirionedd ar antur y mae dynion, ond cyfeiriai yr Iesu ei eiriau i'r galon. Mae y llen yn fynych yn sefyll rhyngom ni â'r gwrandawyr, ac yr ydym yn methu a thori drwyddi. Mae rhyw bechod yn sefyll rhwng y weinidogaeth a chalon y dyn, ac yr ydym yn methu a thori drwyddo; ond pan fuasai yr Iesu yn siarad, yr oedd Ef yn difa y llen hon; yr oedd ei weinidogaeth yn tori drwy y pechodau i'r galon. Ni eglurodd neb erioed hawliau gwirionedd Duw fel Mab Duw ei hun. Yr oedd y gwirionedd wedi ei sathru, a dyn yn ceisio ei anghofio, ond cododd Mab Duw ef i'r wyneb. Er fod llwch ar ddolenau y gadwyn, fe'i ysgydwodd ef ymaith. Ond yr oedd yn ei weinidogaeth ef elfen arall, oedd yn ganolbwynt i ddysgeidiaeth y byd. "Canys felly y carodd Duw y byd, fel y rhoddodd Efe ei unig-anedig Fab, fel na choller pwy bynag a gredo ynddo Ef, ond caffael o hono fywyd tragywyddol." Os oedd y pechadur yn digio wrtho am ddesgrifio ei galon ddrygionus, os oedd ef yn crynu wrth glywed am y gwirionedd a dorodd, dyma eiriau wnelai i'r galon *garu*.

3. *Peth arall oedd eisiau yn y canolbwynt oedd gallu i roddi cyfundrefn o wirioneddau a fuasai yn parhau cyhyd a'r meddwl ei hun.*—Nis gellir tori y cysylltiad sydd rhwng y meddwl dynol a'r dyfodol. Yn y dyfodol y mae y meddwl yn byw. Pe byddai yn bosibl atal y meddwl i fyned i'r dyfodol, fe sychid i fyny un o brif ffynonau ei gysur. Prif angen y meddwl oedd cael trefn i'w gymmodi â'r dyfodol wrth deimlo awydd am dano. Yr oedd niwl y

dyfodol yn gwneyd i'r Groegiaid i ofni. Yr oedd ar y meddwl eisiau cael llusern i'w oleuo i fyned drwy y niwl i'r dyfodol. Mae yr Efengyl wedi dwyn bywyd ac anllygredigaeth i oleuni. Nis gall y meddwl gymmodi â difodiant. Mae sylfaenwyr cyfundrefnau yn marw, yn distewi, ac mae eu *lampau* yn diffodd. Mae y cyfundrefnau yn chwilfriwio, y *systemau* yn dyrysu, a'r meddwl yn gwan-obeithio yn tywyllwch. Mae yn gweled y farn, ond heb un gwirionedd i fyned iddi; sylla ar fyd tragywyddol, ond heb obaith am fywyd i'w fwynhan. Ond dyma deitl wedi ei ysgrifenu yn y Roeg, sydd yn tafu goleuni i'r Groegiaid; dyma Frenin fydd yn ei ddysgeidiaeth, a'i Aberth yn ganolbwynt iddynt byth. Dichon yr ystyria rhai o honynt ei ddysgeidiaeth yn ffolineb, ond i'r rhai a gredant bydd "yn Grist gallu Duw, a *doethineb* Duw." Dyma Frenin a rydd ganolbwynt, sefydla gyfundrefn a *linkia* holl ddoethineb y byd wrthi. Gwir, fe fydd ei Hawdwr farw; ond gronyn gwenith yn myned i'r ddaear ydyw; dwg ffrwyth. Os distawa Crist ar y groes, llefara cyn hir, "byw ydwyf yn oes oesoedd."

III. YSGRIFENWYD TEITL CRIST YN LLADIN I DDANGOS Y BUASAI EFE YN EI SWYDD FRENHINOL YN GANOLBWYNT I HOLL LYWODRAETHAU GWLADOL Y DDAEAR.—Pan fu Crist farw, Rhufain oedd yn llywodraethu. Crynai y byd wrth ei gair, ac o dan y llywodraeth hon y bu yr Arglwydd Iesu farw ar y groes. Swyddogion Rhufeinig a'i daliasant Ef yn yr ardd, swyddog Rhufeinig a'i traddododd Ef i'w groeshoelio, milwyr Rhufeinig a'i fflangellasant ac a'i croeshoeliasant, sêl Rhufeinig oedd ar y maen, a'i milwyr oedd yn gwylid y bedd. Bu gan lywodraeth Rhufain law rhy amlwg yn amgylchiadau y groes; buasai yn well iddi ymbwyllo. Mae yma deitl wedi ei ysgrifenu yn Lladin, yn *iaith Rhufain*, fod *Brenin* yn cael ei groeshoelio. Ychydig iawn o nodweddau brenin sydd ar y groes. Tylodi, dirmyg, a gwendid, sydd fwyaf yno. Dywedwyd am dano, "Hwn a deyrnasa yn dragywydd;" ond ar y groes mae Ef

mewn dâlfa. Dywedwyd am dano ei fod yn "dâl y ddaear ar gleidr ei law;" ond ar y groes mae yn gwaeddi bod syched arno. Arwyddion gwendid sydd ar y groes. Ond y mae yno sŵn *brenin* hefyd. Mae Ef yn *commandio* Rhagluniaeth i ofalu am ei fam. Mae Ef yn suddo yn y môr. Na, plymio yn y *diving bell* mae Ef. A welwch chwi y perl yna a gododd o waelod y môr?—"Heddyw y byddi gyda mi yn Mharadwys." Os yw yn marw ei hun, Brenin ydyw wrth farw. Pan y bydd llywodraeth Rhufain yn darfod, mae y teitl yn dweyd am Frenin fydd yn *fyw*. Pan y bydd gorseddau y ddaear yn siglo, a malurio, dyma Frenin na chyll ei orsedd byth. Fe dry wyneb pob gorsedd ato. Fe lunia holl lywodraethau y byd ar ei ddelw. Un o'r lleoedd rhyfeddaf i ysgrifenu y teitl o frenin oedd croesbren. Buasai yn fwy cydnaws â natur y gair i fod gerllaw yr orsedd, yn y palas, ar y goron; ond ar y *groes* y mae. I ba beth y goruwch-lywodraethodd Duw amgylchiadau i gael y teitl yn ysgrifenedig ar y groes? Gallem feddwl y buasai yn fwy rhesymol ei fod uwch ei ben pan yn porthi pum' mil âg ychydig dorthau a physgod. Buasai yn llawer mwy naturiol, allem feddwl, pe buasai yn ei gario ar ei ddwyfron wrth ddyfod allan o fynwent Bethania, wedi gorchfygu angau yn medd ei gyfaill. Buasai yn llawer mwy rhesymol, allem *ni* feddwl, iddo gario ei deitl brenhinol o angladd siomedig mab y weddw o Nain. Ond ar y groes y mae y teitl i'w weled gyntaf. Ac os oedd i gael ei ysgrifenu o gwbl, buasai yn fwy naturiol, allem ni feddwl, i'r rhai hyny fuont yn gofyn am ei wneyd yn frenin i ysgrifenu y teitl, na neb eraill; neu i Ioan, y disgybl anwyl, wneyd hyny; neu i'w fam, ië, mam, pe gallasai, buasai yn goreurio pob llythyren ynddo; buasai yn fwy naturiol, i'n tyb ni, fel yna. Ond nid ar y mynydd y mae y teitl, nid yn y fynwent mae y teitl, ond ar y groes. Paham? Yr oedd y byd yn gweled ei ogoniant wrth borthi y miloedd, wrth godi y meirw, ond ar y groes mae diluw o ddirmyg wedi llifo drosto, a'r byd yn

colli ei olwg ar y gogoniant. Eto, mae y teitl uwchlaw y dirmyg, a *Philat* wedi ei ysgrifenu. Llaw *gelyn* i ysgrifenu y teitl. Ysgrifenyd ef yn Hebraeg, i ddangos i'r Hëbreaid fod yr Aberth hwn wedi llyncu yr aberthau oll; yn Roeg i ddangos fod gwirioneddau y groes i lefeinio dysgeidiaeth y byd; yn Lladin i ddangos fod gorsedd yn cael ei enill i aros byth. Yn Hebraeg i ddangos fod sylfaen addoliad wedi ei rhoi i lawr, a Iawn dros bechod wedi boddloni gofynion cyfiawnder; yn y Roeg i ddangos fod gwirionedd wedi ei gael yn yr Iesu i sancteiddio tyrfa nas gall neb ei rhifo; yn Lladin i ddangos y bydd teyrn-wialen euraidd grâs yn blodeuo ac yn ysgwyd dros yr holl ddaear.

PREGETH XVIII.

ENILL A CHOLLI—APELIAD CRIST.

“CANYS pa leshad i ddyn, os enill efe yr holl fyd, a cholli ei enaid ei hun? neu pa beth a rydd dyn yn gyfnewid am ei enaid?”—MAT. xvi. 26.

ACHLYSURWYD llefariad y geiriau hyn gan gyfeiliornad barn am natur bywyd Cristionogol, a'r dyledswyddau a orphwysai ar broffeswyr crefydd. Cydnabyddir gan bawb fod Mab Duw yn gywir pan yn rhoddi i lawr amodau eglur i'w ganlynwyr; ac ni chychwynodd neb ar ol Crist erioed o dan ddylanwad syniadau cyfeiliornus, ond y rhai a gamddeallasant ei eiriau, neu a feddent ddybenion amnghywir. Yr oedd gweinidogaeth yr Arglwydd Iesu yn meddu ar nodweddau neillduol. Cynnwysai ddatguddiadau o wirioneddau nas gallai y meddwl dynol ddyfod o hyd iddynt ond drwy ddatguddiad. Agorodd faes newydd o flaen y meddwl, a bydd yn teimlo fod myfyrio y gwirioneddau hyn, nid yn unig yn ffynonell o ddedwyddwch tragywyddol, eithr hefyd yn amod dadblygiad a chynydd y meddwl yn y byd nad oes ond ysbrydolrwydd tragywyddol ynddo. Ond er fod dysgeidiaeth Crist yn cynnwys y gwirioneddau uchaf, eto, byddai ei weinidogaeth yn arwedu ar fywyd cyffredin, ar gymeriad moesol, ar berthynas dynion â'u gilydd mewn cymdeithas, ac ar y dyledswyddau sydd yn codi allan o gysylltiadau angenrheidiol dynion; ac yn neillduol, ar ein perthynas â Duw. Yr oedd yr athrawiaeth sydd yn ol duwioldeb, a'r duwioldeb sydd yn ol yr athrawiaeth, wedi eu cyfuno â'u gilydd ganddo Ef. “Os myn neb ddyfod ar fy ol i, ymwaded âg ef ei hun; cyfoded ei groes, a chanlyned fi.” “Os myn,” nid oes *rhaid* i neb ddyfod. “Os myn neb ddyfod,” ni *wrthodir* neb a ddaw ar yr amodau a gan-

lyn—"cyfoded ei groes;" nid ei amgylchu—"cyfoded ei groes;" nid ei rhoi ar ysgwydd neb arall—"cyfoded ei groes;" nid gwneyd croesau. Gellid meddwl mai amcan bywyd ambell un yw *gwneyd* croesau, i'w rhoi ar ysgwyddau eraill. Nis gall bywyd crefyddol fod heb ei anhawsderau, ond dylid ceisio dysgu dau beth—peidio a gwneyd anhawsderau, a chymmodi â'r rhai a ddeuant i'n rhan ar lwybr dyledswydd. "Canys pwy bynag a ewyllysio gadw ei fywyd a'i cyll, a phwy bynag a gollo ei fywyd o'm plegyd i a'i caiff." Gellir colli yn y *dyfodol* wrth geisio enill yn y *presenol*; ac yn hytrach na bod *mawredd* yr *enill* yn taflu ei gysgod dros fychander y golled, bydd *mawredd* y golled yn taflu ei gysgod dros fychander yr enill. Mae byw i'r dylanwad agosaf atom a chryfaf arnom yn peryglu colli y daioni mwyaf, am ei fod y pellaf. Mae llawer yn methu a chodi dros anfanteision *presenol*, ac felly yn gwneyd eu *dyfodol* yn un siomedigaeth. Cyfeiria y Gwardwr y cwestiwn yma i'r cyfryw. Dywedir gan rai fod y weinidogaeth yn rhoddi gwedd rhy lym i gymeriad Crist; ei fod Ef yn llawer tynerach nag y dywedir ei fod. O bawb tyner, y tyneraf oedd yr Iesu; ond o bawb llym, y llymaf oedd Ef hefyd. Llefarrowd Ef eiriau na allasai neb ond Efe roddi ynddynt y fath gyfoeth o dynerwch, ond dywedodd eiriau hefyd na allasai neb roddi ynddynt y fath lymder. Galwodd rywrai yn "seirff, hiliogaeth gwiberod," "beddau wedi eu gwyngalchu." Dywedodd am rai y bydd "mwg eu poenedigaeth lwy yn esgyn i fyny yn oes oesoedd." Yn gysylltiedig â'r *tynerwch* mwyaf y ceir y *llymder* mwyaf. Gelwir Crist yn Llew ac yn Oen. Yr un cymeriad, ond dwy arwedd iddo. Dywedir am rywrai y byddant yn y farn am gael eu cuddio oddiwrth *lid yr Oen*, nid llid y Llew. *Addfwynder* wedi ei ddigio yw y digofaint mwyaf *peryglus* a *dwfn*. Pan y bydd *tynerwch* Crist wedi troi yn erbyn pechadur, bydd ei obaith yn diffodd. Pe byddai Crist yn dynerach nag y dengys y weinidogaeth Ef, onid cryfhau y rheswm dros ufuddhau iddo y mae hyny? Ymostynga

Ymlyn / mwyaf

Crist yn y geiriau yma i resymu â dyn, oddiar egwyddor agos i ddyn—*humanles*. “Pa *leshad* i ddyn?” Disgyna Crist oddiwrth ei hawl Ef ei hun at lesiant dyn.

I. MAE Y GWAREDWR YN DAL DAU BETH YN BOSIBL—ENILL Y BYD, A CHOLLI ENAID.—Dylid ystyried fod Crist yn rhoddi ystyr neillduol i'r gair *byd* pan yn cysylltu enill âg ef yma. Nid yw yr Arglwydd Iesu yn annghymeradwyo dynion sydd yn gwneyd eu goreu i enill y byd yn yr ystyr gyffredin a roddir i'r gair. Mae dosbarth neillduol nad oes un perygl yr enillant y byd byth. Maent yn dlawd, a byddant yn dlawd. Yr hyn y maent yn fedrus ynddo yw, nid enill, ond *colli*; nid casglu, ond *gwasgaru*; a phe rhoddid hwy yn nghanol amgylchiadau dymunol bob boreu cyntaf o'r wythnos, byddent wedi llwyddo i fyned yn dlawd cyn diwedd yr wythnos. Ond y mae dosbarth arall sydd yn rhoddi eu calon ar enill y byd, ac nid ydynt yn petruso pa foddion a ddefnyddiant at hyny. Y mae miloedd wedi ymgyfoethogi drwy *annghyfiawnder*, a miloedd wedi myned yn dlawd drwy ddiogi a gwastraf, ac fe gondemnir y naill a'r llall gan Dduw fel pechodau sydd yn damnio dynion.

1. *Ymdrecha dynion i enill y byd o ran dylanwad arno.*—Un o'r galluoedd cryfaf ar y ddaear yw dylanwad. Y mae yn ddistaw, ond yn effeithiol; yn ddiymhongar, ond yn awdurdodol; yn anweledig ynddo ei hun, ond yn weledig yn ei effeithiau; y mae yn anfarwol yn ei berthynas â'i elynion, ac nis gellir ei glwyfo ond yn nhŷ ei garedigion. Ymgrymir o flaen hwn gan bob awdurdod, gwrandewir ef yn mhob llys. Tŷn ddagrau o lygaid Stoiciad, ac amen o galon Phari-sead. Rhoddir ef ar crsedd gan galon y gwrthryfelwr, ac y mae llawer wedi meddwi yn sanctaidd ar ei win melus. Nis gall gario cleddyf, er ei fod wedi lladd miloedd o elynion. Ni hawliodd orsedd na theyrn-wialen, ond y mae pob un o'honynt at ei wasanaeth. Ni welwyd ef erioed heb goron frenhinol ar ei ben, ond eraill a'i gwisgent iddo. Gall lywodraethu heb fyddin i amddiffyn ei hawliau, heb garch-

arau igosbi troseddwyr; ac heb grogbrenau i grogillofruddion. Gall grynu cyfandiroedd â'i lais, llosgi nythleoedd gormes â'i fellt, datod cadwynau caethiwed â'i anadl, a rhoddi mêl o ysgerbydau llewod i blant tylodi a gorthrymder.

Pwy sydd na charai gyrhaedd safle fel yma? *Ceisio* cyrhaedd hwn y mae llawer, ond eu bod yn camsyniad y ffordd. Nid peth yn cael ei greu yw. Carai llawer ei ladrata, ond byddai mor hawdd lladrata yr haul o'i oleuni, y sêr o'u prydferthwch, a'r wawr o'i gogoniant. Ni bydd eisiau *iron safe* ar hwn. Nid oes cymaint ag un *burglar* wedi rhoi ei law arno erioed. Carasai ambell i dad roddi hwn yn ei ewyllys i un o'i blant, oedd yn debyg na ddeuai yn feddianol arno byth, a buasai mwy o gyfreithio am yr ewyllys hono nag am un arall erioed; ond byddai mor hawdd rhoddi lliwiau yr enfys mewn ewyllys ag yntau. Mae llawer wedi bod yn chwilio am ei drigfan. Barnai llawer nas gallai fyw ond mewn palas, tra y dewisai yntau gyfaneddu mewn bwthyn diaddurn; ac wedi ffeindio ei loches, boddlonent aros dyddiau os câent olwg ar Carlyle yn y diwedd. Disgwylient am dano yn etifedd gorsedd Rhufain, coron yr hwn ni wywai, gorsedd yr hwn ni siglai, a mawredd yr hwn ni phallai; ond yn enaid rhyw wneuthurwr pebyll o Tarsus y byddai efe. Dyma yr enaint sydd wedi peraroglu arcithiau Socrates a Demosthenes, dyngarwch dwfn Howard, apeliadau tyner Wilberforce; a phe byddai ei berchen farw yn nghanol anwariaid, cerid ei gorff i'w gladdu rhwng tywysogion y ddaear yn Westminster Abbey. Mae holl allweddau trysorfeydd y ddaear wrth wregys hwn, ond allweddau trysorau cybyddion.

Mae dylanwad yn allu anorchfygol, ac y mae pawb yn dyheu am ei feddu; ond cofier fod ei liwiau prydfarth yn codi o'r bywyd sydd yn y blodeuyn. Dyma enill gwerth ei gael; byddai Duw yn foddlon i ddyn gynyg ato, a byddai y byd yn llawer gwell pe enillai rhagor ef. Ond gall meddwl fod yn meddu ar ddylanwad anwrthwynebol, ac eto yr enaid gael ei gollu; cyflwr condemniedig gan Dduw. Gall sarff

derehi rhwng y blodau peraroglus a phrydferth, a gall pechod fod yn y galon, er maint y dylanwad. Bydd colli enaid yn ffaith fydd yn derbyn ei phwysigrwydd o'r amgylchiadau *agos* iddo. Gall gau-broffwydi rodio yn ngwisgoedd defaid, glàn yr afon ddofn gael ei chuddio gan frysg-lwyni; gall rhosyn coch fod ar y rudd, a'r darfoded-igaeth fod yn y cyfansoddiad. *Gall enaid gael ei golli.*

2. *Ymdrecha dynion i enill llywodraeth ac awdurdod.*
—Nis gwyddom beth yw y rheswm fod dynion mor awyddus am gylch o lywodraeth. Mae llawer mwy o frenhinoedd *heb* orseddau nag sydd â hiwynt; ac *idea* uchaf rhai am fywyd, yw teyrnasu ar eraill. Rhaid cael llywodraeth, ond nis *gall* pawb *lywodraethu*. Pe caffai ambell un lywodraethu, byddai yn sicr o ormesu, ac y mae gormes yn dinystrio llywodraeth ar y naill law, a theyrngarwch ar y llaw arall. Mae yr ychydig yn mesur calon dyn, yn gystal a'r llawer. Mae yr hwn sydd yn greulawn wrth ei aderyn, yn meddu ar elfenau creulondeb at ddyn, a gwae y dydd y gosodid ef i lywodraethu. Mae llawer Hazael eto yn aunghredu y proffwyd, fod elfenau brathu ynddo pe buasai yn cael cyfleu at y gwaith. Y parotaf i ddadleu ei hawliau pan byddo mewn sefyllfa neillduol o fywyd, fyddai yr anhawddaf i'w rhoddi i eraill pe caffai ef ei newid am ei gwell. Mae llawer pentrulliad yn garedig i Joseph tra byddont yn y carchar gyda'u gilydd; ond pe dyrchefid y pentrulliad i'w swydd yr ail waith, ni chofiai am ei gyd-garcharor am ddwy flynedd. Canmolodd ei arglwydd y goruchwyliwr anghyfiawn am iddo wneuthur yn *gall*. Cydymdeimlodd â'r dyledwyr, a lleihaodd eu dyledion, fel pan y bwrid ef o'r oruchwyliaeth y derbyniont ef i'w tai. "Cloddio nis gallaf, a chardota sydd gywilyddus genyf"—*sydd gywilyddus*, onide fe'i gwnelsai. Ond gofalodd enill cydymdeimlad *cyn* iddo golli ei swydd. Mae temtasiwn mewn llywodraeth i feddyliau bychain i'w chamddefnyddio. Mae gorseddau yn costio bywydau. Nofiant atynt drwy fforocdd o waed, ac y mae ambell un wedi llwyddo i'w

cyrhaedd; a phan siaradai, crynai y byd gwareiddiedig. Ond gellir cyrhaedd llywodraeth *ëang*, eistedd ar orsedd gadarn, a'r enaid gael ei golli. Mae llawer Ahab y brenin wedi marw o dan y farn, a llawer Herod yn dychrynu yn sŵn y felldith. Mae llawer brenin *yma*, yn gardotyn yn y byd tragwyddol. Llawer *judge* yma, yn garcharor yn y byd arall. Y wledd yn y palas, ond y darn llaw yn ysgrifenu ar galchiad y pared, "Ti a bwyswyd yn y clorianau, ac a'th gaed yn brin."

3. *Ymdrecha dynion i gasglu cyfoeth, ac ymddyrchafu i sefyllfa o urddas a mawredd.*—Dirmygir cyfoeth gan rai nad oes tebygolrwydd y deuant o hyd iddo eu hunain; dibrisir cyfoeth gan eraill, am iddynt ei gael heb iddo gostio dim iddynt. Camddefnyddir ef gan y gwastraffwr, ond addolir ef gan y cybydd. Mae y ddau o'u lle. Mae cyfrifoldeb yn cydfyned â chyfoeth, a chenfigenir wrth ei berchen gan lawer na wnant un ymdrech i'w gael. Ond ofnwn y gall syniad cyfeiliornus am dano fod wrth wraidd llawer o ddrygau. Ofnwn ein bod yn ffurfio barnau eulion am bendefigion. Mae llawer o ddynion cyfoethog yn ddynion duwiol. Yr oedd cyfoeth mawr gan Abraham, ac eto yr oedd yn dad i'r ffyddloniaid. Job oedd y cyfoethocaf o feibion y dwyrain, ond "chwi a glywsoch am amynedd Job, ac a welsoch ddiwedd yr Arglwydd." Cyfranodd Dafydd gyfoeth dirfawr at deml yr Arglwydd. Ond gall dyn gael cyfoeth, a'r enaid fod yn golledig. Gellir cael *sefyllfa* dda, a *chysfwr* drwg; corff mewn sidanau, ac euaid mewn bratiau; gwleddoedd i'r naill, a newyn cnofâl i'r llall. Gallodd y gwr ieuanc hwnw yr hoffodd y Gwarddwr ef gasglu cyfoeth lawer, ond ofnir iddo golli ei enaid. Tynai yr hwn y cnydiodd ei faesydd yn dda, ei ysguboriau i lawr i adeiladu rhai mwy. Dylasai wneyd hyny; ond pan gynygiodd y peth a lanwai ei ysguboriau i ddiwallu ei enaid, camsyniodd.—"Y nos hon y gofynant dy enaid oddiwrthyt, ac eiddo pwy fydd y pethau a baratoaist?" Mae ffordd i uffern o balasau, yn gystal ag o fythynod; o'r

banquet, fel o'r tlot-dai; o'r sidanau, yn gystal ag o'r bratiau; ond dylid cofio nad yw bod dyn yn gyfoethog yn ei wneyd o angenrheidrwydd yn golledig, na'i fod yn dlawd yn sierhau ei fod yn gadwedig. Mae *deck-passengers* yn boddi fel pobl y *first cabin* yn y llong sydd yn suddo. Bydd enaid wedi ei gollu o bob sefyllfa. "Pa lëshad."

II. MAE Y GWAREDWR YN DAL DAU BETH ANMHOSIBL AR GYFER EU GILYDD—CADW ENAID WRTH ENILL Y BYD, A CHAEL DIM YN GYDWERTH YN YR HYN A ENILLIR—BYD, A'R HYN A GOLLIR—ENAID.—Mae yr Arglwydd Iesu yn cyfeirio yn y geiriau hyn at yr hyn sydd yn gyfreithlawn ynddo ei hun, ond ei fod wedi ei weithio i eithafion, wedi gorweithio dyledswydd, nes troi y fendith yn felldith. Gall enill fod yn golled, a cholled fod yn enill. Cyn i Zacheus gael grâs yr oedd ei holl *enillion* yn *golledion* trymion; ond wedi iddo gael grâs, fe drodd ei holl *golledion* yn *enillion*. Colled yw pob peth i'r *colledig*, ond enill yw pob colled i'r *cadwedig*—troia y cyfan ar y *cyflwr*. Ymddengys fod y Gwaredwr yn cyfeirio at ystyr neillduol i'r gair, a golyga yma ddau beth.

1. *Enill y byd yn groes i egwyddorion annghyfnewidiol cyfiawnder a gwirionedd dwyfol*.—Mae cyfiawnder yn egwyddor anmhlygadwy yn llywodraeth Duw, ac mae hi wedi nodi allan derfynau gweithrediaid dyn yn mhob cysylltiad; ac y mae pob peth a ddaw i ni yn groes i hon, o dan felldith Duw a dynion. Mae cyfiawnder yn angenrheidrwydd y byd, yn golofn cymdeithas, yn fywyd ymddiriedaeth, ac yn addewid llwyddiant yn y diwedd. Mae annghyfiawnder yn bechod cywilyddus, yn bydrni yn esgyrn dynion, yn cloddio o dan sylfaeni iawnder dynol a dwyfol, ac yn sier yn y diwedd o gosbi y galon yn yr hon y llecha, a chydweithia bob elfen at ei gwasanaeth i ddamnio enaid. Nid maint yr hyn sydd gan ddyn sydd yn sierhau y colli, ond yr egwyddor ar yr hon y casglodd yr ychydig neu y llawer, ac y mae y lleiaf yn dangos yr egwyddor yn gystal a'r peth mwyaf. Mae y pelydrau goleuni yn dangos yr haul yn

gystal a'r afon lifeiriol sydd yn rhedeg o hono. Mae y diferyn dwfr yn dangos y môr yn gystal a'r *volumes* sydd ynddo. Mae y weithred leiaf yn arddangosiad o egwydd-orion llywodraethol meddwl dyn. Yr ydym ni yn arfer mesur wrth y maint, ond y mae Duw yn mesur wrth y natur. Edrychwn ar annghyfiawnder yn y pellder, tra y mae yn yr ymyl. Cenfigenir gan deyrnasoedd wrth eu gilydd, cyhoeddant ryfeloedd gwaedlyd, ysbeiliant diroedd y diamddiffyn a'r gorchfygedig; ac os beiddia yr ysbeilledig godi ei lais yn erbyn yr anfadwaith, caiff fygythion dialgar; ond y mae Duw wedi rhifo dyddiau llawer Babilon falch, a daw dydd ei chwmp. Byddai yn dda i lywodraethwyr gofio fod yr Arglwydd yn teyrnasu, ac fod ei orsedd Ef yn sylfaenedig ar gyfiawnder a barn, colofnau fyddant yn sefyll byth; a'i fod yn gwylied eu gweithrediadau hwy. Yr oedd y fath bechod yn nyddiau Paul a chribddeiliaeth—gofyn mwy am beth nag oedd o *wir werth* ynddo. Dywed Paul am y rhai hyny na chaent "etifeddu teyrnas Dduw." Byddent yn twyllo dynion, ac yn lladrata drwy dwyllo. Y mae lladron cyffredin yn herio y gyfraith yn ei gwyneb, yn ymddangos heb ddim am eu dwylaw ond tywyllwch y nôs; ond byddai y cribddeilwyr yn nyddiau Paul yn meddu ar dafodau melfedaidd; ar lygaid colomenod, ond gwauc yr eryr; ar wisg y ddafad, ond cylla blaidd, nofient yn y môr, ac ehedent yn yr awyr; yn fath o angenfilod, yn gymysgedd o bob peth, a dim yn iawn. Eu gallu mawr oedd tynu atynt, ond nis gallasant roddi. "Ni chaiff y cyfryw etifeddu teyrnas Dduw." Nid oes cymaint o'r dosbarth yna yn awr. Mae cystadleuaeth mewn masnach, fel y gwerthir am y rhataf, a dichon y gall fod ambell i brynwr yn cymeryd mantais i roddi llai na gwerth am bethau. Gall y prynwr sydd yn gwasgu y gwerthwr i werthu y peth am lai na'i werth fod yn gribddeiliwr hefyd. Mae y gwerthwr sydd yn gofyn mwy nag a ddylai am yr hyn a werthia, ac yn cynyg llai na'i werth am yr hyn a bryna yn ddwbl ddrwg; ac y mae y prynwr

sydd yn cynyg llai nag â ddylai, ac heb feddwl prynu dim yn ddwbl ddrwg. Mae y ddimai godir yn ormod gan y gwerthwr yn ddimai gondemnedig, a'r ddimai a roddir yn rhy fach gan y prynwr yn ddimai na fydd bendith arni. Mae masnach y byd yn gorplwys ar ddynion gonest ar bob tu. Gall y naill ddosbarth fel y llall enill y byd, a damnio eu hunain. Gall y meistr ddamnio ei enaid wrth wasgu y gweithiwr tlawd, a gall y gweithiwr ddamnio ei enaid wrth dwyllo ei feistr. Bydd melldith yr Arglwydd gydag enill y naill a'r llall, os yn anghyfiawn. Mae damnedigaeth enaid yn beth posibl o bob man, ond o Grist. Gall y gweinidog anghyfiawn, segur, dioglyd, ddamnio ei enaid o'r pwlpud, a'r eglwys wneyd yr un peth wrth ei orthrymu, wrth beidio a'i gydnabod yn deilwng. Mae yn anmhosibl cadw yr enaid ond wrth fod yn gyfiawn at Dduw a dynion.

2. *Mae y Gwardwr yn cyfeirio at ddosbarth a enillai y byd, ond y collent eu heneidiau, sef y rhai na wnaent yr aberth a ofynid i gyfarfod âg amgylchiadau crefydd.*—Dichon fod y gair *aberth* yn air cryf am ddim a fedr dynion wneyd yn bresenol gyda chrefydd, ac eto y mae yr ysbryd a feddianodd amryw yn aros yn egwyddor fyw i lywodraethu llawer. Mae gan grefydd Mab Duw gyfres o enwau fyddant yn anfarwol—dynion a gyflawnasant orchestion mawrion, gauasant safnau llewod, yrasant fyddinoedd yr estroniaid i gilio, rhai a ysgrifenasant eu henwau yn y graig dros byth; ac y mae y wedd ddymunol sydd ar yr Eglwys i'w briodoli i raddau i'r dynion hyny. Ond y mae crefydd Crist wedi cyfarfod â dynion o nod-wedd wahanol—dynion nad oeddent yn barod i ddyoddef dim, ac at y dosbarth yma y cyfeiria yr Arglwydd Iesu—*“Canys pwy bynag a ewyllysio gadw ei fywyd, a'i cyll.”* Mae gan grefydd ei gwaith ar y ddaear. Ymddiriedwyd y gwaith i'r eglwys, ond nis gellir ei wneyd heb *aberth*; ac os na foddlonir gwneyd yr *aberth*, fe gollir y *wobr*. Pwy sydd i ddysgu y dê ieuanc yn addysg ac athrawiaeth

yr Arglwydd? Pwy sydd i gyfeirio yr annghyfarwydd i lwybrau gwirionedd? Pwy sydd i sychu ffynonau tarddiol anfoesoldeb, a chorsydd lleidiog llygredigaeth? Pwy sydd i amddiffyn gwirioneddau sylfaenol ein crefydd yn erbyn ymosodiadau cyfrwys gelyniaethus a satanaidd gelynion crefydd Crist? Pwy sydd i *brotestio* yn erbyn pechodau rhyfygus yr oes? Pwy sydd i fyned allan i'r prif ffyrdd a'r cauau i wahodd y cenedloedd i wleddoedd rhâd a llawn yr Efengyl? Pwy sydd i ddâl llusern yr Efengyl i fyny yn nghanol tywyllwch gelyniaeth ac ofergoeliaeth yr oes? Pwy sydd i ddâl banerau grâs Duw i fyny yn nghanol rhyfeloedd gwaedlyd a marwol grâs a phechod? Pwy ond y bobl sydd yn credu yr athrawiaeth eu hunain? Pwy ond y bobl sydd yn profesu eu bod hwy wedi dyfod allan o'r tywyllwch? Pwy ond y rhai a wisgant ddrillad Seion? Ac os gwrthodir gwneyd hyn, fe gollir yr enaid. "Pa leshad?" Rhaid gwneyd y naill neu fe gollir y llall.

Blinir crefydd weithiau gan ddynion aflonydd, gwarth-ruddir hi gan ddynion o fywyd amnhur; a phwy sydd i sefyll i fyny yn erbyn y rhuthriadau? Ychydig o eglwysi y wlad sydd wedi dianc oddiwrth gael eu gofidio gan ddynion terfysglyd, y rhai nid adwaenant ysbryd yr Efengyl. Chwiliant am feiau, byddant byw fel seirff ar lwch yr heolydd, taenant chwedlau cyfrwys, enllibiant ac athrodant ddynion nad yw y byd yn deilwng o honynt. Profiad crefyddol ni feddant, a gweddio ni fynant; tafiant gynud ar bob tân, adnabyddir hwy drwy yr eglwysi fel rhwygwyr, pe gallent, ac edrychir ar eu beddau fel beddau terfysgwyr achos Duw. Pwy sydd i roi ei fywyd yn *front* y frwydr gyda y dynion hyn? Pwy sydd i amddiffyn yr achos? Rhaid i rywrai fentro eu bywyd, aberthu eu cysur, i gadw y bleiddiaid allan o'r corlanau, a'r fulturod oddiwrth yr wyn. Os na wneir, fe gollir yr enaid. Cyfarfyddodd yr achos âg erlidigaethau, cynhyrfwyd gan Satan yn ei erbyn, ffurfiwyd cyfreithiau i'r dyben o'i ddifetha, codwyd, esgynleoedd i ddifa meibion y Duw goruchaf, cyhoeddwyd

brwydr gan ddiabol yn erbyn byddin y groes. Beth a wneir? Mae udgorn Seion yn gwahodd i'r maes; ond dacw luoedd yn ffoi. Cadw yr einioes, ond colli yr enaid! Pobl yn methu dyoddef dim er mwyn Crist. Maent yn gwaeddi "Hosanna" gyda y dorf ar ddydd yr orymdaith, ond yn cilio oddiwrth y groes. Maent yn gwledda gyda yr Iesu a'r miloedd ar ben y mynydd, ond cadwant draw o'r ardd ar nôs y bradychu. Cadw yr einioes. Maent yn ofni digio dunion, yn fwy na digio Duw. Mae llawer un yn hōni ei fod fel Ioan Fedyddiwr, ond ni foddlonai gollu ei ben am ddweyd y gwir; llawer un yn hōni ei fod yn Apostol hedd, ond ni foddlonai sefyll gerbron Cæsar am ei grefydd; llawer un yn hōni ei fod yn ddisgybl anwyl, ond ni foddlonai fyned yn *dransport* i ynys Patmos am air Duw. *Colli yr enaid.*

Peth arall y mae Iesu Grist yn ei ddâl yn anmhosibl yw cael dim yn gydwerth yn yr hyn o enillir i'r hyn a gollir.—Mae yr adnod yn gorphwys ar y ddau air *colli* ac *enill*—*Colli* enaid ac *enill* y byd. Sylwer ar y gwahan-iaeth. Dull yr Arglwydd Iesu o resymu yw rhoddi ei le priodol i bob peth. Nid yw yn darostwng y byd i ddangos gogoniant enaid, ac nid yw yn dangos mawredd enaid i ddangos bychander y byd. Mae y byd yn ogoneddus yn ei berthynas â'r enaid, ond beth sydd yn y byd i wneyd i fyny am *golledigaeth* yr enaid? Enaid sydd yn rhoddi ystyr i'r byd—dyma fywyd y deml ogoneddus, canwyllbren aur y cysegr sancteiddiolaf, ac archoffeiriad y greadigaeth oll. Mae y gwahanol gyfrolau sydd yn llyfrgell y byd wedi eu rhoddi yn bwrpasol ar gyfer enaid—dyma eu darlennydd. Os yw y byd fel telyn, dyma y telynydd. Ond os oes *rhaid* colli enaid wrth gael y byd, beth sydd yn y byd yn gydwerth i'r enaid? Mae y byd yn ogoneddus—gwaith Duw. Er mwyn enaid y mae hwn yn bodoli. Mae datguddiad gogoneddus o Dduw yma; ond os collir yr enaid, pwy fydd i fwynhau y datguddiad? Mae pren y bywyd yn plygu o dan ei ffrwythau; ond os collir yr enaid,

pwy fydd i dynn oddiar y cangau? Os rhaid sathru egwyddorion gwirionedd yr Efengyl, os rhaid tori gorohymnyion Duw cyn y gellir cyrhaedd y palas, beth sydd yn y palas i wneyd i fyny am gollir yr enaid? A oes yna ryw-beth yn gydwerth? Dringodd brenin yr Aipht i orsedd, cadwodd arni drwy ffurfio cyfreithiau gorthrymus, cablodd Dduw, ac heriodd yr Anfeidrol. A oes yna rywbeth yn yr orsedd yn gydwerth â'r bywyd gollir yn y môr, ac â'r enaid a ddennir am bechu? A gaiff Ahab annuwiol rywbeth yn rhyfel Ramoth-Gilead fydd yn gydwerth â'r bywyd a gyll efe? A dâl yr anturiaeth iddo yn y diwedd? Egwyddor fawr masnach yw fod pob ochr yn cael y peth sydd arni fwyaf o eisiau, ac felly yn enill. A yw yr enaid yn gweithredu oddiar yr un egwyddor? Pwy sydd a all roddi pris ar enaid? Mae parhad annherfynol yn yr enaid. Bydd hwn yn ieuanc ar foreu Sadwrn olaf y byd. Rhoddir cwpanaid o win melus i Socrates, ond peidied neb cenfigenu wrtho, mae gwenwyn yn ei waelod. Mae y teyrn yn nghanol y wledd wrth y bwrdd, a'r danteithion o'i flaen, ond y mae cleddyf yn crogi uwch ei ben wrth edau fran. Mae y wledd yn llawen, ond mae y darn llaw yn ysgrifenu. Gall dyn enill y byd; ond a oes ynddo rywbeth yn gydwerth i'r enaid? Enaid; er mwyn hwn y gadawodd yr Iesu y nefoedd, y daeth i barthau isaf y ddaear. Cadw hwn oedd ei amcan pan y chwysai ddefnyddau o waed ar lysiau gardd Gethsemane; prynu hwn oddiwrth ei anwiredd oedd amcan yr Iawn, *transactions* Calfaria fryn; gwisgo hwn yn y cyfiawnder a wared rhag angau mae yr Efengyl; eiriol dros hwn y mae ein Harchoffeiriad yn y nefoedd; ac os oedd ef yn werth i Grist farw drosto, beth sydd yn y byd yn gydwerth iddo? Mae hwn yn drymach yn y glorian na holl greadigaeth Duw. Mae yr angelion yn weision iachawdwriaeth i hwn; mae y nefoedd yn gartref darparedig i hwn. Hwn o holl greadigaeth Duw allasai gario delw yr Anweledig; ac uwchben bywyd hwn yr aeth yr Anfeidrol i'w lŵ. Beth sydd yn gydwerth

iddo? Peidiwch newid aur am deganau, goleuni am dy-wyllwch, rhyddid am gaethiwed.

III. MAE Y GWAREDWR YN APELIO AT RESWM DYN I BENDERFYNU Y PETH AR YR EGWYDDOR Y MAE Y MEDDWL YN PENDERFYNU PETHAU ERAILL PERTHYNOL I'R BYWYD PRESENOL.—“*Canys pa leshad i ddyn, os enill efe yr holl fyd, a chelli ei enaid ei hun? neu pa beth a rydd dyn yn gyfnewid am ei enaid?*”—Daw adeg pan y bydd y meddwl yn rhyfeddu yr ymostyngiad anfeidrol hwn o eiddo Mab Duw i resymu dyledswyddau at Dduw oddiar egwyddor mor agos i'r dyn. “Pa leshad i ddyn, os enill efe yr holl fyd, a cholli ei enaid ei hun?” Y mae pechod yn myned yn erbyn rheswm, ac y mae yn amhosibl ei gyfiawnhau. Mae hunanelw yn cymhell dyn i beidio a phechu. Ymddengys mai dyma yr egwyddor gryfaf, ac er mwyn hon y gwneir yr aberth mwyaf. Dyma rwymyn y byd, ond y mae yn bosibl ei cham-ddeall, ac felly ei gweithio allan i eithafion. Mae duwioldeb yn troi yn fantais yn fwyaf i'r hwn a'i pia, ond caiff eraill fendith drwyddi. Wrth golli enaid, ac enill y byd, y mae dyn yn colli y peth sydd yn rhoddi gwerth ar bob peth arall. Gall dyn enill gwobr o ganoedd o bunau; ond os bydd yn dinystrio ei iechyd wrth wneyd hyny, beth yw ef well? Sylwer ar yr ymfudwr yn dychwelyd adref i'w wlad, wedi bod allan yn nghanol unigedd yn chwilio am yr aur. Bu lawer noson yn cael ei amgylchu gan y bleiddiaid a'r llewod; ond wrth dychwelyd i'w wlad, dehir ef gan storom ar y môr. Sigla y llestr, ac yn y diwedd dechreua y llestr suddo. Pa leshad iddo? Cleddir ei gyfoeth ag yntau yn yr eigion. Bu tad y bachgen ieuanc farw, gadawodd balas prydferth iddo yn ei ewyllys, cefnigenai yr ardalwyr wrth ei ragolygen, ond yr oedd y meddygon yn gweled yn mhellach. Beth yw y pesychiad aml, yr anadliad byr, y rhosyn coch sydd ar y rudd? Arwyddion y darfodedigaeth. Beth gwell yw ef o'r palas? Eisiau meddyginiaeth sydd arno ef. Mae wedi colli y gallu i fwynhau pob peth arall. Enillodd ambell i un y byd,

casglodd ei gyfoeth, ond yr oedd elfenau marwolaeth dragywyddol yn ei enaid, a llygredigaeth yn ei galon. Sylwer ar y llofrudd ar ddydd y prawf. Saif o flaen y *judge*. Mae ei dad wedi gadael etifeddiaeth äang iddo yn ei ewyllys, ac yr oedd yntau ar ddyfod iddi, ond beth gwell ydoedd? Yr oedd ef i farw o dan ddedfryd y gyfraith. Eisiau *reprieve* oedd arno ef. Gall y pechadur rifo ei aur wrth y miloedd, ond beth gwell yw ef; mae ei enaid yn gondemnedig gan Dduw. Y mae ar fin uffern. Pa leshad yw enill yr holl fyd, a cholli ei enaid?

Colli enaid.—Onid oes swn ofnadwy yn y gair *colli*. Dywed y rhai a fu yn sylwi ar y *Niagara Falls*, y clywir swn y disgyniad am bellder mawr. Dywedir fod swn yr ergyd yn y danchwa wedi ei glywed am filldroedd. Gwelir y goleuni coch ar y *signal* ar y rheilffordd am bellder. Yn swn y *Niagara* mae swn dinystr ugeiniau yn disgyn i fyd arall. Beth yw dychryn yr ergyd yn y danchwa, at y trueni a'r dinystr sydd ar y gwaelod, lle y mae y cyrff yn gymysgedig a'u gilydd? Beth yw y goleuni ar y *signal* at y *peryl* sydd o'r tu ol iddo? *Colli enaid.* "A'r rhai hyn a änt i gosbedigaeth dragywyddol," "Lle nad yw eu pryf hwynt yn marw, na'r tån yn diffodd." "Na fydd rhy annuwiol." Mae holl rybyddion y Beibl yn llai na'r peryglon. Mae iaith ddynol ac amgylchiadau yn rhy fychan i fod yn gyfryngau cyfaddas i egluro mawredd colli enaid—anfeidroldeb o drueni.

Y mae pechod yn golled yn mhob ystyr. Y mae trosedd-wyr gwladol yn golled i'r wladwriaeth. Y mae esiamplan dynion annuwiol yn golledion i'r ieuenctyd sydd yn tyfu i fyny o dan eu dylanwad. Ond disgyna y brif golled ar y pechadur ei hun. "Pa leshad?" Mae y cwestiwn yma yn dyfod i lawr atom ni drwy yr oesau a aethant heibio. Mae y cwestiwn yma yn codi allan o feddau annuwiolion, yn swnio oddiar grogbrenau llofruddion, o gelloedd oerion a noethlwm carcharorion, o wallgof-dai a thlot-dai, ac o uffern ei hun. Wrandawr, a glywi di y cwestiwn? "Pa

leshad i ddyn, os enill efe yr holl fyd, a cholli ei enaid ei hun?" Mae yr Efengyl yn apelio at yr egwyddor agosaf i feddwl dyn. Paid a phechu, er dy fwyn dy hunan. Paid a myned i uffern, er mwyn dy fodolaeth dragywyddol.

1. *Mae gan Dduw drefn y gellir cadw enaid.*—Mae Duw yn dyogelu y mwyaf, ac yn rhoddi y lleiaf at ei wasanaeth. Nid yw yn *rhaid* colli enaid. Y mae yn *rhaid* i'r llywodraeth wladol gosbi y troseddwr; y mae yn *rhaid* i'r dyn y mae y clefyd wedi naddu ei nerth ymaith, i farw; y mae yn *rhaid* i'r llofrudd fyned o dan gondemniad y gyfraith; ond syned y nefoedd, ac addoled y ddaear, *nid* oes *rhaid* colli enaid. Enaid, y mae miloedd o bechodau wedi ymglymu am dano; enaid, y mae euogrwydd cydwybod yn berwi tystiolaeth gondemniol allan o hono; enaid, y mae melldithion deddf ddigyfnewid gorsedd Duw yn gorphwys arno; enaid, y mae gofynion cyfiawnder yn dal gafael diollwng ynddo; enaid, sydd wedi diystyru cyfryngwriaeth Mab Duw. Ni *raid* ei golli. Mae maddeuant yr Efengyl yn cynyg tori yr afael sydd gan bechodau yn y galon. Y mae cyfiawnder yr Efengyl yn cynyg ei hun yn wisg i'r noeth, ac i godi allan wreiddiau euogrwydd. *Ni raid colli.* Y mae deddf ogoneddus Duw yn ddistaw yn yr Hwn a ddyoddefodd ei melldith hi. *Ni raid COLLI ENAID.* Mae holl ofynion cyfiawnder wedi eu boddloni mewn Cyfryngwr. *Ni raid colli enaid.*

2. *Mae holl ddylanwadau yr Efengyl am beidio colli.*—Y mae yn anmhosibl cyfrif y dylanwadau sydd gan yr Efengyl yn gweithio ar y meddwl i'w gael i fan i beidio ei golli. Ymrysonodd Duw â'r hen genedl am ddeugain mlynedd; anhawdd ganddo ei chosbi. Felly y mae eto. Anfonodd ei Ysbryd i ymryson â'r meddwl flynyddoedd yn ol; yr oedd am beidio a damnio. Mae y duedd wan sydd yn y meddwl am dderbyn Crist, yn ogwydd at beidio colli. Ond y mae lle i ofni fod amryw wedi lladd teimladau felly. Aeth y dyn i bechu, ond yr oedd ei gydwyl yn dweyd wrtho am beidio; lladdodd y tyst yn y fan. Yr oedd

Ysbryd Duw yn ymryson â'r meddwl, ac yn dywedyd dyma'r ffordd i'r nefoedd, ond yr oedd eisiau cyrhaedd rhywbeth arall yn nghyntaf. Dywed Sir S. Baker am amgylchiad difrifol gymerodd le yn hanes byddin yr Aipht pan yn goresgyn Nubia. Teithiai y fyddin o dan arweiniad Arabiad oedd yn gyfarwydd a'r wlad, ar yr hwn y dibynent am eu dyogelwch. Croesent yr anialwch â'u hwynebau tua'r deheu. Tywynai yr haul yn danbaid; yr oedd ei wres yn annyoddefol, a phoethai y tywod o dan eu traed. Dyoddefent yn fawr o eisiau dwfr. Un boreu tybiasant eu bod yn gweled yn mhell oddiwrthynt lyn o ddwfr, a choed almonau yn tyfu ar ei lan. Gofynasant i'r *guide* eu harwain at y llyn, ond gwrthododd, gan ddweyd nad oedd yno ddwfr, ac mai adlewyrchiadau yr haul oedd yno. Aeth yn ymrafael rhyngddynt; lladdasant y *guide*, ac yna aethant yn mlaen i gyfeiriad y llyn; ond erbyn cyrhaedd yno, gwelasant mai y *guide* oedd yn gywir. Bu llawer o honynt feirw yno, rhai mewn llewygon, eraill mewn cynddaredd, a diangodd ychydig o'r rhai cryfaf i roddi yr hanes; a phwy all ddesgrifio eu teimladau pan yn pasio eorff marw y *guide*? Onid oes lle i ofni fod llawer pechadur wedi ceisio lladd y *guide*. Gwrthododd ei arweiniad, diffoddodd yr Ysbryd. Yr Ysbryd a wyddai am ffynonau bywiol o ddyfroedd ddiwallent syched enaid, yr Ysbryd a'i arweiniai i ganol dyogelwch y nef, drwy anialwch gwâg, erchyll; a'r Ysbryd a roddai ynddo gymhwysder i fwynhau llewyrch wyneb Duw byth. ✕

PREGETH XIX.

Y GWIR DDUW.

"EITHER yr Arglwydd *ydyw* y gwir Dduw, efe *yw* y Duw byw, a'r Brenin tragywyddol: rhag ei lid ef y cryna y ddaear, a'r cenhedloedd ni allant ddyoddef ei soriant ef."—JEREMIAH x. 10.

I'r graddau y cwyd y meddwl mewn diwylliant a dadblygiad, y sugna fwynhad oddiwrth wrthddrychau a gwirioneddau anweledig. Y mae pob meddwl myfyrgar yn byw mwy i'r anweledig nag i'r gweledig. Gwasanaetha cof i alluogi dyn i fyw i amgylchiadau sydd wedi myned heibio, ond gwasanaetha gobaith i'w alluogi i ddisgwyl mewn amynedd am y dyfodol. Sychid i fyny un ffynhonell o fwynhad pe dileuid y gallu sydd yn y meddwl i bresenoli amgylchiadau; ond pe torid ymaith obaith y meddwl, gwnelid bodolaeth yn felldith, a throid holl ddymuniadau y meddwl at ddifodiant. Ond rhaid newid natur y meddwl, dileu ei berthynasau, a rhoi ystyr arall i fwriadau, amcanion, a gweithredoedd Duw, cyn y torir y cysylltiad sydd rhwng y meddwl a'r dyfodol. Fel y mae y meddwl yn byw i'r dyfodol, y mae gwrthddrychau ei fwynhad yn anweledig. Gwahaniaetha y gwrthddrychau hyn, a chyrhaeddir syniad am danynt drwy y gweledig. Goleuodd Duw yr haul nid yn unig i ddangos ei hun, ond fel y gwelid pethau eraill drwyddo. Arwydd-lun yw yr hyn sydd yn sylweddol a pharhaol, yn weledig, o'r hyn sydd yn sylweddol a thragywyddol yn anweledig. Yma y gafaela gobaith, a bydd fyw ffydd.

Mae yma gyferbyniaeth o'r gweledig a'r anweledig. Ychydig o ddynion yn gyferbyniol sydd wedi gweled yr *Atlantic*; ond y mae pwy bynag a welodd ddiferyn o ddwfr, wedi gweled y môr mewn ystyr. Nid yw pob un a

wyr yr enw wedi dringo i ben yr Wyddfa, ond gellir cyrhaedd syniad am ei uchder wrth ei gyferbynu â mynydd sydd yn is nag ef. Mae natur unrhyw beth yn cyfleu syniad am bobpeth sydd yn cydgyfarfod yn yr unrhyw natur hono. Mae y lleiaf yn cyfleu syniad am y mwyaf. Dyma y cynllun a gymerodd yr Anfeidrol i ddysgu gwirioneddau a ffeithiau mawrion Cristionogaeth i'r byd gan oedd o flynyddoedd cyn geni y Gwarddwr. Dyma fel y dangosid Crist croeshoeliedig, yn yr aberthau gwaedlyd. Defnyddiodd Paul, hefyd, y rheol hon ddwywaith i arwain y meddwl Iuddewig yn ol i ddâl yr Eglwys mewn sefyllfaoedd gwahanol, drwy ddweyd am Sarah, gwraig Abraham, a'r wasanaethferch; a'r bachgen o dan ymddiriedolwyr, ac wedi iddo gyrhaedd ei oedran. Yr un rheol sydd gan Jeremiah mewn arwedd arall. Cyferbyniaeth sydd yma, ond mai yr ochr nacâol i gyferbyniaeth ydyw; yr anhebygolrwydd. Dweyd am yr hyn sydd gan Dduw wrth ddweyd am yr hyn nad oedd gan yr eulun; a'r hyn nad oedd gan Dduw, wrth ddweyd am yr hyn oedd gan yr eulun. *Gwir Dduw a Duw byw.*

I. TYSTIOLAETH AM DDUW YN EI-NATUR.—Cydgyfarfyddiad o ddau beth sydd yn rhoddi gwerth ar bob tystiolaeth.

1. *Ei chydweddiad â gwirioneddau angenrheidiol llywodraeth Duw.*—Wrth wirioneddau angenrheidiol y golygir y daioni hwnw, yn mha ffurf bynag y byddo, sydd yn hanfodol i lywodraeth Duw; y ffeithiau hyny sydd yn gorwedd yn sylfaen o dan bob adeiladaeth ddwyfol; a'r egwyddorion hyny sydd yn hanfod pob dadblygiad o gymeriad, o ddoethineb, ac o allu Duw. Maent yn wirioneddau *angenrheidiol*, o herwydd nas gallwn gael syniad am fodolaeth ond yn gysylltiedig â hwy. *Maent yn wirioneddau* o herwydd mai perffeithderau natur Duw a'i lywodraeth ydynt. Mae pob peth sydd wedi dyfod o dan law Duw yn ddigyfrwng i gael eu hesbonio gan y gwirioneddau hyn; mae pethau felly yn bodoli am eu bod mewn perthynas â hwy. Rhaid i bob tystiolaeth am Dduw

gydgordio â'r gwirioneddau angenrheidiol yma. Y purdeb, y sancteiddrwydd, a'r cyfiawnder sydd yn Nuw, sydd i fod yn faen-prawf pob tystiolaeth, a rhaid iddynt sefyll neu syrthio yn ol eu cydgordiad â'r gwirioneddau ac â'r perffeithderau hyny.

2. *Cyfaddasder y dystiolaeth i gyfarfod â chysylltiadau allanol sefyllfa a chyftwr pob bod moesol.*—Nid yw cyflwr pob bod moesol yn esboniad angenrheidiol ar ddim ond ar yr egwyddorion a'i arweiniodd ef i'r cyflwr hwnw. Hefyd, nid yw anghyfaddasder y dystiolaeth i gyflwr y pechadur yn amheuaeth am ei dilysrwydd ond yn unig ar ei *gwerth* i'r cyfryw fod. Fel y byddo y dystiolaeth yn effeithio, neu yn alluog i effeithio, ar y cyfryw gyflwr, y bernir ei *gwerth*. Un o'r enwau a roddodd Duw arno ei hun yw "*Duw trugarog a graslawn.*" Ni fwriadwyd y dystiolaeth hon i gario un effaith ar angelion syrthiedig. Dâl perthynas â dynion y mae y dystiolaeth. Nid am ei bod yn werthfawr y mae hi yn wirionedd, ac nid am ei bod yn wirionedd yn *unig* y mae hi yn werthfawr. Nis gallasai fod yn werthfawr heb ei bod yn wirionedd, ond gallasai fod yn wirionedd heb ei bod yn werthfawr. Y mae ei *gwerth* yn dibynnu ar ei chyfaddasder i'r byd, a'i pherthynas â chyflwr y byd. Gall y syniad am drugaredd boethi y tân i angelion colledig, ond y mae yn obaith bywyd tragywyddol i bechadur, yn ernes yr etifeddiaeth i Gristion, ac yn gân gorfoledd i sant.

Y mae y ddau beth a nodwyd yn cyd-gyfarfod i roddi *gwerth* ar y dystiolaeth hon. Y mae hi yn gyson, a gellir dweyd mai hi yw sylfaen pob gwirionedd. Dyma sylfaen ddisygl. Hefyd, y mae hi yn dystiolaeth yn cyfarfod yn uniongyrchol â chyflwr dynolryw. Ei *gwerth* yw tragywyddol fwynhad enaid mewn byd digyfnewid.

Y mae yma dybiaeth fod *llawer o dduwiau*, ond un *gwir Dduw* sydd. Nis gall dau anfeidroldeb fodoli. Nis gellir *syniad* am Dduw fel bod anfeidrol, ac nis gellir cyrhaedd *syniad* am anfeidroldeb ychwaith. Rhaid cael anfeidroldeb,

ond nis gellir cael ond *un*. Gallwn syniad am ddau haul, ond un eanolbwynt; am amryw fawredd, ond un anfeidroldeb; ac anfeidroldeb, nid cyfansoddedig o wahanol ranau, ond yn ddynodiad ar y Bod mwyaf. Nid mwyaf *cyferbyniol*, ond hunanfodol. Anfeidroldeb, gerbron yr Hwn y mae y cwbl fel mân lwch y clorianau, y ddaear yn ddyddym, y cenhedloedd fel defnyn o gelwrn, gerbron yr Hwn "y cryna y ddaear, a'r cenhedloedd ni allant ddyoddef ei soriant Ef."

GWIR DDUW.—Y mae pobpeth Duw yn sylweddol ac yn wirioneddol. Mae cymaint o *reality* yn yr *ychydig* ag sydd yn y *llawer*. Gall maint a sefyllfa gyfrif am *wasanaeth* unrhyw beth, ond natur y peth sydd yn cyfrif am ei ddaioni. Yn ol y graddau o wirionedd fyddo mewn unrhyw beth y gellir mesur ei ddaioni. Gall ffug foddioni y meddwl, ond gwna hynny yn rhinwedd y dylanwad sydd gan grediniaeth ar y meddwl. Tra y credo y meddwl fod y ffug yn wirionedd, caria yr un dylanwad arno a phe byddai yn wirionedd. Pe llunid anwiredd, yn gosod allan anffawd greulawn, cariai yr un efaith ar y meddwl a phe bai yn wirionedd. Nid fel *anwiredd* y credir ef, ond fel *gwirionedd*. Gellir dychymygu am yr hyn na sydd, ond nis gellir credu ond yr hyn a *dybir* sydd yn bod. Mae pob anwiredd a thwyll wedi pasio mewn lliwiau twyllodrus. Nid fel eulun yr addolir y ddelw, ond fel duw; a dichon y gall fod eulun ffugiol yn cael addoliad gwirioneddol, a Duw gwirioneddol wrth addoliad ffugiol. Yr angen dwfn sydd yn enaid dyn sydd yn cael mai ffug yw ffug. Gall rhwysg gwyliau eulun swyno serch halogedig, ond rhaid i gydwybod gael gwirionedd syml. Y mae pob peth yn myned drwy brawf, a'r hyn a ddeil y prawf sydd o werth yn mhob peth. Yr hyn sydd yn *real* sydd i'w obeithio neu i'w ofni. Gall plentyn chwerrthin ar lun llew, ond cryna y cadarnaf pan wél ef ei hun. Gall darlun swyno, ond nis gall wneyd rhagor. Mewn gwirionedd y mae y byd yn cyfarfod â'i angen. Gellir gyru arian yn ddalenau eto fel y genedl, a

lluosogi duwiau mor aml a sêr y nefoedd, ond bydd eu haddolwyr yn marw yn dlotach nag adar y tô, ac yn druenusach na chythreuliaid. Rhaid cael gwirionedd i gyfarfod âg angen byd euog a damniol.

Duw Brw.—Dyma enw llawn mor nodweddiadol o Dduw a'r enw blaenorol. Dichon fod y disgrifiad hwn yn cyfarfod yn gyffredinol â dynion yn well na'r llall. Dau ddosbarth sydd yn cael gafael ar wirionedd. Ymehwilwyr diduedd ac hunan-ymwadol, a chydwybodau deffroedig gan Ysbryd Duw. Mae y cyntaf yn cael gwirionedd yn ddolen mewn cadwyn, a'r llall yn cael bach y gadwyn yn gylmedig am ei euaid. Mae y cyntaf yn cael gwirionedd yn rhan o *system*, ond y diweddaf yn teimlo rhinwedd y *system* hono yn faddeuant o'i holl bechodau. Archwilio y moddion y mae un, ond y mae y llall yn gwella yn ei rhinwedd. Gall y cyntaf farw yn druenus er ei weled; ond am yr ail, ni wél farwolaeth. Ond y mae yr enw "*Duw byw*" fel pe yn ngolwg llygaid dyn. Rhaid i ddyn ddewis bod yn ddall a byddar, neu daw ar draws yr enw hwn yn rhywle.

1. *Yr ydym yn olrhain pob peth i fywyd.*—Yr ydym yn gweled mai bywyd sydd yn cydio y cwbl. Nis gallwn ddychymygu am greadigaeth heb fywyd. Megys nas gallwn feddwl am *system* heb ganolbwynt, am gyfansoddiad heb galon, am lywodraeth heb orsedd, am foesau heb egwyddorion, felly nis gallwn feddwl am greadigaeth heb fywyd. Gallwn feddwl am wahanol ranau difwyd o'r greadigaeth, ac edrych ar fater yn ei wahanol ffurfiau, ond y mae y syniad o *ddibyniaeth* yn ein tafu yn ol i chwilio am fywyd. Dichon fod amryw ffrwythau gasglwyd yr hâf diweddaf wedi marw, ond nis gellir edrych arnynt heb feddwl mai cynrych bywyd ydynt. Y mae y gof-golofn o farmor yn ein harwain yn ol at yr hwn y codwyd hi er ei fwyn, ac yntau yn ein harwain yn mhellach at ryw weithredoedd gorehestol a gyflawnwyd ganddo. Mae edrych ar weithredoedd Duw yn ein harwain at y bywyd

Dwyfol. Mae y bywyd distadlaf yn rhan o'r gadwyn; os mai y ddolen isaf ydyw, y mae hi yn y gadwyn; y mae dolen uchaf bywyd yn cydio yn Nuw. *Duw byw yw ein Duw ni.*

2. *Mewn bywyd y mae pob peth yn cyrhaedd graddau uchaf ei ddadblygiad.*—Bywyd sydd yn rhoddi y gwerth uchaf ar bob peth. Beth yw gwerth cyferbyniol darlun marw at sylwedd byw? Pa agosaf at debygolrwydd i fywyd y bydd y darlun, gwerthfawrocaf oll ydyw. Gellir tynu darlun prydferth ar *ganvas*, ond y mae y *canvas* yn fwy ei werth na'r darlun ynddo ei hun. Dangosodd yr Arglwydd yn ngwaith y chwe' diwrnod mai bywyd oedd y peth mwyaf a grëodd. Rhoddodd fywyd ar y ddaear i gynyrchu llysiau o wahanol rywiogaethau, crëodd greaduriaid oedd eu bywyd yn dibynu ar gynyrch bywyd y ddaear. Darpariaeth o eiddo dwyfol ddoethineb oedd hyn. Crëodd ddyn yn olaf, ond yr oedd yno fywyd uwch nag a grëodd Duw, bywyd ag yr oedd yr Arglwydd am i ddyn ei enill. Hyn oedd amcan y prawf. *Codi* y gwelir Duw yn ei weithredoedd. Bywyd yw y cyfrwng sydd gan Dduw yn troi pob peth i gyrhaedd ei amcan gosodedig. Fe safai y greadigaeth yn ddiwerth hebdo. Dyma y llygad sydd yn gweled y prydferth, y glust sydd yn clywed y peroriaethus, y llaw sydd yn tynu y firwythau crogedig oddiar bren y bywyd. I hwn yr ysgrifennodd Duw ei enw, yr hysbysodd ei gymeriad, ac y gwnaeth ei ewyllys, ac y mae ganddo drysordŷ llawn o ymborth i hwn am byth. Bywyd sydd yn taffu elfen o werth i bob peth. Y mae bywyd yn ei wedd isaf yn uwch na mater yn ei ffurf uchaf. Y mae hwn yn newid gwedd y greadigaeth bob blwyddyn. Y mae cyfnewidiadau lluosog yn nodweddu bywyd yn ei ffurf isaf, ac y mae cyfnewidiadau mwy yn nodweddu bywyd mewn ffurfiau uwch. Rhyw ymddadblygu y mae bywyd yn barhaus; cyrchu at berffeithrwydd y mae. Ond y mae y perffeithrwydd hwnw yn nodweddu bywyd yn y testyn—*Duw byw.*

Ffynhonell pob bywyd.—Dilyner yr afon, dyma y ffynon; dilyner pob fflachiad o oleuni, dyma yr haul. Rhaid fod cymundeb rhwng pob bywyd a hwn, mewn trefn iddo i barhau. Mae cysylltiad agos rhwng y swyddfa lle y mae y pellebyr yn cychwyn allan o honi a'r swyddfa lle y mae *wire* y pellebyr yn myned i mewn iddi. Gall dyn weled y genadwri yn cyrhaedd, heb weled y *wire* sydd yn ei chludo. Gellir gweled ambell un yn ymfrostio yn ei fywyd, ond nid yw yn gweled y cysylltiad rhyngddo â'r dwyfol. Y mae y bywyd hwn yn llifo allan yn rheswm parhad creadigaeth, a thynu yn ol at Dduw y bydd ei berffeithrwydd. *Duw byw.*

3. *Bywyd yw un o nodweddau gwahaniaethol Cristionogaeth.*—Y mae tystiolaeth y testyn yn berffaith gydweddol â dylanwad Cristionogaeth ar y byd. Yr unig gyfundrefn o fywyd a wynebodd y byd erioed yw Cristionogaeth. Nis gall un gyfundrefn gario effeithiau yn uwch na hi ei hun. Fe gwyd y dwfr i *level* ei darddiad, ac fe gwyd dylanwad gweithredoedd moesol i *level* y gweithredydd. Ni chododd un gyfundrefn erioed yn uwch yn ei dylanwad na'r meddwl yn yr hwn yr ysgogodd. Ac ni allasai neb roddi cyfundrefn i godi byd cyfan. Gallodd ambell i gyfundrefn gynhyrfu uchelgais, ac un arall gynyrchu balchder, ond yr oedd eu seiliau yn bwdr fel eu dylanwad. Yr oedd eisiau tafu bywyd i gymdeithas, a chyfundrefn felly yw Cristionogaeth. "Byw wyf fi, a byw fyddwch chwithau hefyd;" bywyd yn llifo allan o ffynhonell bywyd ei hun. Yr oedd eisiau cael cyfundrefn yn codi oddiar fywyd oedd yn gryfach na marwolaeth y byd. Cyfeiliornodd y byd yn fawr yn hyn. Credodd dynion y galleid crefyddoli y byd drwy waith y cleddyf, y fagnel, a'r bidog; ond difa bywyd a wnai y rhai hyny, a chynyrchu eiddigedd gelyniaethus. Mwydwyd y ddaear â gwaed, ond ni thyfai rhinweddau mewn *soil* felly. Rhywbeth i symud ymaith sefyllfa farnol y byd oedd eisiau. Gwelodd angelion yn Bethlehem fwy na genedigaeth baban; gwelsant bechod yn marw, a thyrfa

ddirif yn cael bywyd. Gwelodd cythreuliaid fwy na dyn yn rhodio; gwelsant yr Hwn a ddybenai gamwedd, ac a ddygai fywyd ac anllygredigaeth i oleuni. Ceisiodd Pedr ladd gelyniaeth Malchus, a thorodd ei glust â chleddyf, ond yr oedd mwy o duedd i wneyd hyny yn ngwaith Crist yn *cementio* ei glust yn ol. Gweithredoedd yn codi oddiar fywyd yw y gweithredoedd i wella y byd. Yr afon sydd yn glanhau y bydreddi ymaith, y goleuni sydd yn lladd y tywyllwch, caredigrwydd sydd yn lladd gelyniaeth, a bywyd sydd i ddifa marwolaeth yn mhob ffurf. *Duw byw* yw Duw yr Efengyl, ac y mae sŵn bywyd yn llais holl blant Duw, o gân yr archangel hyd ruddfan yr edifeiriol. Bydd y bywyd hwn wedi cyrhaedd y fath ddylanwad, fel y dywedir "A marwolaeth ni bydd mwyach," "Angau a lyncwyd mewn buddugoliaeth."

II. FOD Y DUW HWNW YN MEDDU AR LYWODRAETH DRAGY-
WYDDOL. — "BRENIN TRAGYWYDDOL." — Teitl urddasol ar Dduw yw Brenin. Golyga fod llywodraeth yn ei law, a gelwir hi yn llywodraeth dragywyddol Mae cysylltiad agos rhwng creadigaeth â llywodraeth. Cyplysir hwy â'u gilydd yn yr holl ddatguddiad dwyfol, ac ni all rhyfyg godi yn llawer uwch na gwadu llywodraeth Duw. Priodolir creadigaeth i wahanol achosion. Rhaid cael syniad cywir am greadigaeth cyn y gellir cael syniad cywir am lywodraeth, o herwydd yr hyn sydd yn cyfrif am *fodolaeth* sydd yn cyfrif am *barhad* bodolaeth. Os mai damwain yw y rheswm am fodolaeth pob peth, yna damwain sydd yn cyfrif am barhad pob peth mewn bodolaeth; ac felly, nid cynyrech cynllun a threfn yw dim. Ond y mae y syniad hwn yn myned yn erbyn holl *deimladau* y galon ddynol, yn erbyn holl *dystiolaeth* natur a Rhagluniaeth, ac yn erbyn tystiolaeth Duw ei hun. Y mae y meddwl dynol yn gofyn am ddyogelwch. Dywed natur fod y cwbl yn ddyogel, yn pwysu ar ddeddfau oedyrn, ac y mae Duw ei hun yn dweyd y bydd ef byw byth i lywodraethu, a'i fod yn dâl y ddaear ar gledd ei law.

Gorsedd sydd yn cyflwyno y syniad o ddyogelwch. Dyma y canolbwynt i deyrnas. Edrychir ati gan bawb, o'r tlotaf yn ei fwthyn, hyd y cyfoethocaf yn ei balas; o'r mwyaf ufudd, hyd y troseddwr mwyaf sydd yn y carchar. Dyma lle yr edrycha y tlotaf am ddyogelwch i'w gymeriad, yn gystal a'r cyfoethocaf am ddyogelwch i'w eiddo. Dyma y gallu diweddaf i'w orchfygu; ac os gorchfygir yma, daw dinystr. Beth fuasai y bydysawd heb lywodraeth arno? Cymysgfa diderfyn, peryglus, a dinystriol. Ond y mae gan Dduw ei lywodraeth. Y mae wedi codi ei orsedd yn ganolbwynt i'r holl fydsawd. Edrychir ar ei orsedd o'r nefoedd gan archangelion, o'r ddaear gan ddynion, ac o uffern gan gythreuliaid. Efe sydd yn rhwymo "hyfrydwch Pleiades," ac yn datod "rhwymau Orion;" geilw y sêr wrth eu henwau. "*Brenin tragwyddol.*"

1. *Gorsedd sylfaenedig ar Iawnder ydyw.*—Cyfiawnder yw un o egwyddorion sylfaenol llywodraeth Duw. Gellir proffwydo parhad unrhyw orsedd wrth ei sylfaen hi. Y mae y cyhuddiad a lunir ar dwyll yn rhwym o gael ei dynu yn ol. Mae y tŷ godwyd ar dywod yn sicr o ddadymchwelyd, ac y mae pob gorsedd sylfaenedig ar annghyfiawnder yn rhwym o gael ei dinystrio. Mae gorseddau yn newid eu deiliaid, fel mae y gwledydd yn newid eu gorseddau. Mae seiliau pwdr a thywodlyd gorseddau yn cael eu symud ymaith gan wirionedd Duw; ac fel y byddo iawnder yn ymledu, fe ddryllir pob gau-hawliau. Y mae gan Dduw ei orsedd, yr hon sydd yn sylfaenedig ar gyfiawnder. Crëodd Duw y byd yn ei ddoethineb. *Doethineb* Duw sydd yn llanw y lle amlycaf yn nghreadigaeth y byd. Daioni a ffyddlondeb Duw sydd yn fwyaf eglur yn nghynaliad y byd, ond cyfiawnder Duw yw yr egwyddor fawr a lywodraetha y byd. Dichon y gall fod llawer gweithred yn gyfryw nad yw amser yn ddigon o gylch i'w hesbonio. Pan gollodd Jacob ei fab Joseph, dywedodd eiriau byrbwyll. Paham y taniataodd Duw i genfigen a malais ei frodyr iddynt arfer y fath greulondeb at eu brawd?

Paham y caniaaodd Duw glwyfo meddwl yr hen batriarch yn ei henaint â gweithred mor greulawn i'n golwg? Yr oedd bwriadau yr orsedd yn byw yn mlaen am flynyddau. Yn amser newyn y cafwyd yr esboniad. Y mae cyfiawnder yn sicr o sefyll. Cododd angelion unwaith yn erbyn yr orsedd, ond safodd; cododd dynion yn erbyn yr orsedd, ond y mae hi yn sefyll. Fe saif hon pan y berwa tônau y moroedd, pan y syrthia sêr y nefoedd, pan neidia y mynyddoedd oddiar eu gwadnau. Rhaid newid natur Duw, rhaid trechu egwyddorion sylfaenol y llywodraeth ddwyfol, onide fe saif gorsedd Duw. "*Brenin tragywyddol.*"

2. *Gorsedd a ddarostynga bob amgylchiad i'w gwasanaeth ei hun.*—Y mae amgylchiadau yn plygu gorseddau atynt hwy weithiau. Mae ambell i orsedd yn rhy wan i gyfarfod yr amgylchiadau. Mae gwrthryfel yn anrheithio y wlad, a'r llywodraeth yn rhy wan i'w ddarostwng; mae y gwrthryfelwyr yn gwau drwy y wlad mewn rhyddid peryglus, cleddyf y gwrthryfelwr yn disgleirio yn yr haul, sŵn y magnelau yn dychrynu ardaloedd tawel. Mae yr amgylchiad yn *plygu yr orsedd*. Mae llywodraeth arall yn methu a thalu ei dyled. Mae dynion o bob gwlad wedi ymddiried cyfoeth i'r orsedd yn enw *gorsedd*; ond y mae yr orsedd yn rhy wan i dalu ei ffordd. *Plygu* i'r amgylchiad. Mae llywodraeth arall yn gwaedu ar ol dwy dalaeth a gollodd hi yn y rhyfel ddiweddaf, ac yn rhywani'w hadfeddianu. *Gorfod plygu* i'r amgylchiad. Ond y mae gorsedd Duw yn plygu yr *amgylchiadau* iddi ei hun. Gall hon gloi gwrthryfelwyr mewn carchar tragywyddol i farn y dydd mawr. Y mae miloedd wedi ymddiried y cwbl a feddent i hon, ond ni fydd neb byth ar ei gollod; canys y mae wedi penderfynu adfeddianu ei heiddo, serch talu mwy am dano na'i werth filwaith. Dichon fod amgylchiad dinystriad byddin Senacherib yn brawf mor amlwg o gyfryngiad llywodraeth Duw ag un amgylchiad. Daeth ei fyddin i ymosod ar Jerusalem pan oedd Hezekia yn teyrnasu yno. Anfonodd genhadau at Hezekia i ddweyd wrtho am beidio

ag ymddiried yn neb, a'i fod ef wedi dinystrio cenhedloedd a'u duwiau. "Mae brenin Hamath a brenin Arphad;" ac yn ddiweddaf, dywedodd wrtho am beidio ymddiried yn ei Dduw. Dyma y gorchwyl caletaf. Buasai yn well gan Hezekia golli ei orsedd na gwneyd hyn. Trôdd Hezekia at Dduw, a dywedodd, "Arglwydd y lluoedd, Duw Israel, yr hwn wyt yn trigo rhwng y cerubiaid, ti ydwyt Dduw, ië, tydi yn unig i holl deyrnasoedd y ddaear; ti a wnaethost y nefoedd a'r ddaear. Gogwydda, Arglwydd, dy glust, a gwrando; agor dy lygaid, Arglwydd, ac edrych: gwrando hefyd holl eiriau Senacherib, yr hwn a anfonodd i ddifenwi y Duw byw." Beth yw'r ateb? Meddai Duw wrth Senacherib "Am i ti ymgynddeiriogi i'm herbryn, ac i'th ddadwrdd ddyfod i fyny i'm clustiau, am hyny y rhoddaf fy mâch yn dy ffroen di, a'm ffrwyn yn dy weflau, ac a'th ddychwelaf di ar hyd yr un ffordd ag y daethost." "Canys mi a ddiffynaf y ddinas hon, i'w chadw hi er fy mwyn fy hun, ac er mwyn Dafydd fy ngwas." Lladdwyd Senacherib gan ei feibion ei hun â'r cleddyf yn nhŷ ei dduw.

• 8. *Gorsedd ag y bydd ei dylanwad yn gydfynedol â'i bodolaeth hi.*—Y mae gallu a gorsedd yn ddau air cydfynedol yn ein meddyliau. Ond nid yr un dylanwad sydd gan bob gorsedd. Mae eu dylanwad yn gwanhau hefyd. Ond bydd dylanwad gorsedd Duw yn dragywyddol. Mae annoethineb llywodraethwyr yn cyfrif am fod rhai gorseddau yn colli eu dylanwad. Mae diffyg gallu i gosbi troseddau yn cyfrif am fod gorseddau eraill yn colli hyny. Mae pryder neillduol yn cael ei deimlo gan y llywodraethau mawrion am gadw *balance of power*; ofnant i un orsedd i feddianu sefyllfaoedd rhy fantesiol. Ymleddir llawer brwydr i gadw *balance of power*. Ond am orsedd Duw, y mae hon yn hollalluog. Ni ddaw deddf allan ond a fydd yn adlewyrchu ei gogoniant, ac yn dyfnhau ei dylanwad.

Y mae y Proffwyd yma yn darlunio dylanwad y llywodraeth ar yr holl ddaear. "Rhag ei lid ef y cryna y

ddaeaf, a'r cenhedloedd ni allant ddyoddef ei soriant Ef." Y mae gallu mawr yn beryglus, oddieithr iddo gael ei gysylltu â thynnerwch ac â daioni mawr. O allu heb dynnerwch y mae pob creulondeb yn tarddu. Ond y mae cymaint o dynnerwch ag sydd o allu yn Nuw. Y mae ei allu o dan lywodraeth tynerwch. Ond sŵn gallu sydd yma yn creu dychryn. Y "cenhedloedd ni allant ddyoddef ei soriant ef." Gwadant eu duwiau, llosgant yr eulunod, dinystriant eu temlau, a gwynebant yr Hwn "ni allant ddyoddef ei soriant."

PREGETH XX.

MADDEUANT YN SAIL GWIR DDEDWYDDWCH.

“DEDWYDD *yw* y *gwr* nid *yw* yr Arglwydd yn cyfrif pechod iddo.”
—RHUFENIAID iv. 8.

CYNNWYSA y benod hon eglurhad ar athrawiaeth cyfiawnhad pechadur gerbron Duw. Yr awdurdod sydd yn gweithredu, “Duw *yw* yr hwn sydd yn cyfiawnhau;” y cymeriad y gweithredir ardo, yr annuwiol; y cyfrwng *yw* ffydd, yr hon a gyfrifir iddo yn gyfiawnder; y dylanwad a weithir ganddi *yw* “peidio amheu addewidion Duw drwy anghrediniaeth;” y fendith olygedig ynddi *yw*, maddeuant o'r holl anwiredd, a sefyllfa y meddwl gafodd hyn *yw* “*dedwydd* *yw* y *gwr* nid *yw* yr Arglwydd yn cyfrif pechod iddo.” Gwirionedd perthynol i drefn iachawdwriaeth *yw* cyfiawnhad yr euog. Cyfiawnder, nid yn cael ei blanu ynddo yn egwyddor, ond yn cael ei gyfrif iddo yn feddiant. Cyfiawnder, nid yn ymôstwng at y pechadur, ond pechadur yn codi drwy ffydd i afael cyfiawnder. Nid ffydd *gyfiawn*, ac nid ffydd yn *cyfiawnhau*, ond ffydd yn sefyll yn gyfrwng gosodedig rhwng y Deddf-roddwr a'r deddf-dorwr, ac yn symud y diweddaf i'r man y mae y cyntaf yn edrych arno yn ddifai. Ffydd cyfiawnder yn cymeryd gafael yn addewid Duw, a chyfiawnder ffydd o râs yn cymeryd gafael yn yr euog. Ffydd yn newid dillad budron y troseddwr, ac yn ei wisgo â dillad newydd; ond nid hi bia y diweddaf, fwy na'r cyntaf.

Moses arweiniodd Israel o'r Aipht, ac a ranodd y Môr Coch; ond Josuah barthodd yr Iorddonen, goncrodd y Canaaneaïd, ranodd yr etifeddiaeth i'r llwythau, ac a sefydlodd y genedl yn nhir yr addewid. Rhaid rhanu y clôd rhwng y ddau. Ond nid *yw* ffydd yn gadael dim ar

ei hol i neb. Hon sydd yn cydio yn y pechaduri'w dynu allan o'i euogrwydd, a hi sydd yn ei wisgo â'r cyfiawnder ni dderfydd. Perffeithia y waredigaeth. Y mae trefn iachawdwriaeth yn hollol o rás. Nid grás yn dileu rhwymedig-aethau moesol dyn, ond yn eu mwyhau. Y mae cyfiawnhad pechadur yn syniad dwyfol; nid yn dinystrio, ond yn cyfanu; nid yn dileu, ond yn adferyd, yr hyn sydd yn hanfodol i fodolaeth, a'r fodolaeth hono i godi yn nes i Dduw.

Y mae bendithion yr Efengyl yn gysylltiedig â'u gilydd. Nis gellir penderfynu pa un a roddir gyntaf, ac y mae yn anhawddach penderfynu pa un a roddir ddiweddaf. Gellir penderfynu cyfeiriad y symudiad, ond nid ei amser. Pa un o'r nodwyddau ar ddial *clock* sydd yn cychwyn gyntaf? Y mae yn hawddach penderfynu pa un sydd yn myned gyflymaf; y mae yn fwy amlwg. Pa allu yn meddwl dyn sydd yn cychwyn gyntaf yn nghyfeiriad bywyd tragwyddol? Pa fendith yn nhrefn grás sydd yn dyfod gyntaf i feddiant y pechadur? Symudant gyda'u gilydd, fel *spokes* yr olwyn, ac fel gronynau pelydrau goleuni. Y mae yr iachawdwriaeth yn gyfanwaith gogoneddus; ond nid felly y meddianir hi, eithr yn rhanau. Nid rhanau annibynol ar y cyfan, ond yn ernes o'r cyfan. Y mae y naill fendith yn cynnwys y llall. Yn y geiriau hyn y mae yr Apostol yn dyfynu geiriau o eiddo Dafydd, gynnwysant y syniad o faddeuant; ond yma deuant i fewn yn nghanol pwnc cyfiawnhad. Mae cyfiawnhad yr euog yn golygu maddeuant, ac yn ei gynnwys, ond nid yw maddeuant yn cynnwys cyfiawnhad. *Peidio* cyfrif yw maddeuant; cyfrif yw cyfiawnhad yr Efengyl. *Peidio* cyfrif pechod i'r pechadur yw maddeuant, a chyfrif cyfiawnder Crist iddo yw cyfiawnhad. Ei anghymhwys o i uffern yw y cyntaf, ond ei addasu i'r nefoedd yw y diweddaf. Saif maddeuant yma fel rhan o gyfiawnhad yr euog, fel dechreuad y gwaith. "Dedwydd yw y gwr nid yw yr Arglwydd yn cyfrif pechod iddo."

I. YN DDEDWYDD AR GYFRIF YR EGLURHAD Y MAE MADDEUANT YN EI RODDI AR GYMERIAD DUW.—Y mae perthynas anwahanol dyn â gorsedd ac â llywodraeth Duw yn ei wneyd yn hanfodol fod cymeriad Duw yn ffynhonell o fwynhad neu o ddyoddefaint i ddyn, yn ol y graddau hyny o ufudd-dod neu anufudd-dod fyddo yn mywyd dyn. Y mae cymeriad moesol, fel bywyd y greadigaeth, yn gwneyd pobpeth cydnaws âg ef ei hun yn eiddo iddo. Y mae cyfatebiaeth rhwng mwynhad neu ddyoddefaint a'r ffynhonellau o'r rhai y tarddant; cyfatebiaeth nid rhwng maint, ond natur; nid rhwng effeithiau, ond achosion; nid rhwng ffurwythau allanol, ond rhwng bywyd mewnol ac anweledig. Y berthynas uchaf yw sail y rhwymedigaeth ddyfnaf, y gwirionedd mwyaf sydd yn rhoddi bodolaeth i'r ddyledswydd bwysicaf, a'r awdurdod uchaf sydd yn creu y cyfrifoldeb dwysaf. Y mae cymeriad Duw yn ei lywodraeth foesol yn anfeidrol bwysicach na phob datguddiad o Dduw yn ei lywodraeth naturiol. Y mae datguddiadau yn fynych yn cyfateb i amgylchiadau, yn wahanol yn eu hamcanion, a gwahaniaethant yn eu dylanwad ar y meddwl. Mae y dull y mae Duw yn dwyn ei lywodraeth yn mlaen ar wrth-ddrychau natur yn bwysig fel maes astudiaeth, a'r astudiaeth hono yn bwysig fel ffynhonell o fwynhad i feddwl ymfyngar; ond pan y bydd Duw wedi dirwyn i fyny i'w law linydded, pan y bydd yn cau cloriau cyfrol ardderchog y cread, bydd ei lywodraeth foesol yn dragywyddol bwysig. Y mae ymdeimlad y meddwl o'i gyfrifoldeb yn peri iddo bryderu am gymeriad Duw. Y mae pob casgliad y gall meddwl ddyfod o hyd iddo am Dduw yn annibynol ar eglurhad yr Efengyl, yn ffynhonell o boen. Y mae yma hoffder at drefn, a gallu yn ei dyogelu, yn cyd-gyfarfod yn nhystiolaeth allanol llywodraeth Duw. Y peth pwysicaf, nesaf at fodolaeth, yw natur; gogoniant natur, yw purdeb; a dylanwad purdeb yw dedwyddwch. Cyfyd pob dedwyddwch o natur neu amgylchiadau. Os o'r diweddf, y mae yn gyfnewidiol; ond os o'r cyntaf, y mae yn barhaol.

Y mae y weithred foesol leiaf yn fwy na phob gweithred arall wedi eu huno. Yr oedd mwy yn y dagrau gollodd y Gwardwr uwchben bedd ei gyfaill, nag oedd yn y weithred o godi ei gyfaill o'r bedd. Lle y mae dynion yn gweled fwyaf, y mae Duw yn gweled leiaf; a lle y gwél dyn leiaf, y gwél Duw fwyaf.

Y mae dau beth yn gwneyd perthynas yn wir bwysig—ei pharhad, a'i hysbrydolrwydd. Y mae tri pheth yn gwneyd parhad yn bwysig—ei amodau, ei natur, a'i amcan. Ond y mae ysbrydolrwydd y berthynas yn codi allan o sylfaen y berthynas, ac yn rhoddi iddi hefyd gylch o fywyd fydd yn ernes o barhad. Mae y datguddiad dwyfol yn cynnwys eglurhad ar natur y berthynas, y dygir tystiolaeth i'w bodolaeth yn meddwl dyn ei hun; a dygir y meddwl drwy faddeuant dwyfol i fan y gall ddymunio parhad y berthynas. Rhoddir ysgydwad i'r teimlad hwn gan bob pechod a gyflawnir, a nerth sanctaidd gan y rhyddhad o bob pechod a faddeuir. Y mae parhad perthynas dyn a Duw i'w arswydo wrth bechu, ond i'w dymuno wrth edifarhau. Perthyn i fyd ysbrydol y mae cymeriad moesol, wrth safon foesol y bernir ef, dylanwad moesol a gynyrcha, ac oddiwrth bethau a gwrthddrychau moesol ac ysbrydol y teimla fwyaf; a'r cwestiwn naturiol yw, a yw cymeriad moesol dyn yn cyfateb i'r datguddiad sydd genym o gymeriad moesol Duw? A nodweddir cymeriad dyn gan y purdeb sydd yn nodweddu cymeriad Duw? Os na, beth yw y casgliad? Rhaid i gymeriad dyn fyned o dan gondeiniad gwirionedd Duw, neu rhaid i gymeriad Duw newid i gydweddu â'r eiddo dyn, cyn y gall y berthynas sydd rhwng y ddau fod yn ffynhonell o fwynhad. Deil cymeriad Duw berthynas â'r greadigaeth gyfan, o'r hon nid yw dyn ond rhan. Deil cymeriad moesol dyn berthynas â byd tragwyddol, a thragywyddoldeb o annghydgordiad y ddau gymeriad, y dynol a'r dwyfol, fydd yn gwneyd uffern yr annuwiol byth.

Y mae amrywiaeth yn cyfansoddi prydferthwch yn yr

ardd flodau a'r winllan ffrwythau, ond y mae unoliaeth yn hanfod bywyd, ac yn ffynhonell nerth. Y mae gwahaniaeth lliwiau yn yr enfys, a lleisiau yn yr anthem, yn ddymunol; ond y maent yn ymdoddi i'w gilydd, fel y ffurfia y naill un olygfa ogoneddus, a'r llall un beroriaeth felus. Ond y mae y gwahaniaeth sydd rhwng cymeriad dyn a chymeriad Duw yn cynnwys mwy na gwahaniaeth, cynnwysa wrthdarawiad—gwrthdarawiad rhwng yr hyn sydd yn *ogoniant* Duw a'r hyn sydd yn *warth* dyn. Rhaid i'un o'r ddau roddi ffordd.

Nid yn unig y mae cymeriad Duw yn ogoneddus fel y mae yn codi allan o hanfod daioni ynddo ei hun, a gweithredoedd sanctaidd a chyfiawn yn ei lywodraeth, eithr y mae yna fwy. Cynnwysa y daioni hwn yr elyniaeth fwyaf at bechod. Y mae sancteiddrwydd yn cynyrchu ffeidd-dra yn y meddwl at ddrygioni. I'r graddau y cyfyd cydymdeimlad dyn â'r hyn sydd dda, y ffeiddia bob peth sydd yn ddrwg. Y mae purdeb cymeriad Duw yn condemnio, yn gystal a chymeradwyo. Yn y fan y cynyddâ grâs, y gwywa pechod. Y mae y cythreuliaid yn ofni lle y mae y Cristion yn caru. I reswm dynol y mae y pellder yn annileadwy; ond yn yr athrawiaeth o faddeuant, y mae gobaith yn ymddangos—gobaith nid am gymmodi pechod a sancteiddrwydd, trosedd a gwirionedd, ond am gymmodi cymeriad dyn a Duw. Y mae elfenau y dwyfol, y pur, a'r sanctaidd, yn dyfod i ddisgleirio yn y dynol, a dylanwad y datguddiad yma yw cynyrchu dedwyddwch yn meddwl dyn.

Y mae tynerwch yn cynyrchu teimlad gwahanol yn y galon i lymder. Cadw ymddiriedaeth yn yr hyn sydd mewn meddiant y mae llymder, ond rhoddi gobaith am adferiad yr hyn a gollwyd y mae tynerwch. Sefyll ar *lythyren* allanol y gorchymyn y mae y naill, ond gweithio allan *ysbryd* y gorchymyn y mae y llall; ond pe gwelid y ddau wedi eu huno, byddai yr effaith yn wahanol fyth. Y mae dau allu yn gweithredu yn nghyfansoddiad dyn, fel sydd

yn gweithredu ar y ddaear yn ei pherthynas â'r haul; ac o gyfuniad y ddau y mae dyogelwch yn tarddu. Y mae dau allu yn nghymeriad Duw. Cydwedda tynerwch yn fwy â'u teimladau presenol, nid ar draul diystyru llymder; ond fel y cyfodwn yn uwch mewn ysbrydolrwydd, teimlwn y berthynas yn fwy. Gall llymder weinyddu cosb, ond cosb a'i hanfod yn codi o syniad neu adgof am dynerwch, a dyna sydd yn *gwneyd* y *prif* gosbedigaethau. Gall tynerwch leddfu trueni, a iachau clwyfau; ond o gydweddiad hyny âg ysbryd pob gwirionedd y bydd y *prif* ddedwyddwch yn codi. Mae gair caredig ar dafod gelyn yn dda, ond pan y daw o galon cyfaill y mae ef felusaf, am fod ynddo fwy o galon. Beth yw gogoniant y datguddiad o faddeuant Duw? Hwn sydd yn cynyrchu gobaith yn meddwl yr euog, nes y cwyd ei ben o'r pydew at burdeb. Hwn sydd yn llonyddu storom yn meddwl yr euog. Hwn sydd yn rhoddi golwg i ddŷn, a'r elfen yn nghymeriad Duw fydd yn tynu dyn yn nes at Dduw am dragywyddoldeb. Y mae yr orsedd yn swyn i'w feddwl. Paham y mae eich calon chwi yn llosgi? Nid o herwydd eich bod yn adnabod yr hwn sydd yn siarad â chwi. Cynhyrfwyd y meddwl gan y geiriau cyn ei adnabod. Dim ond Efe a allasai eu dweyd; ac wedi ei adnabod, yr oedd yn dda ganddynt gael cyfle i'w arddel. Y mae swm y maddeuant yn rhoddi rhywbeth i'r galon sydd yn adnabod Duw. Ond wedi hyn bydd yr heddwch yn y fynwes.

II. DEDWYDDWCH YN CODI ALLAN O'R PROFIAID A RODDIE GAN DDUW YN Y MEDDWL PAN YN PEIDIO A CHYFRIF PECHOD I'R MADDEUEDIG.—Defnyddir yma dri gair i gyfleu syniad am faddeuant, ac y mae i bob un ei ystyr briodol ei hun. *Madden*, *cuddio*, a *pheidio cyfrif*. Ystyr y gair "madden" yma, yw cymeryd ymaith. Bernir fod yma gyfeiriad at waith y bwch diangol yn dwyn ymaith i'r anialwch feiau a gyfrifid arno; ond yr hyn oedd yn annymunol oedd, fod y bwch yn myned i golli, a'r beiau yn aros i ddychwelyd. Yn yr Efengyl y mae y beiau wedi eu cyfrif ar Feichniydd

y cyfamod newydd; ond yma y mae y Meichniydd yn aros, a'r beiau yn myned i golli. Fe symudir y beiau drwy faddeuant, ac fe symudir pechadur drwy gyfiawnhad —“maddeuwyd eu hanwireddau.”

Cuddio trosedd. Bernir fod yma gyfeiriad at ddygiad y gwaed i'w dywallt ar y drugareddfa gan yr archoffeiriad. Gorchuddid yr arch gan y drugareddfa. Yr oedd y gorchymyn oedd wedi ei dori yn guddiedig o dan waed yr aberth. Cuddio pechod. Mae Duw yn myned i osod rhywbeth rhwng y dyn a'i drosedd, yn myned i orchuddio pechod. Bydd y drugareddfa rhwng y troseddwr a'i bechodau, a hono wedi ei chuddio â gwaed Aberth anfeidrol; ac y mae yr hwn sydd yn cuddio yn dweyd na ddaw y ddau i wyneb eu gilydd byth. Cafodd Jeremiah y proffwyd guddio ei wregys yn yr Euphrates, ond cafodd orchymyn i chwilio am dano; ond yr oedd wedi pydru fel nad oedd dda i ddim. “Felly y gwnaf i falchder Juda, a mawr falchder Jerusalem bydru.” Ond pan yn cuddio trosedd yma, pan y chwilir am bechodau Israel, ni cheir hwynt. Cuddio pechod. “Ni chyfrif yr Arglwydd iddo anwiredd.” “Nid yw yr Arglwydd yn cyfrif pechod iddo.” Saif y dystiolaeth yma ar ochr nacaol gwirionedd. Yr hyn *nad* yw Duw yn ei wneyd — peidio a chyfrif pechod; peidio a'i roddi yn erbyn dyn. Yr hyn sydd yn myned yn uniongyrchol yn erbyn Duw, yn peidio cael ei roddi yn erbyn dyn. Duw yn peri i holl dystion ei lywodraeth i gadw draw o'r llys, yn gorchymyn distawrwydd ar ganol y *trial*, wrth weled dagrau edifeirwch y troseddwr. Yr hwn a wyr rhif pechodau yn myned i'w hanghofio. Yn rhyddhau oddiwrth bob pechod. Peidio a chyfrif. Yr ydym ni yn ceisio mesur pechod yn ei ganlyniadau, ond y mae hyny yn amhosibl. Nis gellir mesur canlyniadau pechod, am nas gellir mesur y pechod sydd yn y canlyniadau. Mae canlyniadau pechod yn cymeryd cylch eang—amser maith. Pwy a fedr ddychymygu dyfnder eu dylanwad, a'r trueni a gynyrchant? Oblegyd y canlyniadau y cosba dynion yn

fynych ; dyma reol sicraf ein gweithredoedd. Esgeulus-odd dyn gyflawni ei ddyledswydd, a thrymheir y gosb yn ol y golled a'r difrod. Mae peidio cyfrif canlyniadau pechod yn erbyn dyn yn fawr. Peidio a rhoddi yn erbyn y tad pan yn edifarhau, y dylanwad niweidiol a llygredig a gariodd ar ei blant ; peidio a rhoddi yn erbyn yr annuwiol yr effaith lygredig a gafodd ei fywyd ar gymdeithas. Pwy a all fesur y grâs sydd mewn maddeuant yn y fan yna ? Bydd canlyniadau pechodau rywrai yn codi o flaen wyneb y Barnwr y dydd diweddaf, a hwythau wedi cael maddeuant byth. Ond y mae gwedd arall, gryfach eto, i faddeuant, sydd yn cyfrif am y dedwyddwch hwn. Maddeu y *weithred*. Gallwn feddwl am weithred heb iddi ganlyniadau neillduol, ac eto y weithred yn cynnwys yr elfenau gwaethaf, a'r amcan mwyaf llygredig. Dywedodd Ananias anwiredd, a daeth Duw allan megys i dori ymaith ei ganlyniad. Yr oedd y weithred yn cynnwys y beiddgarwch mwyaf annuwiol, yr eöfndra mwyaf pechadurus. Mae y gwrthryfelwr wrth gydio yn y cleddyf yn gwneyd peth mwy na lladd. Mae anufudd-dod dyn i Dduw yn fwy na'r holl golled a all yr anufudd-dod hwnw ei gynyrchu. Rhaid mesur y golled wrth ddyn ac amgylchiadau, ond rhaid mesur pechod wrth y Duw sydd yn awdurdod. Yr oedd gwrthryfel Absalom yn cynnwys mwy na chynyrchu terfysg yn llywodraeth Dafydd ; a phan faddeuodd Dafydd i'w fab, yr oedd yn gwneyd mwy na maddeu y canlyniadau ; yr oedd yn maddeu y gweithredoedd. Y weithred sydd yn cynyrchu y canlyniad. Y taranau sydd yn dychrynu fwyaf ar ddynion, ond yn y mellt mae y perygl. Rhywbeth felly yw gweithredoedd ; y maent i'w gweled yn eu canlyniadau, ond hwy eu hunain sydd yn ofnadwy. Buasai maddeu pechod yn ei ganlyniadau, heb ei faddeu yn yr *act* o hono, yn ddiffygiol i gyfarfod âg angen dyn. Mae gweithred bechadurus yn cynyrchu yn meddwl dyn ddylanwad, a rhaid i'r maddeuant gyrhaedd hwnw ; ond mae y dedwyddwch hwn yn codi o faddeuant Duw o weithredoedd pechadurus.

Ond y mae peth mwy eto yn y maddenant. Mae y weithred a'i chanlyniad yn ddrwg, o herwydd fod rhywbeth yn y dyn yn ddrwg. Yr *ysbryd* sydd yn cynyrchu y weithred, sydd yn ffynhonell i'r holl ddrygau. Dyma y gwreiddyn anweledig, o'r hwn y mae y ffrwyth yn dyfod. Yr elfen wenwynig sydd yn y cyfan i gynyrchu dinystr. Yr *ysbryd* sydd yn rhoi ffurf i'r weithred, a dinystr yn ei chanlyniad. Y mae ymhyfrydu pechu yn taflu pechod fel *act* o'r golwg. O ganlyniad, y mae maddeu *ysbryd* ein gweithredoedd pechadurus yn hanfodol i'r dedwyddwch sydd yn meddwl y maddeuedig. Dyma y man *dyfnaf* y mae maddeuant yn disgyn. Y mae Duw yn maddeu y weithred a'i chanlyniad wrth faddeu yr amcan a'r *ysbryd* sydd yn rhoddi bodolaeth iddynt. Y mae diwreiddio y pren yn sicr o wywo ei holl gangenau. Y mae tynu ymaith ganolbwynt cylch yn dinystrio pob dylanwad o fewn y cylch hwnw. "A faddeuir i ti feddylfryd dy galon." Mesurir gweithredoedd pechadurus gan yr amgylchiadau y byddom ynddynt, ond y mae amcanion llygredig filoedd o honynt *heb* ymawisgo i olwg cymdeithas, a rhaid wrth fwy o rās i faddeu y cyfryw hyny. Y peth *ddymunai* dyn yw ei amcan; y peth a *all* dyn yw y weithred. Pan y mae Duw yn maddeu, yma y teimla dyn effaith y maddeuant gyntaf. Drwy y *microscope* fe welir holl ranau y dderwen gadarn-frig yn y fesen, ond cymer flynyddoedd cyn y daw yn ffurf weledig o flaen llygad noeth. Mae Duw yn gweled holl elfenau cymeriad yr annuwiol yn egwyddorion llywodraethol y meddwl, yn nhueddiadau y galon. Mae goleuni yn teithio yn gyflymach na sŵn. *Clywed* pechodau mae dynion, ond eu *gweled* y mae Duw. Fe wél dyn liwiau y blodeuyn cyn y caiff fwynhau ei bêrarogl. Y goleuni sydd yn cyfrif am y cyntaf, ond ar aden yr awel y daw y diweddaf. Ar y ddalen sydd ar y gangen y *gwelir* y pren yn dechreu gwywo, ond cenadwri marwolaeth yn eodi o'r gwreiddyn yw. Yn y ffrydiau y *gwelir* fod y ffynonau yn sychu. Mae pechodau bywyd yn gwywo o

herwydd fod maddeuant wedi cyrhaedd y galon. Gan mai y galon yw tarddle pechod, yno y mae dedwyddweh ysbrydol yn cael ei roddi. Peth i galon ydyw. Nis gall dim ei ddâl ond calon pechadur. Yr oedd y thuser yn dâl yr arogl-darth yn y cysegr, y crochan aur yn dâl y mana; ond ni chafwyd lle i roi maddeuant erioed ond calon yr edifeiriol. Yn mhllith cyfoeth diderfyn y Duwdod, dyma y cyfoeth mwyaf—maddeuant; ond y mae yn ei roddi yn y lle tlotaf—yn nghalon yr euog, a'i thlodi yw y cymhwysder i dderbyn y cyfoeth. Dyma yr arch sydd yn dâl ysgrifen y Barnwr, tyst-lythyr Duw fod yr holl gyfrifon wedi eu *settlo*, ac fe guddir yr arch hon â thrugareddfa o gyfiawnder perffaith. Nid oedd defnydd i'w gael y gallasai Duw ysgrifenu maddeuant arno ond calon edifeiriol am ddrwg. Dywedir pe ysgrifenid â *lemon juice* na allesid darllen yr ysgrifen hono ond yn ngwres tân. Mae madd-euant yn beth anweledig i'r byd; ond pan y dygir y galon a'i cafodd i ganol pelydrau cyfiawnder dwyfol, darllenir maddeuant mewn llythyrenau breision—"A thi a faddeu-aist anwiredd fy mhechod." Nid maddeu ei bechod a wnaeth yn unig; maddeu *anwiredd* ei bechod—*maddeu* yr hyn oedd yn rhoddi cymeriad i'r pechod; tynu ymaith yr *ysgarlad* tanbaid sydd yn y weithred, dileu y *porffor* sydd yn y troseddau. Dedwyddweh yn codi allan oddiyma yw y maddeuant. Y mae maddeuant yr Efengyl yn dyrchafu syniadau dyn am Dduw, ac yn äangu galluoedd meddyliol dyn, "*fel y'th ofner*." Nid ofn yn cario poen, ond yn cario parch. Mae Duw yn uwch fel Deddfwr, am ei fod yn Faddeuwr. Nis gellir gweled maddeuant mewn un *gorchymyn*, ond fe welir *pob* gorchymyn mewn madd-euant. Nis gellir gweled holl elfenau pechod mewn *un* trosedd, ond fe welir holl elfenau troseddau bywyd mewn un pechod. Mae yr un mewn natur yn cynnwys pob am-rywiaeth, ffurf, a graddau; ond nis gall pob ffurf â gradd pan ar wahan gynnwys yr un. Mae teimlad o rwymed-igaeth yn *caethiwo*, yn *darostwng*, yn dyfod a'r teimlad o

ddibyniaeth yn fwy byw. Mae maddeuant *dyn* yn gwneyd i ni deimlo yn *is* nag ef, yn *llai* nag ef, ac o dan *ddyled* iddo; ac eto, nid yw y *maddeuwr* yn ddigon *mawr*, yn ddigon *uchel*, ac yn ddigon *cyfoethog* i ni deimlo y gall ef fyw heb i ni roi rhywbeth am y maddeuant. Mae y maddeuedig yn derbyn y maddeuant, a'r maddeuwr yn fynych yn *byw* ar rywbeth a *gaiſſ* efe am y maddeuant; a thra y parheir i roddi hwnw, fe fydd ffrwd maddeuant yn llifo; ond pan atelir ef, atelir y maddeuant. Mae y trosedd yn taffu ei gysgod tywyll ar y maddeuedig, a'r maddeuant yn taffu gorchudd o ofn am y maddeuwr, fel nad yw y naill yn gweled y llall heb godi adgofion o'r gorphenol. Ond "dedwydd yw y gwr nid yw yr *Arglwydd* yn cyfrif pechod iddo." Mae y maddeuedig yn gweled y deddfwr yn y maddeuwr, a'r maddeuwr yn gweled y sant perffaith yn y maddeuedig. Mae calon aflan y maddeuedig yn cael ei newid i fod yn gysegr sancteiddiolaf sancteiddrwydd yr orsedd ddwyfol, a gorchymynion pur yr orsedd yn cael eu cymeryd gan y maddeuedig yn lampau bywyd yn yr anialwch. Mae y maddeuwr yn ddigon *mawr*, yn ddigon *uchel*, ac yn ddigon *cyfoethog* i fyw *byth* heb *dderbyn dim* am y maddeuant oddiwrth neb; ond y mae y maddeuedig yn *methu* byw heb *roddi* rhywbeth am y maddeuant; eto, nis gall roddi dim ond rhywbeth a *gafodd* yn y maddeuant gan y maddeuwr ei hun—caru y Maddeuwr. Dyma ffordd y maddeuant o ddangos ei hun; ei ddull o dalu yn llywodraeth Duw. "Maddeuwyd ei haml bechodau hi, oblegyd hi a garedd yn fawr." Y peth nesaf mewn prydferthwch at weled Duw yn rhoddi maddeuant, yw gweled maddeuant hefyd yn rhoddi i Dduw. Y mae ef yn gweled *rhywbeth* yn *mhob peth* all ef roddi, ac y mae yn sancteiddio y cyfan i'w offrymu er tystiolaeth. Y mae Simon yn ormod o Stoic i deimlo pan y mae y Gwarddwr yn ei dŷ, ac yn fyr o weithredu *etiquette* cyffredin ei genedl, ond y mae Mair yn golchi ei draed Ef â dagrau, ac heb drafferthu Simon am *dowel*,

hi sych ei draed Ef â gwallt ei phen. Mae ef yn glynu wrth y groes *ar ol* pawb, ond wrth y bedd ar y trydydd foreu o *flaen* pawb.

“*Dedwydd yw y gwr nid yw yr Arglwydd yn cyfrif pechod iddo.*”—Chwilio am ddedwyddwch y mae y byd, ond ni feddylia mai yma y mae i’w gael. Beth yw sylfaen gwir ddedwyddwch? Pa un ai mewn amgylchiadau neu gyflwr y ceir gafael arno? Ai y peth sydd *gan* ddyn, neu y peth sydd *mewn* dyn yw? Gellir mwynhau golygfa heb fod yn ddedwydd, gellir hoffi yr hyn a glywir heb fod yn ddedwydd, ond cyfyd dedwyddwch o nodwedd y meddwl yn ei berthynas â Duw. Maddeuant yn unig sydd yn ddigon i gyfarfod âg effeithiau pechod. Rhaid i’r llong suddo yn y storom, neu rhaid i’r Arglwydd Iesu ddeffro o gysgu. Rhaid i’r morwyr foddi, neu dafu Jonah i’r môr. Rhaid i Israel farw, neu i’r môr holhti. Rhaid i galon gael maddeuant, neu gael ei damnio. Ond “*Dedwydd.*” Fe gysegra lethrau mynyddoedd Canaan â’i ganeuon, yn gystal a gorsedd Jerusalem â’i salmau. Fe fendithia Duw yn mhlith cregyn y tomenau, yn gystal ag yn y llawnder a’i amgylchai yn ei balas drudfawr. Nid yw yn teimlo pwysau y cadwynau sydd am ei draed yn ngharchar Philipi, o herwydd fe dynwyd peth trymach o’i galon—euogrydd. *Dedwydd.* Mae Duw yn cyfrif pobpeth yn ffafwr dyn a all fod yn fantais iddo. Fe gaiff cuddio y cenhadon fod yn ffafwr Rahab y dydd y dinystrir Jericho. Fe gaiff cwpanaid o ddwfr fod yn dy ffafwr. Ond peidio a chyfrif yw hanfod y dedwyddwch—maddeuant. Dyma ernes o’r nefoedd, diferyn o’r môr, pelydryn o’r haul, rhagymadrodd cyfrol fawr dedwyddwch enaid. Mae gan hwn enfys gobaith yn mhob cwmwl, ac arch Duw yn sefyll yn nghanol pob Iorddonen. Cana yn y nôs fel yr êos, gorfolleda wrth y stanc, ac ni sycha ffynon ei ddedwyddwch yn dragywyddol.

III. DEDWYDDWCH YN CODI ALLAN O’R FFAITH FOD Y MADDEUANT HWN YN SYLFAENEDIG AR DALIAD ABERTH IAWNOL

CRIST.—Gesyd yr Ysgrythyr bwys neillduol ar gysylltiadau athrawiaeth maddeuant pechodau. Fel bendith, nis gellir edrych arni ond yn ei chysylltiadau. Dolen mewn cadwyn ydyw, seren mewn cyfundrefn, olwyn mewn peiriant; a'r hyn yw cysylltiad mewn cadwyn, canolbwynt mewn cylch, a chydweithrediad mewn olwynion peiriant, yw perthynas mewn maddeuant. Awdwr maddeuant yw Duw, ei darddle yw y galon drugarog. Rhoddir Ef drwy Aberth anfeidrol, gweinyddir ef drwy gyfiawnder, derbynir ef drwy edifeirwch, dangosir ef mewn sancteiddrwydd, teimlir ef yn y gydwybod, a chenir am dano yn y nef. Ei *baham* yw trugaredd Duw, ei *ba fodd* yw Iawn y groes, a'i *ba beth* yw "*dedwydd* yw y gwr nid yw yr Arglwydd yn cyfrif pechod iddo." Y mae maddeuant yr Efengyl yn golygu mwy na dianc o afael canlyniadau pechodau. Mae syniadau felly yn rhy hunanol i fod yn meddu ar un elfen o wir ddedwyddwch. Cyn y gall maddeuant fod yn achos o ddedwyddwch, rhaid i'r maddeuedig weled fod y golled a achosodd efe drwy bechu wedi ei chyfanu; fod y gwarth a daflodd efe ar yr orsedd wedi ei ddileu. Heb hyn, buasai yn anmhosibl cael nefoedd i feddwl dyn. "Yn yr Hwn y mae i ni brynedigaeth drwy ei waed Ef, sef maddeuant pechodau." Maddeuant drwy waed. Y mae maddeuant yr Efengyl yn anfeidrol fwy na pheidio myned i uffern. Fe fyddai yn well gan y sawl gafodd y maddeuant ei roddi yn ol, na'i gadw heb hyn. Byddai y maddeuant ei hunan yn cynyrchu uffern yn y dyn. Byddai yr ymdeimlad fod ei bechod heb ei gosbi yn gwneyd maddeuant yn ffynhonell o boen i'r meddwl. Ond "*dedwydd*." Gorphwysa y maddeuant ar Aberth, ac y mae yr Aberth yn gyfartal i'r holl golled a achosodd pechod dyn yn llywodraeth Duw.

Maddeuant drwy gyfiawnder ydyw.—Y mae grâs a chyfiawnder yn ymddisgleirio yn nhrefn y prynedigaeth, fel lliwiau yn ymdoddi i'w gilydd. Cyfiawnder a'r Eiriolwr yw cadw y pechadur gredo, ond grâs i'r pechadur a gredo

yw cael y cyfiawnder hwnw. Y mae trugaredd ddwyfol yn arweddu yn ddeublyg yn nghadwedigaeth y dyrfa a gedwir. Cyfiawnder i'r Meichniydd, dyna ei gwedd gyfryngol; grás i'r annheilwng, dyna ei harwedd ddynol. Y mae lawn Crist yn arweddu yn ddeublyg. Yn daliad llawn, dyna ei arwedd ddwyfol; yn brynedigaeth lwyrr oddiwrth felldith y ddeddf, dyna ei wedd ddynol. Y mae adferiad dyn yn arweddu yn ddeublyg eto. Edifeirwch dwfn am bechu, dyna ei wedd ddwyfol; ffydd yn Aberth iawinol y groes, dyna ei wedd gyfryngol. Y dwyfol yn gwynebu ar y ddaear, y dynol i gyd yn gwynebu tua'r nefoedd; ond y cyfryngol tuag at y nefoedd a'r ddaear. Digon i Dduw a digon i ddyn. Ond y mae y dwyfol yn y cyfryngol, fel sylfaen; y cyfryngol yn y dwyfol, fel achos; a'r dwyfol a'r cyfryngol yn iachawdwriaeth y byd fel cyfiawnder a grás, yn *teyrnasu* drwy *gyfiawnder* i fywyd tragywyddol. Dyma sydd yn rhoddi cân ar dafod maddeuant, ac awdurdod yn ei lais, nes y bydd yn distewi stormydd pechodau dyn, yn llonyddu môr cynhyrfus ei euogryydd, nes y gall gysgu yn dawel; yn diffodd mellt tanllyd gwibiog, yn tynu colynau gwiberod profedigaethau ei fywyd, yn hollti moroedd, ac yn cerdded drwy ganol yr Iorddonen yn ymyl arch Duw i wlad yr addewid. Bydd fel Miriam, yn chwareu y dympan ar lân bedd Pharaoh, heb berygl y codir *monument* gan neb i ddangos yn mha le y claddwyd ei hen bechodau. O! fywyd gogoneddus.

Maddeuant yn cario ysbryd y Maddeuwr i galon y maddeuedig yw, nes ei dwyn yn debyg iddo.— Mae dyn yn derbyn cymaint gan Dduw, nes dwyn y derbyniwr mor llwyr o dan ddylanwad y maddeuant, nes y mae ei holl fywyd yn llawn ysbryd maddeu. Fe ddywedir am lysieuyn gwenwynig adnabyddus, iddo gael ei roddi yn nghanol blodau, fel yr oedd arogl blodau arno yn mhob man. Mae y dyn gafodd faddeuant yn byw cymaint o dan ddylanwad y maddeuant, fel y mae arogl y maddeuant ar ei eiriau ac ar ei ysbryd. Yr oedd y gwahanglwyf yn

beryglus i gyffwrdd ág ef. Yr oedd yn glefyd heintus; ond pan gyffyrddodd y Gwardwr ág ef, fe dynodd y gallu cydiol oedd yn y dolur, ac fe roddodd yn ei le yr iechyd oedd ynddo ef. Mae cyffyrddiad gan faddeuant á chalon dyn yn taflu maddeuant i'r galon. Aeth Jonathan mor debyg i Dafydd wrth fyw gyda'u gilydd, nes yr aeth yn annhebyg i deulu ei dad. Mae calon dyn wrth fyw o dan ddylanwad maddeuant, yn myned mor debyg i Dduw, nes y mae ei wyneb yn disgleirio, ac Israel am iddo dafu y gorchudd arno. Calon yn maddeu sydd yn ddedwydd. Nid cario maddeuant yn unig y mae, ond y mae yn dwyn yr ysbryd i'w naws ei hun. Mae trugaredd ysbrydol yn troi y maddeuant yn ddefnydd bywyd ysbrydol. Mae pwyso ei ben ar fynwes yr Iesu yn sicr o wneyd yr hwn sydd a'i ben mor agos i'r galon faddeugar gariadlawn, yn ddisgybl anwyl cyn y diwedd.

Y dydd mwyaf dedwydd yn hanes y brenin Dafydd oedd y dydd y bu efe yn maddeu i'r hwn a'i cablodd; ond fe allodd wneyd hyn heb gostio dim iddo. Y mae Duw yn ymhyfrydu maddeu, ond rhaid iddo gostio. "O, Dad, maddeu iddynt." Y mae y weddi mor fawr, rhaid taflu yr lawn o dani cyn y daw i ben; ac un o'r pethau cyntaf a wnaeth wedi cyrhaedd i ogoniant, oedd cyhoeddi maddeuant i filoedd.

Rhesymau dros gymeryd gafael yn y cynygiad o faddeuant yn bresenol.

1. *Nid yw bywyd yn werth dim hebdo.*—Gall y condemniedig fyw am wythnosau i aros dydd y dienyddiad; ond pa faint o werth sydd yn ei fywyd? Gellir treulio oes i bechu, ond y mae rhyw ddarn llaw yn ysgrifenu ar galchiad y pared—"Ti a bwyswyd yn y clorianau," nes y mae y wledd yn suro. Dygir ni i'r fynwent bob dydd, o ganol pob mwyniant. Rhaid cael maddeuant Duw cyn bod yn ddedwydd. Maddeuant i wneyd bywyd yn ddefnyddiol, maddeuant a'n gwnelo i weithio, nes ceisio *stampio* pechod allan o'r byd.

2. *Am mai hwn sydd yn rhoddi gwerth ar bobpeth.*—
Beth sydd yn gwneyd y fodrwy fechan yna mor werthfawr?
A welwch y *diamond*, y perl bychan, sydd ynnddi? Hwn
sydd yn ei gwneyd mor werthfawr. Beth yw bywyd yn
bresenol heb faddeuant? Rhowch ef yuddo, dyna y
diamond, y perl, yn y fodrwy.

8. *Rhaid cosbi am bechod, neu dderbyn maddeuant.*—
Mae pechod yn beth mor fawr, fel na ellir ei adael yn
ddisylw; mor ofnadwy, nes y rhaid ei gosbi. Fe ddemnir
dyn, neu rhaid iddo edifarhau. Ond y mae y taliad ar
Galfaria mor fawr, nes y maddeuir pechod ond edifarhau.
Mae y dedwyddwch mor fawr, fel nad oes dim a all siglo
ei sail ef byth.

PREGETH XXI.

CYFLAWNDER YR AMSER.

“FELLY ninau hefyd, pan oeddym fechgyn, oeddym gaethion dan wyddorion y byd : ond pan ddaeth cyflawnder yr amser, y danfonodd Duw ei Fab, wedi ei wneuthur o wraig, wedi ei wneuthur dan y ddeddf ; fel y prynai y rhai oedd dan y ddeddf, fel y derbyniem y mabwysiad.”—GAL. iv. 3; 4, 5.

CYFFYRDDA yr Apostol yn y llythyr hwn â'r ddwy egwyddor fawr hyny sydd y llinellau amlycaf yn hanes y natur ddynol—rhyddid a chaethiwed. Mae y naill yn annghyd-weddol âg urddas, safte, a chynydd y meddwl, tra y cyd-wedda y llall â phob un o honynt. I'r graddau y boddlonga y meddwl i astudio cydweddiad neu annghydweddiad egwyddorion âg ef ei hun, yr ymddyrchafa ; ac i'r graddau yr esgeulusa wneyd hyny, y boddlonga i gael ei ddarostwng gan elyn pob daioni a dyrchafiad. Deil yr Apostol yr Eglwys Iuddewig yn gyferbyniol i'r Eglwys Gristionogol yn y benod hon ; ac yn gyferbyniol i ryddid y ddiweddaf, yr oedd y gyntaf mewn hualau caethiwed. Yr oedd yn bodoli o dan amgylchiadau gwahanol, ac o dan amodau a threfniadau gwahanol. Cyferbyniai hwy i'r bachgen o dan ymddiriedolwyr ; ond pan gyrhaeddi y bachgen yr amser a osodwyd gan y tad, ymryddhâai o'r amodau blaenorol,—“Felly ninau hefyd pan oeddym fechgyn,” o dan y trefniant cyntaf, “oeddym gaethion o dan wyddorion y byd, ond pan ddaeth cyflawnder yr amser,” rhyddhawyd ni o'r caethiwed ; daeth yr amser gosodedig, a symudwyd ni o ganol ffurfiau oerion a defodau allanol manwl, i ryddid —“*Danfonodd Duw ei Fab.*”

I. CYNLLUN DUW I DDYSGU GWIRIONEDD I'R BYD CYN YR YMGNAWDOLIAD—*Gwyddorion y byd.*—Yn y gorchymyn a roddodd Duw i ddyn yn Eden, dangosodd Duw ei hawl i ymostyngiad ac ufudd-dod ei creadur. Codai y gorchymyn

oddiar y berthynas a hanfodai rhwng dyn a Duw. Nid y gorchymyn a roddai fôd i'r berthynas, eithr y berthynas a roddai fôd i'r gorchymyn. Gwreiddiai hawliau Duw yn y berthynas; rhoddwyd y gorchymyn i egluro hawl Duw, a dyledswydd dyn. Gwnaed hyn drwy un gorchymyn yn Eden. Pan oedd Israel wrth Sinai danllyd, galwodd yr Arglwydd ar Moses i'r mynydd, a rhoddodd iddo ei gyfraith. Cynnwysai hono ddeg o orchymynion gwahanol yn eu gofynion. Ni ofynid mwy oddiwrth ddyn yn y *deg* ar Sinai nag a ofynid yn yr *un* yn Eden. Paham, ynte, y rhoddwyd hwy felly? Paham yr oedd yn rhaid rhanu yr un yn Eden yn ddeg ar Sinai? Gofynwyd i'r Gwaredwr pa un oedd y gorchymyn mawr yn y gyfraith. Yn ei atebiad, daeth ef â'r gorchymynion i lawr i *ddau*; ac yn eu symiad i fyny, tynodd y ddau i un egwyddor, ond ei bod yn arweddu yn wahanol. "*Cyflawnder* y gyfraith yw cariad"—cariad yn arweddu at Dduw yn y gorchymyn cyntaf, ac at ddyn yn yr ail. Ni allasai meddwl amgyffred ei ddyledswydd mewn un gorchymyn, wedi iddo ymarfer â phechu yn erbyn Duw. Ymostyngodd Duw i gyfarfod â'r anallu hwn, drwy ranu y gorchymyn. Wedi cael gorchymyn, y cwestiwn a godai yn naturiol yn y meddwl oedd, â pha allu yr oedd yn gysylltiedig? Ac i gyfarfod â hyn, dywedodd Duw, "Byw fyddi." Drwy ufuddhau fe ddeuai dyn i feddiant o amddiffyniad gallu Duw; ond os anufuddhau a wnelai dyn, "marw fyddi." Byddai anfeidrol allu Duw yn sicr o gosbi dyn. Yn mhob datguddiad o Dduw, yr oedd y briodoledd o hollalluogrwydd yn cymeryd lle amlwg. Ni phwysir ar addewidion, ac nid ofnir bygythion, ond fel y cysylltir hwy â gallu digonol i'w cyflawni. Y mae gallu yn cario dylanwad dyfnach ar feddwl weithiau nag un cymhellydd arall, a hyn sydd yn cyfrif bod addewidion a bygythion Duw yn ngolwg ei allu bob amser. Ond er fod dyn yn deall ei berthynas foesol â Duw, ac er cael datguddiad o'r briodoledd yn Nuw oedd y cymhellydd cryfaf i ufudd-dod, eto *pechu* wnaeth dyn, a pharhau i

bechu y mae ; a phrofa hyn bod gwybodaeth ynddi ei hun yn annigonol i gadw y byd rhag suddo mewn llygredigaeth. Gellir goleuo pen, heb santeiddio calon. Nid yw gwybodaeth a phurdebyn anwahanol gysylltiedig â'u gilydd. Gellir gwneyd gwybodaeth yn gyfrwng i wneyd drwg drwyddi pan y gwyrdroir hi o'i hamcan gwreiddiol. Gall tad ladd ei blentyn â'r gyllell brynodd i dori ymborth iddo. Rhaid santeiddio ewyllys dyn cyn y gellir ymddiried offerynau peryglus iddo. Nid yw yn ddyogel gweled *clddyf* yn llaw y *gwallgof-ddyn*, a byddai ei ollwng yn rhydd mewn *surgery* yn agos yr un mor beryglus, gyda'r gwahaniaeth y byddai yr effeithiau ychydig yn gyfyngach. Ceisiodd rhai brofi mai nid yn y galon ddynol yr oedd y drwg, eithr yn yr amgylchiadau. Pa un ai yn y fflam, neu yn y pylor y mae y perygl? Pa un ai yn y blodeuyn, neu yn y goleuni y mae y prydfertlwech? Pa un ai yn yr awyr, neu yn yr eos y mae y beroriaeth? Megys nad yw y fflam ond achlysur i egluro natur y pylor, y goleuni ond moddion i ddangos y prydfertlwech, a'r awyr ond cyfrwng i gario y beroriaeth, felly nid yw amgylchiadau ond *cyfleusderau* i ddrygioni neu ddaioni *calon* dyn iddyfod i'r golwg. Mae ufudd-dod i wirionedd yn profi ei gydweddiad â thuedd y meddwl, fel mae anufudd-dod yn tarddu oddiar yr annghydweddiad sydd rhwng tueddiadau y galon â'r gorchymyn allanol.

Megys nad yw amgylchiadau ond cyfleusderau i egwyddorion llywodraethol y meddwl i ddyfod i'r amlwg, felly defnyddiodd Duw ddyfodiad pechod i'r byd yn achlysur i egluro ei *galon* yntau, ond nid yn y modd y buasai rheswm dynol yn disgwyl. Yn yr addewid o hâd y wraig i ysigo pen y sarff yr eglurodd Duw ei feddwl i adferyd dynoliaeth ato ei hun drwy Iawn. Mae ganddo drefn i egluro ei fwriad grâsol ; trefn yn paratoi y meddwl at ddatguddiad o "fawr amryw ddoethineb Duw." Codai Israel allor yn y gwersyll, dygid ati aberth, lleddid ef gan offeiriad. dygid ei waed i'r cysegr sancteiddiolaf gan yr archoffeiriad. Yr aberth yw hanfod y cyfan ; ond yn yr aberth, dangosid

pechod yr aberthwr, a graslonrwydd anfeidrol y Duw a drefnodd yr aberth; rhoddid eglurhad ar haeddiant troseddwr, ac ar drugaredd Duw. Y cyfrwng a ddefnyddiodd Duw i egluro ei atgasrwydd at bechod, a ddefnyddiodd hefyd i ddangos ei rās at y pechadur. Ond yr oedd elfenau gwahanol ac amrywiol y trefniant hwnw, yn dangos mai moddion *addysg* yn benaf ydoedd—“*adgoffa* pechod.” Yr oedd swyddau crefydd hefyd mewn cysylltiadau anmherffaith. Swydd berffaith, a swyddog anmherffaith. Yr oedd eisiau cael perffeithrwydd yn y swyddog i gyfarfod â pherffeithrwydd y swydd. Ceisid gwneyd i fyny am ddiffyg mewnlol drwy fawredd allanol. Yr oedd gogoniant Aaron yn codi allan o'i osodiad i'w swydd. Gwisgid ef â dillad wedi eu tori allan gan “gyfraith gorchymyn,” cyflawnai ei waith ar ddyddiau *penodol*, a chyfyngid ei waith o fewn terfynau amser neillduol. Yr oedd ansefydlogrwydd neillduol yn nodweddu holl gyleh y gwasanaeth. Tra yr oedd yr offeiriad yn lladd yr aberth, yr oedd yntau ei hun yn marw. Wylai calon y byd am waed uwch, o ran ei natur, na gwaed teirw a geifr i buro cydwybod oddiwrth weithredoedd meirwon; a thystiai cydwybod nas gallai rhinweddau seremonïol sancteiddio calon oddiwrth halogrwydd. “Ond yn nghyflawnder yr amser y danfonodd Duw ei Fab i'r byd.” Y byd waedai am gymmod, a suddai mewn trueni, ond a gofiwyd mewn trugaredd.

II. YMDDANGOSIAD MAB DUW I BERFFEITHIO Y CYNLLUN, A CHYMMODI Y BYD A DUW YN EI ABERTH EI HUN.—Gwahaniaetha esbonwyr pa beth a feddylir wrth “Cyflawnder yr amser.” Gall olygu—

1. *Cyflawnder yr amser pan oedd y trefniant seremonïol wedi cyrhaedd ei amcan, a gweithio ei hun allan.* Cyfeillionodd yr Iuddewon wrth lynu gyda'r hyn oedd i'w symud am ei well. Gwelir Cwmpeini Rheilfordd yn tafu pont o goed dros afon, hyd nes y cânt amser i godi pont o geryg yn ei lle. Mae Duw wedi agor i ni “ffordd newydd a bywiol,” ac felly nid oes gwasanaeth i'r hen. “Cysgod

daionus bethau a fyddent" y gelwir y trefniant Moesenaidd gan yr Apostol. Un gwael, dibynol ar amgylchiadau yw cysgod. Symudiad y peth lleiaf rhwng y goleuni a'r gwrthddrych ddilea y cysgod. Gwerth cyferbyniol oedd yn y trefniant hwnw. Penderfynodd dyn ieuanc fyned allan o wlad ei enedigaeth. Tynodd ei ddarlun cyn myned, a rhoddodd ef i ofal ei fam oedranus. Crogodd hi ef yn y man amlycaf yn y tŷ. Pan edrychai arno, gwelai linellau gwyneb ei phlentyn ynddo. Ni phrynid ef â gemau, er y byddai hi byw ar elusen y plwyf. Y groesaw mwyaf a allai ei chalon roddi i ymwelydd fuasai dangos darlun ei phlentyn iddo. Ond un diwrnod, dychwelodd y bachgen adref, a safodd yn ymyl y darlun. Pa un ai y darlun, neu y bachgen a ddewisai y fam? Ni raid ateb. Onid oedd y darlun yn werthfawr? Oedd, pan oedd y bachgen oddicartref; ond pan ddychwelodd, fe gollodd y darlun ei werth ynddo ef. *Album* y genedl Iuddewig oedd y trefniant seremonïol, a throi ei ddail oeddent yn wneyd yn nyddiau Paul. Ar ywneb hon i'r ddalen, yr oedd yr anner goch; ar y wyneb arall oen y poeth offrwm; ar wyneb i ddalen arall yr oedd aderyn y tŷ; ac ar y wyneb arall, yr oedd cyw colomen. Edrych ar y darluniau hyny fynai Israel; ond gorchymynai yr Apostol iddynt i gau yr *album*, bod y sylwedd wedi dyfod "yn nghyflawnder yr amser."

2. *Yn nghyflawnder yr amser, pan oedd y meddwl dynol wedi rhoddi prawf cyflawn ar ei allu i adferyd ei hun, ond wedi methu.*—Yr oedd yn rhaid argyhoeddi y meddwl o'i anallu i drefnu moddion adferiad, cyn y rhoddasai werth ar ddarpariaeth o eiddo Duw. Ni rydd y claf werth ar gynghorion na chyffeiriau y meddyg, oddieithr iddo gael ei *argyhoeddi* mai drwy gydymffurfio â'r cyfryw y mae gobaith ei adferiad.

"*Yn nghyflawnder yr amser*" y *cafodd y meddwl feddiant o ryddid cydweddol a'i gynydd.* Y mae pob bywyd yn cael ei nodweddu gan gynydd. Planer planhigyn marw yn y goedwig, a rhodder cylch bychan am

dano; ceir allan bod y cylch yn ddigon mawr iddo yn mhen blynyddoedd. Ond rhodder cylch bychan am bren *byw*, ceir allan bod y cylch wedi ei dori yn fuan. Yr oedd y bywyd oedd yn y pren yn gryfach na'r cylch oedd am dano, a thorodd ef, i gael lle i gynyddu. Y mae ymgnawdoliad a marwolaeth Crist wedi rhoddi sylfaen i Dduw i roddi bywyd ysbrydol yn enaid credadyn; mae cylch o driugain a deg o flynyddoedd am dano, ond tŷr y cylch. Mae amodau neillduol ei fodolaeth yn cau am dano, ond llama allan o honynt yn fuan, ac ymëanga yn rhyddid anherfynol gwirionedd ysbrydol. Y mae cynydd ysbrydol yn gynydd *cyflawn*. Mae pob pren yn tyfu yn grwn, am fod bywyd yn ei ganol yn gweithio ei rinweddau yr un faint i bob cyfeiriad. Cynydda y duwiol "ar gynydd Duw."

"*Yn nghyflawnder yr amser*" y mae dyn yn cael ei argyhoeddi fod Duw yn ei garu. Dylanwadu ar ofn dyn mae cymeriad Duw fel Deddfwr, ond dylanwadu ar ei *obaith* y mae cymeriad Duw fel Duw cariad. Rhaid oedd i Dduw ddyfod i sefyllfa dyn, fel y gallai ddyfod yn ddigon agos iddo i'w argyhoeddi fod Duw yn ei garu. Aeth cenhadwr allan unwaith i lafurio yn mhlith caethion, ond yr oedd ei lafur am flynyddoedd yn afluiddianus. Methai a deall beth oedd y rheswm. Yn y diwedd, penderfynodd gychwyn adref; ond cyn cychwyn, meddylodd am wneyd prawfarall. Newidiodd ei ddull o fyw, newidiodd ei ddillad, symudodd o'i dŷ i fyw gyda'r caethion yn y cabanau, i ddyoddef fel hwythau oddiwrth ormes a chreulondeb; a phan y gwelsant hyny, perswadiwyd hwy ei fod yn eu caru, a llwyddodd i'w henill i gredu yr Efengyl. Yr oedd Duw yn rhy bell oddiwrth y byd ar Sinai; crynai y pechadur yn yr olwg arno; ond yn yr ymgnawdoliad, ymddihatrodd y Mab o'i ddillad brenhinol, daeth yn *agwedd gwas*, bu fyw yn nghanol amgylchiadau isel, dirmygwyd ef gan ddynion, cablwyd ef gan ei elynion, ond llwyddodd i argyhoeddi y byd bod Duw yn ei garu; ac o dan yr argyhoeddiad, ymddyrchafa tyrfa ddirif i ogoniant tragwyddol yn ngwênau Duw. X

"*Yn nghyflawnder yr amser*" y gwnaethpwyd Crist "*o dan y ddeddf*" i roddi cysgod rhag ei mellddithion i'r rhai a gredant. Dyma unig fan Duw i gadw, a dyma yr unig gadw heb berygl colli ar ei ol. Nid gwirionedd i'w ddeall ydyw, ond i'w gredu. I ba beth y gwnaeth Duw y mynydd? Ymddengys yn fawreddog a gogoneddus. Chwareua y llanciau ar ei lethrau serth, sethrir ei gopa uchel gan ymwelwyr; ond nid oes gobaith i'r hynafgwr ddringo i'w goryn byth. Mae ei liniau ef yn rhy weiniaid, ochrau y mynydd yn rhy serth, ac mor uchel, mae y cwmwl gwyn am dano fel mantell offeiriadol; ond osnad oes gobaith i'r hynafgwr gael mwynhau y golygfeydd prydferth oddiar ei gopa, gall godi ei fwthyn bychan ar ei waelod, a chanu yn ei gysgod ar ddydd yr ystorm. Mae y gwirionedd mawr "farw o Grist dros ein pechodau ni" yn anamgyffredadwy. Ni ddringir i'w ben gan y cryfaf ei amgyffredion, ymddyrechafa o olwg y cryfaf ei ffydd, ymgladda o'r golwg yn nghanol "y dirgeledigaethau ydynt eiddo yr Arglwydd;" ond caiff y duwiol lechu yn ei gysgod ar ddydd y "poethwynt ystormus," a bod yn ddyogel ar ddydd y digofaint.

"*Yn nghyflawnder yr amser*" y cafwyd *Prynedigaeth Iwyr*. Cynnwysa yr Efengyl fwy na gwaredigaeth oddiwrth bechod, eithr hefyd rhyddid, i deulu Duw. Wrth dori un berthynas, ffurfir un arall. Moddion oedd danfoniad y Mab "fel y prynai y rhai oedd o dan y ddeddf." Mae mawredd a gogoniant y brynedigaeth yn amlwg yn ngwyneb y moddion. *Danfôn a phrynu*. Pan gymerai priodas le yn mhlith yr Iuddewon, byddai yn rhaid i'r priodfab dalu dyled y briodasferch *drwy sangu yn ei hesgyd*. Pan ymgwymerodd Mab Duw âg achos dynoliaeth, ymrwymodd i gymeryd ein natur. "Duw a ymddangosodd yn y cnawd," sangodd yn ein hesgyd, aeth i'n deddfle i'n prynu drwy dalu anfeidrol lawn i gyflawnder; ac yn ei haeddiant Ef, gwneir meibion dynion yn feibion i Dduw, a chaethion gan bechod, yn feddianol ar ryddid teulu Duw.

PREGETH XXII.

RHYFEDDU Y PETHAU MWYAF.

“Na ryfeddlwch am hyn : canys y mae yr awr yn dyfod, yn yr hon y caiff pawb a'r sydd yn y beddan glywed ei leferydd ef ; a hwy a ddeuant allan : y rhai a wnaethant dda, i adgyfodiad bywyd ; ond y rhai a wnaethant ddrwg, i adgyfodiad barn.”—IOAN V. 28-29.

ACHLYSUBWYD llefariad y geiriau hyn gan y grwgnachrwydd a ddangoswyd i'r hwn a iachasai Crist wrth llyn Bethesda, i godi ei wely ar y Sabbath. Meddai y Gwardwr ar lygaid a welent wrthdychau trugaredd yn mhob man. Ni chollai Crist ei olwg ar wneyd daioni, er yn nghanol rhwysg yr ŵyl. Gall meddyg ymddangos i'w fantais ei hun mewn gwahanol fanau, ond yn nghanol cleifion y bydd o fwyaf *gwerth*. Mae mwy o swyn iddo ef i fod yn *ngruddfan* yr afiach nag yn nghân yr iach. Rhwng perffaith iechyd a llwyr farwolaeth y mae yn byw. Terfyn *pellaf* iechyd, ac *agosaf* marwolaeth, yw cylch pruddaidd ei weithrediadau, ac y mae cryfach dylanwad gan y diweddaf na'r cyntaf arno. Cynygia yntau fel ereill nofio i'r tir, ond gan fod y môr yn treio, cludir ef i'r dyfnfor. Ond ni cholodd Crist erioed wrth roddi ; ni wahaodd wrth wasgaru. Defnyddiodd amgylchiadau a *orchfygent* ddyn yn *achlysuron* i egluro *mawredd* ei allu, *tynerwch* ei galon, *cyflawnder* ei râs, a *dwysoldeb* ei berson. Rhyfeddai rhai at weithredoedd Crist yn amgylchiadau dynion. Drwy y llyn oedd ffordd iechyd ; felly y disgwyliid ef, ond dyma ffordd newydd iddo. Fe anrhydedodd llyn Siloam drwy anfon y dall iddo, o herwydd ni ddisgwyliai neb ddim oddiyno ; ond yma gyru un oddiwrth y llyn, am y disgwyliai pawb wrtho. *Cigfran*, nid *colomen*, a gafodd gario bwyd i Elias. *Colomen*, nid *cigfran*, a aeth allan

o'r arch i edrych a oedd y dwfr yn treio. Ceisiai y Gwardwr ddyrchafu syniadau dynion at y gallu oedd yn gweithredu, ac at weithrediadau *uchaf* y gallu hwnw, "Na ryfeddwch am *hyn*;" pethau sydd yn cydweddu â sefyllfa fy narostyngiad yw y cyfan. *Credentials* tramorwr mewn gwlad estronol ydynt, meddai. Pethau rhwng Bethlehem â'r groes oeddent. Pethau rhwng Nazareth lygredig a Chalfaria ddirmygiedig oeddent. Dilynwyd hwy gan bethau uwch—pethau rhwng Calfaria a'r Olewydd, pethau rhwng y *disgyn* a'r *esgyn*. Dilynwyd hwythau gan bethau mwy—pethau gorsedd; gorsedd *grâs*, hyd nes y cyrhaeddir amcanion cyfryngwriaeth; yna gorsedd *barn*,—barn gynhyrfa y ddaear; ac fe glyw y rhai a fydd yn meddau y ddaear lef o'r orsedd hono. Nid oedd yn rhyfeddod fod yr Hwn a allai rwymo y brenin, yn dal ei was. Nid oedd gweithredoedd rhyfedd Crist ar gleifion ond arwyddlun gwanaidd o allu Crist i wneyd y pethau mwy.

I. YR ADGYFODIAD A'I SICRWYDD YN NGOLEUNI GEIRIAU CRIST.—Gwirionedd datguddiedig yn ngair Duw yw hwn. Yn yr Efengyl, dygir bywyd ac anllygredigaeth i oleuni. Credir nad yw dyn fel y mae yn bresenol yn gorpholiad hollol o'r syniad dwyfol o hono. Mae pechod wedi rhoddi atalfa ar ddadblygiad; a thra yn ei sefyllfa bresenol, ni chyrhaedda y radd o ddyrchafiad sydd yn ei aros. Mae dymuniad mewn dyn am fodoli yn dragywyddol. Nid cynyrch diwylliant a dysgeidiaeth yw hwn, o herwydd cyfarfyddir âg ef yn absenoldeb y cyfryw. Mae y dymuniad hwn wedi myned drwy gyfnewidiad dirfawr drwy lygriad y meddwl. Mae math o fodolaeth dragywyddol, sydd yn dychrynu yr annuwiolaf, ond ffurf neillduol yw hono yn codi allan fel ofn y meddwl o fywyd pechadurus. Mae bodolaeth dragywyddol yn rhedeg i *ffurf* ein *cymeriadau moesol*, fel y rhêda dwfr i ffurf y llestr y byddo ynddo. Fe dafia aflendid calon, wenwyn i ffynon bywyd. Mae meddwl yn dyfod i gyffyrddiad â thragywyddoldeb yn

fynych. *Beth sydd yn cyfrif bod y rhan fwyaf o ddynion yn troi yn llwfr pan yn wynebu angau?* Mae cydwybod yn ymestyn yn mlaen i dragywyddoldeb, yn ymddyrchafu i *fyd ysbrydol* i ymofyn ei chymeradwyaeth neu ei hanghymeradwyaeth i weithredoedd dyn. Mae gwahaniaeth pwysig rhwng credu mewn sefyllfa ddyfodol, a'r adgyfodiad y sonia y Gwaredwr am dano. Cadarnha Ef y bydd corff ac enaid yn cyd-oesi byth.

Yr enw tyner a rydd *Ørist* ar y meirw yw "*Y rhai sydd yn y beddau.*" Mae y corff wedi y collo y bywyd yn dadfeilio, yn dadansoddi, ac yn llygru; a rhydd hyn syniad am natur y corff yn bresenol. Mae Paul yn cyferbynu y corff ar ddydd yr angladd a'r corff ar ddydd yr adgyfodiad; a bydd y cyfnewidiad mewn pedwar o bethau, a phob cyfnewidiad yn ffafwr y dyfodol, am y bydd ar gynllun corff gogoneddedig yr Arglwydd Iesu. "Efe a *heuir* mewn *llygredigaeth*, ac a gyfodir mewn *anllygredigaeth*; efe a *heuir* mewn *anmharch*, ac a gyfodir mewn *gogoniant*; efe a *heuir* mewn *gwendid*, a gyfodir mewn *nerth*; efe a *heuir* yn gorff *anianol*, ac a gyfodir yn gorff *ysbrydol.*" Nid yw y cyfnewidiadau presenol yn dinystrio hunaniaeth, ac ni wneir hynny gan gyfnewidiadau mawrion y dyfodol. Nid yr un syniad sydd i hunaniaeth mewn *mater* a meddwl. Mae hunaniaeth carreg yn wahanol i hunaniaeth corff. Gellir newid *lliwiau* darlun heb ddinystrio ei hunaniaeth; tra y cedwir ei *idea* yn y golwg, bydd yn aros. Fe gyll corff lawer, ond fe enilla fwy; ac yn ei waith yn colli, y bydd yn enill. Fe gyll elfenau llygradwy, elfenau anmharch, elfenau ei wendid, elfenau anianol, ond ymddyrchafa drwy hynny. Tori y cadwynau sydd am dano wneir.

Mae y corff o fewn cylch cyfamod y Prynedigaeth.—Yr oedd y farn fygythiédig am bechu yn cynnwys *cosbedigaeth* ar gorff, yn gystal ag enaid. Eglurir y gwirionedd hwn gan yr Apostol. "Ac os yw Crist ynoch, y mae y corff yn farw o herwydd pechod; eithr yr ysbryd yn fywyd o her-

wydd cyfiawnder." Mae effeithiau blaenaf grâs ar enaid. Mae yr ysbryd yn fywyd, tra y mae y corff yn farw; y cyntaf "yn fywyd o herwydd cyfiawnder," wedi ei symud o lywodraeth pechod i feddiant o fywyd ysbrydol. Ond y mae y corff o dan y gollfarn eto; mae y farn heb ei symud o hono—"yn farw o herwydd pechod." Pe buasai yr Apostol yn gadael y pwnc yn y fan yna, buasai dolen yn eisiau yn y gadwyn. Ond dilyna yn mlaen, gan ddangos nad yw gwahaniad corff ac enaid ond am amser. "Ac os Ysbryd yr hwn a gyfododd Iesu o feirw, sydd yn trigo ynoch, yr hwn a gyfododd Grist o feirw a fywiocâ hefyd eich cyrff marwol chwi, trwy ei Ysbryd yr hwn sydd yn trigo ynoch." Mae cyfryngwriaeth Crist yn dyogelu adferiad yr holl ddyn. Bydd y farn yn dâl perthynas agosach â'r iachawdwriaeth nag â'r cwmp, am fod Crist yn cynyg dileu y diweddaf a'i effeithiau drwy ei haeddiant.

Mae y Gwaredwr yn myned i siarad â rhai y mae pawb wedi teui wrthynt.—Mae Crist yn myned i godi ei bwlpud rhwng y beddau, i dafu gwên bywyd i deyrnas brenin y dychryniadau, ac i droi y fynwent werdd yn ardd brydferth. Mae Crist yn myned i godi ei berlau o'r *cuddfeydd*. Ni allesid llosgi y ddaear nes y buasai y Gwaredwr wedi cael ei *drysorau* allan o honi. Rhyfeddai y bobl i Grist lefaru iechyd i'r claf wrth lyn Bethesda; byddant yn dystion o hono ef yn gwneyd peth mwy. Gwelant ef yn sefyll yn nghanol daear orchuddiedig â beddau, ac yn gollwng allan ffrydlif nid o iechyd, ond o *fywyd*, i rêdle afon marwolaeth. Fe orlifa y bywyd ysbrydol dros ei *embankments* presenol, tra y try y ddaear yn faes llawn o fywyd. "*Hwy a ddeuant allan.*" Myned i *fewn* yw y drefn gyffredin—mor gyffredin, fel y mae yr oruchwyliaeth wedi colli ei dylanwad ar lawer meddwl, ond "a ddeuant *allan*" fydd y boreu hwnw. Tynu ati mae y ddaear heddyw, ond bwrw oddiwrthi fydd hi y pryd hwnw.

II. DIFREFOLDEB YR OLYGFA—"RHAI I ADGYFODIAD BYWYD, A RHAI I ADGYFODIAD BARN."—Mae y geiriau hyn yn dilyn

y ddau ddsbarth i'w terfynau. "*Y rhai a wnaethant ddrwg, i adgyfodiad barn.*" Yr oedd yr Arglwydd Iesu am i ddynion wneyd pob peth yn ngoleuni y farn. Dyma y ddolen, gwneyd *drwg*—"adgyfodiad *barn*;" y cymeriad *presenol* yn cyfrif am y dynged *ddyfodol*. Dywedir y gall dyn pan yn sefyll ar lan afon lle yr ymarllwysa i'r môr, ddweyd drwy ba fath diroedd y mae wedi dyfod. Ni welodd ei tharddiant distaw ar ochr y mynydd pell, na'i disgyniad cyflym dros y llechwedd i'r dyffryn tlws; ond gwybydd wrth liw dyfroedd yr afon, am natur y ddaear y daeth drosti. Pe buasai yn bosibl i ni sylweddoli ffeithiau yr adgyfodiad a'r farn yn ein meddyliau, gwelwm yno gymeriadau yn ymddangos fyddai yn tystio drwy ba fath ddylanwadau y daethant yno. "*Y rhai a wnaethant ddrwg*" wedi dyfod yno drwy ganol rhêgfeydd, llwŷon, a chabledau. Bydd yno dorff wedi dyfod ar flaenllif o feddwod, a thrwy ganol anialwch llosgedig y tân ni ddiffydd. Bydd cymeriad moesol yn rhoddi lliw ar drueni yr annuwiol. Gall angelion Duw ddweyd o ba le y daeth, ac i ba le y bydd yn myned. Mae ffrwythau gwlad yn dweyd am hinsawdd y wlad lle y tyfasant. Mae y geiriau yn rhoddi golwg äang ar bechod—"adgyfodiad barn."

"*Y rhai a wnaethant dda i adgyfodiad bywyd.*" Enw awgrymiadol iawn—"bywyd." Mae gräs yn codi cofgolofnau nid o farmor, ond o *fywyd*. Mae yma ddolen eto—"A wnaethant *dda*, i adgyfodiad *bywyd*." Adgyfodiad i *farn*, fydd bodolaeth heb *fywyd*; ond adgyfodiad i *fywyd*, fydd bywyd ysbrydol yn ymddadblygu mewn bywyd tragwyddol. Yn yr "adgyfodiad i *farn*" bydd crynhoad o holl annuwiolion yr oesau; ond yn yr adgyfodiad i *fywyd*, bydd "cymanfa a chynulleidfa y rhai cyntaf-anedig" yn cael eu harddangos gan Dduw.

Tuedd pechod yw materoli enaid, ond tuedd gräs yw ysbrydoli corff. Y mae bywyd ysbrydol credadyn ar y ddaear yn cyfateb i'w sefyllfa; ond fel y cyfyd y Cristion mewn saneteiddrwydd, daw i gydymdeimlad a'r byd

ysbrydol. Gauaf yw y byd hwn, ond blodeuyn haf yw bywyd. Tynir blodau i fewn o'r gerddi cyn y gauaf, am eu bod yn rhy wan i ddâl yr oerfel. Adgyfodiad bywyd, blodeuyn haf—tragywyddol haf yw bywyd ysbrydol; ac yn yr adgyfodiad y gwelir ef yn ei ogoniant. Dyma fywyd heb un terfyn i'w fwynhad a'i ddadblygiad. Caethiwir marwolaeth i'w randir ei hun, bydd ei holl lywodraeth o fewn carchar. *Llywodraeth* ddywedwyd; na, bydd angau wedi ei lyncu mewn buddugoliaeth. Tynu i'r dyfodol mae y bywyd hwn. Mae adar i'w cael sydd yn ymweled â'r wlad hon am rai misoedd yn y gwanwyn; ond pan y dechreuau yr oerfel ddyfod, codant ar eu hedyn, ânt dros foroedd mawrion, ac ehedant tua'r dehau i chwilio am hinsawdd mwy cyd-dymherus â'u bywyd. Adar ymfudol y gelwir hwy. Mae bywyd ysbrydol y Cristion yn cyfeirio i'r dyfodol. Mae ganddo yntau ei ddehau, a sonia y testyn am dano. Mae fel yr aderyn ymfudol, yn ymddyrechafu o lyn cer cysgôd angau, i awyr gynhesach, ac yno ymddadblyga byth yn ei elfenau ei hun.

III. "NA RYFEDDWCH AM HYN, AM NAD YDYNT OND PETHAU BYCHAIN, YN GYFERBYNIOL I'R HYN A GYFLAWNIR GENYF ETO."—Yr oedd y gwyrthiau lleiaf o eiddo Crist yn tynu mwy o sylw na'i wyrthiau mwyaf. Synai y bobl pan fyddai Crist yn distewi storom ar fôr, nes y llonyddai ei donau; pan yn bendithio ychydig o dorthau, nes di-wallu miloedd o bobl âg ychydig o foddion; pan yn ysgafnhau baich cymdeithas drwy rodai llygaid i'r deillion a ddibynent ar elusen; a phan y rhoddai iechyd i glâf wrth lyn Bethesda ar y Sabbath. Ond pan gyfnewidiai ansawdd calon ac egwyddor lywodraethol pen-publican, pan y bwriai allan gythreuliaid o rai a feddienid ganddynt, pan gyfanai aelwyd gweddw dlawd ar ddydd claddedigaeth ei mab, a phan gyfnewidiai gymeriadau gwaethaf cymdeithas, ni welent ei sanoteiddrwydd yn puro calon aflan, ei allu yn gwaredu y druan o'i chaethiwed, ei galon yn tosturio wrth y diamddiffyn, na'i râs yn gwaredu pech-

adur o'i lygredigaeth. Gwelent y lleiaf, ond ni welent y mwyaf.

“*Na ryfeddwch am hyn.*”—Mae pethau mwy i ganlyn. Nid yw y rhai hyn ond rhoddion Tywysog ar ei ffordd i'r *orsedd*, cymwynasau etifedd wrth fyned i gymeryd meddiant o'r etifeddiaeth. Nid oedd y pethau a welent hwy ond pethau yn perthyn i gylch y dyoddef a'r marw. Gwyrthiau y *darostyngiad* oeddynt. Ond y mae pethau mwy i ganlyn—pethau gorsedd, nid croes; pethau bywyd, nid marwolaeth; gwyrthiau y *dyrchafiad*. Bydd angau wedi ei lyncu mewn buddugoliaeth, fel y gwelwyd ambell i long yn ymladd â'r tönau, ond yn y diwedd yn suddo, ac heb arwydd yn mha le. Gweithrediadau bywyd fydd yn tynu sylw yn y dyfodol.

PREGETH XXIII.

Y WEDDI GYFRYNGOL*.

“Ac nid wyf yn gweddio dros y rhai hyn yn unig, eithr dros y rhai hefyd a gredant ynof fi trwy eu hymadrodd hwynt. Fel y byddont oll yn un; megys yr wyt ti, y Tad, ynof fi, a minau ynot ti; fel y byddont hwythau un ynom ni; fel y credo y byd mai tydi a'm hanfonaist i.”—IOAN xvii. 20-21.

LLEFARWYD y geiriau hyn gan yr Arglwydd Iesu, pan yr oedd â'i wyneb ar Gethsemane, y lle a hynodwyd gan ddyoddefiadau ingawl Crist a ffyddlondeb diymod ychydig o ddisgyblion tlodion yn eu llesgedd. Y mae cyflawniad o unrhyw ddyledswydd orchymynedig gan Dduw yn rhoddi anrhydedd ar ddyn, o herwydd y mae dyn yn llai na'r awdurdod sydd yn ei ofyn. Yr oedd pob peth a wnaeth Crist yn derbyn gogoniant oddiwrtho ef am ei fod ef yn fwy na phob peth a gyflawnodd. Yr hyn sydd yn ddyledswydd ar ddyn oedd yn râs yn y Gwaredwr. *Codi* y mae dynion at eu dyledswyddau, o herwydd perthynas y cyfryw â'r Duw sydd yn gorchymyn. *Disgyn* wnaeth Crist drwy ei râs, o herwydd perthynas ei râs â'r ddynoliaeth sydd yn derbyn. Sancteiddir calon lygredig a gwefus halogedig dyn gan y gwirionedd a greda ac a lefara, am y rheswm fod gwirionedd, fel rheol, yn tafu ei ddylanwad i'r cyfrwng a ddefnyddia i egluro ei hun; a phe na wnelai hyny, rhoddodd anrhydedd ar lawer cigfran, os na chymerai ddim ei hun o'r hyn a gariai yn ei phig, a gafodd anfarwoldeb hanes ar gyfrif iddi gario bwyd i broffwyd Duw mewn cyfyngder. Yn hytrach na derbyn dylanwad oddi-

* Parotowyd y bregeth hon ar gais Pwyllgor “Undeb yr Annibwyr Cymreig,” ar gyfer y Cyfarfod yn Abertawy, yr hwn a gynnalwyd yr wythnos gyntaf yn Gorphenaf, 1882. Traddodwyd hi ar nos yn gyntaf y Cyfarfod, yn y Tabernacl, Treforris.

wrth ddim, tafiai Crist ddylanwad ei natur berffaith, ei galon dyner, a'i gymeriad sanctaidd i holl gysylltiadau ei fywyd, a'r bywyd hwnw a roddodd yr ystyr eangaf a chyflawnaf i fywyd erioed—bywyd oedd yn fwy na'i flynyddoedd. Yn y bywyd hwnw saif Crist o flaen y byd fel anfonedig y Tad i'w hysbysu i'r byd, ac i ddwyn pechadur a Duw i berthynas newydd â'u gilydd ynddo Ef fel Cyfringwr.

Dechreuodd Crist ei fywyd cyhoeddus drwy bregethu egwyddorion teyrnas nefoedd; dygai hyny wedd ac amcan mawr ei fywyd. Diweddodd Crist ei oes-drwy weddio; dygai hyny wedd ac amcan mawr ei angau. Apostol ein cyffes ni yw Crist yn y naill, ond Archoffeiriad ein cyffes ni yw Crist yn y llall. Ystyrir ymadroddion olaf y Gwardedwr y pwysicaf o'i holl eiriau ar gyfrif y datguddiad helaethach sydd ynddynt o wirioneddau, perthynas neillduol y gwirioneddau hyny â'r disgyblion, a'r amgylchiadau difrifol yn y rhai y llefarwyd hwy. Y mae gwahaniaeth dirfawr rhwng dechreuad a gorpheniad gweinidogaeth y Gwardedwr. Y mae y dyrfa luosog gymysgedig wedi newid am ychydig o ddisgyblion tlodion. Mae y cyffelybiaethau a'r damegion wedi newid am bethau mewnol profiad y saint; mae y gwaëau a'r bygythion wedi distewi, ac yntau yn cydnabyddu meddyliau ei ddisgyblion âg amgylchiadau ei farwolaeth. Ond tra y cyfyngai Crist yn rhif ei wrandawyr, ac y gwahaniaethai yn natur y gwirioneddau, eangai yn ei weddïau; tra y gwasgai ei ychydig ddisgyblion yn nes i'w galon, agorai y galon hono mewn erfyniadau dros y byd; ac yn y weddi hon rhoddodd eglurhad o'i gydymdeimlad â dynoliaeth. Rhenir y weddi yma i dair rhan—Crist yn gweddio drosto ei hun, dros ei apostolion, a thros y rhai a gredent ynddo Ef drwy eu hymadroddion hwynt. Mae gweddi Crist dros yr apostolion yn cyfateb i natur yr hen oruchwyliaeth ac i gylch gweinidogaeth y disgyblion—yr apostolion yn unig yn y weddi, a defaid cyfrgolledig Israel yn y genadwri. Ond y mae adnodau y testyn yn

cyfateb i'r gorchymyn roddodd Crist oddiar fynydd yr esgyniad—"Ewch i'r holl fyd, a phregethwch yr Efengyl i bob creadur." Dyna y genadwri. "Ac nid wyf yn gweddio dros y rhai hyn yn unig, ond dros y rhai hefyd a gredant ynof fi drwy eu hymadrodd hwynt." Dyna y weddi. Wedi offrymiad y weddi y rhoddwyd y gorchymyn; y weddi sydd yn mesur cylch dylanwad y gwirionedd. Yr unig wirionedd a welai Crist yn ddigon mawr i gyfarfod âg angen y byd oedd yn eu hymadrodd hwynt, am mai Efe ei hun oedd yn ddigon mawr i fod yn ganolbwynt gobaith y byd. Y mae äangder y weddi yn profi dwyfoldeb Crist. Y mae o'n blaen gymeriad nas gellir ei esbonio ond yn ngoleuni egwyddorion tragywyddol yr Efengyl. Portreadwyd ef gan bedwar Iuddew. Nodwedd y meddwl Iuddewig oedd cadw y cyfan iddo ei hun—gorfu i Pedr fyned trwy fwch cyfyngach nag sydd rhwng dau fyd cyn ei gael i foddloni rhoi dim i'r Cenhedloedd; ac eto y mae y rhai hyn wedi portreadu cymeriad oedd, ac sydd, am roi pob peth i bawb. Y mae ei gydymdeimlad yn cerdded amgylchoedd y ddaear. Nid yn unig y mae yn dileu terfyn cenhedlaethol, ond cofleidia filiynau seintiau yr oesau a ddaw—"Ond dros y rhai hefyd a gredant ynof fi drwy eu hymadrodd hwynt." Y mae y weddi yma yn tafu drws yr oruwch-ystafell yn agored i ddangos bwrdd wedi ei hulio. Gweddio yn darparu i lawer, heb brinhau ar neb—nid yw yn gollwng ei gafael ar yr ychydig wrth gydio yn y milynau; ac o'r weddi ryfedd yma y mae disgyblion Crist wedi cael awyr bur i anadlu yn nghanol *sulphur* anwiredd yr oesau.

I. PERTHYNAS GWEDDI CRIST A'R DISGYBLION AC A'U LLAFUR.

Fel yr cedd Crist am orphen ei fywyd mewn gweddio o eiriolaeth dros y byd, yr oedd ef am i'r disgyblion fyned allan i'r byd dan y syniad ei fod Ef yn gweddio drostynt. Gwirionedd Crist yn nghalon y disgybl, a gweddio Crist drosto, yw y ddau allu mawr y mae am iddynt deimlo. Byddai yn rhaid iddynt feddu fydd ddisygl yn llwyddiant

y gwirionedd ac ewyllys ymostyngol i'w eiddo Ef yn wyneb pob afwyddiant ymddangosiadol. Crynhoos Crist bob peth i ddau beth yn y Weddi Gyfryngol hon dros ei ddisgyblion.

Gweddiai am eu sancteiddiad.—“Cadw hwynt rhag y drwg.” Dylanwad uniongyrchol Cristionogaeth ar galon a chymeriad yw eu sancteiddio, a dylanwada yn anuniongyrchol drwy bob calon a chymeriad a sancteiddir ganddi i buro cymdeithas fel y daw y cyfryw i gyffyrddiad â hi. Nid tynn dyn allan o'r byd i arwain bywyd mewn unigedd wna yr Efengyl, ond rhoddi *neillduolrwydd* ar ddyrn yn y byd—ei wneyd fel y Gwardwr “*yn ddidoledig*,” er yn nghanol pechaduriaid. Pe yn wahanol, syrthiai dyn yn ysglyfaeth i lygredigaeth ei galon ei hun, ac yn gaeth i syniadau anianol. Trefn Duw i wella y byd yw drwy ddyrnion sydd yn cael eu gwella eu hunain. Nis gallai dnyion oedd wedi arfer byw yn mhlith gwahangleifion fyned i'r gwersyll heb greu dychryn, oddieithr eu bod yn offrymu rhywbeth er tystiolaeth eu bod wedi eu gwella. Nis gellir myned yn agos iawn i bechod heb dderbyn dylanwad oddiwrtho. Y mae y ddafad sydd yn lladrata yn colli ei gwlan yn y drain, ac ni raid gofyn i'r hwn a fu yn lladrata yn y felin yn mha le y cafodd ei ysbail. Nis gall llaw wedi gwywo ysgrifenu yn dda. Defnyddia Duw ddyrnion da yn foddion i wella ereill, ac wrth wella ereill y daw y da yn well ei hun. Edrychai Crist ar gyfanrwydd cymeriad, sancteiddrwydd calon, ac uniondeb ysbryd yn hanfodol fel cymhwysder i'r apostolion i'w gwaith cenhadol yn nychweliad y byd at Dduw. Nid ysgrifenu *prescription* i gleifion yw gwaith Cristion, ond dal ei hun i fyny fel engraifft o rinwedd yr hyn a gynygia. Nerth mwyaf dyn yw ei gymeriad, gogoniant penaf cymeriad yw sancteiddrwydd, ac y mae y pwys o'i feddu gymaint fel y cymer y lle blaenaf yn y Weddi Gyfryngol. Dylid dwyn eiddigedd sanctaidd drosto, o herwydd y mae fel arwydd y Nazarëad; ac wedi ei golli, bydd y cryfaf fel Samson wedi tori ei wallt—Ysbryd yr Arglwydd wedi cilio oddiwrtho.

Gweddïai Crist am i'w Apostolion gael adnabod ysbryd ymgysgriad i'w swydd.—Dygir y Cristion o'n blaen yma yn ei berthynas â'i waith. Ordeiniwyd yr apostolion i waith neillduol; ac er nad oedd y Weddi hon yn sicrhau iddynt gyflwr dyogelach na'r lleill o'r saint, eto, gan fod iddynt waith ychwanegol, gweddïai Crist ar iddynt adnabod ysbryd ymgysgriad iddo. Awgrymir yma nas gellir rhanu meddwl fel ag i weithredu mewn dau gyfeiriad gwahanol; nis gellir gwasanaethu dau arglwydd. Ymadawodd yr apostolion â'u galwedigaethau i bregethu Crist. Y mae gofalon bydol yn faglau am y meddwl i'w rwystro i allu cyflawni gwaith y weinidogaeth. Y mae trachwant bydol yn gwywo ysbryd gwaith yr Efengyl, a braidd nad yw yr Efengyl ei hun yn dwyn blas y pethau y trachwantir ynddynt. Anrhydeddwyd ein cenedl ni gan ddyinion fu fyw mewn amgylchiadau gwahanol i ni; adeiladent bebyll yn yr wythnos, ond pregethent Grist ar y Sabboth; sefydasant eglwysi, amddiffynasant eu crefydd, ymosodasant ar bob annuwioldeb, a dyoddefasant hyd at waed gan ymdrech yn erbyn pechod; a theilwng iddynt yw teyrnged o barch ar gyfrif y gwaith a gyflawnasant a'r etifeddiaeth deg a adawsant i'r genedlaeth bresenol. Ond tystient, pe byddai eisïau, mai anfantais oedd eu sefyllfa iddynt. Yr oeddent hwy, fel Pedr, yn byw rhwng dau filwr, ac yn myned i'r carchar; ond yr ydym ni fel Pedr yn dyfod allan o'r carchar, gan ddilyn angel, a'r hyn a ddywedodd yr angel wrth Pedr ddywedir wrth bob cenad i Grist—"Ymwregysa, a rhwym dy sandalau"—bydd barod ar gyfer myned allan at dy waith. Ordeinio i waith y mae Duw. Ni roddodd Duw *ysbryd* gwaith i neb heb ddarparu gwaith ar ei gyfer; ond fe ymgymherodd llawer â gwaith heb bryderu dim am ysbryd ato; a thra y mae y diweddaf yn achwyn wrth wneyd dim, mae y cyntaf yn gwneyd pob peth mewn llawenydd. Cyferbyniai Crist anfonïad y dynion hyn i'r byd i'w anfonïad ef ei hun i'r byd. Disgwylia Crist ffyddlondeb diymod i'r gwirionedd, ac nis

gwyddom beth a all fod yn cyfrif am yr awydd anniwall sydd mewn dynion am newydd-deb. Y mae yn well gan rai gyfeiliornad *newydd* na *hen* wirionedd; gŵyrrant oddi-wrth y ffydd, a choffleidiant athrawiaethau amryw a dyaieithr. Ond gweddiâi Crist am i'w ddisgyblion ef gael nerth i sefyll yn ffyddlawn i'r gwirionedd. Nid gofyn am nerth i foddioni dychymygion dynion, ond nerth i sefyll wrth ffydd yr Efengyl. Y mae gŵyriad oddiwrth wirioneddau syml yr Efengyl oddiar gywreingarweh yn arwydd o ddifyg cydymdeimlad â dwyfoldeb ac ysbrydolrwydd y gwirionedd, yn gystal a phrawf sicr o adfeiliad crefydd ysbrydol yn ei dylanwad ar y meddwl.

Yr hyn a ofynai Crist i'w apostolion a ofynai hefyd i'r rhai a gredent ynddo Ef drwy eu hymadrodd hwynt. "*Eu hymadrodd hwynt*"—nid eu tystiolaeth; caethiwir ystyr y gair tystiolaeth i'r ffeithiau oedd ganddynt i'w cyhoeddi; ond eu hymadrodd, yr eglurhad a roddent hwy, o dan ddylanwad dwyfol ysbrydoliaeth, ar y ffeithiau hyny. Bwriadwyd i'w llythyrau hwy fod yn foddion dychweliad y byd, a gweddiâi Crist dros y rhai o'r byd a gredent ynddo Ef. Nid Gweddi drostynt i greu ydyw, ond *wedi* credu; drwy greu y deuent i feddiant o fendithion y weddi.

Y mae y weddi yma yn sylfaenedig ar aberth Crist; ond cyfyd allan o ymdeimlad o'r berthynas oedd, ac sydd rhwng Crist â chredinwyr. Eu hymadrodd hwynt, ond fy mywyd i; eu hymadrodd hwynt, ond fy angau i; eu hymadrodd hwynt, ond fy Ysbryd i—hyny fydd yn gwneyd eu hymadroddyn "*ysbryd a bywyd*." Y mae anffyddlondeb i'r ymadrodd yn fradychiad o'r ymddiriedaeth bwysicaf. Y mae gwirionedd yr Efengyl yn anfarwol, pa un bynâg ai y ffurf o addewid, tystiolaeth, neu eglurhad a roddir iddo. Cysyllta Crist ei allu âg ef yn y ffurf o addewid, ei gymeriad âg ef yn y ffurf o dystiolaeth, a'i Ysbryd sanctaidd âg ef yn y ffurf o eglurhad—nid i ddileu y dynol fel cyfrwng, ond i'w sicrhau i gyrhaedd ei amcan.

Y mae y symledd a nodwedda ffeithiau a gwirioneddau y

Beibl yn anfantais iddo i gyfarfod â meddyliau rhodresgar. Ni foddlonir ar adrodd pethau yn iaith Ysbrydoliaeth ei hun, fel pe gallai dyn wella hono. Geilw rhai ymadroddion tywyllion yn athroniaeth ddofn, iaith rodresgar yn farddoniaeth bur, a damcaniaethau gwylltion yn wirioneddau aruchel. A foddlonid mesur tuedd eu hathroniaeth, sanct-eiddrwydd eu barddoniaeth, a chywirdeb eu damcaniaethau wrth hyny o Efengyl bur sydd ynddynt, wrth hyny o amlygrwydd a roddant i'r Arglwydd Iesu, wrth hyny o oleuni a daflant i'r meddwl, ac wrth hyny o gyffro a gynyrchant yn nghydwobodau pechaduriaid? Os rhyfeddir mwy at iaith nag at feddwl, fe gollir yr amcan sydd i iaith. Dylai y trysor fod yn fwy o werth na'r llestr a'i caria. Mae lliwiau y blodeuyn yn brydferth, ond y mae y bywyd a'i paentiodd yn fwy o werth. Hanfod yr ymadrodd yw Crist a'i rās, a dylid gofala na byddo dim o eiddo neb yn sefyll rhwng y pechadur a Christ. Y mae cyfoeth yr ymadrodd hwn yn gwynebu ar y byd, a'r Weddi yn sierhau llwyddiant. Joseph y cyfoeth yma yw y Weddi hon; hon sydd yn hollti tywyllwch paganiaeth ac eulun-addoliaeth o flaen ffydd y cenadwr; y thuser sydd yn dal aroglarth iachawdwriaeth yn y deml ysbrydol; y trosol sydd yn cario ffrwythau Gwlad yr Addewid i'r etifeddion mewn cyfyngderau; a'r *map* ysbrydol o gylch cenhadaeth Eglwys Mab Duw, ac una llef yr Eglwys am lwyddiant ar y Weddi yma.

II. DYLANWAD Y WEDDI AR Y DISGYBLION.—“*Fel y byddont un.*”—Oni bai mai geiriau yr Arglwydd Iesu ei hun yw y geiriau hyn, buasai llawer wedi cablu llawer mwy arnynt; ond y mae hwn yn dir gwaharddedig, fel mae y gelyn wedi arswydo rhoddi ei droed arno. Nid gweddio am undeb yr Eglwys y mae Crist, ond nis gallasai yr hyn y gofynai Crist am dano lai na chynyrchu y cyfryw undeb—effaith yn codi allan o achos ydyw, ffrwyth yn crogi dros gangau y pren ydyw, moddion, wrth gyrhaedd amcan neillduol, yn gwneyd peth rhwng y ddau. Yn mherthynas a'r moddion y mae (yr undeb yn fendith, yn mherthynas

â'r amcan y mae y fendith yn dyfod i waith. Y mae yr undeb yn ganlyniad yn dyfod allan o'r weddi; ond y mae y canlyniad yn dyfod yn un o'r prif alluoedd yn ei berthynas â'r amcan mawr—"Fel y credo y byd mai Tydi a'm hanfonaist." Y mae yn yr adnod dri "*fel*." Tarddant oll yn yr un ffynhonell; ond rhedant i gyfeiriad hollol wahanol. "Fel y byddont un"—undeb mewnol yr Eglwys yn codi allan o'i sancteiddrwydd a'i hymgysegrïad i waith neillduol. "Fel y byddont un ynom ni," neu fel y byddont ynom ni. Undeb yr Eglwys â Duw yn Iesu Grist yn cael ei brofi yn ngwaith a phurdeb yr Eglwys. "Fel y credo y byd mai Tydi a'm hanfonaist i"—undeb yr Eglwys yn ei ddylanwad sanctaidd ar y byd. Undeb egwyddor ac amcan yw y cyntaf, undeb cyflwr a bywyd yw yr ail, ac effaith angenrheidiol yn codi allan o natur y ddau yw y dylanwad yn y trydydd "*fel*." Y mae *amod* yn gyleh am fywyd yr undeb cyntaf; y mae *cyfamod* yn gyleh am fywyd yr ail; ac o gydymdeimlad y cyntaf a sicrwydd yr ail y tardda allan y dylanwad anorchfygol sydd gan yr Eglwys ar gydwytod y byd. Y mae cyfansoddiad ysbrydol yr Eglwys y fath fel nas gall fodoli yn bresenol heb fod y tri hyn yn perthyn iddi. Y mae yr ymadrodd a ddefnyddia Crist am yr undeb hwn fel pe yn rhoddi rhybudd i ni wrth nesau ato; y mae y geiriau yma, fel gwisg yr Arglwydd Iesu ar Fynydd y Gweddnewidiad, yn ein dallu wrth ddisgleirio cymaint—goleuni o'r nef ydynt, *y madroddion yn cael eu hystyr mewn byd ysbrydol ydynt*; ac nid yn rhywle yn y byd ysbrydol ychwaith; ond yn undeb y personau dwyfol, codant at natur Duw, "*Megys yr wyt Ti y Tad ynof fi*." "*Megys*," dyma yr agoriad a roddodd Crist i ystyr y geiriau. Y mae yn hawddach deall ystyr y geiriau "*megys*" a "*fel*" yn mhregethau Crist nag yn ei weddian. Pan yn siarad â dynion gwelai bod yn rhaid iddo ddefnyddio pethau cyffredin fel eglurhadau, mewn trefn i allu cyfleu y gwirionedd yn y meddwl. Ond nid â dynion y siaradai wrth weddio, ond â'i Dad. Pan y pregethai y gwirionedd,

er ei fod yn ysbrydol, gwelai rywbeth yn amgylchiadau dyn—y wraig a'r lefain, y dyn a'i drysor, a'r pysgotwr a'i rwyd—gwelai rywbeth ynddynt fyddai yn gyfryngau addas i egluro y gwirionedd. Yr oedd defnyddiau eglurhad ar bregethau Crist yn *tyfu yn ymyl ei bwlpudd*; ond pan weddiai, gofynai am bethau byd ysbrydol; yn y byd ysbrydol y ceid ystyr i'w eiriau. Y dwyfol yn agwedd gwas yw gweinidogaeth Crist; ond y prynedigion, wedi eu golehi a'u huno, yn cael eu cyflwyno i Dduw sydd yn y Weddi.

Undeb sylfaenedig ar berthynas ydyw.—Nid undeb i wneyd perthynas, ond yn codi allan o honi—undeb neillduol a phersonol yr holl saint â Duw yn gwneyd perthynas rhwng yr holl saint â'u gilydd yn hanfodol. Mae mwy na chysylltiad rhwng saint Duw â'u gilydd—y mae yma berthynas. Gellir cysylltu pethau o natur hollol wahanol, ond cyferfydd unrhywiaeth elfenau yn hanfod perthynas. Rhydd yr Efengyl ystyr newydd ac ysbrydol i berthynas—ystyr barhaol, gyfyd uwchlaw amgylchiadau cyfnewidiol. Gellir cysylltu annuwiolion a saint â'u gilydd, ond ni fyddant yn *perthyn* yn ystyr ysbrydol y gair. Gellir cysylltu aden aderyn marw wrth aden aderyn byw, ond ni fyddai yn un cymhorth iddo i ehedeg, am mai rhywbeth a gysylltiwyd âg ef yw, yn hytrach na pheth yn tyfu allan o'i fywyd. Y bywyd truenusaf yw hwnw sydd yn dibynu ar gysylltiadau, yn hytrach nag ar berthynasau; byw ar rywbeth gysylltir â ni, yn hytrach nag ar y peth sydd yn tyfu allan o honom. Y mae perygl i'r haul *fadio* lliwiau, oddieithr eu bod yn codi allan o berthynas â bywyd. Medr perthynas sylweddoli y'pell, a'i wneyd yn agos—ymdeimla âg hanfodion pethau yn fwy nag â'u hamgylchiadau—y mae ei hamrywiaeth yn fwy na'i gwahaniaeth.

Gallu mawr peehod yw *gwasgaru*; gallu mawr cyferbyniol grâs yw *casglu*—nid casglu fel y mae y chwanog i gyfoeth yn casglu aur; casglu, nid fel y mae yr amaethwr yn casglu ffrwythau haf; ond fel y mae y garddwr yn casglu hadau bywyd yn yr ardd—casglu defnyddiau i'w

rhoddi mewn perthynas â'u gilydd yn mywyd y ddaear ar gyfer hafau dyfodol, i brydferthu y ddaear â blodau, ac i lenwi ein hawyr â pherarogl. Felly y casgla grâs ddynion i'w rhoddi mewn perthynas newydd â'u gilydd i brydferthu y ddaear â rhinweddau. Ffurf allanol perthynas yw undeb. Fel y rhêda dwfr i ffurf y llestr y byddo ynddo, felly y rhêda meddyliau fyddo o dan ddylanwad yr un-egwyddorion i'r un cylch i ddwyn yr un nodwedd; ac os collant mewn amlygrwydd personol wrth fod yn mhlith y lluaws, enilliant mewn nerth fel y cornentydd yn yr afon ddofn, lydan, gref. Hanfod undeb fel ffurf allanol perthynas yw cydymdeimlad, a gwaith cyson cydymdeimlad yw chwilio am *outlet*. Y gwahaniaeth rhwng angen a chydymdeimlad yw, bod y cyntaf yn ceisio cael y ffordd i'r galon, a'r llall yn chwilio am ffordd o'r galon—chwilio am eu gilydd y maent. Y mae natur y berthynas yn cyfrif am faint y cydymdeimlad. Y berthynas uchaf a fedr gynyrchu y cydymdeimlad dyfnaf, a'r cydymdeimlad a ymgeleddodd fwyaf ar angen y byd yw hwnw sydd yn codi allan o gydymdeimlad ysbrydol yr Efengyl. Y mae yr undeb yma wedi rhoddi ystyr newydd i onwau perthynasol; ni chydnybydda neb yn Dad ond Duw, yr Anmherthynasol; y gwerth mwyaf yw cymeriad sanctaidd, ni foddlonia ar lai cyfoeth na grâs, a'r nefoedd yw yr unig fan y gall weled ynddo elfenau cartref.

Undeb yn dyogelu pob "amrywiaeth" angenrheidiol wrth sicrhau unoliaeth mewn gweithred ac amcan ydyw.—Yr anhawsder a deimlir yw, sut y gellir cadw yn nghyd amrywiaethau wrth uno elfenau gwahanol. Oddiyma y mae mellt a tharanau cymdeithas wedi myned allan. Mae gan ddynoliaeth lawer i'w golli, ac y mae perygl i ni wylu mwy wrth golli yr hyn nad oes arnom ei eisieu, nag a awyddwn am feddianu yr hyn nas gallwn fyw yn ddefnyddiol hebdo. Os bydd amrywiaeth yn cuddio amcan, bydd unoliaeth yn gwasanaethu peth llai nag ef ei hun. Gellir edmyga lliwiau gwahanol yr enfys-gogoneddas; ond

os na welir ynddo amcan, fe gollir y mwyaf yn y lleiaf. Y mae y prydfferth a'r defnyddiol ar wahan yn fynych. Defnyddioldeb mwyaf ambell i beth yw prydfferthu, a phrydfferthwch mwyaf peth arall yw bod yn ddefnyddiol. Y mae yr ardd flodau yn cyrhaedd amcan neillduol fel yr ardd ffrwythau; ond y ddiweddaf yw yr oreu, am yr una y defnyddiol wrth y prydfferth. Y mae meillion yn brydfferth yn mhob man fel ei gilydd; ond yn y maes, lle y pora y fuwch, y maent yn fwyaf defnyddiol. Gall cyfrwng guddio y gweithredydd, fel gwisg yn cuddio y corff; ond dylai fod fel yspectol yr hynafgwr, yn *help* i weled drwyddi. Nodwedd gweithrediadau Duw yw cadw neillduolion angenrheidiol pob peth wrth uno llawer i wneyd yr un gwaith. Ni roddodd Duw yr unrhyw lais i'r rhai hyny a leisient o amgylch caerau Jericho; ac os mai yr ystyr gyffredin sydd i'r geiriau "cyrn hyrddod," nis gwyddom sut y gallasai lleisiau yr offeiriaid a sain yr udgyrn fod yn *blendio* i'w gilydd; ond fe gyrhaeddodd Duw yr amcan er amrywiaeth yr offerynau, ac os tueddir rhywun i'w diystyru ar gyfrif eu gwaeledd, cofier nad oes dim yn wael a ddefnyddiwyd i wneyd gwaith mawr drwyddo—"Y pethau a lanhaodd Duw na alw di yn gyffredin." Ymddengys na bu cantorion yr orymdaith hono i Jerusalem o dan unrhyw ddisgyblaeth neillduol ar gyfer canu o flaen y Gwardwr; ond yr oedd yn y *geiriau* a ganent *harmony* i glust yr hen Esaiiah, ac yn y *canu* fu ar y *geiriau harmony* i glust Gwardwr pechadur oedd yn gweled blaenbrawf o ddyfodol y ddaear yn y canu. Ni ddaeth Mab y dyn i ddinystrio, ond adferyd. Ni chollodd neb erioed ddim wrth ddyfod yn Gristion; ond fe gafodd miliynau addurn grás. Dywedir mai coron y greadigaeth yw dyn; ond nis gallwn lai na theimlo mai coren o ddrain ydyw. Gwaith grás yw tynu y drain o'r goron.

Undeb yn cael ei nodweddu gan sancteiddrwydd ydyw.
—Amod bodolaeth, amean gweithredoedd, egwyddor bywyd, a gogoniant yr Eglwys Gristionogol yw ei sancteiddrwydd hi.

Hyn sydd yn rhoddi ystyr yn ei gweithrediadau, dylanwad anfarwol yn ei dyoddefaint, a thystiolaeth yn nghydwybod y byd o'i dwyfoldeb; condra eu gelynyon wrth eu henill, distawg ei chyhuddwyr â'i phurdeb, todda galonau ei herlidwyr â'i charedigrwydd; ac er nad oes ganddiarfau cyffredin milwriaeth, hyhi yw y gallu cryfaf ar y ddaear. Nid oes un ystyr i Eglwys Dduw ond fel y bydd ynndo sancteiddrwydd. Gall cymdeithasau gyrhaedd amcanion wrth gasglu cyfoeth, gwastadhau amgylchiadau, a dyogelu iawnderau gwladol; ond y mae gan hon bethau gwerthfawrocach nag aur i'w casglu, pethau mwy nag amgylchiadau i'w cyfartalu, a hawliau uwch na gwladol i'w dyogelu. Bodola hon i oleuo yr anwybodus, cyfarwyddo y tywyll, *protestio* yn erbyn pechodau yr oes, sychu còrsydd lleidiog anwiredd, amddiffyn enw Iesu o Nazareth, cymeradwyo purdeb wrth ei wisgo ei hun, a chyfeirio, drwy fywyd sanctaidd ac ymgysgriad llwyr, y byd at Fab Duw. Os na wna hyn, ni bydd Eglwys ond cymdeithas o unigolion yn byw i'w dybenion eu hunain. Dywedir mai gweithrediad cyntaf gwres ar beth yw gwasgaru oddiwrtho yr elfenau estronol dyeithr sydd wedi dyfod i fewn, ac yna casglu at eu gilydd yr elfenau hanfodol sydd yn y peth ei hun. Gwaith cyntaf sancteiddrwydd yn nghalon dyn yw gyru allan o honi yr elfenau dyeithr estronol sydd wedi dyfod i fewn iddi, ac yna uno â'u gilydd elfenau hanfodol ein dedwyddwch tragywyddol, a rhoddi y galon hono o dan addurn grâs. Pwnc bywyd yw sancteiddrwydd. Cwestiwn ein perthynas â'r Dwyfol ydyw; ac os cyll yr Eglwys ei golwg ar hwn, cyll ei gogoniant. Os prydera am amlhau rhif heb ofalu am gymeriad, ychwanegu rhwysg heb ofalu am ledneiarwydd, gadael i'w hordinhadau i gael eu gweinyddu yn ol mympwy ac nid yn ol gwirionedd, fe dŷn Duw ei amddiffyn oddiar y gogoniant. Gall fyw wrth dderbyn cwpanaid o ddŵr o law estron; ni chaiff farw. Dilledir hi gan y dyeithr; ni chaiff drengu. Mŷn hon bob peth mor lân ag y gellir ei gael—y tŷ glanaf a all i addoli Duw ynndo, y llestri glanaf i

addurno y bwrdd, gweinidog glân ei gymeriad i sefyll yn ei phwlpud, a hyny am ei bod hi yn ymestyn at fod yn lân a sanctaidd.

Undeb bywyd a chariad ydyw.—Nodweddir yr Efengyl gan fywyd. Bywyd yw yr enw a roddir ar ei bendithion, y cyfnewidiad a wna yn nghalon dyn, a'r sefyllfa y dygir credadyn iddi drwy râs. Fel y mae undeb anwahanol rhwng bywyd pob Cristion a Duw yn Iesu Grist, felly y mae perthynas rhwng pob Cristion ar gyfrif y derbyniant fywyd ar sylfaen yr un farwolaeth. Bywyd yw y peth cyfoethocaf yn llywodraeth Duw, a'r bywyd cyfoethocaf yw bywyd yr Eglwys, ar gyfrif ei berthynas â bywyd yr Arglwydd Iesu. Y mae ei amrywiaeth yn ddiderfyn, ac oddiwrth ei amrywiaeth y daeth ei brofedigaethau penaf. Ceisiwyd ffurfio deddfau i unfurfio pawb, rhoddi pob addolwr yn yr un *mould*, a phawb i addoli yr un fel; ond nis gellid. Mae cyfoeth bywyd yr Eglwys mor fawr, fel y mae ei hamrywiaeth yn ddiderfyn; y ffurf yw yr amrywiaeth, yr hanfod yw bywyd. Gwahaniaethwn yn y ffurf, tebygolwn mewn bywyd. Dywedir mai y blodeuyn a roddodd fwyaf o drafferth i hen arddwyr yw y *tulip*. Pe rhoddent ugain o'i hadau yn y ddaear yn yr un fath *soil* a gwrtait, deuent i fyni mewn gwahanol liwiau, maint, a ffurf, a digiodd yr hen arddwyr wrth y *tulip* nes yr esgeuluswyd ei drin; taffwyd ef dros fur yr ardd, ond aroglai yno. Ond y mae garddwyr diweddarach yn deall y *tulip* yn well; gwelant mai cyfoeth bywyd y *tulip* a gyfrifa am yr amrywiaeth, a bod y naill flodeuyn yn gystal *tulip* a'r llall. Mae bywyd yr Arglwydd Iesu mor gyfoethog, a'i gysylltiad â bywyd yr Eglwys mor agos, fel yr enfyn allan amrywiaethau diderfyn; ond camddeallwyd ef gan lawer. Erlidiwyd y saint, dygwyd hwy gerbron brawdlysoedd, taffwyd hwy i ddaeardai, dygwyd hwy at y stanc i farw, plygent o dan bwysau cawodau ceryg—taffwyd y *tulip* dros fur yr ardd, ond y mae ef yn aroglu yno—"Na ddod y pechod hwn yn eu herbyn;" ac yn y diwedd fe fydd y cwbl yn ardd i gyd.

Y bywyd hwn yw bywyd uchaf Duw—cylch ei ddadblygiad yw yr ysbrydol, ei agosrwydd i Dduw yw ynddo Ef, a sicrwydd ei barhad yw ei berthynas â Christ. Y mae yn ddigon cryf i gario delw y Dŵ anweledig, cael patrwn ei berthynas yn undeb y personau dwyfol, ac yn ddigon ysbrydol i ddeall iaith calon Duw. Y mae yn ddigon eang i gynnwys yr holl dyrfa gadwedigol, yn ddigon nerthol i beidio a marw wrth fyned o'r naill fyd i'r llall; ond yn ddigon gostyngedig i waeddi allan byth yn y nef, "Teilwng yw yr Oen."

III. AMCAN GOGONEDDUS Y CYFAN.—"*Fel y credo y byd mai Tydi a'm hanfonaist i.*"—Amcana y weddi hon at ddiwygiad nerthol yn marn y byd am Fab Duw, ac y mae dylanwad crefydd yr Arglwydd Iesu ar y byd i gael ei fesur wrth y dylanwad sydd ganddi ar ei chredinwyr. Dichon bod Crist yn cyfeirio yn fwyaf uniongyrchol yn y gair "credu" yma, at yr adeg pan yr arddelid Ef fel Messiah gan genedl Israel; ond ymddengys bod yma ystyr eangach i'r gair "credu."

Gwaith yr Eglwys yw dal Crist i fyny yn ei Berson, ei aberth, a'i gymeriad, ac y mae hi i wneyd hyny yn ei bywyd, ei gweithredoedd, ac yn ei chymeriad ei hun. Y mae anffyddiaeth yr oesau wedi ymosod ar yr Eglwys; ond y mae iddi hanes gogoneddus, a chyfyd y gogoniant hwnw allan o ogoniant y cymeriad sydd ganddi i'w ddangos. Pe gellid symud ymaith gymeriad ac aberth Crist, dinystrid y cyfan, ac at hyn y cynygia y gelyn; ond y mae gan Seion ei gwylwyr ar y tyrau yn mhob oes. Yn y ganrif flaenorol dywedai y gelyn nad oedd gwirioneddau y Beibl mewn cydgordiad â rheswm, ac, felly, nas gallasai fod ei dystiolaethau yn gywir. Gwaith duwinyddion ac athronwyr yr oes hono oedd dangos y cydgordiad oedd rhwng rheswm dyn â'r gwirionedd, mor bell ag y gallai y cyntaf fyned, ac nad oedd ffydd yn yr anamgyffredadwy yn groes i reswm dyn. Yn y ganrif hon dywed anffyddiaeth nad yw yr hyn a elwir yn wirioneddau dwyfol ond cynyreb

meddwl dynol, ac nad oes dim o fewn i'r Beibl ond a allasai meddwl dyn gynyrchu. Gwaith athronwyr a duwinyddion yn bresenol yw dangos terfynau a gwahaniaeth pa mor agos i'r dwyfol y gall dyn fyned. Y mae y symudiad yma yn ymostyngiad i wirionedd; safodd yr Eglwys, a saif eto wrth Grist, ei gymeriad, a'i Iawn. Y mae hi wedi dynoethi a thynu i lawr gyfeiliornadau ysbryd, a chyn hir fe fydd yn rhaid i ysbryd y cyfeiliorni adael y maes, a gadael llonydd i'r Eglwys i ddringomynydd eigweddnewidiad ar ddelw "y gwirionedd fel y mae yn yr Iesu."

Y mae hōniadau yr Efengyl yn fwy nag eiddo un gyfundrefn arall. Hōna hon y medr hi blanu egwyddorion ysbrydol a thragywyddol yn y meddyliau mwyaf llygredig a bydol eu hanian. Hōna hon y gall hi sancteiddio cymeriad a fyddo wedi disgyn ddyfnaf i fudreddi llygredigaeth ac anwiredd. Hōna hon fod yn ei datguddiadau hi wirioneddau sydd wedi rhoddi agoriad newydd i feddwl ymofyngar y byd. Hōna y gall hi gylmu cymdeithas â'i gilydd heb *help* deddf na chyfraith, nes y deil yn y mell, y cana yn swm y taranau; ac y gwna hi y gymdeithas hon mor bur ei chymeriad, mor genadol ei hysbryd, ac mor gylmedig mewn cariad, nes y bydd cymeriad Mab Duw yn tywynu drwyddi. A yw yr hōniadau yn wirionedd? A ddygir tystiolaeth iddynt gan brofion? Y mae yn yr Eglwys heddyw feddyliau ydynt o dan ddylanwad grās yn ymyl bod yn seintiau ar y ddaear; plyga meddyliau galluocaf y byd ger bron ei hallor; mae gweddi y tlotaf o'i meibion yn gryfach na dewrder y cryfaf o'i gelynyon.

Gallu bywyd yw ei gallu hi. Gellir gwadu gwirionedd yn y ffurf o dystiolaeth; ond medr bywyd siarad â chydwybod y byd. Medr bywyd sanctaidd Eglwys orchfygu y rhagfarnau cryfaf, gwywo y pechodau duaf, dileu yr arferion gwaethaf, a sefydlu gorsedd gwirionedd pur yn nghanol adfeilion teyrnas annghrist. Gallwyd llosgi cyfrolau a ysgrifenwyd gan feddyliau galluocaf y ddaear; ond yr oedd bywyd sanctaidd yn ysbryd anfarwol yn nghanol yr

oddaith. Dylanwad bywyd yw dylanwad sanctaidd yr Eglwys—dylanwad nas gellir ei ddileu.

Nid oes eisieu i wir feddyg argraffu *circulars* i hysbysu ei fedrusrwydd. Y mae y cleifion a wellhawyd ganddo yn rhodio yr ystrydoedd, yn dringo llethrau y mynyddoedd uchel, ac yn cyflawni eu gwaith, a boddlona i'w gymeriad fel meddyg sefyll neu syrthio gyda hwy. *Nid oedd eisiau i'r apostolion sôn dim am y cloff â wellhawyd ganddynt wrth borth y deml; yr oedd ef ei hun yn myned oddiamgylch gan *neidio* a moli Duw. Nid dygwydd dyfod i fewn a wnaeth y gair "neidio." Nid yn unig rhodiai, ond yr oedd am ddangos ei fod wedi cael mwy nag a allai ddangos mewn ffordd gyffredin. Pa gymdeithas a all ddangos cymaint o waith a'r Eglwys? Pa beth yw rhif ei thystion? Cymdeithas yn byw heb ddim ond egwyddorion pur yn ei chylymu. Teifi ei bywyd allan i'r fynwent ddynol, ymwisga mewn sachlian a lludw o herwydd pechodau y cenhedloedd. Bywyd hon sydd yn cyfrif am y dylanwad sydd yn cyfeirio dynoliaeth i wareiddiad a diwylliad. Bwyell hon sydd ar wreiddiau prenau gwenwynig yr oesau; egwyddorion hon sydd yn lefeinio cymdeithas. Y mae sŵn gwrth-dystiadau yr Eglwys yn siglo gorseddau gormes i'w sylfeini, yn crynu calonau llywodraethwyr y ddaear, a'i hatlingau yn myned âg anfarwoldeb i dldion. Y mae yr Eglwys wedi penderfynu cyrhaedd amcanion mawrion, ac ni rydd i fyny hyd nes eu cyrhaedd. Gwél y dydd pan y bydd cyfiawnder yn penderfynu materion heb gledlyfau, brenhinoedd yn teyrnasu heb ormesu, sefydliadau annuwiol yn syrthio, goleuni iachawdwriaeth yn tywynu i dywyllleoedd y ddaear. Dywed ei Harglwydd yn uchel yn nghanol murmur y byd, "Er mwyn Seion ni thawaf, ac er mwyn Jerusalem ni ostegaf, hyd onid éi ei chyfiawnder hi allan fel disgleirdeb, a'i hiachawdwriaeth hi fel lamp yn llosgi."

Pan lefarwyd geiriau y testyn, fe gododd ein Harglwydd ei lygaid i'r nef. Edrychodd i'r nef laweroedd o weithiau pan oedd ar y ddaear, ac edrychodd y nef i'r ddaear bob

tro ond unwaith. Wrth edrych i'r nef, gwelai rywbeth oedd wedi ei *adael ar ol ymo*. Am hwnw y mae yn gweddio yn nechreu y benod—"Y gogoniant oedd i mi gyda thi cyn bod y byd." Ymddihatodd o hwnw pan gymerodd agwedd gwas, ac nis gallai fyw ar y ddaear heb godi ei lygaid at hwnw yn achlysurol. Ond wedi i'r Iesu fyned i'r nef oddiar y ddaear, y mae yn cadw ei lygaid ar y ddaear, ac y mae yn gweled *rhyw bethau y mae wedi eu gadael ar ol yma—perlau ei angau, gwerth ei waed*. Y mae y Weddi Gyfryngol yn dechreu gyda chyfoeth Iesu Grist yn y nef fel Person dwyfol, ond y mae hi yn diweddau gyda chyfoeth Iesu Grist ar y ddaear fel Cyfryngwr. Mae ganddo hawl *cyfamod* i'r cyntaf, ond y mae ganddo hawl ei *angau* i'r diweddaf. Yr oedd rhywbeth yn edrychiad Crist oedd yn rhyfeddol. Nis gwyddom pa fwyaf a dafiai allan neu a dderbyniai i fewn. Yn nghanol yr orymdaith, gwaeddai y bobl, "Hosanna i Fab Dafydd;" "ond pan welodd Efe y ddinas, Efe a wylodd drosti." *Hosanna* y dorf, ond *dagrau* yr Iesu. Gwelodd fwy nag a glywodd, ond y mae yn ei ddagrau yn cynyg cysgod i Jerusalem, o dan ei aden. Gall dagrau yr Eglwys wneyd mwy na chleddyfau y ddaear—enill dynion i gredu yn Mab Duw. Gallasai gwraig o Samaria, wedi gweled Iesu Grist, wneyd mwy o ddaioni i bechadur na holl arch-offeiriaid Jerusalem heb ei adnabod. Mae nerth yr Eglwys i wneyd gwaith dros Grist yn dibynu ar ei gallu i sylweddoli ei pherthynas â Christ, a'i gwaith yn y byd. Mae cenhadaeth yr Eglwys i lwyddo. Y mae y Weddi yma yn hollti moroedd, yn sychu afonydd, yn arafu yr haul, ac yn dwyn holl adnoddau gorsedd Duw i'r maes. Y mae hi wedi nodi yr offwrwm cyn codi yr allor—parotoi udgorn maddenant cyn tywallt y gwaed. Cyhoedda fywyd; ceisia fesur trueni y byd; ac un diwrnod gwelir hi, fel colomen Noah, yn cario dalen werdd yn brawf fod diluw pechod yn sychu.

PREGETH XXIV.

BARN A THRUGAREDD.

“Trwy ffydd, Noah, wedi ei rybuddio gan Dduw am y pethau nis gwelsid eto, gyda pharchedig ofn, a ddarparodd arch i achub ei dy : trwy yr hon y condemniodd *efe* y byd, ac a wnaethpwyd yn etifedd y cyflawnder sydd o ffydd.”—HEBREAID xi. 7.

MAE yr Apostol yn y benod hon yn rhoddi adgyfodiad i gymeriadau hen dduwiolion. Cydgyfarfyddai ynddynt amryw rasmusau ; ond *un* yn unig a enwir yma, sef ffydd, drwy yr hon y cyflawnasant weithredoedd nerthol, ac yr enillasant iddynt eu hunain safle anrhydeddus, a theilwng o gael eu rhestru yn mhlith y rhai a arddelai Duw fel ei bobl. Mae Noah yn un o gymeriadau *neillduol* y datguddiad dwyfol. Ceir hanes fanwl am dano gan Moses. Mae amgylchiadau ei fywyd ef wedi cynyrchu mwy o ysbryd beirniadol, ac wedi deffro cywreinrwydd yn fwy na bywyd neb arall braidd a enwir gan yr Apostol. Nid yn unig teimlir dyddordeb yn amgylchiadau ei fywyd gan dduwinyddion ar gyfrif y wedd a roddir ynddynt i gymeriad Duw fel Llywodraethwr, eithr hefyd y maent yn faes astudiaeth daearegwyr pob gwlad, ac haneswyr pob oes. Rhedant i lawr drwy draddodiadau cenhedloedd gwahanol y ddaear, a siglant amheuan yr oesau i'w sylfaeni.

Y prif amgylchiad yn mywyd Noah oedd y diluw, ac un o'r amgylchiadau hynotaf yn hanes y ddaear ydyw oddiar y dydd y bu “Ysbryd Duw yn ymsymud ar wyneb y dyfnder,” gan ddwyn trefn ar y tryblith dechreuol. Dywedir fod olion y diluw yn *nghalon* y ddaear, ar benau mynyddoedd uchel, ac mae enfys cyfamod na bydd eto, wedi ei grogi â llinynau arian ar fynwes y cwmwl dua yn y nefoedd.

Y brif weithred a wnaeth Noah, oedd adeiladu arch ar

orchymyn Duw, i nofio dyfroedd y farn o un byd i fyd arall—tlotach, ond glanach. Dyma y llestr hynotaf a nofiodd ddyfroedd erioed. *Duw* dynodd ei chynllun, *ffydd* yn nghanol annghrediniaeth a'i hadeiladodd, a boddid yn ei hymyl, *fe ddichon*, annuwiolion a fu yn gweithio arni. Perchid enw y llong a gariodd allan ddarganfyddwr America; anwylir enw y llong y bu Nelson yn ymladd brwydrau ei wlad ar ei bwrdd; cynesa calon y Cristion pan y clyw "*May Flower*"—enw y llong a gariodd ein tadau pereriniol allan, ond plygant oll, fel ysgubau y brodyr i ysgub Joseph, o flaen "Arch Noah." Nid yn ei chyflymder yr oedd ei gogoniant, fel llongau ymfudol, er ei bod yn *sicrach* o gyrhaedd ei phorthladd na hwy; nid yn ei thrwch, ei phwysau, a'u gynau yr oedd ei chadernid, fel llongau rhyfel, er ei bod yn *gryfach* i gyfarfod â gwrthwynebiad na hwy. Nis gallwn feddwl am Noah, heb feddwl am y diluw; ond yr oedd rhywbeth rhwng y ddau—yr arch. Ni fuasai eisiau arch oni bai y diluw, ni chawsid diluw oni bai annghrediniaeth; ond grâs ofalodd am arch. Y *Cristion* oedd Noah, y *farn* oedd y diluw, *trugaredd* oedd yr arch. Gall Cristion fyned yn agos i farn—gall *farw* o dan y farn, *ond nis gall farw o dan y felldith*. Dim ond Un cymeradwy gan Dduw a allodd farw o dan y *felldith*, a hyny o herwydd iddo farw yn neddfle eraill. Ond yr oedd mwy na'r arch rhwng Noah a'r farn—yr oedd trwch y drugaredd a'i darparodd, a chymeradwyaeth y Duw a dderbyniodd yr ufudd-dod wrth ei hadeiladu.

I. MAE GWEINYDDIADAU BARNOL DUW YN CAEL EU BLAENORI GAN RYBUDDION A BYGYTHION.—Wrth "y pethau nis gwelsid eto" y golygir y diluw. Mae cymeryd golwg gyfyng ar gymeriad Duw yn cynyrchu yn y meddwl syniadau cyfeiliornus, a theimladau pechadurus. Priodolir bygythion Duw i'w gyfiawnder barnol, a'i addewidion i'w dynerwch tadol. Gwir bod mwy o gyfiawnder llym yn ymddangos yn y bygythiad nag o drugaredd a grâs, a mwy o dynerwch a thrugaredd yn ymddangos yn yr addewid nag o gyfiawn-

der deddfol; ond rhaid dâl y ddau yn ymyl eu gilydd i gael syniad cyflawn am gymeriad Duw. Mae yr addewidion a'r bygythion yn tarddu o'r un ffynhonell, yn nodweddu yr un llywodraeth, yn llinellau yn yr un cymeriad, ac yn cael eu gweinyddu a'u rhoddi gan yr un Llywodraethwr. Gall gwahaniaeth *cyflwr* roddi gwedd wahanol arnynt. *Bygythion* heb un addewid sydd uwchben yr *annurwiol*; *addewidion* heb ddim bygythion sydd i'r *durwiol*. Peidio cydymffurfio âg *amod* yr addewidion sydd yn gosod dyn yn agored i gynnwys y bygythion; a ffoi oddiwrth yr hyn a waherddir neu a ofynir gan y gorchymyn a flaenora y bygythiad, sydd yn dyfod a dyn i feddiant o gynnwys yr addewid. Deil y naill a'r llall gysylltiad â *gallu* Duw. Am y *gall* Duw wneyd yr hyn a fygythia, y mae aml i un wedi dechreu crynu *cyn* myned i'r lle y mae holl fygythion Duw yn dyfod i'w grym. Am y *gall* Duw wneyd yr hyn a *addawa*, y mae aml i Gristion wedi pwysu ei enaid ar fraich o adnod na fedrai ei hamgyffred, gwaeddi concwest cyn fod y frwydr wedi ei hymladd, a gorfoleddu yn nghanol elfenau terfysglyd. Credodd Noah y ddau—y bygythiad a'r addewid; gwelodd gymaint o Dduw yn y bygythiad o'r farn, ag a deimlodd o Dduw yn yr addewid o ddiangfa. Gofynir, gan ddynion heb fod mewn cydymdeimlad â'r gwirionedd, beth yw y rheswm fod Duw yn bygwth, ac a ydym i ddeall fod Duw yn gyfnewidiol, gan ei fod yn gosod *amodau*? Rhydd Duw fygythion fel moddion i ddylanwadu ar feddwl dyn, i'w gymhell i ufuddod, ac i ddyfnhau dylanwad ei orchymynion. Mae y tad weithiau yn bygwth wrth roddi gorchymyn i'w blentyn, er mwyn ei ddyfnhau yn ei feddwl. Enwa y llywodraeth y ddirwy y rhaid ei thalu am ryw fath o droseddau, er mwyn ddyfnhau y pwys o ufuddhau ar feddwl y deiliad. Mae yn bosibl i feddwl fyned mor isel, fel y byddo rhesymu ag ef yn ddieffaith. Mae *ofn* yn gryfach ei ddylanwad. Mae rhesymu yn dylanwadu ar *ddeall* dyn, nes y cyflawna bethau am y *dylai* wneyd, pan nad yw *ofn* yn codi yn

uwch na gwneyd pethau am ei fod yn well *iddo ef* wneyd na pheidio. Ond y mae Duw wedi ymostwng mor isel, nes y mae yn foddllawn derbyn ufudd-dod oddiar yr olaf. Pe byddai pechadur yn credu mewn ofn, fe'i cedwid ef i fywyd. Ein cadw yw amcan y cyfan.

II. FOD MODDION DIANGFA YN CAEL EU ORDEINIO YN YMYL Y FARN—"A ddarparodd arch i achub ei dy."—Fel y mae bygythion yn dylanwadu ar *ofn* dyn, felly y mae addewidion yn dylanwadu ar ei *obaith*.

1. *Mae y syniad o ddianc rhag cosbedigaeth dymorol neu dragywyddol yn ddwyfol a grâsol.*—Yr oedd y diluw yn un o'r profion cryfaf o lywodraeth Duw. Dirmyga rhai y syniad fod Duw yn sylwi ar symudiadau dynion. Collant y neillduol yn y cyffredinol. Pe na byddai y *mechanic* yn talu sylw ond i *brif* olwynion peiriant, byddai yn anghymwys i dderbyn ymddiriedaeth o fywyd? Pe na byddai masnachwr yn talu sylw ond i'r symiau mwyaf ar ei lyfrau, troai yr anturiaeth yn golled i rywrai yn fuan. Tybed nad yw llywodraeth Duw yr un mor fanwl? Beth pe na byddai llywodraeth yn talu sylw ond i gylchoedd uchaf cymdeithas? Dywedai Crist fod adar y tô yn sylw Duw, a holl wallt ein penau wedi eu cyfrif. Gwir mai barn *gyffredinol* oedd y diluw, ond yr oedd yno waredigaeth *neillduol*; ac fel y dangosai y farn yr angenrheidrwydd am hollalluawgrwydd i gosbi, felly y dangosai y waredigaeth angenrheidrwydd am yr un gallu i ddyogelu yn nghanol y farn. Syniad uchaf llywodraeth Duw yw trugarhau, ac nis gall trugaredd beidio a bod yn dragywyddol. Trugaredd oedd perchenog y cyfan a ddefnyddiwyd at y diluw. Ei chymylau hi, a'i ffynhonau hi, oeddent er y pechodd dyn. Marciodd trugaredd goed yr arch yn Armenia; ac os gallodd hi gadw yn nghanol barn, ai tybed nad all hi gadw rhag y farn byth?

2. *Mae moddion y ddiangfa yn cael eu rhoddi yn llaw dyn.*—"A ddarparodd arch i achub ei dy."—Y mae fod yr Arglwydd yn tynnu dyn mor agos iddo, wedi bod yn

achlysur i ddyn goleddu syniadau cyfeiliornus, a rhoddi gormod o bris ar ei gyflawniadau. Gallasai Duw sicrhau moddion gwaredigaeth heb i ddyn wneyd dim; ond wrth hyny, buasai yn tynu ymaith hefyd un elfen o fwynhad. *Gwnaeth* Noah arch. Gweithredai ei ffydd o dan anfantais ddirfawr. Byddai yn hawddach i ni gredu y deuai diluw eto, oni bai cyfamod Duw, nag oedd i Noah i gredu; ond gweithiodd ffydd Noah yn yr *annhebyg*. Yr oedd gwneyd yr arch yn amod yn ei ddyogelwch. Nis gwyddom a welodd Noah long cyn hyn; ond os do, ni chafodd syniad am yr arch oddiwrthi. Cynefinai Noah â'r farn wrth wneyd yr arch yn ei swm. Hefyd, yr oedd yn dâl moddion y waredigaeth o flaen y byd. Yr oedd pob ychwanegiad at yr arch yn galw sylw dynion at ddynesiad y farn. Yr oedd *swm y farn* yn mhob ergyd a roddid ar yr arch. "*Achub ei dy.*" Y mae yn anhawdd ymryddhau o ddylanwad syniadau anianol hyd yn nôd yn nhrefn grâs. Y mae yn hawdd rhesymu na ddylai rhieni deimlo mwy o bryder am iachawdwriaeth eu plant nag am eraill; ond y mae llawer o bethau yn ymddangos yn dda yn yr egwyddorol, ond yn methu yn yr ymarferol. Teimlai Noah bryder am gadw ei deulu. Dylid cyrhaedd at ddyogelwch. Mae yr ymfudwr yn caru gweled badau yn gyfleus rhag iddi fyned yn llongddrylliad. Y mae y teithiwr yn talu am *assurance ticket*, rhag i'r *train* gyfarfod â damwain, fel y byddo rhywbeth i'w deulu. Ti gei goed, ond gwna arch. Dacw Soar, ond rhêd iddi.

3. *Mae y sicrwydd y cyrhaedda y moddion ei amcan yn gorphwys ar gydymffurfio â chynllun Duw.*—Mae Duw wrth ordeinio moddion gwaredigaeth yn darparu y cyfaddasaf; ond os collir golwg ar Dduw yn nghyfaddasrwydd y moddion, fe dry cyfrwng ein cadwedigaeth yn foddion ein dinystr. Arch oedd y moddion cyfaddasaf i ddyogelu bywyd Noah, ond nid *am wneyd* yr arch y cadwyd ef yn fyw. Dewiswyd y coed mwyaf parhaol i'w gwneyd. Nid yw Duw yn dibrisio yr hyn sydd yn dda ynddo ei hun.

Gan mai drwy *ddychnrynu*, ac nid trwy ladd, yr oedd Gedeon i orchfygu y Midianiaid, yr oedd piserau pridd a lampau yn well offerynau na chleddyfau. Buasai Rahab farw yn nghanol adfeilion Jericho, oni bai iddi gydymffurfio âg amod y cyfamod wnaeth yr ysbïwyr â hi; daliodd yr arwydd allan, ac yna dyogelwyd hi. Dinystrid y cyfansoddiad cryfaf wrth ei newynu. Yr oedd Paul yn sicrhau dyogelwch i bawb a *arosai* yn y llong. Y mae annghydfurfiad â chynllun Duw yn symud y cyfrifoldeb o addewid Duw, a'r moddion darparedig, i galon pechadur; a'r ddamnedigaeth dragywyddol fydd "caru o ddynion y tywyllwch yn fwy na'r goleuni."

III. MAE AGOSRWYDD A CHYFADDASRWYDD MODDION Y WAREDIGAETH YN GWNEYD COLLEDIGAETH YN FWY DIESGUS AC ANNYODDEFOL.—Mae ambell i amgylchiad nas gallwn sylweddoli ei drueni a'i ddyoddefaint. Pwy yw y fam acw sydd yn wylo yn anglâdd mab y weddw? Rhyw weddw a gladdodd ei hunig blentyn ei hun yw, o'r un oed a'r un enw. Gall hi sylweddoli yr amgylchiad. Ond saif trychineb y diluw heb ddim i'w gyfartalu iddo. Nid yw y dychymyg cryfaf yn gallu cael un syniad am dano. Darllenir weithiau am longddrylliadau, ac y mae y trueni yn annesgrifiadwy. Tarawyd ein gwlad ychydig yn ol gan *delegram* yn hysbysu bod un o longau ei Mawrhydi, yr "*Eurydice*," wedi suddo, ac yn agos yr holl oedd ynddi wedi boddi. Yr oedd ar ei bwrdd dri chant a deg-ar-hugain o fywydau, a dim ond dau o honynt a ddiangodd. Llong yn dychwelyd o'r India ydoedd, ac ar ei bwrdd bendefigion, swyddogion uchel, carcharorion, a gweithwyr. Bwriadai yr holl o honynt gyrrhaedd at eu perthynasau a'u cyfeillion; ond pan yn agos a bod yn ngolwg tir, suddodd i'r dyfnder, a boddwyd hwy oll ond *dau*, ac yr oedd yr hanes gan y rhai hyn yn rhy ofnadwy i'w wrando. O'r braidd na allesid llôsgi *register* y llong hono. Marw yn ymyl porthladd! Pwy a all feddwl am drueni y cynddiluwiaid? Gwrthodasant gredu Noah, gwawdient yr arch, a diystyrent fygythiad

Duw. Boddwyd eu gau-noddfeydd, a'r hyn a gablent a'u goddiweddodd. Berwai ffynhonau y dyfnder, gorchuddid y nef gan gwmwl du, tynai yr anifeiliaid tua'r arch; ac yn yr amser priodol, dacw Noah yn ffarwelio â rhai o'i hen gynorthwywyr. Pwy a allai ddesgrifio yr olygfa? Calon y patriarch yn toddi mewn tynerwch, a chalon yr anghredadyn yn siglo gan ofnau. Dacw y farn yn dechreu, mae y *bygythiad* yn newid am *gyflawniad* gan Dduw, ffydd wedi newid am olwg ar y ffaith gyda Noah, ac anghrediniaeth yn toddi ymaith i roddi lle i ofnau gyda'r anghredinwyr. Mae y ffynhonau yn amlhau, y diferynau yn brâshau, yr aberoedd yn cryfhau, a sŵn olwynion y farn o draw. Adgofiai y lluoedd am weinidogaeth Noah, teimlent iasau oerion o edifeirwch yn myned drwy eu mynwesau, edrychent am noddfa i ddianc, a chryuent yn sŵn brwydrau brawychus *gobaith* ac *ofn*. Ond erbyn hyn, yr oeddynt yn cychwyn am ddyogelfa; arweinid deillion oedranus gan eu plant i'r mynyddoedd, dringai y cloff i'r llechweddau, rhedai mamau â'u babanod o flaen y dôn. Yr oedd yno rai yn nesau at yr arch, ond yn rhy ddiweddar—*y farn wedi dyfod*, a terfyn pellaf amynedd Duw wedi ei gyrhaedd!

Yr oedd amgylchiadau y diluw yn ddarlun (1) o ddarpariaeth Duw yn yr Efengyl; (2) ymdrech i argyhoeddi dynion o'u perygl; (3) ffolineb pechadur anghrediniol; (4) sicrwydd barn Duw i ddisgyn ar yr anufudd; (5) a dyogelwch yr hwn a ufuddhao i orchymyn Duw. Mae yma arch sydd yn *waterproof* ac yn *fireproof*. "Pan elych trwy y dyfroedd, myfi a fyddaf gyda thi; a thrwy yr afonydd fel na lifant drosot; pan rodiech trwy y tân, ni'th losgir, ac ni ennyn y fflam arnat." Dyogeled Duw ni oll ynddi.

PREGETH XXV.

DYLANWAD MARWOLAETH CRIST.

"A MINAU, os dyrchefir fi oddiar y ddaear, a dynaf bawb ataf fy hun."—IOAN xii. 32.

PERTHYNA i'r Arglwydd Iesu dair o swyddau cyfryngol. Fel Brenin, mae ganddo lywodraeth gyffredinol—llywodraeth a gyflwynwyd iddo gan y Tad yn wobr am ei ddarostyngiad a'i ufudd-dod; fel Offeiriad, ymrwymodd mewn cyfamod i "röddi ei einioes yn brydwerth dros lawer;" ac fel Proffwyd, yr oedd yn anfonedig y Tad i hysbysu ei feddwl yn mherthynas i achubiaeth y rhai a gredant. Fel Brenin, mae ganddo deyrn-wialen aur yn ei law—teyrnwialen nad oes digon o nerth yn neb i'w hysgwyd ond yr hwn oedd a digon o amynedd i gymeryd corsen yn ei law gan ei elynion; mae ganddo goron nad oes neb yn ddigon anrhydeddus i'w gwisgo ond yr hwn a wisgodd goron o ddrain; mae ganddo *orsedd* nad oes neb â digon o awdurdod i eistedd arni ond yr hwn a'i prynodd â'i waed wrth farw ar *groesbren*. Fel Offeiriad, cyflwynodd ei hun yn Aberth difai i Dduw i "ddybenu camwedd, a selio pechodau," a chododd i eiriol dros droseddwyd. Fel Proffwyd, adgyfododd hen wirioneddau a sethrid gan draed yr oesoedd, llanwodd eneuau ei ddisgyblion â rhesymau, a chyfaddefodd ei elynion "na lefarodd dyn erioed fel y dyn hwn." Megys yr oedd pob gweithred a wnaeth Crist yn cael ei gwneyd am y byddai *farw*, felly yr oedd pob peth a ddywedodd Crist yn cael ei ystyr o'r gwirionedd *am* ei farw. Un o arweddau cyfryngwriaeth oedd cenadwri Crist at y byd, ond yr oedd eisiau mwy na chenadwri, yr oedd eisiau aberth, mewn trefn i allu dylanwadu ar y byd.

Yr oedd eisiau gwneyd mwy na goleuo deall,—yr oedd eisiau santeiddio calon, eisiau newid cyflwr, eisiau *achub enaid*. Ni allesid gwneyd hyny ond drwy farwolaeth iawnol yr Arglwydd Iesu; ac at ganlyniadau y farwolaeth hono y cyfeiria Efe yn y geiriau “*a dynaf bawb ataf fy hun.*”

I. DYRCHAFIAD CRIST I'R GROES.—Dywedir mai *pan* a ddyllasai fod yma, ac nid *os*. Mae *os* yn rhoddi gwedd' o amheuaeth i beth. Nid oedd amheuaeth yn nghylch marwolaeth Crist. A barnu oddiwrth natur ei fywyd, gallasid disgwyl y cawsai ddaioni hwnw rhyngddo â chroesbren. Yr oedd dwy ffaith a wnelai farwolaeth Crist ar y groes yn *annhebyg*—

1. *Nad oedd yn droseddwr o'r gyfraith wladol.*—Pan wnaethpwyd Crist o dan y ddeddf, daeth hefyd yn ddeiliad llywodraeth wladol, a thyfai ei gymeriad allan o'i fywyd. Un o brif ddybenion cyfraith, yw bod yn rhêde ufudd-dod i hawlian gorsedd, ac yna amddiffyn personau, cymeriadau, ac eiddo deiliaid. Fel y mae cyfraith yn rhwym o gosbi yr hwn a'i trosedd, felly y mae hi yn rhwym o amddiffyn yr hwn a ufuddhao iddi. Nis gall un gyfraith fod yn dda, oddieithr bod ynnddi ddarpariaeth ar gyfer gwobrwyo am *rinwedd*, fel ar gyfer cosbi am *ddrygioni*. Mae pob peth cyhoeddus yn agored i feirniadaeth; gall na bydd hono yn gywir. Safodd bywyd Crist y feirniadaeth *lymaf*. Nid teg yw derbyn tystiolaeth *cyfeillion* am eu gilydd, am y gall y cyfeillgarwech sydd rhyngddynt eu harwain i baentio eu gilydd yn rhy brydferth. Nid teg hefyd yw derbyn tystiolaeth *gelynyon* am eu gilydd, am y gall yr elyniaeth eu harwain hwythau i baentio eu gilydd yn rhy lagr. Dylai tystiolaeth ddyfod o enau a meddwl clir. Mae rhagfarn yn anghymwyso meddwl i dderbyn a rhoddi yn gywir. Mae llawer o ddynion yn analluog i ffurfio barn am berson yn annibynol ar eu *teimpladau* at y cyfryw. Dyoddefodd Crist fwy oddiwrth deimpladau drwg dynion nag oddiwrth farn gyfeiliornus. Cyhuddwyd Ef o amryw

bethau, ond cliriwyd ei gymeriad gan ei farnwr. "Nid wyf fi yn cael dim bai yn y dyn hwn." "Ond pa ddrwg a wnaeth Efe?" Mae y cwestiwn yn cael ei ofyn yn mhob *calon* a *llys* lle y condemnir Crist ynddynt.

2. *Yr oedd defnyddioldeb ei fywyd yn angenrheidrwydd y byd.*—Yr oedd Crist "yn llawn grâs a gwirionedd," a llifent dros yr ymylon pan y cerddai "oddiamgylch gan wneuthur daioni." Pan y cyffyrddai claf â'i wisg, collai iechyd iddo; pan gyffyrddai ef â *marw*, collai *fywyd*. Tafiai dônau marwolaeth yn ol oddiar y traeth. Iesu Grist oedd y cymeriad uchaf, y Moes-ddysgwr mwyaf, y Diwygiwr a wnaeth y chwildroad llwyr. Concrodd yr elyniaeth greulonaf â *charedigrwydd*, corffolodd egwyddorion mawrion y gyfundrefn y daeth i'r byd i'w sefydlu, yn ei fywyd ei hun. Melldithiai y gelynyion, ond *bendithiai* Crist; cablent hwy, ond *gweddi* Ef. Cymerodd fantais wrth roddi iechyd i un, i roi maddeuant hefyd iddo; ac wrth roddi maddeuant i un arall, i roddi iechyd iddo. Rhoddai ddwy fendith am bob un a geisid. Caffai y naill iechyd yn nghysgod maddeuant, a'r llall faddeuant yn nghysgod iechyd. Sancteiddiai Ef gymeriadau oeddent wedi gorchfygu pob moddion o eiddo cymdeithas. Pa ryfedd fod y disgyblion yn methu a gweled *croesbren* drwy y fath fywyd? Pwy a all gredu y machluda yr haul cyn cyrhaedd ei *feridian*? Yr oedd y ddwy ffaith hyn yn ei wneyd yn annhebyg y buasai y fath gymeriad yn dybenu yn y fath waradwydd. Yr oedd yn ei fywyd ddwy o ffeithiau eraill a roddai debygolrwydd i'w farwolaeth ar y groes.

1. *Llymder ei weinidogaeth fel y condemnai ragrith a thwyll ei wrandawyr.*—Mae gwirioneddau dwyfol yn myned yn erbyn calon lygredig. Mae syniadau anianol yn gondemnedig. Y mae yn anhawdd i feddwl garu y gwirionedd sydd yn ei gondemnio. Costiodd dweyd y gwirionedd eu bywydau i filoedd. Ni ddywedodd neb erioed wirioneddau agosach a llymach na Christ. Ni phetrusai ddywedyd wrth ddsbarth o ddynion a ystyriant

eu hunain yn barchus, eu bod yn debyg i feddau wedi eu gwyngalchu; eu bod yn glanhau y tuallan i'r ddysgl a'r cwpan, ac y gofalent fwy am burdeb allanol na mewnol; addurnent feddau y proffwydi oeddynt wedi ladd, a *r*hith-hirweddient mewn lleoedd amlwg. Dywedai wrth ddosbarth arall, na wyddent "yr Ysgrythyrau na gallu Duw;" ac er y gwadent y farn, y byddai rhaid iddynt ymddangos ynddi. Dywedai Ef y gwirioneddau hyn gyda'r unig amcan o'u gwella. Ond nid yr hyn a'i santeiddia y mae calon pechadur yn ei garu, eithr yr hyn a gydwedda â'i thlueddiadau. Dywedent bod Crist yn cablu, am ei fod yn eu condemnio hwy. Cynhyrfent nes digio, yn lle edifarhau; digient nes erlid, nid gadael eu pechodau. Torodd morwyr rhaff oedd yn canu cloch ar fin craig beryglus i longau daro wrthi; gwnaethant golled i filoedd o forwyr; ond hwy eu hunain aeth ar y graig gyntaf, a boddasant o dan y graig a ddaliai y gloch. Gellir symud *arwydd* perygl heb symud y *perygl* ei hun, ac o gymaint a hyn y bydd y perygl yn fwy. Gellir atal *clock* i daro ar ben yr awr, heb ei atal i fyned a mesur amser. Pe gellid llwyddo i gael gafael mewn meddyg a wênieithai i glaf, byddai perygl y claf hwnw yn fwy. Amcanai y gelynyion ddistewi Crist; ni fynent ei rybuddion. Gosodasant eu calonau ar ei erlid, crochlefent "Croeshoelief," a'u llefau a orfuant. Mae calon aflan yn digio mwy wrth *ddatguddio* ei pechodau cuddiedig, nag am gondemnio bywyd drwg.

2. *Cenfigen ddiachos ei elynion ato.*—Un o nwydau pechadurus ein natur lygredig yw cenfigen. Un o'i nodweddau anffaeledig yw ei bod bob amser yn ymosod ar y *da*. Y mae yn debyg mewn un peth i ffydd—yn nghyf-eiriad ei hedryehiad. Nis gall weled ond i *fyny*. Ni wŷr beth yw dyfnder pydewau, trueni daear dai, poenau carcharau, na llymder tylodi. Cloddio o dan sylfaeni gorsedd, claddu blaen gwenwynig ei saeth yn nghalon yr anrhydeddus, a rhoddi ei throed ar ben yr hwn a ragorai, a amcana wneyd. Mae y bywyd a ddianga sylw cenfigen

yn ddiffygiol mewn rhinwedd. Y bywyd uchaf a welodd y byd erioed oedd eiddo Crist; nid oedd ynddo Ef ond y da, y pur, a'r gogoneddus. Gosododd cenfigen ei bryd ar ei ddifetha. Yr oedd ei gryd ef yn Bethlethem yn ogoneddusach na phalas Herod; yr oedd y gweithdy yn Nazareth yn anrhydeddusach na llys Pilat; yr oedd mwy o urddas ynddo Ef ar asyn *benthyg*, nag yn Cæsar ar ei farch porthianus; a mwy o allu ynddo yn ei fedd, nag oedd yn milwyr a llywodraeth Rhufain. Ond pa fwyaf yr urddas, mwyaf y perygl—"Creulawn yw llid, fel llif-ddwfr yw digofaint, a phwy a ddichon sefyll o flaen cenfigen?" Dyma un a safodd; ni chliodd rhag ei bygythion. Yr oedd ei wyneb Ef ar y groes cyn iddi hi ei weled. Gallasai dynion feddwl mai yno y terfynai ei fywyd.

Ond rhaid edrych ar fywyd a marwolaeth Crist mewn goleuni arall. Yr oedd amgylchiadau ei oes yn rhy wan i esbonio ei angau. Yr ewyllys ddwyfol oedd yn cyfrif am farwolaeth Crist. Cyfeiliornodd ei elynion pan y tybiasant fod bywyd Crist yn llaw Pilat. Yr oedd ganddo Ef awdurdod ar ei einioes ei hun. Efe ei hun a'i cymerodd, ac Efe ei hun a'i rhoddodd. *Byw* yw y syniad blaenaf, a'r amcan uchaf i bob bodolaeth, ond marw oedd amcan mawr enawdoliad Mab y dyn. Mae holl amcanion Duw yn canolbwyntio yn *mywyd* dyn; ond cyfeiriant oll at *farwolaeth* Crist.

Yr oedd marwolaeth Crist yn *act* o'i eiddo Ef—"rhoddi ei hun," *gogwyddodd* ei ben. Megys y *cymerodd* "agwedd gwas," felly hefyd y *rhoddes* Efe yr ysbryd i fyny. Gall dynion gyrhaedd bywyd drwy amgylchiadau, am eu bod yn methu a chodi yn uwch na hwy; ond ymostwng i amgylchiadau a wnaeth Crist, er y gallasai godi uwchlaw iddynt pan yr ewyllysiai. Ond fe *ewyllysiodd* farw yn eu canol, ac fe gwblhaodd yr ewyllys ddwyfol y gwaith cyn i amser y gelynydd ddyfod i ben. Nid oedd dychymyg annuwiol dyn yn cyd-redeg â'r ewyllys ddwyfol. Nid oedd eisïau tori ei esgeiriau Ef am ei fod wedi marw *eisïoes*. Yr

oedd parôtoadau gwyl y Cyfryngwr yn dechreu cyn gwyl y Pasg. Fe aeth Crist o ddedfryd Pilat yn gynt nac y meddylid, am fod ganddo amser neillduol pan y disgwyliid Ef adref. Fe gollodd sŵn cableddau y gelynion yn sain udgyrn arian y gogoniant. Gallodd milwyr hoelio ei ddwyllaw sanctaidd, ond llef pechadur edifeiriol a allodd hoelio ei galon—calon allodd annghofio ei *gofid* wrth gofio ei *gwaith*, trugarhau, a thrugarhau pan yn dyoddef y farwolaeth fwyaf waradwyddus.

II. CANLYNIADAU MARWOLAETH CRIST.—“*A dynaf bawb ataf fy hun.*”—O holl gyfeiliornadau y diafol, y mwyaf oedd perswadio dynion i groeshoelio Arglwydd y gogoniant. Trefnodd diafol ei farwolaeth ei hun. Rhoddid hynodrwydd i'r geiriau hyn gan yr amgylchiadau yn y rhai y llefarwyd hwy. Erliediedig a thlawd oedd yr Hwn a'u dywedodd—yr oedd y llwynog a'r aderyn yn gyfoethocach nag ef; a thlodion oedd ei ddisgyblion gan mwyaf oll. Buasai y geiriau hyn yn *gabled* yn ngenau neb arall, ond ynddo Ef maent yn *wirionedd*.

1. *Dylanwad yn codi allan o farwolaeth Crist yw y gallu sydd i newid cymeriad y ddynoliaeth.*—Mae dylanwad yn codi allan o *farwolaeth*, yn syniad dyeithr i'r byd. Mor wir ag mai Crist a roddodd ei ystyr briodol i *fywyd*, felly Efe yn unig a sylweddolodd y syniad o *farw*. Mae marwolaeth dynion yn derbyn mwy oddiwrth eu bywyd nag a all eu bywyd dderbyn oddiwrth eu marwolaeth. Mesurir *gogoniant* neu *warth* y diweddaf gan *dduwioldeb* neu *bechod* y cyntaf. Ond yr oedd bywyd Crist yn derbyn mwy oddiwrth ei angau nag a *allasai* ei farwolaeth dderbyn o'i fywyd. Yr oedd lliw ei waed ar linellau ei gymeriad sanctaidd. Dywed un äthronydd ei fod ef “pan yn ieuanc, yn astudio yr *art* o fyw; ond wedi iddo heneiddio, ei fod yn astudio yr *art* o farw.” Ond yr oedd Crist yn wahanol; byw fel y gallai farw wnaeth Ef, a marw fel y gallai fyw byth i gyrhaedd amcan ei farw. Yr oedd tri pheth yn marwolaeth Crist

oedd yn rhoddi gallu iddo ddylanwadu ar feddwl y byd.

1. *Gwirfoddolrwydd ei angau.*—Dyoddefaint o *raid* yw pob peth a ddyoddefa dynion, ond dyoddefodd Crist pan y *gallasai* beidio. Mae darluniad y Beibl yn annglydmarol o ogoniant y nefoedd, ac y mae dymuniad angherddol yn meddwl plentyn Duw am fod ynddi; ond y mae y syniad o farw yn codi llen rhyngddo a'r gogoniant, ac yn oeri ei frwdfrydedd am y nefoedd. *Mae tarth yr Iorddonen* yn cuddio *gogoniant* gwlad yr addewid. Ychydig o ddyinion duwiol sydd wedi plygu i'r oruchwyliaeth o'u bodd; a'r rhai sydd wedi gwneyd, gwnaent hyny ar gyfrif y fantais y tu draw i angau; fel yr ymfudwr sydd yn boddloni cymeryd y fordaith er mwyn manteision y wlad y mae wedi ddewis i fyw ynddi. Ond boddlonodd Crist i *farw* yn llawn ystyr y gair, pan y *gallasai* beidio; boddlonodd farw i ddileu gwir farwolaeth *eraill*. Cyfarfyddodd angau yn ei wir gymeriad—gelyn. Cyrhaeddodd cariad Crist ddyfnder trueni dynion pan oeddent yn *elynion*; cymerodd afael yn nghwpan y llidiawgrwydd, a rhoddodd ef wrth ei enau ei hun. Dyma y ffaith ryfeddaf yn ffeithiau y cnawdoliad, ac y mae ei *rhyfeddu* yn gychwyniad at *addoli*; a'r meddwl na all ryfeddu wrth y *groes*, ni all addoli wrth yr *orsedd*. Y galon na enillir gan *gariad marwolaeth* Crist, ni thyrerir hi gan *deyrn-wialen gorsedd* Crist.

2. *Hunanymwadiad ei sefyllfa.*—Mesurir gweithredoedd mwyaf dynion gan hunanymwadiad, ond y mae yn bosibl newid dwy sefyllfa eithafol, heb i'r *pellder* rhyngddynt gael ei lanw gan hunanymwadiad. Gwyddom am Ymherawdwr a fu farw yn garcharor mewn ynys ddinôd, yn nechreu y ganrif hon. Beth oedd y pellder rhwng y ddwy sefyllfa? *Heddyw* ysgydwa *deyrn-wialen* dros *deyrnas*-oedd, chwala *orseddau* yn llwch, treigla coronau brenhin-oedd wrth ei draed, a chryn y byd gwareiddiedig wrth ei air. Ond y *fory* y mae yn garcharor dinerth, yn disgwyl wrth drugaredd estroniaid, yn cael ei arwain gan rai y cyfrifasai hwy gynt yn annheilwng i'w cydnabod, ac yn treulio ei

Cyfrifir ymherawdwr yn llym.

oes i ben o fewn cadwynau ei elynion. Pa faint, tybed, oedd y pellder rhwng yr orsedd a'r ynys? Ond nid hunanymwadiad a lanwodd y pellder. Beth oedd y pellder rhwng bod yn "*ffurf Duw*" a bod yn "agwedd gwas?" Rhwng teyrnasu a gwasanaethu? Nid y pellder oedd rhwng Bethlehem a'r groes, ond y pellder rhwng yr orsedd ddwyfol a'r orsedd gyfryngol. Rhoddodd heibio fwy nag a ellid weled, a chymerodd fwy nag a ellid amgyffred. Newidiodd Moses lys yr Aipht, drwy *ffoi*, am fynyddoedd Midian. Ond fe newidiodd yr Iesu orsedd y nef am groesbren Calafia, am y *dewisai* wneyd. Crist ei hun, â'i law ei hun, roddodd heibio ei ogoniant tragwyddol; ac â'r un llaw, cymerodd warth pechadur, ac â'r llaw hono y rhydd Efe i'r pechadur ogoniant y nef.

3. *Nerth anfeidrol ei gariad.*—Y gallu cryfaf yn y byd yw cariad. Ni chafodd galon gymaint ag ef ei hun hyd nes dyfod i Grist. Yr egwyddor hon a'i galluogodd Ef i sefyll yn nghanol pob rhyferthwy, i dewi yn wyneb cableddau ei elynion a hyfdra ei farnwr, i gario yn mlaen ei waith cyfryngol drwy wrthwynebiadau ei gaseion, ac i ddwyn oddiamgylch iachawdwriaeth gyflawn i'r rhai a gredant. Cariad yw y mwyaf gwyliadwrus rhag rhoddi tramgwyddiadau, ond y cryfaf i gario y rhai a ddél i'w ffordd. Cariad a geidw gyfaill hwyaf, ac a adfer *elyn* gyntaf. Cariad ddisgyna *ddyfnaf*, ac felly a esgyna *uchaf*: Mae cariad Crist yn concro mwy o elynion na'r cleddyf. Mae pob un a orchfygir gan gariad yn *newid ochr*, fel y mae yn gwanhau y naill, ac yn cryfhau y llall. Dylanwad cariad Crist yw nerth yr Efengyl, Crist *croeshoeliedig*. Dyma y *tynerwch* sydd yn ngalwadau yr Efengyl, y *sicrwydd* sydd yn addewidion grâs, y *llymder* sydd yn mygythion cyfiawnder, a'r *anchwiliadwy* sydd yn ngolud Crist. Mae dylanwad gwahanol gan leferydd cariad i eiddo cyfiawnder. Dychrynu mae y diweddaf, ond enill mae y cyntaf. Teithiai gwraig a'i phlentyn unwaith mewn anialwch. Wedi lluddedu, gorphwysodd o dan gysgod coeden,

a chysgodd. Tra felly, aeth ei phlentyn ymaith; a phan ddeffrodd, gwelodd ei eisiau, chwiliodd am dano, a chafodd ef ar ddibyn craig uchel. Meddyliodd pe buasai yn galw yn chwerw, y dychrynasai ef, efallai, nes y syrthiai dros y graig. Gwnaeth ei goreu i dynu ei sylw ati, a phan welodd ei fam yr oedd ei breichiau yn agored iddo i redeg iddynt. Gallai galwadau o eiddo cyfiawnder ddychrynu y pechadur, ond cariad sydd yn galw gan ddangos trugaredd, yn dâl ei breichiau yn agored i dderbyn y gwaethaf.

Mae äangder i ddylanwad yr Efengyl—"A dynaf bawb ataf fy hun."—Mae darpariadau gräs yn fwy na thrueni pechod. Fel yr oedd sancteiddrwydd yn rhy bur i'w lychwinio gan *amcanion* pechadur, felly mae cariad yn rhy ddwfn i'w blymio gan *angen* yr euog. Defnyddiodd Crist amgylchiad y wraig o Ganaan i egluro äangder trefn gräs. Yr oedd cael caniatad i gymeryd y briwsion o dan y bwrdd yn addewid am y tortŷhau mawrion cyn hir. Fe weithiodd ffydd y wraig hono o dan sylfaeni canolfur y gwahaniaeth. Ar Galfaria y bu yr hoelio rhyfeddaf. Fe hoeliodd y milwyr Fab Duw, nes y tybiai dynion mai caredigrwydd äg Ef fuasai peidio; ond fe ddaeth yr hoelion yn rhyddion cyn i'r haul fachlud. Fe hoeliodd Ef "ysgrifenlaw yr ordeiniadau" yr un dydd, ac ni ddaw yr hoelion yn rhyddion byth. Gällodd Ef sancteiddio gwefusau a halogwyd gan saith o gythreuliaid i gusanu ei draed. Apostol yr enwaediad a aeth gyntaf i dŷ cenedl-ddyn i ddywedyd nad oedd Duw dderbyniwr wyneb. Pa destyn gwell a allesid gael i bregethu arno yn y cyfnewidiad?

Nid rhyfedd fod Crist yn teimlo y fath agosrwydd at y ddaear. Rhai oddiyma a'i canmola Ef uchaf yn y nef; perlau a brynodd yma a ddisgleiriant fwyaf yn ei goron. Ar y ddaear y cafodd afael ar allu na feddai yn flaenorol—dylanwad ei angau. Bydd y ddaear oll, fel mae cwmpawd y morwr yn cyfeirio tua'r gogledd, yn cyfeirio at groes Crist am fywyd, a thrwy y groes at orsedd Crist, mewn ymostyngiad ac ufudd-dod i'w lywodraeth.



Perthyna i bob *meddylddrych* dri gradd; ac i *staall* eu cysylltiadau, rhaid eu galw yn ddadblygiadau. Bu creadigaeth felly. Bu yn feddylddrych yn Nuw, ac felly yn dragywyddol; ac yn y sefyllfa hono, priodolir hi fel *cynllun* i'r *Tad*. Corffolwyd y meddylddrych hwnw yn y fodolaeth bresenol; daeth y ffurf yn ffurfiedig, a phriodolir hyny i'r *Mab*. "Trwyddo Ef y gwnaethpwyd pob peth; ac hebddo Ef ni wnaethpwyd dim ar a wnaethpwyd." "Drwy yr Hwn hefyd y gwnaeth Efe y bydoedd." Ond trefnwyd a phierffeithiwyd y cyfan gan Ysbryd Duw oedd "yr ymsymud ar wyneb y dyfnder." Perthyna i'r meddylddrych o *gadw*, raddau a dadblygiad. Fel cynllun hanfodai yn y *Tad*. Efe yw y gwreiddyn—y ffynhonell fawr. Ond yr oedd y meddylddrych ynddo Ef yn rhy bell. Anfonwyd Iesu Grist i fod yn Iawn, bu Ef farw yn aberth difai i Dduw, ac ynddo Ef y gwelwyd cariad Duw, ac y cafwyd sylfaen iddo weithredu yn iachawdwriaeth y dyrfa a gedwir. Ymddiriedwyd i'r Ysbryd Glân y gwaith o ddwyn pechadur a grâs Duw i berthynas aclrubol â'u gilydd; ond canolbwynt gweithrediadau y Personau dwyfol yw y *Mab*. Megys y canolbwyntia holl obaith pechadur yn Nghrist fel ei sylfaen, felly Efe yw y canolbwynt i holl weithrediadau Duw. Mae Duw a phechadur yn cyfarfod yn Nghrist, y cyntaf i gael ei *ogoniant* a'r diweddaf i gael ei *fywyd*. Mae Crist drwy ei gyfryngdod yn myned i gasglu y wasgarfa a wnaeth pechod, i gysylltu yr eithafion â'u gilydd. Y mae yn myned i grynhoi "yn nghyd yn Nghrist yr holl bethau yn y *nefoedd* ac ar y *ddaeear*, ynddo Ef." "A chariad tragywyddol y'th gerais, am hyny tynais di â thrugaredd." Pa faint yw y pellder sydd rhwng y ddwy ffaith? Pwy a allasai lanw i fyny yr adwy? Mae y ddwy ffaith yna fel y Cherubiaid adeiniog yn cyd-blygu at eu gilydd i *edrych* i'r un man—ar y *drugareddfa*.

